



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.


About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>




AN
(WILLIAMS?)

Hughes







COFIANT

Y DIWEDDAR

BARCH. DAVID WILLIAMS,

CHICAGO;

YN NGHYDA

RHAI O'I DRAETHODAU A'I BREGETHAU.

GAN Y

PARCH. WILLIAM HUGHES, E

RACINE.

J
14
UTICA, N. Y.

T. J. GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, EXCHANGE BUILDINGS.

1876.

THE NEW YORK
PUBLIC LIBRARY

309557B

THE LENOX AND
TILDEN FOUNDATIONS
R 46 L

CYFLWYNIR

Y GYFROL FECHAN HON I

WEDDW A PHLANT EI GWRTHDDRYCH,

FEL ARWYDD O

GYDYMDEIMLAD A HWY YN EU GALAR ;

AC HEFYD I

BENJAMIN JONES, YSW.,


LLANELLI, SWYDD GAERFYRDDIN, D. C.,

FEL AMLYGIAD O BARCH DILEDRYW IDDO AM EI OFAL

A'I DDARPARIAETH GYFLAWN I'R GWRTHDDRYCH

PARCHEDIG, A'I DEULU AR EI OL.

YR AWDWR.



RHAGYMDRODD.

Y mae awdwr y Cofiant bychan hwn, am y diweddar Barchedig D. Williams, Chicago, gynt o Lanidloes, G. C., yn amcanu galw sylw y darlennydd at rai o'r dyledswyddau a syrth i'w ran, pan y delo o dan yr un amgylchiadau ag y daeth y gwrthddrych drwyddynt, gan obeithio y gallai sylwadau o'r fath fod o fwy o werth na'r hanes yn ei noethder. Ond pa un bynag ai cyrhaedd yr amcan ai methu a wnafl, nid oes i mi bellach ond ei adael fel y mae.

Y mae yn sicr y gwel y craffus fod dyddiad genedigaeth y gwrthddrych mewn un man yn cael ei nodi Chwefror 28ain, ac mewn man arall yn Chwefror 29ain. Ond gan iddo gael ei eni ar y dydd olaf o'r mis hwnw, a bod y flwyddyn 1800 yn flwyddyn naid, rhaid mai y nodiad olaf yw y cywir.

Dylwn gydnabod hefyd fod rhai brawddegau o waith y gwrthddrych yn bur anystwyth a thywyll, ac er eu bod mor anhawdd eu deall, ofnem eu newid, rhag gwneyd cam a'i feddwl cryf ef.

Digon tebyg y gwel llygaid y cyhoedd rai gwallau argraffyddol yn y llyfr, a llawer iawn o wallau llenyddol, gan hyny erfyniaf ar y darllenwyr ddiwygio y dosbarth cyntaf o'r beiau, a maddeu y cyfan o'r dosbarth mawr diweddaf. Gadawaf ar hynyna o Ragymadrodd, gan ddymuno i'm llafur egwan hwn wneyd lles i'w holl ddarllenwyr, heb wneyd un niwed i neb.

Eich gwasanaethydd llesg yn y rhan hon,

WILLIAM HUGHES,

RACINE, Wis., Awst 15, 1876.



CYNWYSIAD.

PENOD I.

Sylwadau Arweiniol Tu dal. 9—15

PENOD II.

Lle ac Amser ei Enedigaeth—Ei Rieni—Ei Addysg Foreuol—Sylwadau ar Addysg Mam—Manteision ac Anfanteision Boreu ei Oes—Dylanwad ei Addysg Tu dal. 15—28

PENOD III.

Ei Duedd at Bregethu—Ei Wrthgiliad yn 15 oed—Sylwadau ar Wrthgiliad yn ei Achosion, ei Achlysur, a'i Beryglon—Pwysigrwydd Holwyddori yr Ysgol Sabbothol Tu dal. 28—41

PENOD IV.

Ei Ddychweliad yn ol i'r Eglwys yn 20 oed—Ei Wasanaeth ynddi—Sylwadau ar Ddysgyblaeth Eglwysig—Diwygiad Beddgelert—Crefydd Deuluol—Hawliau y Sabboth Cristionogol,
Tu dal. 42—57

PENOD V.

Ei Hanes yn Dechreu Pregethu—Sylwadau ar Alwad i'r Weinidogaeth, a'r Cymwysderau Rheidiol i'w Chyflawni, Tu dal. 57—74

PENOD VI.

Ei Hanes o'i Ordeiniad hyd ei Symudiad i America—Sylwadau ar Bwysigrwydd a Hawliau y Weinidogaeth—Gallu ac Ymroad ein Tadau yn Gorchfygu holl Anfanteision eu Hoes, Tu dal. 74—86

PENOD VII.

Ei Hanes o'i Ddyfodiad i America hyd ei Ymadawiad o Ohio—Sylwadau ar Gysylltiad Gweinidogion ac Eglwysi y T. C. a'u Gilydd yn America—Ei Ddiffygion, ei Duedd Beryglus, yn nghyda'i Angenion Tu dal. 86—96

PENOD VIII.

Ei Symudiad a'i Arosiad yn Milwaukee a Chicago, Tu dal. 96—102

PENOD IX.

Ei Ddyddiau Diweddaf Tu dal. 103—118

PENOD X.

Ei Nodweddion Gweinidogaethol Tu dal. 119—128

PENOD XI.

Llythyrau at yr Awdwr, gan Dr. Roberts, a chan Mr. Thomas Williams (Hafrenydd), Llanidloes, G. C. Tu dal. 128—144

BARDDONIAETH,

Gan Eos Glan Twrch—Ionoron Glan Dwyrdd—Rhisiart Ddu o Fon—Will Jones—Bedd-ar-graff, gan W. W. Rowlands—Lines Addressed to Mrs. Williams, Tu dal. 145—149

FAMILY CHAPTER.

Reminiscences by his Afflicted Wife—By his Daughter Margaret—Coffadwriaeth am Mrs. Jones, Banc, Llanidloes, Tu dal. 150—160

EI DRAETHODAU, EI FARDDONIAETH, &c.

Cyngor wrth Ordeinio—Y Llwybr Cul—Eithafion Pechadurus—Ei Alar ar ol ei Blentyn, John Henry, yn Remsen, Tu dal. 161—193

SYLWADAU BYRION,

Yn Dargos Duwiolfrydedd ac Arabedd y Gwrthddrych,
Tu dal. 194—200

PREGETHAU.

Pregeth I., a Draddodwyd yn Nghapel Pall Mall, Liverpool—
Pregeth II., a Draddodwyd yn Nghyfarfod Blynnyddol Croesos-wallt, 1836—Pregethau III.—V. Tu dal. 201—258

C O F I A N T

Y PARCH. DAVID WILLIAMS,

CHICAGO, ILLINOIS.

PENOD I.

SYLWADAU ARWEINIOL.

Y mae bywgraffiaeth yn ddosbarth gwerthfawr o lenyddiaeth pob cenedl ag sydd wedi esgyn yn uchel mewn gwybodaeth a choethder crefyddol. Hanes dyn yw yr hanes mwyaf deniadol i chwilfrydedd y meddwl o bob hanes a ellir ei gyflwyno i'w sylw; o herwydd ei berthynas agos â'r dyn a'i darlleno. Yr ydym yn teimlo ein bod yn darllen ein hanes ein hunain, mewn rhan, os nid yn gyflawn, pan fyddom yn darllen hanes unrhyw ddyn. Fel y mae gan bob person ryw nodweddion ag sydd yn ei wahaniaethu oddiwrth bob person arall o'r hil ddynol, felly hefyd y mae gan yr holl hil ddynol lawer o nodweddion sydd yn eu harddangos oll yn hynod o debyg i'w gilydd. Y mae y *gwahaniaethol* a'r *tebygol* yn ddwy ddeddf sydd yn cyd-redeg drwy holl ddynolryw, yn gystal a thrwy holl ranau eraill y greadigaeth eang; a digon tebyg ein bod yn cyfarfod â'n gilydd mewn *tebygolrwydd* yn llawer aml-

ach nag yr ydym yn ymadael á'n gilydd mewn *gwahan-iaethau*, gyda phethau bywyd cyffredin.

Gellid meddwl hefyd fod hanes dynion enwog, y rhai a wnaethant argraff ddofn a pharhaol ar feddwl ac arferion cenedl neu genedloedd y ddaear, yn etifeddu cryn lawer o'r rhagoriaethau dymunol hyny sydd yn cael mynediad helaeth i mewn i'r holl ystafelloedd mwyaf cysegredig a fedd y fynwes ddynol; yn nghyd a'r nerthoedd hyny sydd yn dylanwadu ar ysbryd y meddwl yn ffurfiad yr arferion dilynol. Gan hyny dylai y ffeithiau hyn, sydd yn cymell arnom wasanaeth mor werthfawr, gael eu derbyn a'u defnyddio genym i sicrhau caffaeliad amcanion teilwng o Gristionogaeth bur; ond pa ddefnydd bynag a wnawn ni o hyn, y mae y drwg wedi cymeryd mantais eisoes ar y gogwyddiad cynenid hwnw sydd yn y meddwl at hanes dyn, i lunio lluoedd o ffugchwedlau gwageddol, i borthi y cyfryw dueddffryd, y rhai sydd yn gwanhau ac yn gwenwyno miliynau o eneidiau gwerthfawr y genedlaeth bresenol.

Dywedodd un awdwr enwog, mai bywgraffiad ar raddfa eang ydyw hanes y byd a'r eglwys; ac y mae ein teimlad personol ninau yn dywedyd y byddai darllen hanes Persia, Groeg, Rhufain, nen unrhyw wlad arall, a gyrhaeddodd fawredd yn ddiweddarach, yn llawer mwy o boen i'r darllenydd nag o bleser, pe tynid allan o honynt hanes bywydau y breninoedd, y gwladweinwyr, y rhyfelwyr, a'r doethion a fu fel goleuadau dysglaer ynddynt. Byddai mor boenus i hanesydd eu darllen, meddwn, ag a fyddai i athronydd arsyllu ar y ffurfafen heb na haul, na lloer, na seren i'w canfod mewn un man ar ei gwyneb anfesurrol. Yr un modd y mae hefyd ar ran hanesiaeth eglwysig; wrth i ni

ddilyn hanes yr eglwys i fyny ac i lawr, drwy wahanol gyfnodau, o amser sylfaenydd Cristionogaeth hyd yn bresenol, y peth sydd yn sirioli mwyaf ar ein teimladau, yn chwanegu mwyaf ar ein trysorau, ac yn grymuso mwyaf ar ein meddyliau, ydyw cyfarfod mor fynych â hanes eu henwogion, y rhai a roisant eu delw mor ddwfn yn ei hysbryd, ac a ddygasant elfenau newyddion mor werthfawr i mewn i'w chymeriad, a'r cyfan mor afaelgar fel nas gallodd holl dymestloedd yr oesoedd eu gweithio hwy ymaith yn llwyr. Yr oedd gan Fab Dafydd ei gedyrn yn mysg miloedd Israel yn mhob oes a dreuliodd y byd, y rhai a gyflawnasant weithredoedd nerthol mewn cysylltiad â theyrnas ein Gwaredwr ar y ddaear. Enwogion gwledydd ac eglwysi sydd yn rhoddi enwogrwydd ar eu hanes; ac os na cheir yn y naill a'r llall bersorau enwog, fe syrth yr hanesyddiaeth i ddifodaeth yn fuan, pa mor fedrus bynag fyddo ei hawdwr fel hanesydd deniadol ac adeiladol.

Y mae rhan helaeth o'r Beibl wedi ei ysgrifenu yn hanesyddol gan ddynion sanctaidd Duw, a'r rhan helaeth hono wedi ei gwneyd i fyny o fywgraffiadau lluwaws mawr o bersonau gwahanol eu hamgylchiadau a'u cymeriadau. Y mae gan hanesiaeth yr Ysgrythyr Lân rai gwrthddrychau mor wrthun eu cymeriadau, fel nas gellir eu cyfrif yn werth eu cofnodi ond yn unig fel moddion neu gymelliad ymogeliad i'w darllynydd. Ond yn gyffredinol, dynion o'r cymeriad mwyaf anrhydeddus yw ei gwrthddrychau—dynion a'u cymeriadau wedi eu gweithio o'r elfenau mwyaf prydfferth a pharhaus, sef mawredd a daioni, a'r rhai hynny wedi eu dangos yn yr amgylchiadau hynotaf. Dyma sydd yn gwneyd eu bywgraffiadau mor ddeniadol i'r meddwl, a

maethlon i'r galon, ac ar yr un pryd yn cadw eu pwysigrwydd i bwysio yn barhaus ar feddwl y darllenydd. Ymddengys mai cysylltiad hanesiaeth & phersonau sydd yn ei wneyd yn bwysig, a chysylltiad y personau drachefn & Duw, eu deddfwr a'u barnwr, yw ffynonell wreiddiol y pwysigrwydd hwnw. Diameu fod holl fywgraffiadau y Beibl wedi eu bwriadu i ddysgu egwyddorion moesol i ddyn, yn gystal ag i gofnodi amgylchiadau ac amserau a gyfarfu â'r gwrthddrychan. Nid mantais fechan i ddyn i gyrhaedd adnabyddiaeth gywir o egwyddorion drwg a da, ydyw cael cyfleusdra i edrych arnynt yn gweithredu. Y mae yn haws deall peiriant wrth edrych arno yn gweithio, nag wrth graffu ar ei gyfansoddiad tra heb fod ar waith. Felly y mae yn llawer haws cael golygiadau cywir am natur egwyddorion da a drwg wrth edrych arnynt yn ymweithid allan drwy gymeriadau personau, nag wrth gael darluniad arddansoddol o honynt yn eu noethder. Ac y mae yn eithaf eglur, yn mhellach, fod edrych arnynt yn eu safle ymarferol, yn cynyrchu cymellion cryfach yn serchiadau yr edrychydd i garu daioni a chasáu anwiredd, nag wrth edrych arnynt mewn un wedd arall. Y mae egwyddorion yn cael eu harddangos yn nghymeriadau enwogion y Beibl fel pe baent wedi eu troi i fod yn "ysbryd yn bywhau." Y maent yn cael eu hadgyfodi i fyw drosodd a throsodd am oes y byd yn miwydau y cenedlaethau a ddarlleno am danynt. Dichon mai hynyna yw y rheswm na roesai yr Arglwydd yn ei lyfr fwy o draethodau manwl ar natur ac effeithiau egwyddorion drwg, a gwerth a rhinwedd egwyddorion da, yn hytrach na'u harddangos mewn sefyllfa mor wasgaredig ag y gwnaeth yn nghymeriadau personau.

Y mae y golled am draethodau cryno ar wahanol egwyddorion yn cael ei wneyd i fyny yn gyflawn mewn bywgraffiadau yn y Beibl. Os ewyllysia neb gael golwg glir ar erchylldra cenfigen, darllyned hanes bywyd Cain; ac os dymunir deall natur a helaethrwydd cal-edwch calon, ymgydnabydder ag ymddygiadau Pharaoh; ond os am dymer greulon yr edrychir, ceir hono yn gorwedd ar wyneb cymeriadau Manasseh a Herod; a'r man goreu am eglurhad ar anwajalwch meddwl, yw bywgraffiad Saul, brenin Israel; a diameu mai y cyfleusdra goreu a fedd y byd i weled rhagrith a bradwriaeth, yw hanes Judas Iscariot.

Yn unol â'r un cynllun dwyfol y mae y Beibl yn arddangos yr egwyddorion a'r rhinweddau llednais hyny sydd yn bywhau ac yn prydfferthu y bobl ddedwydd hyny sydd yn cael eu hadferu i ddelw Duw yn y byd, a'u cymwyso i "gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni." Y mae bywyd Abraham ffyddlawn yn traethu yn fwy goleu a meistrolgar am natur ac effeithiau ffydd na dim a draethwyd erioed ar lafar na llyfr am dani; ac yn mha draethawd y ceir darluniad mor fywiog a hyawdl ar elfenau a gweithrediadau amynedd, ag a geir oddiar dafod buchedd y patriarch Job? Y mae ymarweddiad Moses hefyd yn eglurhad eangach a mwy treiddgar ar lareidd-dra crefyddol, na dim a ellir ei weled o dan ffurf draethodol yn mysg holl lyfrau y byd; ac nis gallwn lai na barnu fod nodweddion bywyd Ioan, y dysgybl anwyl, yn arddangosiad mwy tarawiadol ar rinweddau a phrydfferthion cariad Cristionogol, na'i holl ysgrifeniadau ef ei hun, er eu holl ragoriaethau. A diameu fod sêl ac anturiaethau eenadol Paul, apostol y cenedloedd, fei y maent yn cael eu dal i fyny yn

ei fywyd ef, yn amlygiad mwy treiddgar a gafaelgar o rwymedigaethau cenadol eglwys Crist, na'i holl ysgrifeniadau ef gyda'u gilydd.

Gellir ychwanegu eto, fod yr un rhinweddau gogoneddus, ond gyda llawer mwy o helaethrwydd a phurdeb, i'w canfod yn mywyd yr Arglwydd Iesu. Os esgynwn yn ddigon uchel ar y twr, ac edrych yn ddigon craff ar ei gymeriad ef, cawn weled ei fod yn cael ei wneyd i fyny o'r doniau prydfferthaf a fedd Ysbryd Duw. Yr oedd addfwynder, gostyngeiddrwydd, sancteiddrwydd, cariad, &c., yn cael eu gweithio allan i berffeithrwydd ganddo drwy holl dymor ei yrfa ddaearol; ac yr oedd y cyfan o honynt yn dysgleirio mor danbaid yn eu cysylltiad ag ef, fel y gelwid ef "y peth sanctaidd," ie, yn "Haul cyfiawnder." Nid yn unig yr oedd efe yn goleno y byd, ond yr oedd efe yn oleuni y byd. Golenni yn byw yn y byd ydoedd efe; neu sancteiddrwydd yn byw ar y ddaear ydoedd efe. Dyma ei gymwysderau anfesuroi i fod yn esiampl gyflawn i saint y Goruchaf ar y ddaear drwy holl oesoedd y byd. Fe saif ef yn mhell yn mlaen ar bawb fel esiampl, hyd yn nod yn yr amser "y bydd ar ffrwynau y meirch Sancteiddrwydd i'r Arglwydd;" a bod marchnad ac elw y cenedloedd yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd; a phob crochan yn Jerusalem ac yn Judah yn sancteiddrwydd i Arglwydd y lluoedd."—Esa. 23: 18; Sech. 14: 20, 21.

Y mae yr ystyriaethau a grybwyllwyd yn flaenorol am y fantais a gymer egwyddorion crefydd i ymddad-blygu yn nghymeriadau Cristionogion cywir, yn nghyd a'r fantais sydd ganddynt yn y sefyllfa gyhoeddus hono i ddylanwadu yn ddaionus ar ddarllenwyr eu bywgraffiadau, yn llawn ddigon o reswm gan ysgrifenydd y cof-

iant hwn am ei waith yn cydsynio a'i benodiad i chwangu rhyw fymryn at fanteision ei genedl yn y ffordd hon, drwy ddwyn i'w sylw ychydig o hanes ei ddiweddar gyd-lafurwr yn yr efengyl, y Parchedig David Williams, Chicago.

PENOD II.

EI DDYDDIAU BOREUOL, EU CYSYLLTIADAU, &C.

Gan fod gwrthddrych y cofiant hwn wedi ysgrifenu cryn lawer o hanes ei tywyd yn y triugain mlynedd cyntaf o'i oes, y mae yn bur debyg mai y defnydd y dysgwylir i'r ysgrifenydd wneyd o hono ydyw ei gyflwyno fel y mae i'r darllenydd, bob yn ychydig, ac yna gwneyd rhyw sylwadau arno, wrth fyned yn mlaen, yn ol y barno yn angenrheidiol a doeth. Dichon y dylid crybwyll yma, fod yn bur amlwg ddarfod i Mr. Williams ysgrifenu llawer o bethau am dano ei hunan na feddyliodd iddynt gael eu cyhoeddi yn ei fywgraffiad cyhoeddus ef, er eu bod, efallai, o werth mawr i'r perthynasau, fel cofnodion teuluol.

Dechreuwa adrodd ei hanes drwy ddywedyd: "Ganwyd fi Chwefror 28, 1800, mewn lle a elwir Bonterwyd (Bonthirwydd). Yn yr hen amser yr oedd pont dros afon Rheidiol, mewn lle cyfyng ar yr afon, o brenau hirion a gyrhaeddent o'r naill ochr i'r llall; y dyfnder, efallai, i waelod yr afon yn 100 llath. Gelwid y lle erchyll, arswydol hwn yn Talwrn; y mae sefyllfa y fan ar y ffordd o Aberystwyth i Lanidloes, oddeutu 12 milldir oddiwrth y cyntaf, a 18 milldir oddiwrth yr olaf."

Dyma y gymydogeaeth fynyddig 'ac anghysbell yn yr hon y ganwyd ein gwrthddrych. Yr oedd ei thrigolion wedi eu gwasgaru yn bellach oddiwrth eu gilydd yn y dyddiau hyny nag ydynt yn bresenol. Tafiodd rhagluniaeth ddwyfol rai o honynt i fyw gyda y defaid ar lethrau y mynyddoedd llymion, ac eraill rhwng y bryniau moelion, i drin y da blithion, tra y gadawai y gweddill wrth odrau y mynyddoedd i fyw ar âr a medi. Dengys ei henw cyntefig 'Talwrn, (Tal-gwrn), ei bod wedi dringo oddiar y dyffrynoedd, a gosod ei phen i orwedd ar fronau y mynyddoedd oesol; ac y mae hanes ei hen breswylwyr, drachefn, yn dangos nad oedd swm arfau y celfyddydwr yn aflonyddu nemawr ar dawelwch eu bywyd patriarchaidd ar y pryd hwnw. Gellid meddwl fod y dull henafol yma o fyw, oedd gan ein cenedl ar ucheldiroedd eu gwlad, yn bur fanteisiol i ffrwythloni eu dedwyddwch; a gallai ei fod hefyd yn cadw eu hymenyddiau yn loewach, er cynyrchu meddyliau cliriach nag eiddo preswylwyr yr iseldiroedd, fel y dywedai yr enwog a'r ffraeth Dr. Duff, o Scotland, amser yn ol.

Ond pa faint bynag o argraff a dderbyniodd meddwl y bachgen David oddiwrth awyr a golygfeydd ei le genedigol, pan ydoedd yn dechreu ymagor o flaen gwahanol wrthddrychau, a derbyn ei syniadau cyntaf oddiwrthynt, y mae yn sicr fod y cyfeiriad a gymerodd yn nyddiau ei faboed, yn llawer mwy dyledus i'w addysg deuluol ef nag i'w dylanwad hwy. Efe a ddywed am ei dad a'i fam: "Yr oedd fy rhieni, Thomas a Dorothy Williams, yn amaethwyr, yn byw yn dra chysurus, er nad oedd y tyddyn yn fawr. Yr oeddynt yn grefyddwyr dichlynaidd, yn fanwl gyda holl ddyledsdyddau

crefydd. Nid oedd fy nhad ond byr ei ddawn, eto yn wastad yr oedd i'r pwrpas pan ddywedai unrhyw beth yn yr eglwys, a bob amser yn dderbiniol. Yr ydoedd yn ddiakon yn yr eglwys; bu fyw i oedran teg, 84 mlwydd oed; bu farw mewn tangnefedd, wedi bod yn profesu crefydd dros 60 mlynedd. Yr oedd fy mam yn nodedig mewn duwioldeb, yn helaeth mewn dawn a gwybodaeth; mynych y cyngorai yn y cyfarfodydd eglwysig; yn ngwyneb absenoldeb fy nhad weithiau yn y teulu, ni byddai un amser fwlch yn yr addoliad teulu-aidd; byddai yn wastad yn ymaflud yn y gwaith pwysig hwn pan fyddai fy nhad oddi cartref; i.e. gwnai weithiau bob yn ail ag ef pan y byddai gartref. Yr oedd yn nodedig am ddarllen y Beibl a gweddio; llawer awr y collid hi o'r teulu, byddai ganddi leoedd penodol mewn dirgel-fanau; ymneillduai a'i Beibl gyda hi i gyfrinachu â'r Arglwydd. * * * Byddai yn cael ymweliadau grymus iawn weithiau yn moddion gras, nes tori allan mewn gorfoledd a mawl; ystyrid hi yn dduwiol iawn o'i mebyd; cyngcrai ei phlant yn ddifrifol a diflino; gweddiai drostynt yn afaelgar a dibaid, i.e. yn eu clyw yn aml iawn; byddai yn cyngori a gweddio yn aml iawn mewn dagrau. Yr ydoedd y brawd Daniel Jones, Sir Gaernarfon, yn pregethu yn nghapel Bonterwyd ar ddiwedd ffair Rhos, fel ei gelwid. Yr oedd fy mam yn rhwym o fyned i'r ffair, ond penderfynodd fwynhau y bregeth cyn cychwyn, a mawr oedd ei mwynhad; torodd allan i orfoleddu, gan anghofio pob peth. Ond ryw bryd cychwynodd i'r ffair, ac ar y ffordd wrth ddychwelyd cymerwyd hi yn glaf o'r *colic*; methodd ddyfod yn bellach na Ysbyty Ystyth; yno y bu mewn tafarn am ddau ddiwrnod mewn

poenau mawrion yn ymdrechu ag angau, pan y gorphenodd ei gyrfa yn orfoleddus a buddugoliaethus, yn 42 mlwydd oed."

Un o'r bendithion gwerthfawrocaf i feddwl ieuanc yw cael ei feithrin o dan arolygiad mam dduwiol a doeth. Y mae mwynedd dra doethineb, os bydd wedi ei gyd-dymheru â duwioldeb diamhenol, yn sicr o ddylanwadu yn dda ar feddwl plentyn, gan nad oddiwrth bwy y delo i gyffyrddiad ag ef; ond os bydd y gallu hwnw mewn cysylltiad â thynnerwch mam rinweddol, bydd wedi cyrhaedd i'r man nesaf i allu Duw ei hunan ar ei feddwl. Nid yw awdurdod galluoedd mawrion y cenedloedd ond fel cysgod neu wagedd, yn diflanu fel mwg, wrth eu cymharu â gallu hon; o herwydd nid oes ganddynt hwy un fynedfa i fyd y meddwl—byd mawr dyn—ond yn unig pan ewyllysio ei feddianydd agor ei ddorau i'w dderbyn ef i mewn. Ond am allu mam rinweddol, gallu meddwl ydyw, a meddwl ei thylwyth yw tiriogaeth benaf ei weinyddiad. Digon tebyg mai deiliaid brenines Lloegr yw y deiliaid hoffaf o'u teyrn ar y ddaear; er hyny dywedir yn eithaf priodol, fod gallu Victoria y fam, yn llawer cryfach na gallu Victoria y frenines. Y mae holl bethau mam, pan esgyno i'w safle briodol, yn ymdoddi i'w gallu, hyd yn nod troad ei llygaid, ffurfiad ei gwyneb, tôn ei llais, symudiad ei haelodau, ysgogiad ei chorff, a geiriau ei genau. Y mae y gogwyddiad naturiol sydd yn serchiadau rhieni at eu plant, ac eiddo y plant at eu rhieni, yn fantais fawr i rieni crefyddol i weithio eu haddysgiadau i fuddugoliaeth ar y plant; a hwynt-hwy hefyd sydd yn cael y cyfle *cyntaf* i ddylanwadu ar eu meddyliau; ac y mae yr argraff a dderbyniant gyntaf yn fwy

gafaelgar ar y meddwl na'r argraffiadau ar ol hyny. Yr had da hwnw sydd yn cael dyfnder daear sydd yn dwyn allan ffrwyth i berffeithrwydd. Dylid cofio, hefyd, fod mesur helaeth o unffurfiaeth meddwl yn rhedeg drwy holl gyfnodau bywyd dyn, er fod yr amgylchiadau yn amrywio llawer. "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd; a phan heneiddio nid ymedy â hi." Ond o bob cymelliad sydd gan rieni crefyddol i weinyddu yn ffyddlawn addysg dda i'w plant, y mae yn debyg mai y cryfaf o honynt oll ydyw yr ystyriaeth fod cyfamod grasol Duw yn cysylltu crefydd y rhieni a'r plant gyda'u gilydd. Gen. 17:7. Gwyddom fod y cysylltiad hwn yn gyfryw nad ydyw ar y naill law yn tueddu i'r mesur lleiaf i gymylu penarglwyddiaeth Duw yn nghadwedigaeth dyn; ac ar y llaw arall, ei fod yn rhoddi y sail gryfaf i rieni i hyderu y bydd i'w haddysg deulu-aidd droi allan yn iachawdwriaeth i'w plant. Gellir bod mor sicr am ganlyniadau da i weinyddiad teilwng yr ordinhad hon, ar yr un tir ac i'r un graddau, ag y gellir bod am ganlyriadau gweddi, neu ryw ordinhad ddwyfol arall. Dywedodd un awdwr, wrth sylwi ar berthynas llafur a llwyddiant crefyddel: "Pe na buasai un berthynas yn bod, ond fod yn *bosibl* i'r llafurus fod yn llwyddianus, ni buasai hyny yn gymelliad digon grymus i lafur; buasai yn diffwrwytho dwylaw yr adeiladydd; a phe buasai cysylltiad angenrheidiol, dieithriad, rhwng llafur a llwyddiant, buasai hyny yn cau Duw allan o'i ordeiniad ei hun; a buasai creaduriaid moesol dan ddeddfau cyffelyb i bethau y byd elfenol."

Y mae yn ddiameu fod addysg ei rieni, ac yn enwedig addysg ei fam, wedi bod yn fendithiol iawn i Mr. Williams yn nyddiau ei febyd, er na bu yn bob peth

a ddymunid iddi fod, fel y dengys efe ei hunan ar ol hyn; ac y mae miloedd o engreiffiau eraill yn ein mysg sydd yn brofion amlwg o lwyddiant addysg deuluol yn y lleoedd y gweinyddid hi yn unol a'i gosodiad gan Dduw.

Efe a ddywed yn mhellach, wrth gyfeirio at fanteision boreu ei oes: "Yr oedd fy rhieni yn byw yn ymyl y capel, ac yn eu ty hwy y byddai cartref pob pregethwr a ddeuent o bell ac agos. Cefais fanteision eu hymddyddanion, eu hymarweddiad, eu gweddiâu teuluaid, eu cyngorion, eu haddysgiadau; ac yn wir, cefais rai anfanteision oddiwrth agweddau, geiriau, dulliau, a thymerau rhai o genhadon hedd, ar yr amser yr oeddwn yn ffurfio barn am danynt oll. * * * Yr oedd fy marn yn dra gwahanol am rai rhagor y lleill; eto addefaf nad oedd ond ychydig bwys yn fy marn i, a digon tebyg i mi lawer gwaith gondemnio y gwirion. Er y cwbl dichon fod yn hyn wers i weinidogion y gair, y rhai ydynt yn ymweled a theuluoedd wrth fyned a dyfod; canys y mae yn sicr fod eu hymddygiadau yn gwneyd argraffiadau a esgorant ar ganlyniadau pwysig. Gwn yn dda i ymddygiad rhai pregethwyr aros ar fy meddwl yn radd o ragfarn atynt na ellais ei gwbl ddileu tra bu y cyfryw byw, er nad oeddwn ond o bedair i wyth oed. * * * Nid oedd yn y gymydogath ychwaith gymaint o fanteision i ddysgu pechodau ac arferion drygionus ag sydd mewn trefydd, dinasoedd, a lleoedd cyrchfa llawer o bob math o ddynion. Yr oedd yr ardal yn anghysbell, anedd yma ac acw, heb fantais i weled llawer o ddynion, ond yn unig yn moddion gras. Yn mlynnyddoedd cyntaf fy oes nid oedd yn arferiad, nac yn oddefol iawn, dybygem, i ddwyn plant

i'r eglwys; dyma un anfantais a gefais yn y dechreuad; ond pan oeddwn yn wyth mlwydd oed, penderfynwyd mewn cymanfa fod i orchymyn fyned allan am ddwyn y plant i'r eglwys, a'u haddysgu yno. Cyfarfu y pwnc da hwn a llawer o wrthwynebiadau. Yr wyf yn cofio yn dda fod ymddygiadau yr hen flaenoriaid yn yr eglwys yr oedd fy rhieni yn aelodau, yn wrthwynebol a diflas iawn o'r pwnc; gwir na teiddient ddywedyd llawer yn ei erbyn, o herwydd awdurdod y gymanfa, eto isel a gwael oedd eu hymddygiadau ato. Pa fodd bynag, llyncodd fy mam ef yn gyfangwbl, a dygodd ni i'r eglwys, o'r hynaf hyd y plentyn sugno.

Pan oeddwn o naw i ddeg oed, teimlais argraffiadau crefyddol tra dyfnion, er nad oeddynt ond plentynaid, a'u heffeithiau ddim amgen na cheisio gweithio allan amodau y cyfamod gweithredoedd; gwneyd am fywyd oedd fy nghrefydd i gyd; yr oedd iachawdwriaeth trwy ffydd yn Nghrist, a maddeuant pechodau trwy ei waed ef, a chyfiawnder yn rhad trwy ei ras ef, yn bethau dy-eithr i mi. Yn raddol treuliodd yr argraffiadau hyn ymaith, gan fy ngadael mewn cyflwr o golledigaeth a marwolaeth; cefais lonydd gan grefydd, oddieithr ar amserau, pan y deffroid fy nghydwbybod gan amgylchiadau, megys rhyw bregeth daranlyd iawn, cyflawniad rhyw fai, marwolaeth gyffrous dyn annuwiol—cynhyrfai pethau fel hyn fy nghydwbybod ar amserau, nes byddai yn taranu yn ofnadwy am dymor; ond myned heibio yr oedd pob ystormydd, a'm gadael heb symudiad. Bum felly am rai blynyddoedd, mewn aflonyddwch meddwl, nes gweddio, wylo, a methu cysgu aml noswaith. * * * Bum yn yr eglwys ryw ddull hyd nes yr oeddwn yn 15 oed. Yr oeddwn am y tair blyn-

edd cyn ymadael a'r eglwys yn fy ystyried fy hun mewn carchar; nid oedd i mi oleuni, pleser, na dim cysur yn y *society*; edrychais dros y clawdd, gwelais fy nghyf-oedion oedd allan yn ddedwydd; canys caent hwy wneyd fel y mynent; yr oeddynt heb iau; ond dywedai fy nghydwybod wrthyf fi, Ni elli di wneyd fel y gwnant hwy, canys yr wyt ti yn y *society*; dywedai fy rhieni yr un peth wrthyf, a gwyddwn inau mai gwell gadael yr eglwys os na byddai fy ymddygiad yn wahanol i'r rhai nad oeddynt yno; ond nid oedd yr eglwys yn well na charchar i mi; yr oedd dwy awr y *society* cyhyd a dau fis i mi. Nid oedd y swyddogion yn bleidiol i fagu plant yn yr eglwys, a'n rhieni ninau wedi ein gwthio ni i mewn, ac felly nid oedd nemawr blant ond nynt; yr oedd fy nghyfeillion oll allan, er eu bod yn blant proffeswyr, fel ninau; yr oedd hyn yn peri i mi edrych arnaf fy hun mewn caethiwed; ond y peth oedd yn fy niflasu yn fwy na dim oedd gwaith y swyddogion yn dywedyd yn gryf yn eu hymddygiadau, nad oedd arnynt eisiau fy math i yn yr eglwys, ac nad oeddwn yn perthyn i'r lle cysegredig hwnw. Dymunwn roddi gair o gyngor i swyddogion eglwysig yn y lle hwn, gyda golwg ar had yr eglwys. Gofelwch rhag gwneyd y cyfarfodydd eglwysig yn fath o garcharau i'r plant; nesewch atynt, dangoswch fod genych ofal am danynt, ymddyddenwch â hwynt, gwnewch sylw o honynt, gan gofio mai plentynaidd yw plant; gair wrthynt sydd gymaint a phregeth i'r gwr; edrychiad siriol sydd drysor o fawr werth iddynt. Y mae canoedd o blant yr eglwys ar faes y byd, fel y bum fy hunan, o herwydd ymddygiad diserch a diflas swyddogion eglwysig atynt; ac y mae llawer o rieni, fel fy rhieni inau, a wylant

ddagrau yn hidl o herwydd ymddygiad oeraidd swyddogion eglwysig at eu plant. Pa synwyr yw traethu a dadleu dros hawl plant i freintiau yr eglwys, a dwys wasgu ar y rhieni i ofalu am ddwyn eu plant yno, a'u ceryddu am beidio, pan y mae ymddygiadau swyddogion yr eglwys yn lladd holl ddylanwad y rhieni, ac yn gwneyd yr eglwys yn fath o garchar i'r plant? Ni ddylai neb fod yn swyddog eglwysig os na bydd y pwnc o fagu plant yn yr eglwys yn un o'i hoff bethau ef.

* * * Rhaid dywedyd mai grym teyrnasiad a chondemniad pechod, a nerth gelyniaethol fy nghalon oedd gwraidd fy ymadawiad o'r eglwys; eto yr wyf yn maentumio na chefais chwareu teg oddiar law swyddogion eglwysig; yr wyf yn rhoddi achlysur fy ngwrthgiliad wrth eu drws hwy; ni wnaethant eu goreu i'm hachub; ni chauasant fy ffordd i & drain. Er i mi gyf eiliorni fel dafad wedi colli, a chrwydro i anialwch gwag erchyll, ni ddaeth y bugeiliaid ar fy ol, i'm ceisio adref; am hyn yr wyf yn eu beio yn fawr hyd y dydd heddyw."

Gwelir fod Mr. Williams, yn y sylwadau blaenorol, yn cyhuddo blaenoriaid yr eglwys y perthynai efe iddi yn nyddiau ei ieuenctyd, o esgeuluso defnyddio y moddion oedd yn eu cyrhaedd i'w gadw o fewn yr eglwys. Y mae yn bur amlwg nad yw ein holl eglwysi ninau wedi ymryddhau yn hollol oddiwrth y diosfalwch hwn hyd y dydd heddyw, er ei fod yn un o'r arwyddion mwyaf bygythiol i'w llwyddiant. Os na bydd yr eglwys yn edrych ar y ddyledswydd o ddiogelu y plant a roddodd yr Arglwydd o dan ei gofal yn un o'i gorchwylion blaenaf, y mae yn sicr y bydd hi drwy hyn yn gollwng o'i llaw un o brif gyfnerthion ei chynydd

ei hun. O'r plant a fegir gan ei haelodau y gwneir ei chynydd i fyny yn benaf; ac fe dybir ar seiliau cryfion fod y nifer luosocaf o lawer o'r dychweledigion newyddion a dderbynid yn y blynyddoedd hyn, yn blant i aelodau eglwysig. Yn mhellach, os cywir ydyw yr adroddiad, fod naw o bob deg o'r dychweledigion Cymreig wedi cychwyn eu bywyd o dan nawdd eglwysig, y mae yn awgrymu fod diffyg pwysig yn amaethiad plant Seion; ac fe allai mai pan y byddont o ddeuddeg i ddeunaw oed y maent fwyaf agored i dderbyn niwed oddiwrth y diffyg hwnw. Tymor tyner ar feddwl ieuentyd yw y cyfnod hwnw ar eu bywyd—tymor ag y mae natur o dan ei blodau, ac yn rhoddi addewidion teg am ffwrwyth yn y dyfodol. Dyma yr adeg fwyaf peryglus i blant gael niwed oddiwrth awelon oerion ac awyr afiach eglwysi fyddo yn ceulo ar eu sorod. Y mae y ffeithiau hyn yn ein harwain i farnu fod lluaaws mawr o blant a fu fel planhigion olewydd o amgylch bord y cysegr yn mlynnyddoedd cyntaf eu hoes, wedi eu gadael i ddihoeni mewn newyn a syched gan yr eglwysi oedd wedi eu tynghedu gan Fab Duw ei hunan i'w porthi a gwybodaeth ac a deall.

Yn awr, gan fod meithriniad crefydd y plant mor ddiffygiol yn yr eglwys y dyddiau presenol, pa ryfedd ei bod felly yn nyddiau boreuol ein gwrthddrych? Yn un peth, yr oedd yr arferiad o ddwyn plant i fyny yn yr eglwys yn beth newydd y pryd hwnw; a gwyddom yn dda fod yn rhaid cymeryd cryn lawer o amser i argyhoeddi cymdeithas neu gyfundeb o bobl o unrhyw beth a fo yn debyg o effeithio yn drwm arnynt; a diau mai felly y bu gyda y pwnc hwn. Buasai braidd yn annaturiol i ni ddysgwyl i'r holl flaenoriaid, mwy na'r

holl aelodau, i gael eu haddfedu ar unwaith i dderbyn cyfnewidiad a effeithiai mor fawr ar yr holl gyfundeb. Yr oedd gan bawb ei feddwl, a chan bob meddwl ryw gymaint o annibyniaeth.

Y mae yn wir fod trefniadau achlysurol y Methodistiaid Calфинаidd, o'u dechreuad, fel eiddo enwadau eraill, wedi eu gadael yn agored i gyfnewidiadau, os byddai amgylchiadau yn galw am hyny; a diameu mai gwahanol amgylchiadau sydd wedi gweithio y cyfundeb i'r ffurf a welir arno yn bresenol. Can belled a hyn y mae yn dwyn llawer o ddelw ffurfiad yr eglwysi apostolaidd. Er hyny arwydd o ddoethineb a thynnerwch grasol yw goddefgarwch a phwyll wrth ddwyn i mewn osodiadau newyddion, rhag i ni fwrw ymaith yr hen drefniadau cyn iddynt golli eu defnyddioldeb. Ni ddylid cyfnewid er mwyn cyfnewid yn unig. A phan y gwelir fod gwir angenrheidrwydd am ddwyn i mewn ryw drefniadau newyddion, dylid gwneyd hyny hyd y gellir yn y dull ac ar yr adeg y byddo y cyfundeb yn *lled gyffredinol* yn addfed i'w dderbyn, er na ellir, mae yn debyg, gael pob person, na phob eglwys, yn addfed ar unwaith.

Peth arall a fu yn rhwystr mawr i'r plant gael eu haddysgu yn briodol yn ein heglwysi, driugain mlynedd yn ol, oedd diffyg cysylltiad digon agos rhwng y gweinidogion a'r eglwysi. Gellid meddwl wrth ddarllen y Testament Newydd, mai rhan o wasanaeth priodol yr esgob neu y gweinidog ydyw bugeiliaeth eglwysig, pa un bynag ai yn ei berthynas a'r hen neu yr ieuanc yr edrychwn arno. Y mae y ffaith fod dysgyblaeth eglwysig wedi ei dal i fyny mor bur ag y mae yn y cyfundeb, gan ein hen ddiaconiaid, heb ond ychyd-

ig iawn o gymorth y gweinidogion, am hir amser, yn destyn llawer mwy priodol i'n syndod a'n diolchgarwch nag i'n dirmyg a'n gwawd yn yr oes bresenol. Ond erbyn hyn y mae pob eglwys, braidd, o dan ofal bugeiliol rhyw weinidog, yr hyn sydd yn arddangos diofalwch am addysg ac ymgeledd plant yr eglwys yn y dyddiau hyn yn gamwedd nas gellir ei esgusodi. Ac yn wir y mae yn destyn llawenydd mawr i bob edrych-ydd ystyriol, fod y fath gynydd wedi bod y blynyddoedd diweddaf ar weinyddiad addysg yn ein heglwysi. Ond rhag i ni sefyll yn rhy faith rhwng y darllenydd a'r gwrthddrych, ni a ymneilldwn er mwyn clywed beth a ddywed efe eto, am ei addysg fydol yn nyddiau ei faboed; ac fel y canlyn y dywed efe:

“Cefais fanteision dysgeidiaeth tebyg i'r cyffredin yn fy amser, ac yn yr ardal yr oeddwn yn byw. Rhoddwyd fi yn yr ysgol i ddechreu dysgu y llythyrenau pan yn dair oed, a bum yno am flwyddyn a haner heb ddysgu dim, fel yr oedd fy rhieni a phawb a'm hadwaenai yn dechreu meddwl a dywedyd na ddysgwn lythyren byth; ond dywedai fy nhad, 'Caiff gynyg ar un flwyddyn eto;' felly y bu, ac yn yspaid llai na blwyddyn dysgais lythyrenu, sillebu, a darllen, fel y gallwn ddarllen fy Meibl yn dda cyn bod yn bump oed; ac yn gallu ysgrifenu ychydig cyn myned trwy fy mhwm' mlwydd oed. Cof genyf heddyw fy mod yn ysgrifenu blwyddyn oedran ein Harglwydd Iesu Grist yn y flwyddyn 1805; ac yr oeddwn yn cael pleser mawr yn yr Ysgol Sul; ac fel yr oeddent ffolaf, gwnaethant fi yn athraw pan yn ddeg oed. Cefais ysgol o'r fath ag oedd yn yr ardal lle yr oeddwn yn byw hyd onid oeddwn yn ddeng mlwydd oed; ond wedi hyny bylchog

iawn a fu hyd onid oeddwn yn 18 oed. Y mae genyf gof penodol fy mod yn dysgu Lladin yn wyth mlwydd oed, ond nid aethum yn bell mewn dysgu ieithoedd, yr hyn sydd yn fawr boen i mi drwy fy oes. Pan oeddwn o ddeg oed hyd yn ddeunaw, amddifadwyd fi yn fawr o fanteision ysgol; canys yr oeddwn yn gorfod cynorthwyo fy nhad ar y tyddyn, gan nad oedd iddynt fab ond myfi, oddieithr un ieuanc iawn. Addefaf nad oeddwn fawr o weithiwr, a dywedai fy nhad nas gwyddai beth a ddenai o honof, am nad oeddwn yn cymeryd gafael mewn gwaith a'm holl egni. Llyfrau ac ysgrifenu, a gwneyd pregethau oedd fy hoff bethau."

Cyn terfynu y benod hon, gellir crybwyll yn mhell-ach fod manylrwydd Mr. Williams mewn darllen ac ysgrifenu yn gywir, wedi ei gychwyn gan fanylrwydd ei addysg yn moreu ei oes. Peth anghyffredin iawn fuasai ei glywed ef yn gadael un gair heb ei adrodd wrth ddarllen, na gadael un lythyren mewn gair heb ei seinio yn eglur; a byddai bob amser yn ysgrifenu ei holl bethau mwyaf cyffredin gyda yr un manylrwydd ag y darllenai. Y mae y diffygion mawrion a glywir mor fynych mewn darllen cyhoeddus, yn arwyddo nad yw y manylrwydd a ddylai fod gyda dysgu plant yn yr Ysgol Sabbothol, yn cael ei arfer yn y dyddiau hyn. Un o'r pethau mwyaf dolurus i deimlad cynulleidfa ddeallus a choeth, yw clywed gair Duw yn cael ei ddarllen yn fongleraidd. Ac yn sier, fe ddylai y rhai sydd yn cymeryd arnynt ddarllen neu adrodd meddwl Duw i ddynion fod yn llawer mwy gofalus i wneyd hyny yn gywir, nag wrth adrodd meddwl dynion i Dduw. Meddwl mawr a dwfn yw meddwl Duw, i.e., meddwl cyfartal â'i awdwr yw ei feddwl ef, a hwnw wedi ei os-

od yn fanwl mewn llyfr i ddynion. Gan hyny pa mor ofalus ac ystyriol y dylem fod wrth ei ddarllen i gynulleidfa! Nid ydym yn cofio i ni wrando ar ein gwrthddrych yn darllen penod erioed na byddai yn ein rhwymo i wneyd hyny gyda ein manylrwydd mwyaf bob tro. Yr oedd ei ddull manwl ac eglur ef o ddarllen y Beibl yn cynyrchu awyddfryd manwl ynom ni-nau wrth wrando arno.

PENOD III.

EI OGWYDDIAD CYNAR AT Y WEINIDOGAETH, &C.

Goddefir i'n gwrthddrych yn awr adrodd hanes ei ymadawriad o'r eglwys, a'r modd y bu byw am yspaid ei arosiad allan o honi.

"Gyda galar a gruddfan yr wyf heddyw yn adgofio y diwrnod y gwnaethum y penderfyniad y gadawn eglwys Dduw. Rhoddais y penderfyniad mewn gweithrediad llawn; troais ymaith, cyfeiliornais fel dafad wedi colli, crwydrais i anialwch gwag erchyll. Safodd cyngorion, bygythion, addewidion, ymresymadau a dagrau fy rhieni ar fy ffordd; codai cydwybod gloddiau uchel, gan osod ger fy mron y dyfodol mawr brawychus, gan ddywedyd, 'Beth a wnei yn niwedd hyn?' Melltenai bygythion y Beibl o flaen fy llygaid, a thar-anau cryfion y weinidogaeth a ferwinent fy nghlustiau, nes fy ngwneyd yn eithaf annedwydd. Erbyn hyn wele fi o'r tu allan i furiau y ddinas sanctaidd, heb allu *claimio* yr un addewid; bu am dymor yn dra anghysurus arnaf rhwng pob peth; ond yn raddol cryfheais, gan ymgymeryd â phethau y byd, y cnawd, a'r diafol, yn dra rhwydd a chyflawn.

Y mae genyf yn awr i edrych dros bethau pum'

mlynedd fy ngwrthgiliad ; ni buont i mi ond dolur llygaid a gofid calon, a gwrthddrych danodiadau cydwybod am fy oes ; nis gallaf byth eu cyfrif ond rhyw fwch gwag, i.e. gwaeth, cyfnod o annuwioldeb cyhoeddus yn myddin y diafol, a hyny yn adnabyddus i bawb—gwas pechod yn arddel ei feistr yn mhob man y byddwn, gan wneuthur ei orchymynion ef ; ac nid rhyw beth haner pan oeddwn—un diddrwg, didda—nage, nid ymfoddlonwn ar fod yn un o'r *privates*, ond rhaid oedd i mi gael bod yn swyddog, yn mlaen, yn amlwg ; eto ni ollyngwyd fi i gyflawni rhyw bechodau cyhoeddus gwrthun. Nid oeddwn yn arfer tyngu a chymeryd enw Duw yn ofer ; ni th yngais ond unwaith, a hyny pan oedd un o'r anifeiliaid, wrth aredig, yn pallu er dim a gwneyd dim, cof genyf i mi offrymu i'r diafol, ond tybygid na chafodd hwnw genad i'w gymeryd ef ; a phe buasai yn ei gymeryd, nis gwn beth a wnaethai ag ef. Teimlais yn ddrwg iawn o herwydd yr anffawd hon ; bum yn dwyn fy mhenyd am lawer o ddyddiau, er mai grym profedigaeth a achlysurwyd gan yr asyn anhywaeth ydoedd ; eto ni fedrwn mewn modd yn y byd ymryddhau oddiwrth y teimlad o euogrwydd ; ac mor bell ag y gallaf farnu, bu y teimlad hwn yn *bilsen* mor chwerw i mi fel y cadwyd fi am fy oes rhag syrthio i'r ffos hon mwy. Ni feddwais chwaith yn y tymor hwn o gwbl, er mai rhaid i mi addef fod rhyw ddyinion drygionus wedi fy ngorfodi i yfed hyd feddwod pan oeddwn yn bum' mlwydd oed ; a gwaith anhawdd iawn y teimlais y gorchwyl o faddeu i'r dyhirod a wnaeth hyn a mi. Ni bum erioed yn ymladdwr, ni tharewais neb erioed mewn dull o ymladd, gwell oedd genyf ddi-anc, er cael fy ngalw yn anewryn (*coward*) ; gwell oedd genyf fod felly mewn croen iach na tan gleisiau. Ni chyfrifid fi y pryd hwnw yn un o dymer gynhenus a chwerylgar, pa fodd bynag yr ystyrir fi ar ol hyny. Ni bu lladrata yn demtasiwn i mi trwy fy oes ; yr oedd gonestrwydd wedi ei gerfio ar fy nghalon. Os dygwyddai i mi gael gafael ar ryw eiddo colledig, ni odd-efai fy nghydwbybod i mi ei gadw, ond rhaid oedd ei

ddychwelyd i'w berchenog. Yr oedd egwyddor o gyfiawnder yn gref ynof, yn llywio cyfiawnder fy ymarweddiad. Yr oedd fy nhymer gyffredin yn dra phell oddiwrth greulondeb; yr oedd y dymer a'r ymddygiad hono i raddau pell yn ddyeithr i mi. Gwir, yr oeddwn yn sydyn a gwyllt fy nhymerau, ond nis gallwn ddal digofaint yn hir; byddai marw egwyddor ddialgar o'm mewn bron cyn machlud haul. Ni bum yn ystod y pum' mlynedd o wrthgiliad yn rhedeg i lwybrau cyffredin ieuencyd ffol, i'r graddau y gwnelai llawer ar y pryd. Y pechod parotaf i'm hamgylchu i oedd cellwair a chyflawni rhyw fân ystranciau, er achosi digrifwch; y mae hyn wedi bod yn demtasiwn i mi drwy fy oes, a hyny er mawr ofid i mi. Nid oeddwn yn rhydd bob amser oddiwrth gelu o'wydd y gwir, os byddai y drwg a gyflawnid yn sicrhau cosp, er fy mod wedi cael fy addysgu yn rhagorol ar y pwnc hwn gan fy rhieni; ni byddent byth yn gweinyddu cerydd arnaf os cyfaddewfn y gwir, er fod y bai yn haeddu hyny. Addefaf yn rhwydd fod addysg ac esiemplau boreuol fy oes wedi bod yn achubiaeth i mi rhag llawer ffos ddofn a chwter fudr pan yn ngwylltineb cyfnod fy ngwrthgiliad; am hyny dymunwn alw ar rieni plant i gyngori a gweddio ar ran eu plant, ac i roddi esiemplau da o'u blaenau yn mhob amgylchiad.

Yn y cyfnod diffwrwyth a gwag hwn ar fy oes, ni roddais heibio fynychu moddion gras, ac yr oeddwn yn cael pleser mawr yn yr Ysgol Sabbothol. Byddai yn y dyddiau hyny gymanfaoedd i egwyddori plant, a llawer pregethwr yn gwasgu ac yn cornelu nes byddai pawb ar eu goreu yn ceisio rhwyfo allan, weithiau yn gallu ac weithiau yn methu, a minau yn eu mysg yn gwneyd fy ngoreu, ac yn cael fy ystyried fel y cyffredin, ac fe allai yn well nag ambell un. Yr oeddwn yn cael llawer o bleser a hyfrydwch yn y gwaith o chwilio a llafurio, er bod yn barod i sefyll gyda'm cyfoedion o flaen yr holwyddorwyr yn y cymanfaoedd a'r cyfarfodydd perthynol i'r Ysgol Sabbothol; ac anaml y byddai ysgol Ponterwyd yn ol i'r lleill mewn medrusrwydd i ddatod

a dadrys y pethau dyrys. 'Tystiwyf heddyw, yn niwedd fy oes, ddarfod i mi gael llesad mawr trwy y dull hwn o drin pynciau sylfaenol crefydd, yn enwedig mewn dau beth: *Yn gyntaf*, o herwydd fod y darllen a'r chwilio er deall gwirioneddau y Beibl, yn cymeryd i fyny lawer o'm hamser, yr hwn, yn ddiaw a dreuliaswn mewn oferedd a gwagedd, oni buasai y llafur hwn oedd yn cymeryd fy meddwl a fy myfyrdod. Di os genyf i'r llafur hwn fy atal i gyflawni llawer o bechodau, a fuasai yn rhoddi mantais i'r diafol i'm tentio i bethau drwg. Byddwn yn gorfod dywedyd wrtho yn fynych y prydiau hyny, 'Dos ymaith ar hyn o amser,' canys rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthyn i'r Ysgol Sabbothol. Felly gwn i mi gael fy nghadw rhag llawer o bethau a fuasant yn trymhau baich fy euogrwydd, drwy y moddion yma. Yr ydwyf hefyd yn ystyried fy hun yn rhwymedig i'r dysgu egwyddorion, a'r egwyddori y dyddiau hyny am fy mod heddyw y peth ydwyf. *Y daioni arall* a gefais oedd cychwyniad ar lwybr gwybodaeth am egwyddorion crefyddol; er i mi gael addysg dda yn moreu fy oes, eto nid o-dd fy ngwybodaeth ond arwynebol a bechan iawn; canys nid yw yr addysg a geir heb lafur personol ond megys had ar graig, heb ddyfnder daear, ac yn y fan yn gwywo; ond y mae y wybodaeth a gyrhaeddir trwy lafur personol yn ddyfnach a mwy arosol. 'Yr hyn a geir yn rhad a gerdd yn rhwydd.' Y mae llafurio fel yn braenaru y tir i ddiogelu yr had, ei gynydd a'i gynyrch. Gallaf olrhain yn briodol ddechreuad fy syched am wybodaeth, a chychwyniad y llwybr i'w chyrhaedd, i'm llafur gyda chyfarfodydd egwyddori. Yr wyf yn argyhoeddedig fod adeg dechreuad fy oes yn adeg llawer mwy llafurus am egwyddorion, a mwy gwybodus mewn egwyddorion, nag ydyw yr oes hon; nid am fod cryfach galluoedd a helaethach cymwysderau gan y genedlaeth hono yr oedd yn rhagori, ond o herwydd fod yr holwyddori yn dyddiau hyny yn gosod galluoedd yr ieuentyd mewn gweithrediad mwy bywiog. Diameu fod ein hieuentyd, yr oes bresenol yn America, yn bell iawn yn ol

gydag egwyddorion crefydd, a hyny yn codi o ddiffyg egwyddori priodol yn ein Hysgolion Sabbothol. Trysorais lawer o'r Ysgrythyrau yn fy nghof hefyd y dyddiau hyny, ac adroddais ddegau, os nad ugeiniau, o benodau ar gyhoedd wrth bregethwyr ar ddechreu moddion. Yr oeddwn wedi cael fy arfer i wneyd hyn pan yn bur ieuanc; ac oni buasai hyny buaswn yn fwy dycithr i'r Beibl nag ydwyf heddyw. Yr Ysgrythyrau a ddysgais y dyddiau hyny sydd yn aros ar fy nghof yn awr, ac y mae eu gwasanaeth i mi drwy fy oes wedi bod yn annhrisiadwy.

Llyfrau, ysgrifenu, a gwneyd pregethau oedd fy hoff waith yn y dyddiau hyny. Byddwn yn ceisio cyfansoddi pregethau pan oeddwn allan o'r eglwys, a'm bywyd yn ddigon annuwiol ar y pryd; a byddwn yn pregethu yn fynych ar y meusydd a'r mynyddoedd, ond ni byddai fy ngwrandawyr ond creaduriaid afresymol, ac weithiau creaduriaid difywyd hefyd. Ond yr wyf yn barnu fod y gwrandawyr er hyn bron cystal a'r bregeth. Nid oeddwn y pryd hwnw yn gwybod beth oedd hyn, o ba le y daeth, a pha beth oedd yr achos o hono; a gallai, os dywedir yr holl wir, nad yw yn amlwg iawn eto pa beth ydoedd; ond y gwirionedd yw, felly yr oedd. Cyfansoddais amryw o'r pethau a alwn yn bregethau, pan na wyddwn beth oedd pregeth na phregethu, ac y mae llawer o'r rhai hyny ar gael mewu llyfr hyd y dydd hwn."

Fe allai mai dymunol gan y darlennydd fyddai cael un o'r pregethau uchod i'w darllen iddo ei hunan, fel y caffo y cyfle goreu i osod barn ar ei theilyngdod. Ond cyn i ni ei rhoddi ger ei fron, carem ei hysbysu nad oedd yr awdwr yn arfer darllen ei destyn cyn dechreu pregethu, yn y dyddiau hyny; neu o leiaf nad oedd efe yn nodi ei destynau ar ei lyfr wrth ddechreu eu hysgrifenu. Can belled ag y gallwn farnu, y mae y bregeth ganlynol yn un o'r pregethau cyntaf a ysgrif-

enodd, os rad y gyntaf oll. Gallem feddwl mai ei destyn oedd Heb. 12 : 1. Dyma y modd yr ysgrifennodd efe hi :

“ 1. Y mae rhedeg yn perthyn i bawb, a hyny mewn pryd, yn fuan, ddirofin, a hefyd dyfod i'r ffordd iawn, a rhedeg mewn amynedd fel rhai a enilliant y gamp.

2. A hefyd i'r dyben o redeg, y mae yr apostol yn cyngori i redeg yn ddirwys, i roddi heibio bob pwys, &c., i'r dyben o beidio tramgwyddo a syrthio. Rhaid wrth amynedd hefyd i'r dyben o beidio colli y ffordd ; rhaid edrych ar Iesu.

3. Y dull, y modd, a'r nôd wrth redeg.

4. Ni gyffelybwn y llofrudd i'r rhedegwr hwn.

5. Y pethau sydd raid rhedeg oddiwrthynt, y pethau sydd raid rhedeg am danynt, y pethau sydd raid redeg trwyddynt.

6. Cymelliad i'n gwrandawyr i ddyfod yn gadarn trwy esiampl Moses.

7. Hefyd cyngor o rybudd i'r rhai sydd yn ddifraw, yn meddwl y cânt nefoedd heb redeg am dani.

8. Y pethau sydd yn gynwysedig mewn diogi ysbrydol.

9. Y daw hi yn rhedeg ar bawb ryw bryd.

10. Sylwn y caiff mloedd o redegwyr da yn eu tyb eu hunain ac eraill hefyd, eu canad allan o'r nefoedd, neu hwy a gollant yn ol iaith yr Ysgrythyrau ; canys llawer a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant. Pa faint mwy y bydd i'r rhai na ddarfu iddynt redeg dim erioed, yn eu tyb eu hunain nac eraill, golli y gamp ?”

Galwn ar ein gwrthddrych, bellach, i adrodd y gweddill o hanes ei bum' mlynedd o wrthgiliad, yr hwn a adrodda fel y canlyn :

“ Fel y dywedais o'r blaen, mewn llyfrau, darllen, dysgu, a chwilio, yr oedd difyrwech fy meddwl, ac nid oeddwn gartref ond yn y pethau hyn. Yr oedd fy syched yn cryfhau am ddysgeidiaeth ; a phan oeddwn o 15 i 18 oed, cefais raddau o fanteision ; bum am dym-

orau y pryd hwnw yn Aberystwyth, mewn ysgol dda, gyda John Evans; ond er gofid i mi, ni chymerais yr iawn gyfeiriad, o herwydd mai fy mwriad y pryd hwnw oedd cymwyso fy hun i ddysgu plant; ac felly troais i lwybrau sychion a diffrwyth rhifyddiaeth, nes bu fy synwyr lawer gwaith bron a dyrysu gyda *geometry*, *mensuration*, &c., yr hyn nad oedd ond ychydig fudd i mi; gwir, bum am rai blynyddoedd yn cadw ysgol; yr wyf yn cofio fy mod yn ysgol-feistr pan yn 17 oed. Pe buaswn wedi ymgymeryd â dysgu ieithoedd, yn enwedig yr Hebraeg a'r Groeg, yn yr amser a'r manteision a gefais, buasai yn fwy o fuddioldeb i mi o lawer heddyw; ond felly yr aeth dyddiau fy ieuencyd heibio.

Pan yr oeddwn yn 18 oed bu farw fy mam dduwiol; teimlais yn ddwfn iawn o herwydd yr amgylchiad hwn; effeithiodd yn fawr ar fy meddwl, er i mi ddymuno lawer gwaith iddi gael ei symud o'm ffordd, fel y mae yn fwyaf cywilydd i mi; eto pan y daeth yr amgylchiad, ac i angau ei symud yn rhy bell i ddywedyd gair wrthyf, nac offrymu un weddi droswyf, teimlais mcr ddwys fel nas gallaf ei adrodd mewn geiriau, yn enwedig pan y dywedwyd wrthyf mai ei gorchwyl olaf oedd gweddio drosaf. Nid oeddwn gyda hi pan y cwblhaodd angau ei waith arni; canys fel y dywedais o'r blaen, bu farw oddicartref. Ond o beth i beth lleihaodd, gwanhaodd, a diflanodd yr argraffiadau a gynrchodd marwolaeth fy mam ar fy meddwl, a dechreuais ymgryfhau mewn drygioni yu fwy nag o'r blaen, fel yr oedd pawb am a wn i, yn edrych arnaf fel dyn ieuanc yn penderfynu y mynwn fy ffordd i ddistryw. Yr oedd y tymor hwn yn sobr a difrifol iawn i bawb oedd yn deall ac yn ystyried; ond am danaf fi, yr oeddwn mor galed a maen isaf y felin; a gorfu i mi ryfeddu ganoedd o weithiau na buasai y Duw mawr yn fy nhorï i lawr y pryd hwnw, a'm gosod gyda'r anffyddloniaid yn uffern; ond yr oedd y llaw fawr yn gweithio yn anweledig, a'r eiriolaeth ar fy rhan am arbediad y pryd hwnw i ryw ddybenion nad ydynt yn hollol hysbys i mi heddyw.

Cyfarfyddais â llawer o beryglon yn yr ugain mlynedd cyntaf o'm hoes, a bum mewn rhai clefydau trymion, yn y rhai y teimlwn raddau o arswyd y dyfodol mawr; ond buan iawn y byddai y cwbl yn llithro ymaith. Yr oedd crefydd yn isel iawn yn yr ardal y'm ganwyd, yn y dyddiau hyn—y pregethu yn aneffeithiol, y gwrando yn wael, cysglyd ac arwynebol; yr eglwys yn farwaidd a flurfiol, a phob peth yn teithio yn mlaen yn farwaidd a digysur; ac, fel y gellid barnu, yr oedd annuwioledeb fel y lawryf gwyrdd, pob drwg yn cynyddu; ac yr oedd fy agweddau inau a'm harferion yn dra annymunol, hyd yn nod wrth fyned i foddion gras a dychwelyd o honynt; i.e., yr oedd fy null ynddynt yn annheilwng iawn; gwnawn bob esgus a allwn i esgeuluso moddion, ac oni buasai ofn fy rhieni a'm cydnabod, tebygol mai anaml y buaswn yn myned i le addoliad. Yr oedd gorfodaeth yn cael ei osod arnaf, am yr hyn yr wyf yn ddiolchgar heddyw, i ddilyn moddion gras. Nosog iawn oedd hi ar grefydd y pryd hwn, ac adar y nos yn amlhau ac yn cryfhau, gan fygwth gorchuddio yr ardal, a'r gogoniant fel yn cilio yn raddol, y duwiolion yn cael eu cymeryd ymaith, a'r ystyriol a'r deallus yn dechreu ofni fod drygfyd yn agoshau; yr oedd holl ieuenctyd yr ardal, had yr eglwys a deiliaid yr Ysgol Sabbothol yn gelyd iawn, ac yn ddigon hyfion i ddirmygu argyhoeddion a cheryddon, a phob peth yn eu golwg megys cellwair, a dim ond ychydig o hen bobl yn cadw ty yr Arglwydd. Yn nghanol y tywyllwch hwn gwelid arwyddion gwawr yn tori. Fel y dywedir ei bod yn dywyllach yn ymyl y dydd nag un adeg ar y nos, felly yr oedd y pryd hwn mewn ystyr grefyddol. Torodd diwygiad nerthol anarferol allan y pryd hwn, gan ddymchwelyd pob peth o'i flaen; cymynwyd i lawr yr ieuenctyd bron i gyd yn yr ardal, fel y torir gallt o goed, â hen fwyell gair Duw. O, mor nertholydoedd! Erbyn hyn yr oedd yr hen bobl yn deffro, yn ymloewi, ac yn chwilio am eu telynau, yn cael gafael ynddynt, gan chwareu tónau Seion yn ardderchog; ac yn mhen ychydig o amser yr oedd y fath

gyfnewidiad ar yr ardal fel yr ydoedd bron yn anhawdd credu mai yr un ardal ydoedd—y cyfarfodydd yn amlhau, yn parhau yn hir, ac eto nid oedd neb yn blino arnynt—rhyw gawr neu gewri yn cael eu gorchfygū yn mhob cyfarfod; y gwylltiaid disylw a difeddwl yn cael ergydion hyd at y galon gan ordd fawr y gair, nes bloeddio a chrochleffain heb ofni neb, na chywilyddio dim; iē, yn gweddio yn gyhoeddus yn y teuluoedd, ar hyd y ffyrdd, yn y mynydd, yn y maes, a rhai mewn gwasgfeuon dirdynol o herwydd eu colledigaeth cyflwr; eraill wedi cael gradd o oleuni ar drefn y prynedigaeth. Rhyw amser rhyfedd oedd hwn; ond yr oeddwn i yn dal yn nghanol y cwbl. Ar y dechreu yr oeddwn braidd am wawdio fy nghyfoedion am floeddio yn y moddion, ac ar hyd y ffyrdd; ond wrth weled Duw yn myned a'i waith yn mlaen, gan achub fy nghyfoedion a'm perthynasau, ac yn fy ngadael inau, dechreuais ofni ac ymholi, Ai tybed fod pawb i gael eu hachub, a minau i'm gadael i ddisgyn i waelodion colledigaeth. Dyma a ddechreuodd sobri fy meddwl gwamal.”

Y mae yn sicr fod ein darllenwyr wedi gwled llawer o feibion a merched Seion, o bryd i bryd, yn troi eu cefnau ar gysegr preswylfeydd y Goruchaf, gan rodio ar hyd y lleoedd sychion, a'r anialwch gwag ac erchyll a brofodd Mr. Williams mor arteithiol yn ei bum' mlynedd gwrthgiliad. Er hyny, se allai, pe llwyddem i arddangos yn deg warth a thrueni y sefyllfa alaethus hono, y byddai o ryw help i rai o honynt, o leiaf i ymgadw yn bell oddiwrth yr hudoliaethau a fu yn arweinwyr iddo ef i'r fath ddiffaethwech gofidus. Ymddengys mai y cyfnod mwyaf peryglus ar fywyd y rhai a anrhydeddwyd a dygiad crefyddol i fyny o'u mebyd, ydyw yr adeg y byddont o 14 i 18 oed. Y maent yn y perygl mwyaf o lesgau yn eu hymarferion a defosiynau crefyddol, a thrwy hyny i grefydd golli ei dylanwad ar eu

meddyliau hwythau. Y maent ar y pryd yn teimlo eu hunain uwchlaw plant yn yr eglwys, ac eto yn methu a chael gan gymdeithas eu cydnabod yn deilwng o'r anrhydedd o fod yn wyr mewn synwyr. Nis gallant yn eu byw gredu mai o dan iau plant y maent i ymsymud bellach, na'u bod chwaith i fyw ar eu gweinidogaeth hwy o hyn allan. Ac yn wir y mae yn rhaid addef, fod tuedd gref mewn llawer o swyddogion eglwysig i ymddwyn tuag atynt fel pe byddent am eu cadw islaw y safle y mae natur a Christionogaeth yn ei ganiatau iddynt. Dylai bugeiliaeth eglwysig gynwys yr ystyr-iaeth fod *meddwl* gan bersonau a fo wedi cyrhaedd yr oedran uchod, a bod eu meddwl hwy yn hawlio parch, yn gystal a meddyliau yr oedrarus. Yn nyddiau mebyd yr ysgrifenydd, ystyrid y *wialen* yn un o anhebgorion yr Ysgol Sabbothol; ond erbyn hyn y mae hi wedi ei bwrw allan oddi yno; a diamau y dylai y peiriant curo gael ei fwrw allan o'r eglwys hefyd. Cyflawnder y gyfraith foesol yw cariad; a chyflawnder cyfraith Crist hefyd yw cariad at Dduw a dynion. Gwneler gan hyny ein holl bethau ni mewn cariad, yn yr eglwys ac allan o'r eglwys, rhag ein cael yn euog o ddyfnhau briwiau merch ei bobl ef, yn lle eu meddyginiaethu fel y'n gorchymynwyd.

Ond er y rhaid addef fod gwrthgiliad y nifer amlaf o ieuentyd yn cael ei achlysuero gan ddiffyg gweinyddiad priodol dysgyblaeth rhai eglwysi, y mae yn deilwng o'n hystyriaeth fod yr achos o hono yn eu mynwesau hwy eu hunain. Y mae ymadawriad pechadur oddiwrth bethau cysegredig, a'i ymlyniad ymarferol wrth yr hyn nid yw weddus, yn tarddu o nerth llygredigaeth ei galon ei hun. Dirgelwch yr anwiredd mewnol yn

gweithio allan yw pob gwrthgiliad; ac y mae hyn yn fynych yn cymeryd lle, "am na dderbyniodd" y cyfryw "gariad y gwirionedd fel y byddent gadwedig." Oddiyma y cododd gwrthgiliad Simon y swynwr, fel y dywedai Pedr, "canys mi a'th welaf mewn bustl chwerwder, ac mewn rhwymedigaeth anwiredd." Ac yn wir, felly y mae Ysbryd Duw ei hun yn ei ddarlunio, o dan bob amgylchiad drwy yr oesoedd. "Canys yna y temtir pob un pan y tyner ef ac y llithir gan ei chwant ei hun. Yna chwant, wedi ymddwyn, a esgor ar bechod; pechod hefyd pan orphener a esgor ar farwolaeth." Yr oedd calon Judas Iscariot wedi pydru mewn cybydd-dod a lladrad, cyn iddo fradychu ei Arglwydd a chusan, ac ymgrogi, a disgyn yn ddrylliau i'w le ei hun. Yn awr, gan fod pob gwrthgiliad oddiwrth Gristionogaeth bur yn gynyrech afiechyd y galon sydd oddi tano, fe syrth cyfrifoldeb y weithred yn hollol ar y gweithredydd ei hun, gan adael cyfrifoldeb yr achlysuron ar yr hwn a'u rhoddes hwy; am hyn na thybied ein hieuenctyd eu bod hwy yn esgusodol, pa mor gryfed bynag y dygwydd i'r achlysuron fod.

Elfen hanfodol mewn gwrthgiliad yw blinderau yn beichio y bywyd; a diameu y dylai aelodau eglwysig gadw hyn yn wastadol o dan eu hystyriaethau dwysaf. Buasid yn meddwl y buasai edrych ar Cain yn cael ei hyntio gan ei gydwybod ei hunan drwy diroedd gwrthgiliad, yn moreu y byd, a gwrandao ei ruddfanau poenus yn cael eu gwasgu allan gan nerthoedd ei euogrywydd, gan ddywedyd, "Mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu," yn ddigon er atal ei holl olynwyr rhag sangu byth ar ei lwybrau ceimion; ond, ysywaeth, i'r gwrthwyneb y bu ar filoedd. Wedi i Saul, mab Cis,

encilio o blith y prophwydi, fe gynyrchodd y symudiad hwnw chwerwder ar ei ganfed iddo dros weddill ei oes. Gwasgai y Philistiaid mor drwm arno fel yr ofnai yn ddirfawr, a gomeddai yr Arglwydd ei ateb drwy freuddwyd, na thrwy Urim, na thrwy brophwyd; ac yn y bangfa hono syrthiodd i ddwylaw dewines, ac o ddwylaw hono drachefn efe a syrthiodd ar ei hyd gyhyd ar y ddaear, dan waeddi, "Y mae yn gyfyng iawn arnaf!" ac yn fuan iawn wedi hyny syrthiodd i dragywyddoldeb drwy ei gleddyf ei hunan. Y mae hanes Saul, mab Cis, a Judas Iscariot yn esboniad byw ar y geiriau hyny o eiddo y Salmlydd, "Dyfnder a eilw ar ddyfnder wrth swm dy bistylloedd di; dy holl donau a'th lifeiriant a aethant drosod fi." Yr oedd swm y naill fintai ymosodol fel swm rhaiadr yn pistyllo. yn galw mintai arall i wneyd ymosodiad ar y truan. Gwersylla y naill fintai yn nghromlechau y gydwybod euog, a gwersylla y llall yn ngweinidogaeth rhagluniaeth Ddwyfol. Safa y ddwy yn ngolwg eu gilydd, ac ar amserau dylanwadant yn ofnadwy hefyd ar eu gilydd. Bydd profedigaethau allanol rhagluniaeth Duw ar brydiau yn deffro y gydwybod euog i gnoi a mellidithio ei meddianydd; ac ystormydd y gydwybod drachefn yn awchlymu y profedigaethau allanol. Dyma ychydig, o lawer, o drueni y gwrthgiledig.

Os bydd y darlennydd yn awyddus am gael golwg ar blentyn Duw mewn gwrthgiliad, darlleded yn bwylllog lyfr y Salmau a llyfr y Pregethwr. Yn y cyntaf, cyferfydd â "gwr wrth fodd calon Duw" yn gorwedd ar wely, a hwnw yn foddfa o ddagrau o dano, ac yn ocheneidio yn bruddaidd ei brofiad allan, gan ddywedyd, "Tra y tewais, heneiddiodd fy esgyrn gan fy rhuad ar

hyd y dydd. Canys trymhaodd dy law arnaf ddydd a nos; fy irder a drowyd yn sychder haf." A chewch weled yr ail yn y "doethaf o ddynion," yn plethu ei ddwyllaw yn nghyd, ac yn cau ei lygaid ar y gwel-dig, a'i enaid o'i fewn wedi laru ar holl fwynderau daear, gan eu galw yn "wagedd o wagedd, gwagedd yw y cwbl." A'r rheswm mawr am hyn oll oedd, iddo "bechu ar ol i'r Arglwydd ymddangos iddo ddwy-waith."

Y mae yr hanes a rydd ein gwrthddrych yn y benod hon, am barhad ei ymlyniad wrth foddion gras, a'i lafur ymchwiliadol gyda chyfarfodydd holwyddori, cysylltiedig â'r Ysgol Sabbothol, drwy holl dymor gwyllt-ineb ei wrthgiliad, yn bur deilwng o sylw y genedl-aeth bresenol. Rhaid ei fod yn cael mesur helaeth o hyfrydwch yn ei lafur, onidê ni buasai yn glynu wrtho drwy y cyfnod diffwrth hwnw; a diau fod miloedd o'i gyfoedion yn cyfranogi yn helaeth o'r un mwynhad ag yntau. Fel y mae pob moddion dwysol yn cyfranogi o bwysigrwydd eu hanecanion, felly mae "gwybodaeth y gwirionedd yn cynwys pwysigrwydd cadwedigaeth dragwyddol. Yr oedd y llafur y gelwid deiliaid yr Ysgol Sabbothol i'w gyflawni yn y dyddiau hyny yn cyfeirio yn uniongyrchol i'r meusydd y caent wybodaeth a phrofiad o athrawiaethau mwyaf hanfodol Cristionogaeth fel moddion goreu eu gwellâd moesol. Y mae cyfaddasrwydd yn ngwirioneddau yr efengyl, fel y maent wedi eu trefnu gan Dduw, i buro y galon aflan-af a gweddeiddio yr ofer ymarweddiad. Dywedai yr Arglwydd Iesu wrth ei ddysgyblion yn nyfnder ei oriau pruddaidd, "Yr awrhon yr ydych chi yn lân trwy y gair a leferais i wrthych." A thrachefn, dy-

wedai wrth ei Dad am danynt, "Sancteiddia hwy yn dy wirionedd; dy air sydd wirionedd." Dylid ystyried yn mhellach mai gan y gwirioneddau pwysicaf a berthyn i ddyn y mae y dylanwad dyfnaf a mwyaf gafaelgar ar ei feddwl, pan y caffont ddyfodfa ato. Gan hyny fe ddylai yr athrawiaethau gogoneddus hyny sydd yn ymgodi fel mynyddoedd ar wyneb cyfandir eang y datguddiad dwyfol, gael sylw blaenaf yr Ysgol Sabbothol yn y dyddiau diffwrth hyn; ac os amgen byddwn yn fuan wedi codi oes arall ar ein hol y rhai nid adwaenant yr Arglwydd, na'i weithredoedd a wnaeth efe er Israel. Cydnabyddir yn lled fynych fod archwaeth ein hieuenctyd wedi troi ei gefn ar fwyd cryf, ac yn syrthio i yfed llaeth ac i fwyta dail; a diameu mor briodol i ni ofni hefyd, fod meddwl eu tadau wedi ei lygru yn drwm o'u blaen hwy; onide ni buasent mor barod i gydredeg â hwy ar bob cyfleusdra, ac i'w porthi ag ymborth sydd yn sicrhau o'u hanghymwysio i gyflawni gweinidogaeth eglwys yn yr oes nesaf. Mae yn eithaf amlwg i'r meddwl cyffus fod calon llawer o arweinwyr yr Ysgol Sabbothol, os nad rhai o arweinwyr eglwysi hefyd, mor anianol, fel nad oes ganddynt un duedd at bethau mwyaf sylweddol ac ysbrydol yr efengyl. "Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw; canys ffolineb ydyw ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt." Bydd y gwaith sydd i'w gyflawni gan ein hollynwyr yn gyfryw ag a rydd y gwyr grymusaf ar eu goreu i'w gyflawni ef yn deilwng; gan hyny dylid magu ein ieuenctyd â bwyd cryf i ateb i'r gwaith trwm hwnw.

PENOD IV.

EI YMUNIAID A'R EGLWYS A'I WASANAETH YNDDI.

“Y mae yn gof genyf am un oedfa yn y capel am 11 o'r gloch y boreu. Mr. Evan Richard, Caernarfon, oedd y pregethwr, a'i destyn oedd, “Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd.” Teimlais y tro hwn ryw beth nad yw yn bosibl ei adrodd; yr oedd y bregeth mewn cymaint o oleuni a than y fath arddeliad, fel y tybiais rai gweithiau y buasai y tanbeidrwydd yn datod fy nghyfansoddiad. Wedi y tro hwn ymroddais i ymuno a'r dysgyblion; eto cefais waith rhyfeddol yn gwneyd fy ffordd drwodd i gyfarfod eglwysig. Daethum at ddrws y capel lawer gwaith, ac yna dychwelais yn ol heb fyned i mewn, ac amser cythryblus ofnadwy i mi oedd yr wythnosau o ymryson rhwng awydd ac ofnau, o berthynas i ymuno a'r eglwys. Ond y tro diweddaf yr aethum at y drws, lle y cedwid cyfarfod eglwysig, dygwyddodd fod un o'r diaconiaid yno, yr hwn a'm cymerodd i mewn gerfydd fy llaw i'r *society*. Ac O! mor wahanol y gwelwn bob peth yno yn awr i'r peth a welaswn bum' mlynedd yn ol! Gofynwyd i mi ychydig gwestiynau yn dyner, ond ni ellais ateb un gair. Gorfu arnynt fy ngadael yn llonydd, ond ni throesant fi allar, yr hyn a fu yn fawr ryfeddod i mi lawer gwaith ar ol hynny. Dymunwn, wrth redeg heibio, ddweyd gair yn nghlust swyddogion eglwysig. Na fernwch ambell greadur hurt, heb fawr i'w ddyweyd, ei fod yn wag a diwerth, heb ganiau amser prawf. Y mae rhai, egwyddorol a doniol, a fedrant hyawdl areithio y waith gyntaf, o flaen cynulleidfa eglwysig, wedi troi allan yn ddiiffrwyth a gwag iawn o egwyddorion crefydd a sancteiddrwydd; a rhai eraill na fedrant, ac na feddant allu i dori gair mewn atebiad, pan yn cael eu holi, wedi troi allan yn ddynion da mewn crefydd, yn ddoniol a defnyddiol yn nheyrnas ein Harglwydd Iesu Grist. Anhawdd yw

barnu neb heb gael yn gyntaf amser da i'w profi hwy. Ond i ddychwelyd; cefais fy ngoddef yn yr eglwys fel yr oeddwn, ac ar ol ychydig o amser prawf, rhoddwyd galwad arnaf fi ac amryw eraill yn yr eglwys i nesáu yn mlaen i fwynhad o fanteision yr holl aelodaeth. Dyma borth cyfyng eto; gosodwyd amryw bethau o'n blaenau fel amodau ein derbyniad, ac yn eu plith yr oedd ymaflyd yn yr addoliad teuluaidd yn un o honynt; ac er fod hyn yn brofedigaeth fawr i mi, gwel-som gyfle i dreio pan oedd ein tad oddi cartref; ond pan ddaeth yr amser, methais yn lân a gwneyd, ond ymaffodd fy chwaer oedd bedair blwydd yn ieuengach na mi yn y gwaith, a chyflawnodd ef yn anrhydeddus. Yr un modd y bu boreu dranoeth; ond nos tranoeth mentrais y gorchwyl fy hun; ond rhyfedd mor anfedrus a chrynedig oeddwn, er cael pob chwareu teg, am nad oedd yno neb ond fy mrodyr a'm chwiorydd yn y lle, a'r rhai hyny oll yn ieuengach na mi, ac yn orlawn o ysbryd y diwygiad mawr oedd yn yr ardal. Aethum fel hyn drwy y brofedigaeth lem hon, ac erbyn hyn yr amod y derbyniad i'r sacrament wedi ei gyflawni.

Ar brydnawn Sadwrn ar ol hyn, yr oedd genym gyfarfod eglwysig, a'r hen batriarch offeiriadol William Lewis yn bresenol. Galwyd pymtheg o honom yn mlaen i'n holi am wirionedd ein dychweliad crefyddol, ein teimladau gyda golwg ar nesáu yn mlaen at fwrdd y cymun, yn nghyda'n penderfyniadau i ymlynu wrth yr Arglwydd a'i bwl. Cafodd y gweinidog a'r eglwys radd o foddlonrwydd ynom, mae'n debyg, er mai arwynebol iawn oedd eithafion y chwilio a fu arnom. Yr oedd ein meddyliau yn bur gyffrous ac ofnus rhag ein bod yn bwyta ac yn yfed yn annheilwng; a phicellau tanllyd y fall o'r tu arall yn disgyn yn boeth arnom. Dranoeth pregethai y gweinidog o Ledrod ar Exod. 12: 23. Yr oedd y bregeth yn wllithog a melus iawn—Crist Iesu, yn ei aberth, ei farwolaeth, a'i waed, yn cael ei ddangos yn gysgod diogel i bechadur rhag cael ei ladd gan y dinystrydd. Yna wedi gorphen y

bregeth, ymaflodd yr hen offeiriad yn yr elfenau, ac ar ol eu cysegre, gweinyddodd i'r eglwys yn gyntaf, ac yna galwyd ninau, y rhai a dderbyniwyd y dydd o'r blaen, at y bwrdd ein hunain, a'r hen wr wrth edrych arnom wedi ei orlenwi â syndod, llawenydd a diolchgarwch, yn tori allan mewn mawl a diolch i Dduw am y fath olygfa. Cyngorai drachefn yn ddwys am bwysigrwydd ein llw cysegredig, a rhoddai i ni anogaethau cryfion i ymfyn am adnabyddiaeth achubol o'r gwr a gofion; a ninau yn crynu, yn wylo, yn gweddio, mewn teimlad na phrofasom ei fath erioed o'r blaen. Cyfrifid fi bellach yn aelod eglwysig, ac edrychid arnaf yn ddysgybl i Grist, ac yn filwr cyhoeddus iddo. Bum am yspaid yn myned i mewn ac allan gyda ei bobl et, yn y cyfarfodydd crefyddol, yn gyson a bywiog; ac o'r diwedd daeth gorfod arnaf i weddio yn gyhoeddus; ac er anhawsed i mi oedd gwneyd hyny, ufuddheais i wneyd fel y gallwn, ond yr oeddwn yn hynod o anfedrus. Yn y tymor hwn fe'm gosodwyd yn ddechreuwr canu cynulleidfaol, er nad oeddwn yn deall dim ar y gelfyddyd o ganu; mae yn wir fod genyf ryw fath o lais, ac yr oeddwn wedi dysgu amryw dônau ar y mesur hir, mesur salm, 8 a 7, 7 a 6, ac 8 7 4; ond methais erioed a gwneyd dim o'r mesur cyffredin. Y rheswm am osod y fath orchwyl arnaf fi oedd y diffyg amlwg oedd gyda y canu yn y lle. Hen wr difedr oedd yn ceisio dechreu y canu cyn y diwygiad, gyda llais aflafar ac aflywodraethus; byddai yn cael gafael ar dôn weithiau, ac mor aml a hyny yn methu; weithiau byddai wedi cyrhaedd drwy y rhan fwyaf o'r penill cyn dal y dôn; bryd arall byddai yn gwneyd rhyw fath o dônau na welodd ac na chlywodd neb erioed mo honynt o'r blaen. Dyn a helpo yr hen wr, druan; yr oedd yn gwneyd goreu y gallai gyda y canu. Pa fodd bynag ymgymerais â'r swydd, fe allai, am nad oeddwn yn gwybod digon am ganu i wrthod y swydd; neu ynte am fy mod yn awyddus i wneyd yr hyn a allwn yn y dyddiau hyny—nis gallwn anufuddhau i'm brodyr, ac yr oeddwn yn barnu nad oedd yn hawdd iawn i'r canu gael ei ddiraddio

genyf, a'i osod yn is nag ydoedd yn nwyllaw yr hen wr oedd yn y swydd o'm blaen. Yr oedd crefydd yn gwisgo ei sandalau a'i gwisgoedd prydferth yn y dyddiau hyny; yr hen a'r ieuanc wedi eu tymeru a'u gweithio i'w gilydd. O! ddyddiau hyfryd a llwyddianus i eglwys Dduw!

Yn mhen ychydig denwyd fi gan nifer o'm cymydogion i ymuno â hwy i fyned i'r cynhauf i Loegr. Ymbiliai fy nhad arnaf aros gartref, a dangosai i mi y perygl i grefyddwr ieuanc ymuno â'r digrefydd i fyned i wlad ddyethr; ond myned a wnaethum, a chyrhaeddasom yn llwyddianus y fan; ac erbyn dechreu gweithio, teimlais y gwaith yn galed iawn, a minau yn feddal ac anghynefin a byw allan o dy fy nhad. Yr oedd y gweithio a'r haul yn toddi fy sylwedd, a'r sofr a'r gwellt yn dryllio fy mysedd. Yr oeddwn yn ddiffygiol iawn bob nos, ac erbyn y Sabboth ni wnaethum ond wylo o foreu hyd nos wrth gofio fy nghartref a phreswylad yr Arglwydd yn Ponterwyd. Ond nid oedd dim i'w wneyd ond dyoddef y gosb berthynol i'r anufudd-dod. O'r diwedd daeth yr amser i droi adref o wlad y cystudd, y caethiwed a'r llafur, a minau drwy lw dirgelaidd yn penderfynu na welid fi byth mwy yn y wlad hono, ac felly y bu hefyd. Cychwynasom adref, ond erbyn ystyried, gwelem nas gallem gyrhaedd adref cyn y Sabboth, ac o herwydd hyn y byddai raid i ni letya ar y ffordd neu dori y Sabboth, a'r olaf a fu drechaf. Yr oeddwn wedi cyrhaedd i'r gymydogiaeth pan y dychwelai y bobl o'r oedfa ddau o'r gloch; ac yn y cyfarfod eglwysig cyntaf fe'm diarddelwyd yn hollol o'r eglwys. Ond mentrais yn ol i'r cyfarfod eglwysig cyntaf ar ol hyny, a chefais y tynerwch mwyaf oddiwrth yr holl frawdoliaeth. Ni chwerwais ddim trwy y cwbl; canys gwelwn onestrwydd yr eglwys, a'i heiddigedd dros sancteiddrwydd y Sabboth, nes yr oeddwn yn ei charu yn fwy nag o'r bl. en. Gwnaeth ysbryd tyner y brodyr wrth weinyddu dysgyblaeth arbed fy mhen rhag cael ei dori gan eu holew penaf. Ar ol hyn bum yn mysg y brodyr, yn anwyl a chynes, hyd yr haf canlyn-

ol, pan y gadewais dy fy nhad, heb ddychwelyd mwy yno i breswyllo; a'r lle yr ymsefydlais ynddo a elwir Dinas Mowddwy, yn Sir Feirionydd, a dechreunais gadw ysgol yn nghapel yr Annibynwyr, am nad oedd gan y Methodistiaid gapel yn y lle. Cymerais fy nghartref crefyddol yn Abercywarch, lle yr oedd rhyw ychydig o'r Trefnyddion Calfinaidd yn cyd-addoli; ac yr oedd yno bregethwr da yn cael ei alw David Davies, Cywarch—gwr dysyml, ac o gymeriad uchel yn yr holl wlad. Ar ol i mi aros ychydig yma, dechreuodd y brodyr, y naill ar ol y llall, ymofyn a oedd dim ar fy meddwl am bregethu; ac o'r diwedd addefais fod. Yn fuan ar ol hynny dygwyd fy achos o flaen y cyfarfod misol, yr hwn a anfonodd y Parch. William Jones, Dolyfionddu, i'r lle, i ymddyddan â mi yn yr eglwys. Bu yr hen weinidog yn lled lawdrwm arnaf, ond daethum allan rywfodd, a chefais fy anog i bregethu o fewn rhyw gyleh bychan o'r wlad. Yr oedd rhyw gryn lawer o son drwy y cylchoedd cyfagos, fod pregethwr newydd yn Abercywarch, a daeth rhyw un i ofyn fy nghyhoeddiad i Mallwyd. Dyma y waith gyntaf i mi fyned i'r pwlpud i bregethu; a'r testyn oedd Rhuf. 8: 13; "Canys os byw yr ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch," &c. Aethum drwyddi rhwng tywyll a goleu, heb ddim neillduol o ochr yn y byd; ond fod pawb yn fy mhwyso a'm mesur drwy yr holl ardal, ac ambell un yn ddigon dwl i ddyweyd wrthyf â pha fesur y mesurent fi."

Y mae yn ddigon priodol i ni alw sylw y darllenwyr eto at rai ffeithiau a grybwylla ein gwrthddrych yn y benod hon; a gellir dywedyd yn gyntaf oll, mai y diwygiad nerthol hwnw a elwir yn fynych "Diwygiad Beddgelert," ydyw yr un y crybwyllir yn flaenorol am dano yn Ponterwyd. Y mae yn debyg mai o herwydd iddo dori allan yn gyntaf yn Beddgelert, yn Arfon, G. C., y rhoddwyd yr enw hwn arno. Fe deimlodd yr eglwys fechan oedd yn Beddgelert fod rhyw ireidd-dra

newydd yn ymweithio i ddefosiynau crefyddol y bobl gyda dyfodiad y flwyddyn 1817 i mewn; ond yn mis Mawrth fe'i tarawyd hi â syndod dirfawr wrth weled un ymgeisydd newydd yn dyfod i ymfyn am aelodaeth ynddi; ac yn nechren haf wele ddau neu dri eraill yn troi eu hwynebau atynt ar yr un neges, a'u teimladau yn dra ysig. Ond yn mis Awst, y flwyddyn hono, y rhwygwyd y nefoedd, ac y disgynodd Duw nes y toddodd y mynyddoedd o'i flaen. Ymdaenodd y diwygiad hwn trwy Ogledd a Deheudir Cymru, yn ysbryd barn ac yn ysbryd llosgfa ar lygredigaethau eu hardaloedd, ac i greu ar bob trigfa o fynydd Seion gwmwl a mwg y dydd, a llewyrch tân fflamlyd y nos; ac i osod amddiffyn ar yr holl ogoniant. Parhaodd y diwygiad hwn yn ei nerthoedd cryfion am lawn pedair blynedd, gan ddwyn miloedd o Gymry o dywyllwch i oleuni. Gall-em farnu fod y diwygiad gogoneddus hwn wedi cyrhaedd cymydogoeth dawel a mynyddig Ponterwyd tua diwedd y flwyddyn 1819, neu ddechreu y flwyddyn ganlynol.

Ffaith bwysig arall a gododd i'n sylw yn y benod flaenorol ydyw yr arbenigrwydd mawr a roddid gan yr eglwys yn y dyddiau hynny i'r addoliad teuluol. Edrychid y pryd hwnw ar gyflawniad rheolaidd yr addoliad teuluol yn gymwysder anhebgorol er cael aelodaeth eglwysig; ni chaniateid i neb nesáu at fwrdd yr Arglwydd os na byddai wedi codi addoliad i Dduw yn ei dy, oddieithr eu bod yn cael eu lluddias gan ryw ddiffyg naturiol, nen amgylchiadau anorfod. A chan fod rheolau dysgyblaethol y Trefnyddion Calfnaid yn galw am hynny, ni allasai eu swyddogion eglwysig hwy beidio ei gario allan yn ymarferol, heb fradychu yr ym-

ddiried a roddes y cyfundeb iddynt, hyd oni elwid y rheol yn ol o'u cyffes.

Erbyn hyn y mae yn rhaid i ni addef, er ein gofid, fod llawer iawn o deuluoedd ag sydd yn ystyried eu hunain yn aelodau gyda y gwahanol enwadau crefyddol Cymreig, yn dangos y diofalwch mwyaf, os nad cryn lawer o wrthwynebiad i'r hen arferiad anrhydeddus hon. Y mae ymddygiadau crefyddwyr y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg yn hynod wahanol i ymddygiadau crefyddwyr y ddeunawfed ganrif tuag at y rhan hon o wasanaeth Duw. Yr oedd ein tadau yn edrych ar addoli Duw yn eu teuluoedd yn ymarferiad hanfodol i dduwioldeb, a ninau yn edrych arno fel peth achlysur-ol yn unig; yr oeddynt hwy am ei gadw i fyny, ac eangu ei derfynau, a ninau am ei dynu i lawr a chyfyngu arno. Yn awr, os ydyw sefyllfa crefydd yn nheuluoedd ein haelodau eglwysig wedi ei darostwng gan y genedlaeth bresenol, i'r safle isel a grybwyllwyd, mae yn hen bryd i ni ystyried beth yw ein rhwymedigaeth yn wyneb hyny; pa un ai gadael i'r addoliad dwyfol i gilio yn raddol o'n tai neu ynte ymnerthu trwy Dduw i'w dderchafu eto i'w anrhydedd dechreuol yn holl breswylfeydd Jacob.

Pan y gogwyddom ein clust i wrando beth a ddywed yr Arglwydd, clywn Jeremiah yn erfyn arno dywallt ei lid ar y teuluoedd ni alwasant ar ei enw; a Zechariah, drachefn, yn dywedyd mai un o ganlyniadau adfywiad crefyddol fydd dyfod o bob teulu wrtho ei hun i alaru ger bron yr Arglwydd; ac y mae hanes rhai rhagorol y ddaear yn mhob oes, yn dangos eu bod yn ystyried yr addoliad teuluol yn wasanaeth mor anrhydeddus fel nas gallent ei esgeuluso. Yr oedd *holl saint* yr Hen

Destament yn addoli Duw yn eu tai yn ogystal ag Abraham, Job, Jacob, Joshua, Dafydd, &c.; ac y mae llyfrau yr Actau a'r Epistolau wedi eu britho á hysbysiadau am rai rhagorol y Testament Newydd yn dilyn yr un arferiad canmoladwy. A hyd yn nod pe gallai esgeuluswyr y ddyledswydd hon brofi nad oes gorchymyn uniongyrchol yn y Beibl am ei chyflawniad, ni byddai eu rhwymedigaeth hwy yn ddim llai i wneyd hyny, o herwydd yn un peth, fod gogwyddiad cyffredinol gair Duw yn ei chydabod yn ordinhad ddwyfol; ac hefyd am ei bod yn gynyrch naturiol duwioldeb, pan y cymero feddiant o ddirgel ddyn y galon.

Gelwir y darlennydd i sylwi yn mhellach ar y mater hwn yn ei gysylltiad á'i ganlyniadau, er mwyn iddo weled y golled drom sydd yn dyfod i ran y teulnoedd sydd yn esgeuluso addoli Duw yn eu tai; ac er mwyn iddo, ar y llaw arall, gael golwg ar yr enillion dymunol a gyrhaeddir drwy yr ymarferiad rheolaidd ag ef. Syllwr am fynyd ar deulu profsedig heb addoliad i Dduw o'i fewn; dichon y gwneir ef i fyny o wr a gwraig, a nifer o blant ienainc, yn nghyd ag un neu ddau o wasanaethyddion. Ni bydd yno neb yn darllen penod o'r Beibl yn gyhoeddus, na neb yn ymostwng yn gyhoeddus, o flaen y drugareddfa mewn gweddi, nac yn gofyn benthith ar eu bara beunyddiol, o ddechreu y flwyddyn hyd ei diwedd; ac ni bydd yno byth ymddyddan am bethau sylweddol crefydd ychwaith. Darllenir yno lawer ar baprau newyddion, yn nosweithiol a Sabbothol; siaredir yno hefyd weithiau am bethau amgylchiadol crefydd ac am feiau crefyddwyr. Dyna y man agosaf at dduwioldeb y sanga y teulu arno o flwyddyn i flwyddyn drwy eu hoes. Pwy a garai i'w blant gael eu

dwyn i fyny mewn teuluoedd o'r fath yna? A phwy a ddymunai i'w hiliogaeth am luaws o genedlaethau, gael eu hanfon allan i'r byd o'r fath gelloedd afiachus? Nis gall neb ddymuno y fath beth os bydd ei gydwybod yn effro; eto y mae torf o blant Cymry yn cael eu hanfon allan yn flynyddol o'r cyfryw deuluoedd. Nid oes genym sail i feddwl y newidiant eu cyfeiriad ar ol gadael aelwyd eu rhieni, o herwydd y mae ymarwedd- iad eu rhieni wedi ei argraffu yn ddyfnach yn eu medd- yliau na'u cyngorion; a'u hesiamplau yn anhaws eu dileu o'u calon na'u hanogaethau goreu. Y mae byw- am ddeuddeg neu bymtheg mlynedd i edrych ar eu rhieni yn esgeuluso y Beibl, yn ymwrthod a gweddio, ac i edrych yn ysgafn ar grefydd a'i gwasanaeth, wedi ei dderbyn mor drwyadl ganddynt nes gwneyd eu har- ferion hwy, yn arferion iddynt hwy eu hunain. Y mae deddfymarferiad mewn teulu yn bur debyg i ddeddf ysgogiad (*law of motion*) mewn natur; fel y mae yr hyn a ysgogir yn cadw yn barhaus ar yr un cyfeiriad, os na atelir ef gan ryw ddeddf arall, felly y mae plant ieuainc yn cadw at yr un cyfeiriad a gawsant gan eu rhieni yn moreu eu hoes. Pa ryfedd fod cymaint o bobl ieuainc yn gwibio gyda phleserau pechadurus ar hyd wyneb y ddaear, gan fod y fath lygredigaethau wedi eu magu yn eu cyfansoddiad, wrth anadlu awyr afiach- us teuluoedd amddifad o arferion crefyddol? Y mae arferion drwg wedi tyfu yn arferion mor gryfion yn- ddynt cyn gadael cartref, fel y bydd eu cyfnewid yn- waith mor anhawdd ag a fyddai cyfnewid natur ei hunan. "A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu y llewpart ei frychni? felly chwithau a ellwch wneuthur- da, y rhai a *gynfeinwyd* a gwneuthur drwg."—Jer- emiah 13: 23.

O'r tu arall, y mae yn briodol i ni gofio fod enillion y teuluoedd sydd yn cyflawni yn deilwng wasanaeth crefyddol yn eu tai, yn eiddo anmhrisiadwy i'r teulu. Addefir yn gyffredin mai y teulu yw y sefydliad cymdeithasol henaf yn y byd, a'r mwyaf naturiol a goruchel, yn gystal a hwyaf ei barhad hefyd, gyda yr eithriad o eglwys Crist. Seiliodd Creawdwr a deddfwr natur y gymdeithas hon ar berthynasau naturiol, yr hyn yw y rheswm mawr am ei bod yn goroesi pob cymdeithas ddaearol arall, o'r llywodraeth wladol hyd y gymdeithas elusengar ddistadlaf, y rhai sydd o darddiad celfyddydol, ac yn gorphwys i fesur mawr ar amgylchiadau. Mewn gair, gellir dywedyd mai hon yw y gymdeithas fwyaf urddasol a chysegredig ar y ddaear, ar ol i ni adael yr eglwys yn eithriad. Yn awr, gan mai cymdeithas y saint yn Nghrist yw y gymdeithas anrhydeddusaf ag y gall dyn fod yn aelod o honi, a bcd y deuluol yn agosaf ati mewn urddas, y mae yn rhaid fod gwasanaeth Duw yn y teulu, yr hwn sydd yn cyflwyno y ddwy yn nghyd, ac yn eu gwneyd yn "eglwys yn y ty," yn werth o'r mwyaf i'r teulu, yn annibynol ar ei ganlyniadau. Yr hyfrydwch uchaf ag y gall natur foesol dyn ei fwynhau byth ydyw cymundeb â Duw, ffynon y dyfroedd byw, pa un bynag ai yn yr eglwys a fo yn y ty, ai ynte yr hon a fo yn y cysegr, y deuir o hyd iddo. Y mae hwn o natur mor bur a goruchel, fel y mae y Duwdod anfeidrol, yr hwn sydd a'i hanfod ynddo ei hunan, yn gallu ymhyfrydu ynddo. "Mor deg yw dy gariad, fy chwaer a'm dyweddi! pa faint gwell yw dy gariad na gwin, ac arogl dy olew na'r holl beraroglau."

Dylem ystyried yn mbhellach fod y "ddyledswydd

deuluol" yn dylanwadu yn hynod o fuddiol ar ddyfodol y teulu, ac yn enwedig ar y plant ieuainc a ddygir fynny ynddo. Y mae y meddwl dynol wedi ei gyfaddasu i dderbyn argraffiadau odliwrth y gwrthddrychau sydd yn sefyll o'r tu allan iddo ef ei hun; y mae y llyfrau a ddarllenir, yr ymddyddanion a wrandewir, yr ymddygiadau a ganfyddir, &c., yn cerfio eu delw i ryw fesur ar y meddwl. A chan mai yn nhymor ieuencyt y mae y meddwl yn ei ansawdd dyneraf, y mae yn amlywg mai yn y tymor hwnw hefyd y mae yn yr ansawdd debycaf o dderbyn yr argraffiadau dyfnaf a mwyaf parhaol. Y mae awyr foesol y teulu, pa un bynag ai drwg ai da, sanctaidd ai halogedig, fyddo, yn sicr o roddi gogwyddiad dystaw, ac eto cryf, i feddwl y plant. Gellir meddwl fod rhieni gwir grefyddol yn offerynol i fagu tueddiadau rhinweddol yn nghalonau plant yn foreu iawn. Os bydd y gymdeithas deuluol yn cael ei henainio ag ysbryd addoli, fe fydd ei hawelon tyner a sanctaidd yn debyg o roddi gogwyddiad o'r un natur yn y meddwl mabanaidd, yn bell cyn ei fod wedi dyfod yn alluog i drafod y gwirioneddau mwyaf syml yn nhiriogaethau y deall. Yn y tymor cynar hwn ar y bywyd y mae yr arferion dyfodol yn cael eu cenedlu, a'r elfenau hynny sydd yn cyfansoddi ei gymeriad dros weddill ei oes yn cael eu ffurfio. Y mae llawer o feddwl yn y dywediad byr hwnw, mai "Bwndel o arferion yw dyn." Arferion sydd yn cyfansoddi y cymeriad bob amser, oddieithr i weithrediadau goruwch-naturiol gael eu dwyn yn mlaen yn yr achos.

Y mae lluaws mawr o engreiffiau yn cynyg eu gwasanaeth i'r ysgrifenydd, er dangos y buddioldeb mawr sydd yn dilyn yr arferiad o addoli Duw yn deuluol,

newn ystyr naturiol ac ysbrydol, aniserol a thragywddol; ond y mae byrdra yn gwahardd i mi ymwithio a mlaen i fanylion y pwnc, gan fod y darllenydd newn eithaf cyfleusdra i wneyd hyny ei hunan, oddi-rth yr hyn a ysgrifenydd eisoes.

Cyn terfynu y benod hon gwahoddir y darllenydd i edrych ar yr eiddgedd cryf a ddangosai ein tadau o aid sancteiddiad y Sabboth. Y mae yn amlwg fod yn gwrthddrych wedi cymeryd gormod o hyfdra ar dydd yr Arglwydd, fel y dywed yn flaenorol, drwy ei darostwng yn gyhoeddus, fel y gwnaeth, i wasanaethu canion bydol; ac y mae mor amlwg a hyny hefyd, ai dyledswydd yr eglwys oedd defnyddio rhyw fodd a dybid yn effeithiol i ddal i fyny ei anrhydedd, yn yneb yr ymosodiad a wnaethid arno gan aelod eglwysig. Nid eithriad yn eglwysi efengylaidd Cymru oedd y ddysgyblaeth hon a weinyddwyd yn Ponterwyd, ad amlygiad o'i barn a'i harferiad cyffredinol yn ne-reu y gaurif bresenol. Yr oeddent oll yn teimlo yn gerddol dros sancteiddiad dydd yr Arglwydd, ac yn hyn mawr sel am fwrw o'u plith bob aelod a geid yn log o esgeuluso ymddwyn yn ddihalog tuag ato; o arwydd dyma oedd cyfraith y ty. Yr oedd ymddyddau meibion Israel at y Sabboth yn dylanwadu ar eu melodaeth eglwysig o dan yr hen oruchwyliaeth; can- os ceffid rhyw un yn euog o dori gorchymyn y Sab- both, byddai y ddeddf wladol yn tori yr enaid hwnw o plith ei bobl; ond, os amgen, y ceid ei fod yn ei an- rhydeddu ef yn briodol, dywedai yr Arglwydd wrtho, "Mi a wna i ti farchogaeth ar uchelfeydd y ddaear, ac a'th borthaf ag etifeddiaeth Jacob dy dad." Yn y modd hwn yr oedd y Sabboth yn sefyll yn arwydd o'i

bohl. “ Sancteiddiwch hefyd fy Sabbothau, fel y byddont yn arwydd rhyngof fi a chwithau, i wybod mai myfi yw yr Arglwydd eioh Duw chwi.”

Yr ydys yn ystyried fod rhwymedigaeth foesol y Sabboth ar ddyn yn sefyll uwchlaw, neu o'r tu allan i gylch amgylchiadau, a hyny o herwydd ei fod yn gorphwys ar anghyfnewidioldeb y Duwdod, yn ei berthynas â natur foesol y dyn. Wrth i ni edrych ar hawliau y Sabboth yn y goleu hwn, y mae yn rhaid i ni eu cydnabod yn anghyfnewidiol, yn yr un modd a hawliau Arglwydd y Sabboth ei hunan. Gan hyny os addefir fod ei ofynion yn fanwl ar had Abraham yn mlynnyddoedd yr hen oesoedd, bydd hyny yn profi hefyd ar unwaith eu bod felly eto ar hil Gomer o dan derfynau yr oesoedd? ac os oedd yn galw ar ddyn mewn un cyfnod, i gydymffurfio â'i reolau moesol, diau ei fod yn galw arnom ninau i wneyd hyny, yn yr un ffunud yn y cyfnod presenol. Er hyny ceir cwynion mynych, mynych, y dyddiau hyn, o'r eglwysi efengylaidd, yn eu gwahanol gangenau, fod lluaws o'u haelodau yn cael eu goddef i fyw yn yr arferiad o halogi y Sabboth, heb i'w hawdurdodau ddangos digon o wrthwynebiad i'r cyfryw ymddygiad; goddefir iddynt gyflawni llawer o weithredoedd anghydwedol â'i sancteiddrwydd, a byw mewn esgeulusdra cyhoeddus o'r dyledswyddau sydd i'w cyflawni arno. Dichon mai yr atebiad mwyaf cyffredin a geir i'r cwynion hyn ydyw, na oddefir dysgyblaeth eglwysig yn awr, fel yn mlynnyddoedd yr hen oesoedd; ac o herwydd hyny fod canlyniadau ei gweinyddiad yn fwy gofidus yn fynych na phresenoldeb y bai. Ond er hyny, gwell fyddai i'r eglwys weithredu cryn lawer yn ychwaneg, a siarad mwy mewn gwedd

addysgiadol, a llai o dan ffurf gyhuddiol a bygythiol. Tybygem yn sicr mai diffygion pwysig iawn sydd yn ymddangos yn ein mysg fel swyddogion eglwysig yn y dyddiau hyn, ydyw ein camgymeriadau gyda y gweithrediadau uchod.

Y mae yn wirionedd amlwg fod ceryddon eglwysig yn cael eu dilyn gan effeithiau pur wahanol i'w gilydd, o dan wahanol amgylchiadau; ac fe allai fod y canlyniadau yn gwisgo gwedd anfodhaol, yn fynychach yn bresenol, nag oeddynt yn nyddiau ein tadau. Gallem farnu fod ymladdau a thramgyddiadau o herwydd ceryddon eglwysig yn bethau mor ddyeithr yn y dyddiau hyn, ag ydyw heddwch a mwyneidd-dra mewn canlyniad iddynt yn ein dyddiau ni. Addefir gan bob dosbarth, braidd, yn ein plith, fod hyn yn wirionedd rhy amlwg i'w guddio na'i wadu. Gan hynny dylem ymofyn yn ofalus o ba ffynonell neu ffynonellau y tarddodd y cyfnewidiad mawr hwn ar ganiyniadau gweinyddiad dysgyblaeth eglwysig. Y mae yn ddiam-eu fod y gwrthweithiad hwn a welir yn cyfodi mor fynych yn ein mysg yn erbyn gweinyddiad dysgyblaeth geryddol yr eglwys, yn tarddu yn wastad oddiwrth syniadau ysgeifn neu arwynebol am bechod, ar y naill law, ac ar y llaw arall, am rwymedigaeth yr eglwys Gristionogol i gadw i fyny yn barhaus burdeb ei chalon a sancteiddrwydd ei bywyd o flaen llygaid y byd. Ar lun o syniad mewdol y cnawd, wedi ei weithio ar yr allanol yw holl weithredoedd y cnawd. "Megys mewn dwf y mae wyneb yn ateb i wyneb, felly y mae calon dyn i ddyn." Cynyrch meddwl wedi ei lygru yn flaenorol, yn wastadol, ydyw y gwrthweithiad hwn a ganfyddir yn erbyn yr ordinhad hon o eiddo Crist, os bydd hi yn

cael ei gweinyddu wrth fesur cywir, ac mewn ysbryd priodol. Gwelir yn amlwg mai mewn amseroedd enbyd, y bydd yr ysbryd hwn yn ymddangos grylaf, o herwydd mai un o adar y nos ydyw efe; ond pan y byddo merch Seion yn gwisgo ei sandalau, bydd yntau y pryd hwnw yn ymgilio at y waudd a'r ystlumod am loches.

Y mae genym le cryf i ofni hefyd fod yr ysbryd blin hwn wedi cael cryn lawer o fagwraeth o bryd i bryd oddiwrth ymyraeth personau o gymeriad amheus & gweinyddiad dysgyblaeth. Un o'r pethau tebycaf o lesteirio dybenion ceryddon eglwysig ydyw eu bod yn cael eu gweinyddu gan ddynion na byddo eu duwioldeb wedi esgyn uwchlaw amheuaeth yn meddwl y goddefydd. Pan y collo cymdeithas grefyddol ei hymddiried yn ngwirionedd crefydd bersonol ei swyddogion, fe gyll ar unwaith bob parodrwydd i gydymffurfio & gweinyddiad eu llywodraeth yn yr eglwys, pa mor gywir bynag y dygwyddo ei bod; o herwydd paham dysgwylir i grefydd y diaconiaid fod uwchlaw amheuaeth y bobl, yn yr un modd a chrefydd y gweinidogion, er sicrhau llwyddiant eu swyddau yn nghysegr Duw.

Peth arall sydd yn achlysur o aflwyddiant hon yn fynych, yw y dymer afrywiog a ddangosir wrth ei gweinyddu. Os goddefir i'r "tarawydd" gymeryd safle y "tirion," yn y weinidogaeth hon, fe fydd ei haflyddiant yn sicr; o herwydd y mae pob ysbryd yn cenedlu ei ryw yn wastad, yr un fath a phob cnawd. Ac y mae yn bur amlwg fod llawer o dân dyeithr yn cael ei osod ar allorau Duw gyda phob rhan o wasanaeth y cysegr, er fod ei gludwyr yn ddigon hygoelus i'w alw yn dân o'r nef, ac yn sêl Arglwydd y lluoedd. Gofyn-

wyd unwaith i droseddwr a fuasai o dan gerydd pur lym yn yr eglwys y nos flaenorol, pa fodd yr oedd efe yn teimlo o dano, pan y caed yr atebiad canlynol: "Wel, yr oedd yr olew yn eithaf cymwys i'm clwyfau i, ond yr oedd y brawd a'i gweinyddodd wedi berwi cymaint arno ar ei dân ei hunan, fel y mae wedi agor llawer o glwyfau newyddion, a dyfnhau yr hen archollion yn ddirfawr, yn lle eu gwellâu." Gwelir yn amlwg fod y cerydd a gafodd ein gwrthddrych am dori y Sabboth, gan hen Fethodistiaid Ponterwyd wedi dylanwadu yn hynod o iachusol arno, ac nid rhyfedd hyny pan y cofier fod eu dull o'i weinyddu wedi dwyn argyhoeddiad trwyadl i'w feddwl o'u heiddigedd diffuant dros gadwraeth sanctaidd dydd yr Arglwydd; ac o dyn-erwch a gofal eu calon am ei adferiad yntau, a'i ddychweliad buan yn ol i "anrhydeddu Sanct yr Arglwydd" yn fanylach nag y gwnaeth erioed o'r blaen.

PENOD V.

EI GYCHWYNIAD GYDA'R WEINIDOGAETH.

Yn awr gadawir i Mr. Williams fyned rhagddo eto i adrodd ei hanes o'r amser y dechreuodd bregethu hyd ei ordeiniad yn y Bala, pan oedd yn 37 oed.

"Gyda fy mod allan o'r plisgyn fel cyngorwr, symudodd Rhagluniaeth fi i Lanwyddelen. Yr oedd hi yno yn ddiwygiad cryf, yr achos crefyddol yn flodeuog a llwyddianus—cynulleidfa fawr, capel mawr, ac eglwys luosog, ac ynddi amryw bregethwyr, a minau yn ieuanc ac anwybodus, a'm teimladau yn anghysurus mewn lle mor fawr a dyeithr, a da fuasai genyf gael

myned yn ol i'm hen gartref llwyd yn Abercywarch. Y Sabboth cyntaf, dybygaf, galwyd fi i bregethu yno i dyrfa fawr, ac yr oeddwn bron llewygu wrth ddringo i'r areithfa; ond gan fod y diwygiad heb fyned dros-odd, a minau yn gallu gwneyd swm, beth bynag am sylwedd, pa fodd bynag torodd llawer i wylo, gorfol-eddu a molianu, fel y cuddiwyd fy ngwendid a'm gwarth i raddau mawr. Yr oedd yno un gwr ieuanc yn rhagori ar bawb ar y *gallery*; bloeddiat yn groch yn y dechreu, ond yn mhen ychydig daeth yn fwy *systematical*, a chymerodd o dan ei sylw ddameg y deng morwyn, ac aeth drwyddi yn gampus. Adwaenid y gwr hwnw ar ol hynny wrth yr enw y Parch. Richard Jones, Llanfair. Daeth allan yn bregethwr yn bur fuan ar ol hyn. Bum yn yr ardal hon am flwyddyn, a chefais fy ngalw i'r cyfarfod misol yn y tymor hwnw, pryd yr ymddyddanwyd â mi am fy mhrofiad, fy egwyddorion, a'm cymelliad i waith y weinidogaeth. Yr oeddwn yn blentynaid, anwybodus, ac ofnus; ond bu y brodyr yn dyner iawn wrthyf, ac estynasant fy maes llafur drwy gylch Dosbarth yr Ysgol Sabbothol. Symudais oddiyma i Beula, Manafon; a phan oeddwn yno, helaethwyd fy nhertynau llafur i ddau neu dri o ddosbarthiadau yr Ysgol Sul, yn nghyda goror Clawdd Offa. Erbyn hyn yr oeddwn mewn profedigaeth newydd; yr oedd yn rhaid i mi bregethu rhyw ychydig yn Saesoneg; ac er mai Sais bychan iawn oeddwn, gwnaethum fy ngoreu i ysgrifenu fy mhregethau yn Saesoneg a'u dysgu allan wedi hynny, ond mynych y byddai y bregeth yn fy ngadael yn y pwlpud, a'm gadael i ymbalfalu yn y tywyllwch; ac yn wir bydd yn dyfod yn well weithiau fel hyn nag yn y *straight jacket*. Gweddio yn Saesoneg oedd yn helbul garw; *dear me*, hi fu yn ddrwg arnaf lawer gwaith yn y weddi Saesoneg. Yr wyf yn gwybod fod cael geiriau gweddi yn fwy peth nag ysbyrd gweddi y pryd hwnw; peth annheilwng a phechadurus yw rhoddi ymarferion crefyddol yn ysgol i ddysgu celfyddyd neu iaith. Bum yn llafurio am ryw dymor yn y dull gofidus hwn. Yr oedd pryd-

nawn Sadwrn genyf at fy llaw fy hun, ond byddai yn rhaid i mi fod yn nghyfarfod y plant yn yr ysgol erbyn boreu Llun. Anaml y byddwn yn cael cyfarfod misol o'r lle anial hwn, ond galwyd fi i un o'honynt gyda y bwriad o'm holi yn y tri pheth y bum ddwywaith dan arholiad ynddynt yn flaenorol, sef fy mhrofiad personol, fy ngwybodaeth yn egwyddorion yr efengyl, a phynciau y Cyffes Ffydd, a fy nghymelliadau i waith y weinidogaeth. Yr oedd y naill arholiad yn myned yn drymach na'r llall. Penderfynwyd yma fy nghyflwyno i'r gymanfa, ac felly derbyniwyd fi yn bregethwr i'r holl fyd Methodistaidd, yr hyn a wasgodd yn drwm ar fy meddwl, o herwydd y cyfrifoldeb mawr a ddaethai arnaf drwy hyn.

Wedi fy nerbyn i'r gymanfa, meddyliodd O. Jones, Gelli, am gael ychwaneg o ysgol i mi, a chafodd hanès lle manteisiol i mi gyda y Parch. J. Williams, gweinidog yn nghyfundeb Lady Huntingdon, bum' milldir i'r dwyrain o Gaerlleon. Erbyn i mi fyned yno, *boarding school* i *ladies* a gynelid gan y boneddwr a'i wraig, ond o herwydd ei agosrwydd a'i gynesrwydd at y Methodistiaid, cymerodd fi dan ei addysg i ddysgu gramadeg, a chyfansoddi yn yr iaith Saesoneg. Ni welais gystal trefn a dysgyblaeth ar ysgol yn un man ag a welais yma; ond gwaith caled iawn i mi oedd dysgu gramadeg; yr oedd yn sych iawn; nid oedd ynddo damaid i enaid na chorff i'w gael. Ar yr un pryd dywedai fy athraw parchus na welodd nemawr yn dysgu yn fwy cyflym na mi. Yr oeddwn yn dechreu darogan am ddychwelyd yn ol i'm cartref; ond bu fy athraw yn crefu yn daer iawn arnaf fyned i Chusant College am bedair blynedd, ac y cymerai ef fy ngofal tra y byddwn yno; ond fel y bum ffolaf, gwrthodais y cynygiad, a gorfu arnaf edifarhau drwy fy oes am y fath hurtrwydd. Dylaswn ddywedyd yn gynt, fy mod wedi cael cynygiad gan offeiriad parchus yn Swydd Drefaldwyn i fyned i goleg perthynol i'r Eglwys Sefydledig, cyn i mi ddechreu pregethu gyda y Methodistiaid; ond nid wyf

wedi edifarhau byth am wrthod y cynyg hwnw, am nad oes genyf fawr o feddwl o Eglwys Loegr.

Dychwelais o'r lle hwn i Swydd Drefaldwyn, a dechreuais lafurio yn benaf yn ngoror Clawdd Offa drachefn. Yr oeddwn erbyn hyn wedi dysgu Saesoneg i raddau, o leiaf yn well na chyn myned i'r ysgol at Mr. Williams; ond ni bum erioed yn teimlo yn gartrefol yn yr iaith Saesoneg, yn enwedig wrth weddio, a defnyddio yr Ysgrhythrau wrth bregethu, canys yr oedd helbul cael geiriau yn rhwystr mawr i deimlad ac ysbryd gweddi. Yr oedd yr hen iaith fel brychni y llewpart trwy fy holl gorph, enaid, meddwl, a mer fy esgryn, geiriau ac ystumiau, serch a chof. Meddwl Cymreig a thafod Saesoneg sydd anhwylyd iawn; byddai peiriant cyfieithu yn cael ei osod rhwng y meddwl a'r tafod, yr hyn a wnai ddwbl waith i mi; a gwaeth na'r cwbl, anghelyfdd a chlogyrnaidd oedd y *job* wedi y cwbl. Yn y cyfwng hwn bum yn eistedd i lawr lawer gwaith, ac yn wylo wrth afonydd Clawdd Offa, gan ddymuno rhyddhad o gadwynau iaith Hengist, i chwaraeu fy mreichiau gweiniaid yn nyfroedd yr iaith Gymraeg.

Yn y flwyddyn 1827, dychwelais i Lanidloes i fyw. Yr oedd yr achos yn gryf iawn yno y pryd hwnw, y swyddogion eglwysig yn dderw mawr, uchelfrig, cryfion, o 15 i 20 o honynt, rhwng gweinidogion, pregethwyr a diaconiaid, a'r olwg arnynt fel llu banerog, a minau, y bychan bach, yn crynu fel deilen yr aethnen o dan yr awelon. Byddent yn rhwygo troseddwy'r yn ddychrynlyd weithiau, ac yn wir yn ysgwyd y diniwed lawer gwaith nes bron ysgwyd ei enaid allan o'i gorph; mewn gwirionedd yr oedd arnaf fi eu hofn, ond buont yn dra charedig wrthyf fi; galwent fi i holgyddori yr Ysgol Sabbothol yn fynych o flaen y pregethau nos Sabbothau, ac i bregethu hefyd mor aml a'r brodyr cartrefol eraill; ac yr oedd hyn yn gryn beth i wr ieuanc dyeithr yn mysg cwmni y weinidogaeth. Llawer gwaith y bum yn ymaflyd codwm â hwy wrth egwyddori; weithiau byddent hwy yn drechaf, bryd

arall byddwn inau ; ac fel hyn y daethum yn mlaen yn Llanidloes, nes teimlo fy hun wedi llwyr gartrefu yno, i.e. yn fwy felly nag mewn un man y buaswn ynddo o'r blaen.

Yn mhen blwyddyn a haner wedi fy nyfodiad yno, ymbriodais â merch ieuanc o'r enw Mary Jones, o deulu parchus a chyfoethog ; ei mam oedd wraig weddwer's tros ugain mlynedd, canys claddwyd ei gwr pan oedd Mary yn flwydd oed. Yr oedd ei mam a'i nain gyda eu gilydd yn dwyn masnach gwlaneni yn mlaen, ac wedi casglu llawer o gyfoeth. Yr oedd i'm gwraig frawd o'r enw Benjamin Jones, yr hwn pan ddaeth i fyny oedd yn trin y fasnach mewn prynu a gwerthu, a hwythau y gwragedd yn gweinyddu gartref. Wedi priodi aethum atynt i fyw ; cefais le tra chysurus a dedwydd ; ni wybum beth oedd ymgymeryd a gofal teuluol ; ni chefais y drafferth drallodus o wneyd cartref, ond yr oedd yn barod eisoes. Ni bu i mi wybod am drafferthion amgylchiadau, yr oedd fy mara yn dyfod i mi fel y manna i'r Israeliaid. Parhaodd felly arnaf hyd farwolaeth fy mam-yn-nghyfraith, sef 12 mlynedd. Cawsom chwech o blant yn yr amser hwnw, a bu yr hen nain yn cymeryd gofal eu magwraeth bron i gyd arni ei hunan. Bum yn byw gyda hwy am y tymor hwnw, gan ddilyn fy ngalwedigaeth, a phregethu ar y Sabbothau yn unig, gyda yr eithriad o rod-di ambell gyhoeddiad drwy y naill neu y llall o siroedd Cymru. Bum mewn amryw gyhoeddiadau drwy Ddeheudir Cymru ; teithiais bob sir yno ond Sir Benfro. Cefais y fraint o gymeryd rhan yn eu cymansaoedd lawer tro, a'r Arglwydd o'i ras yn cuddio fy ngwendid a'm ffoledd. Gwelais bethau cryfion iawn mewn llawer o fanau, yn enwedig yn Llangwryfon, Llanrhystyd, Llanon, &c., yn Swydd Ceredigion ; hefyd yn Castell-nedd, Pen-y-bont-ar-ogwy, Pile, Merthyr Tydfil, Dowlais, &c., yn Sir Forganwg, ac hefyd yn Crughywel, Llangamarch, &c., yn Swydd Frycheiniog. Bum unwaith hefyd drwy Sir Fon a Sir Gaernarfon, a dim ond unwaith yn fy oes, a gwnaethum y daith hono mewn tair wythnos.

Dygwyddodd i mi fyned rai gweithiau drwy Sir Feirionydd; ond ni bum erioed trwy siroedd Dinbych a Fflint. Nid oedd gweinidogaeth deithiol wedi bod erioed yn rhyw gydweiddol iawn â'm tuedd i; hoffwn y sefydlog a'r gartrefol yn hytrach, am ei bod yn cymell ar ddyn fwy o lasur, ac yn ei gadw yn bellach oddiwrth seguryd. Bywyd segur yw bywyd pregethwr teithiol, a bywyd sydd yn sychu ac yn gwanhau y pregethwr goreu bob yn ychydig.

Peth arall sydd yn y weinidogaeth deithiol yw hau yr had da, heb edrych byth ar ei ol; fel y dywedai y Parch. William Jones, Rhuddlan, "Credwch i gyd heddyw, fel na raid i mi ddyfod yma byth mwy." O! fy hen gyfaill, nid felly; pe buasent i gyd yn credu i fywyd yn yr oedfa hono, oni ddylasit drachefn ddyfod yno i ymgeleddu a meithrin dy blant ar ol eu cael. Dywedwyd wrthyf finau lawer gwaith fod fy mhregethu teithiol wedi bod yn bur fendithiol, yn enwedig yn Mon ac Arfon, ond ni chefais y mwynhad o weled y dychweledigion byth; eto ystyriwyf fy llasur yn cael ei dalu yn dda os bu yn foddion achub *rhai*.

Yn nechreu y flwyddyn 1837, penderfynodd y cyfarfod misol gyflwyno tri o honom i'r gymanfa i gael ein hordeinio, sef John Owen, John Price, a minau. Credwyf mai rhagrith a gwastraff ar ostyngeddwrwydd a hunan-ymwadiad yw yr arferiad o ddywedyd na byddwn yn dysgwyl dyrchafiad eglwysig. Pw! yr wyf yn adwaen y natur ddynol yn rhy dda i greu y fath stff a hwnyna; ond er y cwbl, rhaid i mi gydnabod fod y newydd am hyn wedi effeithio yn ddwys iawn ar fy meddwl, wrth ystyried ei fod yn chwaneu cymaint at fy nghyfrifoldeb. Ond bu nesáu at Dduw yn dda i mi ar y pryd. Galwyd yr wyth oedd i w hordeinio yn y Bala, i ddyfod i gymanfa Llanidloes yn Ebrill, i gael eu harholi. Yr oedd Griffith Solomon, a William Jones, Welsh Prairie, o Sir Gaernarfon; Daniel Roberts, William Morris, a John Phillips, o Sir Fflint; a John Owen, John Price, a David Williams, o Sir Drefaldwyn. A bu yr arholiad yn un maith a manwl

iawn, am fod rhyw rai o honom wedi cael ein cyhuddo o fod yn afiach yn y ffydd; ond daethom allan oll c'r prawf wedi ein cwbl iachau. Yn y Bala, y Mehefin canlynol, traddododd yr hybarch Elias o Fon araeth ragorol ar Natur Eglwys; yna holwyd ni am ein golygiadau ar athrawiaeth yr efengyl, a threfn eglwys, gan y Parch Edward Jones, Aberystwyth; ac ar ol hyn rhoes y diweddar Barch. Henry Rees y Cyngor, yn fanwl a difrifol dros ben; yr oedd y fath na ellais ac na allaf tra byddaf byw ei anghofio—yr oedd yn un ofnadwy bwysig.”

Y mae yn amlwg i bawb a ddilyno symudiadau ein gwrthddrych, o'r amser y dangosodd gyntaf ei duedd at weinidogaethu, hyd ei ordeiniad, fod ein tadau yn ystyried eu rhwymedigaeth i ofalu am fod yn araf a manwl iawn yn eu arholiadau, rhag gollwng neb i'r swydd weinidogaethol heb y cymwysderau angenrheidiol i'w chyflawni yn deilwng. Yr oedd Mr. Williams yn edrych ar hyn yn bwnc o bwys mawr, ac yn ofni llawer yn ei ddyddiau diweddaf ein bod yn llacio yn ein gofal am hyn yr amserau presenol. Ac o herwydd fod arwyddion lled amlwg nad heb achos yr ydoedd efe yn coleddu y syniadau hyn, yr ydym yn galw sylw y darllenydd i sefyll am ychydig uwch ben hyn eto, gan gyflwyno i'w sylw rai nodiadau chwanegol ar alwad i'r weinidogaeth a'r cymwysder angenrheidiol iddi.

GALWAD I WEINIDOGAETH YR EFENGYL.

Mae galwad gweinidog yr efengyl i'w swydd, yn llais dynion ac yn feddwl Duw; yn ddymuniad eglwys y Goruchaf, ac yn ewyllys ei Phen ysbrydol. Nid oes gan yr eglwys hawl i alw neb i weinyddu y swydd gysgreddig hon, ond y rhai hyny y byddo eu grasusau, eu talentau, a'u hathrylith yn argoeli fod yr Arglwydd

Iesu wedi eu neillduo i ddwyn ei enw ger bron y cenedloedd. Un o'r pechodau mwyaf beiddgar yn erbyn uwchafiaeth ac awdurdod Crist ar ei dy ei hun, neu aelodau ei gorph dirgeledig, yw cymeryd yr hyfdra o alw dynion i weinyddu ei swyddau, cyn cael boddlonrwydd mai hyny yw ei ewyllys ef tuag ati. Y mae rhai eglwysi a chyfundebau crefyddol yn dyhoeni ac yn nychu, am flynyddau, mewn trueni a diflandod, wrth ddwyn traul eu hynfydrwydd o bentyru iddynt eu hunain athrawon, heb eu cymwysu gan Ysbryd yr Arglwydd i gyflawni rhwymedigaethau ei swydd. Gwell i'r eglwys gael ei swyddau yn weigion o ddynion, am dymor, na chael dynion gweigion o gymwysderau i sefyll ynddynt. Arwydd o anfoddlonrwydd Duw ar eglwys, yw bod ei swyddau yn cael eu llenwi â dynion amddifaid o gymwysderau i'w cyflawni yn deilwng.

Fel y mae galw dynion i'r swydd hon, heb arwyddion fod Crist wedi eu hethol iddi, yn wrthryfel uchel yn erbyn ei awdurdod ef, felly hefyd o'r tu arall, y mae peidio a galw y rhai a gymwysodd efe, yn ddibrisod sarhaus ar ei ddaioni i'w dy. Gall eglwys, yn nallinèb ei chalon, a rhagfarn a chulni ei hysbryd, ddyfod yn euog ger bron "brawdle Crist," o lofruddio doniau y weinidogaeth, drwy newynu talentau gwerthfawr yn eu mabandod, a llesteirio athrylith fywiog mewn dynion ieuaine. Byddwn yn gorfod ofni fod Ysbryd Duw wedi eu dristâu rai gweithiau yn ein mysg, yn y ffordd hon, nes gwneyd i'w eglwys fyw ar bur ychydig o "fugeiliaid wrth fodd ei galon," ar ryw dymorau.

Gellid meddwl fod galwad yr Arglwydd ar ddyn i waith y weinidogaeth, neu ei waith yn ei anfon i bregethu efengyl Crist, yn gynwysedig mewn *cynyrchu yn-*

ddo gydgyfarfyddiad o'r cymwysderau angenrheidiol i waith y weinidogaeth. Y mae y dyn sydd yn meddu cymwysderau y swydd hon yn sicr o fod wedi ei anfon gan Dduw i gyflawni ei gwaith; ac os bydd y cymwysderau hyny mor *gyflawn ac eglur* ynddo, fel ag i dueddu yr eglwys i roddi derbyniad awyddus iddo i'r swydd, ac i'w wneuthur yn gymeradwy ynddi, ni ddylai efe boeni ei hunan ag amheuon yn nghylch ei anfoniad, ond gwneyd ei oreu i "weithio gwaith yr hwn a'i hanfonodd tra y mae yn ddydd," a "gorphen y weinidogaeth a dderbyniodd gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw." Sail briodol ei alwad eglwysig i'w swydd yw ei neillduad blaenorol gan Dduw. Nid yw yr eglwys i osod ei llaw ar neb ond ar yr hwn a "eneiniodd yr Arglwydd i efengylu i'r rhai llariaidd." Byddai yn ddigon priodol gofyn iddi bob tro yr elo i alw un i'r weinidogaeth, fel y gofynai Samuel i holl lwythau Israel, "A welwch chwi yr hwn a ddewisodd yr Arglwydd, nad oes neb tebyg iddo yn mysg yr holl bobl?" A phan y bydd yn ymlwybro gyda y symudiad pwysig hwn, o dan arweiniad Ysbryd Crist, gellir galw ei heneiniog hi yn "un a ddewisodd yr Arglwydd o'r holl bobl yma, a holl wyr Israel."

Mae yr hwn a alwodd Duw yn cael ei hynodi a rhyw fesur o *holl* gymwysderau y weinidogaeth; nid yw *hel-aethrwydd* o'r naill gymwysder, byth i'w osod yn iawn am y diffyg o gymwysderau eraill yn yr achos hwn. Y mae esgeiriau gweision Crist i fod yn ogyhyd—rhaid i'r gweinidog fod yn "DDYN Duw," yn "WR Duw," yn ddianaf a diargyhoedd. Mae gosod baich *holl* gymwysderau y swydd i droi ar *un* cymwysder, wedi bod lawer gwaith yn brofedigaeth i'r enwadau crefyddol

Cymreig, ar y ddau tu i'r Werydd. Y cymwysder sydd yn tynu sylw yr eglwysi gyntaf, braidd bob amser, yw gogwyddiad meddwl yr ymgeisydd at y swydd—ei awydd am fod yn bregethwr; ac os bydd ynddo ddigon o daerineb a dyfal-barhad i ddal i bwysu ar ddrws y swydd, un i fil na lwydda am dderbiniad iddi, pa mor ddiffygiol bynag fyddo o'r cymwysderau eraill. Ni ddylid edrych ar y duedd hon fel arwydd sicr o alwad dwyfol i'r weinidogaeth, o herwydd y mae agos i bob dyn duwiol wedi teimlo hyny ar ryw dymorau o'i fywyd; a chan fod awydd gwneuthur daioni yn hanfodoli grefydd dda, ac hefyd fod yn ffaith, o fod yr areithfa yn fanteisiol i gyrhaedd yr amcan hwnw, y mae yn achlysur i rai eithaf anghymwys i ymestyn i fyny ati weithiau. Ac felly yr ydym yn ei ystyried yn mhob amgylchiad *arall* yn yr eglwys. Nid ydym yn edrych ar *awydd bod yn ddiakon*, yn arwydd diffael o gymwysder i'r swydd hono, ond i'r gwrthwyneb, rhedir yn fynych i'r eithafion cyferbyniol i edrych arno fel *anghymwysder* pwysig, ac yn rhwystr anorfod i'r dyn a'i meddiano i gyrhaedd y ddiaconiaeth byth. Rhaid addef nas gall y peth sydd yn anghymwysder i'r ddiaconiaeth fod yn gymwysder i'r weinidogaeth, mwy nag y gall yr hyn sydd anghymwysder i'r weinidogaeth fod yn gymwysder i'r ddiaconiaeth. Gan hyny nid dim yn y swyddau eglwysig, na'r cymwysderau i'w cyflawni, sydd yn cynrchu yr ymddygiadau gwahanol uchod, ond gwyrni yn ymddygiadau yr eglwys. Diameu fod chwenych swydd esgob, a swydd diacon, yn fesur o gymwysder i'w cyflawni; eto ymddengys yn llawer mwy cyson â rheolau y Beibl, ac yn llawer mwy cydweddol â deddfau cynenid cymdeithas, i'r eglwys dynu y cymwysder hwn

i sylw, fel pob cymwysder arall, nag i'r ymgeisydd ei hunan wneyd hyny. Yr eglwys a ddylai edrych am ddefnyddiau i'r weinidogaeth, a hi a ddylai gymeryd y cam cyntaf tuag at godi un i'r swydd hon, ac y mae ei gwaith yn aros yn llonydd hyd nes cymhelo rhyw un ei hunan, yn gwneyd yr eithriad yn rheol gyffredin, a'r rheol gyffredin yn eithriad. Ofer yw dysgwyl codi a chynnal urddas y weinidogaeth Gymreig heb i'r eglwys deimlo mai ei dyledswydd a'i rhagorfraint hi yw cychwyn pob symudiad er codi dynion i'r weinidogaeth. A dylai hefyd fod ganddi well trefn, a pherffeithiach cynllun i brofi cymwysderau yr ymgeiswyr na'r un sydd ganddi yn America.

CYMWYSDERAU GWEINIDOG YR EFENGYL.

Y cymwysderau hyn sydd i benderfynu pa fodd y dylai yr eglwys ymddwyn tuag at ymgeiswyr am y weinidogaeth. Os bydd elfenau hanfodol esgob, neu henuriad, yn ymddangos yn amlwg mewn aelod eglwysig, nid oes hawl gan yr eglwys hono i sefyll rhyngddo a'r swydd oruchel hon, nac ychwaith i fod yn ddi-fater ac esgeulus i'w gymell, a rhwyddhau ei ffordd i fyned i mewn iddi. Gall bechu yn erbyn ei Brenin, wrth oedi ac esgeuluso ei alw at y gwaith y cymwyswyd ef i'w gyflawni, yn llawn mor effeithiol a thrwy wrthsefyll ei fynediad ato. Byddai yn ddymunol i'r eglwys fod yn wyliadwrus bob amser rhag iddi drwy fwiad nac amryfusedd, estyn ei llaw yn erbyn eneiog yr Arglwydd. O'r tu arall, os na bydd yr eglwys yn canfod mesur dymunol o holl gymwysderau y swydd wedi cydymgyfarfod yn yr ymgeisydd, ac yntau yn eu "haml hwynt," ni ddylai ei "dderbyn ef i dy," pa faint

bynag fyddo ei daerineb ef am dderbyniad i'r swydd gysegredig hon. Mae yr eglwys yn fynych, yn enwedig yn mysg Cymry America, yn cael ei galw i edrych am y cymwysderau hyn mewn manau ag y maent yn methu yn lân eu canfod. Yr ymgeisydd yw yr hunan-gymhellydd i'r swydd, a'r eglwys o'r hon y mae yn aelod, ar ol pob ymdrech galluadwy, a dywedyd y lleiaf, yn methu yn llwyr a gweled ei fod wedi ei gymwyso i'r sefyllfa y mae yn ei chwenych. Anerchant yr eglwys yn fynych yn ysbryd ac iaith Ahimaas wrth Joab, gan ddywedyd, "Beth bynag a fyddo, gad i minau, atolwg, redeg ar ol Cusi." Wel, os gofyna neb byth iddi felly, yn yr amgylchiad uchod, atebed hithau y cyfryw yn ngeiriau Joab, "Ni byddi di genadwr y dydd hwn, eithr mynegi ddiwrnod arall. I ba beth y rhedi di, fy mab, gan nad oes genyt genadwraeth addas?"

Y mae rhai o'r dosbarth hwn yn cael eu gollwng, rhwng bodd ac anfodd, i'r areithfa, i edrych a geid prawf ymarferol o'u honiadau am eu cymwysderau eu hunain. Ond er i'r eglwys gael pob mantais i edrych arnynt yn y swydd, ac allan o'r swydd, y mae ei phetruserder yn hytrach yn cynyddu nag yn lleihau, er cadw llygaid arnynt drwy eu hoes. Dymunem fod yn dyner iawn at luaws o'n hanwyl frodyr sydd hyd yma heb eu hordeinio—y rhai sydd yn adnabod eu hunain, ac yn ceisio yr eiddo Crist Iesu, ac nid yr eiddynt eu hunain. Byddai yn well genym dori y fraich dde, a thynnu y llygad le, na symud un o wallt eu pen—y maent yn ein calon i fyw ac i farw—*ein brodyr anwyl ydynt*. Ond rhaid i ni addef nad oes genym *allu* i gydymdeimlo â'r personau hyny sydd yn chwedleua yn y conglau, yma ac acw, yn nghlustiau yr aelodau dystadlaf yn yr

eglwys, ac yn dysgu o dy i dy: “Os ydyw dyn yn gymwys i bregethu yr efengyl, ei fod yn gymwys hefyd i weinyddu y sacramentau—y dylent gael eu hordeinio yn weinidogion, a chael gweinyddu bedydd a swper yr Arglwydd. Awgrymant drwy hyn yn fynych eu *bod* yn gymwys i bregethu, ac mai rhywbeth o’i le yn yr eglwys yw yr achos eu bod yn cael eu cadw yn ol o’r breintiau hyny. Ymddengys yn amlwg i ninau fod y dyn a gymwyswyd i bregethu yr efengyl wedi ei gymwyso i weinyddu bedydd a swper yr Arglwydd hefyd, —os derbyniodd efe weinidogaeth yr efengyl gan Grist, efe a dderbyniodd ar yr un pryd yr hawl i weinyddu ei holl ordinhadau, ar ol y rhoddo brawf boddhaol i’r eglwys o’r derbyniad hwn. Ond er ein bod yn cyduno & hwy yn y gosodiad hwn, eto y mae ein casgliad yn wahanol. Y maent hwy yn tynu casgliad y *cadarnhaol* oddiwrth osodiad *amheuol*—y dylent gael eu hordeinio am eu bod yn pregethu, a ninau yn tynu casgliad yr amheuol, oddiwrth osodiad amheuol—fod yn amheus a ddylent gael eu hordeinio, am fod yn amheus a ydynt wedi eu galw at y gwaith o bregethu. Dylid cofio mai yr “os” ydynt yn gymwys i bregethu ydyw yr unig rwystr i’w hordeinio, ac na all neb ei symud o feddwl eglwys Crist ond hwy eu hunain, a hyny drwy weinyddiad neu gyflawniad mor deilwng a chyflawn o’r weinidogaeth, ag i gyfodi eu cymwysderau gweinidogaethol uwchlaw amheuaeth yn meddwl yr eglwys. Y mae yn anhawdd genym gredu fod un eglwys Gymreig, berthynol i un enwad crefyddol yn America, a oeda yn faith ordeinio un pregethwr yn eu mysg, ar ol iddo ef symud yr *os* yna o’u meddyliau. Yn y fan y dywedo eu gweinidogaeth hwy eu bod wedi eu galw gan

Grist i'r weinidogaeth, dywed yr eglwys yn un llais, *Y maent i weinyddu y sacramentau hefyd.* Y mae pob pregethwr yn mysg y Trefnyddion Calфинаidd i'w ystyried ar brawf am y weinidogaeth hyd oni ordeinier ef; ac os bydd yr amser yn cerdded yn faith ar ein cyfeillion yno, dylent gofio mai methu dyfod trwy y prawf yn foddhaol y maent, yn ol barn tystion y Goruchaf ar y ddaear—colofn a sylfaen y gwirionedd.

Y mae cymwysderau gweinidogaeth yr efengyl yn cymeryd i mewn dalentau naturiol dyn. Rhaid i'r pregethwr fod yn ddyn cyflawn, yn meddu ar alluoedd meddyliol cryfion, ac o duedd ymchwilgar, a'i beirianau ymadrodd yn hylaw—ei enaid yn rhydd oddiwrth bob diffyg naturiol, ac yn meddu ar synwyr cyffredin cyflawn, a'i gorph wedi ei gyfaddasu i gyflwyno ei feddwl yn y ffordd oreu at wasanaeth eraill. Y mae holl "weinidogion cymwys y Testament Newydd" wedi eu neillduo a'u cymhwyso o'r bru i waith y weinidogaeth. Lluniwyd hwy yn llestri cymwys i ddal y trysor hwn, yn ffurfiad eu heneidiau, a chywreiniad eu hesgyrn yn nghroth y feichiog. Am hyny y dywed Paul, "Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i trwy ras, i ddatguddio ei Fab ef ynof fi, fel y pregethwn ef yn mhlith y cenedloedd." Yno y dodir y defnyddiau i lawr, y rhai a gysegrir gan eneiniaid Ysbryd yr Arglwydd, yn ei amser ei hunan, i fod yn llestr cymwys i ddwyn enw Crist at y cenedloedd. Dyma lle y cyfansoddir yr elfenau cyntaf—y sefydlir yr egwyddorion sylfaenol, ar ba rai y goruwch-adeiledir yr holl gymwysderau eraill. Anghymesur iawn ydyw galw dyn i bregethu yr efengyl heb ei fod yn meddu rhagoriaeth fel *dyn*; ac nid yd-

ym yn gwybod am nemawr o frychau a anurddodd fwy ar urddas y weinidogaeth, na chodi dynion iddi oedd islaw y *cyffredin* mewn *synwyr cyffredin*. Os bydd yr athraw crefyddol islaw y dysgyblion, y mae yn rhwym o fod yn brofedigaeth iddo ei hun, ac yn llawer gwaeth na bod yn anfuddiol i eraill—bydd yn fagl ac yn rhwysr i'r oes yn ei symudiadau cynyddol.

Mae yn rhaid i'r talentau naturiol hyn gael eu meddianu gan yr Ysbryd Glan—dyfod yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd, er bod yn “weinidog cymwys.” Rhaid eu sancteiddio a'u cysegru “ag olew gorfoledd tu hwnt i'w cyfeillion,” cyn y byddant yn gymwys i ddwyn llestri yr Arglwydd. Dyma sydd yn gwneyd y *dyn yn Gristion*—y dyn anianol yn ddyn ysbrydol—yn ddyn Duw, ac yn llestr etholedig i Grist. Fel megys ag y gwneir Cristion rhagorol o *ddyn* cyflawn, felly hefyd gwneir gweinidog cymwys y Testament Newydd, o Gristion cyflawn a thrwyadl. Rhaid i'r hwn a chwenycho swydd esgob, fod yn “ddiargyhoedd, yn cael tystiolaeth dda gan y rhai oddi allan, yn sobr, yn weddaidd, yn caru daioni, yn gyflawn, yn sanctaidd, yn dymerus,” &c. Mae ei gymeriad crefyddol i esgyn uwchlaw amheuaeth yn marn ei frodyr, cyn y caffo safle briodol ac Ysgrythyrol i chwenych swydd esgob. Mae gair da gan y rhai oddi allan hefyd yn anhebgorol er cysur & llwyddiant y gweinidog. Mae yn wir y gall pregethwr cymwys gael ei erlid a'i gablu; i.e, gall gyfarfod a'r pethau hyn yn gyhoeddus *am* ei fod yn gymhwys; ond nis gall y cyfryw gael ei ddirmygu a'i ddistyru yn ddirgel. Yr oedd cydwybod Herod yn parchu ac yn ofni Ioan Fedyddiwr, hyd yn nod ar y pryd y gorchymynai dori ei ben ef yn y carchar. Nid

peth hawdd yw diystyru yr hwn a wisgwyd â nerth o'r uchelder. Mae delw Duw yn beth anhawdd iawn ei ddirmygu ar y Cristion, beth bynag a fyddo ei amgylchiadau tymorol. Rhwyrstr dirfawr i ddyn i gyflawni gwaith efengylwr yn deilwng, ydyw fod ei grefydd bersonol yn amheus yn ei olwg ef ei hunan, ac yn marn ei gydnabod; nis gall ei weinidogaeth felly gyfarfod â'r croesaw a'r derbyniad a ddylai cenadon Duw ei gael. Byddai codi dyn amddifad o grefydd bur, i'r weinidogaeth, yn gwneyd un cydstad â'r diafol o ran cyflwr, i fod yn gydstad a'r apostolion mewn swydd. Mae lle i ofni wrth edrych ar ddiwedd ambell i bregethwr, "yr hwn a gyfrifwyd gyda ni, ac a gawsai ran o'r weinidogaeth hon—o'r hon y cyfeiliornodd efe i fyned i'w le ei hun:" ei fod ar ol pregethu i eraill, yn anghymeradwy ei hunan—ar ol cyhoeddi dialedd Duw ar ei elynion, yn marw dano drachefn, fel Balaam, y dewin. Gan hyny, ni ddylid codi neb i'r swydd bwysig hon, os na bydd yn hynod mewn duwioldeb, yn ddyn a fyddo yn rhagori mewn sancteiddrwydd a phob gweithred dda, ac yn cario argyhoeddiad i gydwybodau ei gyfeillion ei fod yn "ofni Duw yn fwy na llawer," a'i galon wedi ei thrwytho a'i thymeru â goruchwyliaethau achubol yr Ysbryd Glan.

Cymwysder arall i waith y weinidogaeth ydyw, ymroad ac ymgysgriad y meddwl i wasanaethu Crist, yn y drefn a farno ei frodyr yn addas i'r ymgeisydd. Ar ryw gyfrif, gellir edrych ar hyn yn ffrwyth cymwysderau eraill. Y mae gras, nid yn unig yn allu i wasanaethu Crist, ond hefyd yn gymhellydd cryfaf i hyny. Ychydig a welsom erioed yn meddu ychydig o hynodrwydd mewn crefydd, ar na byddant wedi bod, ryw bryd

neu gilydd, yn awyddu y weinidogaeth hon; ond dylid cofio fod y duedd hon i edrych arni yn gymwysder, mewn cysylltiad â'r cymwysderau blaenorol. Os bydd yn codi oddiar raslonrwydd a duwioldeb y dyn, gellir ei gyfrif yn gymwysder i'r gwaith, ac yn arwydd o alwad dwyfol ato. Yr oedd "cariad Crist" yn cymell yr apostolion i "erfyn dros Grist," ar ddynion, "Cymoder chwi â Duw." Yr oeddent yn ewyllysgar iawn i dreulio ac ymdreulio dros eneidiau dynion—parod oeddent i gyfranau â hwy, nid yn unig yr efengyl, ond eu heneidiau eu hunain hefyd. Mae gweinidogaeth y cymod wedi ei roddi yn y rhai a alwyd gan Dduw i'r swydd hon, ac y mae yn llosgi o fewn eu hesgyrn os na chaiff gyfle i redeg allan yn y weinidogaeth; a thorant allan weithiau i wae: "Gwae fydd i mi oni phregethaf yr efengyl." Y mae y profedigaethau a'r temtasiynau cysylltiedig â'r weinidogaeth yn galw am ymroddiad a phenderfyniad diysgog i barhau yn y weinidogaeth heb lwfrhau na digaloni.

Dichon na ddylid terfynu y sylw hwn heb ychwanegu at y cymwysderau hyn yr angenrheidrwydd am addysg dda. Ni fynem ddywedyd fod dysgeidiaeth yn gymwysder anhebgorol, neu yn elfen hanfodol i'r weinidogaeth. Eto rhaid i ni addef ein bod, ar ol gwranddo a bod yn pregethu yr efengyl am oes faith, yn dyfod yn fwy argyhoeddedig o ddydd i ddydd, mai annoethineb mawr mewn dyn yw ymgymeryd a'r gwaith hwn, os na bydd wedi cyrhaedd gradd lled dda o ddysgeidiaeth, neu ynte ei fod mewn amgylchiad i gael hyn yn fuan. Fel y mae cenedl y Cymry, a chenedloedd eraill, yn esgyn i fynny yn brysur mewn dysgeidiaeth, y maent yn bur debyg o fyned i edrych yn is, is, ar breg-

ethwyr annysgedig. Nid ydym yn canmawl yr edrychiad hwn mewn modd yn y byd, ond yr ydym yn ei grybwyll fel peth pur debyg o gymeryd lle, yn enwedig os na theimlir mwy o'r "nerth o'r uchelder," nag a deimlir yn gyffredin gyda eu gweinidogaeth.

Da iawn genym weled drysau colegau goreu America wedi eu hagog o flaen ein gwyr ieuainc, fel y gallant fwynhau yn siriol eu holl fanteision, a dichon y ceir gweled cyn hir goleg genym ninau o'r eiddom ein hunain, i weinyddu iddynt y wybodaeth fwyaf angenrheidiol, heb eu cadw morfaith gyda phethau ag y gallant wneyd yn eithaf hebddynt.

PENOD VI.

EI ORDEINIAD, A'I LAFUR DILYNOL YN NGHYMRU.

Ymneilldwn am enyd eto i wrando ar Mr. Williams yn adrodd hanes ei helyntoedd, o amser ei ordeiniad yn y Bala, hyd yr amser y symudodd o Gymry i America.

"Y Sabboth cyntaf ar ol yr *ordination*, yr oedd gweinyddu sacrament swper yr Arglwydd yn dygwydd dyfod i'm rhan, a gweinyddu bedydd yn yr un cyfarfod hefyd. Yr oedd rhyw aethau rhyfedd yn rhedeg drwof y dydd hwnw, a da iawn oedd genyf gael ochenidid, a dymuno, a gofyn, 'O, Arglwydd, cymer drugaredd arnaf; cynorthwya fi â'th Ysbryd, a gwna fi yn weinidog cymwys y Testament Newydd!' Ond er fy ofnau a'm gwendid, ymroddais yn llwyr at waith y weinidogaeth hyd y flwyddyn 1840, ysbaid tair blynedd o amser. Yna ymaflais mewn galwedigaeth o fasnachu, gan fy mod yn wrthwyneb i weinidogaethu yn deithiol, a chan nad oedd y drefn o fod yn sefydlog y pryd

hwnw mewn arferiad gan y cyfundeb. Gan na wnai y Corph alw ei weinidogion yn gwbl i'r gwaith, nac ychwaith gynal yn anrhydeddus y rhai oedd yn y gwaith, rhwymais fy hun mewn masnach na oddetai i mi deithio; ac felly penderfynais ymroddi i'r byd masnachol. Gwyddwn ei fod yn niwed mawr i'm gweinidogaeth ac yn nychdod i fy ysbryd inau; ond beth oedd i'w wneyd? yr oedd genyf deulu mawr i'w cynal, a gwaeth na'r diffydd fuaswn heb ofalu am danynt. Nid oedd fy mhregethu yn dwyn i mewn i mi ddigon i gael dillad i mi fy hun, heb son am ddim i gynal y tentu. Bum fel hyn yn dal at y byd a phregethu, o'r flwyddyn 1840 hyd y flwyddyn 1849. Yr oedd y pregethu yn bwyta y fasnach, a'r fasnach yn bwyta y pregethu, am yr yspaid maith o naw mlynedd. Drwy drafferth flin y byddwn yn cael testyn, ac wedi ei gael byddai yn helbul ofnadwy arnaf yn e el rhyw fath o bregeth arno drachefn. Sylwch, nid y byd masnachol yn ei wên oedd yn fy nyrysu, ond yn hytrach yn ei wg a'i siomedigaethau; canys gwaeth na'm dysgwyliaid y troes y byd allan i mi; rhyw fethu yn mhob peth, yn mhob man, y byddwn, yr hyn a'm hargyhoeddodd ganwaith fy mod wedi camgymeryd y cyleiriad trwy gymeryd un anghywir a chyfeiliornus. Ar ol bod yn ymguro am naw mlynedd fel hyn gyda y byd, ac yn methu ymddatod oddiwrtho, na chael yn un man o hono, o'r diwedd, wedi ymgynghori a'r Arglwydd mewn dwysder a difrifwch mawr, gwelwn fod yn rhaid i mi gymeryd cyfeiriad arall. Yr oedd fy nefnyddioldeb bron wedi darfod yn y drafferth fawr gyda y byd; ac er i mi roddi pob peth bron i'r byd, amser, llafur, meddwl, corph, dydd, nos, ac er cywilydd i mi rhaid i mi ddywedyd, Sul, gwyl a gwaith, i raddau helaeth iddo, cuchiai, gwgai, a dinystrai fy amgylchiadau, fy amser, fy nghysur a fy nefnyddioldeb; ie, yr oedd pob peth yn fy erbyn; collais yn fy masnach mewn un mis *saith mil a haner o ddoleri*. Yr oedd yr Arglwydd fel pe buasai yn penderfynu fy nyrysu gyda y byd a'm gwneyd yn dlawd. Safwn yn syn uwch ben yr anialwch yma

yn fynych, a dywedwn, 'Cloddio nis gallaf, a chardota sydd gywilyddus genyf.' Gwyddwn fy mod yn weinidog yr efengyl, ond ni chynaliai y Corff wyr mwy galluog a defnyddiol na mi; gan hyny yr oedd yn anobeithiol am danaf fi. Wel, gofynwn yn syn, Beth a wna? pa fodd y gallaf sefyll ar g'oeedd y byd fel gweinidog, a chynal fy nheulu heb warthruddo crefydd a'm teulu? Dyma gyfyngderau gwasgedig dros ben, yn ddigon gwir!

Byddwn yn cael llythyrau o America y dyddiau hyny yn desgrifio y wlad yn llifeirio o laeth a mel, ac yn llawn o fanteision, yn enwedig i deulu a gynwysai lawer o blant, fel yr oedd fy nheulu i. Yr oedd genyf berthynasau agos yn y Gorllewin, y rhai a roddent anogaethau cryfion i mi i ddyfod drosodd atynt; cefais hefyd lythyrau oddiwrth eglwys y Trefnyddion Calffinaidd yn Wisconsin, yn galw arnaf i ddyfod trosodd, y gwnaent eu goreu i mi. Wedi araf a dwys ystyriaeth, penderfynais ymfudo i America. Diamau mai y coll-edion mawrion y cyfeiriais atynt eisoes a'm gweithiodd i'r penderfyniad hwn, eto gellais ymfudo o'r Hen Wlad heb fod neb yn gallu hawlio dim oddi arnaf ond Duw yn unig. Cryn brofedigaeth i mi oedd tori y cysylltiad oedd rhyngof a phawb a phob peth yn Nghymru; ac yr oedd hyny yn cael ei chwanegu a'r trafferthion ag yr oedd yn rhaid myned trwyddynt fel parotoad i gy-chwyn i'r fordaith. Yr oedd genyf naw o blant, a'r henaf ond 16 oed, a dau efaill heb gyrhaedd un mlwydd oed. Yr oedd pwysau y baich yn galw am ysgwyddau pur gryfion, yn enwedig gan fod y wraig a'r plant wedi cael dygiad da i fyny, a'u hamaethu gyda thynerwch mawr iawn. Cytunasom am ein llong-log, a thalasom arian, gan gael addewidion am gyfleusderau mwy na chyffredin ar ein mordaith; ond erbyn dechreu morio, nid oedd yr addewidion ond crug o gelwyddau, canys mewn addewidion y bu llawer o'r pethau hyny byth, ni ddaeth eu tymp esgor eto. Pa beth, atolwg, a oes rhyw beth yn y dwf yn cynyrchu twyll, trueni, anghyfiawnder, creulondeb, caledwch, anystyriaeth, &c. Yr wyf fi am gredu fod. Teimlad hynod oedd colli gclwg ar

fryniau Arfon. Buaswn y pryd hwnw yn coffleidio cartrefleoedd y geifr yn holltau creigiau Arfon, pe cawswn gan yr hen long. Yr oedd y morwyr yn bur anystyriol ac annymunol eu hiaith, a nifer yr ymfudwyr o naw i ddeg cant, a'r rhan fwyaf mewn anhunedd mawr gan glefyd y môr. Yr oedd yn eu mysg dri o bregethwyr Cymreig, a chryn nifer o broffeswyr crefydd. Yn mhen 12 diwrnod ar ol cychwyn torodd y colera allan ar y llong, a chyn i ni gyrhaedd New York yr oedd 60 o'r teithwyr wedi eu claddu yn y dyfnfor, o herwydd eu marw o dan ddirdyniadau yr haint echryslawn hwnw.

Yr oeddem bellach yn hiraethu yn fawr am ryw ol-ygfa heblaw dwfr byth a hefyd; yr oedd unffurfiaeth bron a gwneyd ein bywyd yn faich, a'r *Asiatic cholera* yn gwneyd y lle yn arswydus i aros yno am ddiwrnod. Ond wedi hir ddysgwyl, daeth y *pilot* i'n cyfarfod, a chymerodd ofal y llong i'w dwyn i'r porthladd a ddymunem; er hyny buom yn bur hir mewn pryder dysgwylgar am y tir dymunol; ond yn blygeiniol un boreu clywem floedd, '*Land! land!*'—'*Tir! tir!*'—a phawb yn rhuthro allan o'u celloedd i gael golwg ar dir America, a hwy eto yn bell oddiwrtho; ond yr oeddem bellach yn argyhoeddedig ein bod gerllaw y byd newydd. Ar ol i ni ddyfod at y porthladd, daeth meddyg i mewn, a rhoes bob un o honom dan brawf gyda golwg ar ein iechyd; ac oblegid fod y colera yn y llong, cadwyd ni heb ddyfod allan o honi am dridiau. Yr oedd pob gwreichionen o amynedd wedi diffoddi ynof cyn terfyniad y tri diwrnod hwnw; ond pa fodd bynag, daeth yr awr i ni gael gollyngdod, ar ol 35 o ddyddiau o gaethiwed. Diolchais yn gynnes am ddaear o dan fy nhraed unwaith eto. Troais i edrych ar y weilgi fawr, a dywedais, 'Ffarwel i ti am byth, nis gwn a allaf faddeu i ti rywbryd a'i peidio, am boeni cymaint arnaf.' Ond er y cwbl, cafodd llawer waeth amser na ni ar y môr; ni bu perygl mawr arnom o gwbl, dim tebyg i gollu. Tybiasom unwaith fod y llong ar dân, ond nid hir y buom heb ein hargyhoeddi mai ofni yr oeddem lle nad

oedd achos ofn, canys achoswyd yr holl ddychrynfeydd gan ysgrechiadau gwraig a gurid gan ei gwr, y rhai oeddent yn ymtudo o'r Iwerddon.

Un peth a wnai y fordaith yn flin iawn i ni, heblaw y colera, oedd fod y llong wedi ei llwytho a mwy o deithwyr nag a ganiatái y gyfraith iddi gymeryd; cafwyd prawf o hyn yn ngwaith y swyddogion yn ymdrechgu cael tystiolaethau o blaid cysur yr ymdeithwyr, ar ol i'r llong ddyfod i'r porthladd. Cymeryd y swyddogion yn rhwym i sefyll eu prawf, ond nis gwn beth a wnaed iddynt wedi hyny. Pa fodd bynag, ni welais y fath greulondeb erioed yn cael ei arfer at gleifion ag a welais ar y llong; ond nis gallaf sicrhau yr adroddiad, mai gwir amcan hyny oedd lleihau nifer yr eneidiau oedd yn y llong. Ond y mae yn eithaf gwir, beth bynag, fod pob mymryn o dosturi fel pe busasai wedi gadael y llong er's wythnosau cyn ei dyfod i ben ei thaith; a phan oeddem yn ei gadael drachefn, ac yn ymsymud i dir, cylchynid ni â llesau plant, bloeddiadau dynion wedi colli eu heiddo, wylofain gwragedd, llwon a rhegfeydd môr-gwn Efrog Newydd, a'u hymosodiadau ar eiddo y trueiniaid llddedig oedd yn brefu am dir yn lle dwfr o dan eu gwadnau am unwaith eto. Gwelais yn fuan ar ol cyrhaedd Efrog Newydd, mai doethineb i mi oedd symud oddiyno mor fuan ag y gallwn gyda fy nheulu; ac felly ewchwynasom ar ol aros dros y Sabboth, i fyny t'nag Utica. Taith helbulus gawsom o Efrog Newydd, fel yr un a gawsom iddi. Lladratawyd oddiarnom oriawr aur a llawer o fodrwyau, a llawer o bethau tra gwerthfawr eraill. ar y bad, gwerth o \$200 i \$300. Rhodd Benjamin Jones ydoedd yr oriawr i mi, gwerth \$150. Collasom werth canoedd drachefn yn y cistiau a aufonasom i Racine, Wisconsin, trwy i'n dilladau goreu gael eu dyfetha ynddynt cyn iddynt ein cyrhaedd yn ol yn Utica. Dylaswn hysbysu yn gynt, fe allai, mai gyda John Jones, Erw Faethlon, Sir Feirionydd, a'i deulu, y daethom o'r Hen Wlad, gan fwriadu ymsefydlu yn Racine, Wis., yn weinidog ar yr eglwys Fethodistaidd yn y lle. Yr oedd

y cyfeillion yno wedi bod yn dysgwyl yn hir am danaf, ac wedi paratoi llawer ar gyfer fy nyfodiad yno; ond o herwydd taerineb cyfeillion Utica, a'u mawr garedigrwydd tuag ataf, arosais yno i orphwys dros amryw wythnosau, yr hyn a barhaodd am dymor mor faita fel y bu i'r bwriad cyntaf syrthio ymaith cyn dylod i weithrediad."

Y mae y darluniad a ddyry ein gwrthddrych o hono ei hunan, yn ymwthio yn drafferthus drwy y naw mlynedd a orweddant rhwng y blynyddoedd 1840 a 1849, yn ein harwain i edrych arnynt yn fath o awr fawr y brofedigaeth, neu yn un gyfres o helbulon yn cyd-wasgu ar ei feddwl; ac fe ddengys hefyd eu bod yn cael eu hachlysuero gan gyd-ymgais gweinidogaeth yr efengyl a masnach fydol yn ei feddwl. Gwasgai y naill a'r llall eu hawliau arno ar unwaith, ac yntau yn methu cyflawni eu gofynion fel y dymunai. Yr oedd gweinidogaeth yr efengyl yn gwasgu am ei holl ymadferthion o Sabboth i Sabboth; a'r fasnach, ar y llaw arall, yn galw am ei egnion dyfal i'w gwasanaethu hithau, ac yntau yn debyg i Issachar, yn asyn esgyrniog yn gorwedd rhwng dau bwn. Yr oedd wrth geisio gwasanaethu y naill arglwydd, yn casâu y llall yn ymarferol; a phan y glynai ychydig wrth y naill, byddai o angenrheidrwydd yn aageuluso y llall.

Gellir meddwl fod y mwyafrif mawr, os nad y cyfan, o'n darllenwyr yn edrych ar swydd gweinidog yr efengyl yn un o'r pwys mwyaf. Y mae ei chyfrifoldeb yn ofnadwy mewn mawredd, a'i chanlyniadau yn lluosog a pharhaol; nis gall amser yn ei orchwylion amrywiol, na thragywyddoldeb yn ei hyd diderfyn, dynu olion y swydd hon oddiar wr Duw. Y mae a wnelo gweinidogaeth y swydd hon â gwaed y miliynau sydd yn ei

gwrando; nis gall na bydd yn weinidogaeth bywyd, neu yn weinidogaeth angau, i bob un a'i clywo—"I'r naill yr ydym yn arogl marwolaeth i farwolaeth, ac i'r llall yr ydym yn arogl bywyd i fywyd."

Pan ystyriom fod y sefyllfa hon yn gwneyd yr hwn a safo ynddi yn faen tramgwydd, ac yn achlysur ochen-eidiau pruddaidd i rai o'i wrandawyr, yn y pydew di-waelod, pan y byddo yr anfeidrol yn taflu arno, ac yn *stormio* â'i ddigofaint, mae yn ddigon i wneyd "i flew ein cnawd sefyll," a pheri i'n bol ddychrynu, a'n gwef-usau grynu, a dwyn pydredd i'n hesgyrn. O'r tu arall, pan y cofiom ei bod yn codi dyn i fod yn foddion "i droi llawer at gyfiawnder," "i gadw enaid rhag angau, a chuddio lluaws o bechodau," nis gallwn lai na mawrhau ein swydd, a dywedyd, "Canys perarogl Crist ydym ni i Dduw, yn y rhai cadwedig, ac yn y rhai colledig."

Nid gan ddyn y derbyniodd "gweinidog cymwys y Testament Newydd" ei swydd, "nac y dysgwyd ef ynddi, eithr trwy ddatguddiad Iesu Grist." Gweinidogaeth a dderbyniodd efe "gan yr Arglwydd Iesu i dystiolaethu efengyl gras Duw" ydyw ei bregeth a'i ymadrodd ef. Gan mai "gweision y Duw Goruchaf" yw gweinidogion yr efengyl, iddo ef y maent yn gyfrifol am eu swydd bwysig. Ac O! na byddai eu teimladau oll yn addfed i ddywedyd, "Nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu." Ac ond eu cael yn yr agwedd gysegredig hon, cânt godi eu penau wrth roddi eu swydd i fyny, gan ddywedyd, "O herwydd paham yr ydwyf yn tystiolaethu i chwi heddyw fy mod i yn lân oddiwrth waed pawb oll, canys nid ymateliais rhag mynegu i chwi holl gyngor Duw."

Mae pwysau y swydd oruchel hon wedi gwasgu allan o fynwes etifeddion y talentau uchaf, a'r athrylith danbeidiaf, yr ymadrodd toddedig hwnw' filoedd o weithiau, mewn ocheneidiau dwysion, "Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?" A go debyg fod y teimlad hwn yn troi allan yn angau disyfyd i lawer bob blwyddyn. Ond pa fodd bynag am hynny, y mae y swydd hon yn profi ei phwysigrwydd ei hun, yn ei gwaith yn nychu pawb a esgyno iddi heb ei chymwysderau. Gwelsom lawer, o bryd i bryd, yn sefyll yn uchel fel athrawon yr Ysgol Sabbothol, neu ddiaconiaid eglwysig—yr oedd eu bywyd yn ddefnyddiol a'u henwau yn gymeradwy, ond y fynyd y cymerasant arnynt y swydd hon, collasant eu defnyddioldeb yn y byd, a'u parchedigaeth yn yr eglwys. Yr oedd y swydd yn eu hysu o'r byd cyn i angau wneyd ei waith arnynt. Dywedodd y diweddar J. Hughes, o Bont Robert, "Y mae yr eglwysi yn dinystrio blaenoriaid da iawn i wneyd pregethwyr hynod o waelion." Gellir dywedyd yn mhellach fod pwysau y swydd hon yn lladd rhyw fath o dalentau mewn dynion, os unwaith y collant ysbryd llafur y weinidogaeth. Gwywo a wna y talentau mwyaf addawol o dani, os cedwir hwy mewn segurddod a chwsg. Nis gall pregethwr rodde allan yn barhaus, os na bydd yn derbyn i mewn yn barhaus. Y mae darllen, a myfyrio, a gweddio yn anhebgorol iddo, er cadw ei ddefnyddioldeb a'i boblogrwydd. Gellir edrych yn ddiddig ar ddyddyn yn cysgu yn ei wely, neu yn segura yn y farchnadfa, ond y mae gwneyd hynny ar faes y weinidogaeth yn fai anfaddeuol; a pha beth bynag sydd yn ddiffygiol yn chwaeth ein gwrandawyr, nid ydynt yn hollol ddiffygiol o allu i wybod pwy sydd yn llafurio, a phwy

sydd yn segura gyda y weinidogaeth, a chaiff y lluaws wybod hyny cyn hir, drwy eu gweled yn glynu wrth y llafurus ac yn troi eu cefnau ar y segurwyr.

Yr ydym wedi sylwi am oes go faith bellach ar ddefnyddioldeb pregethwyr sydd wedi cyrhaedd enwogrwydd mewn gwlad neu gyfundeb neillduol o Gristionogion, ac yn cael eu bod o wasanaeth pwysig a gwerthfawr, er casglu dynion difater am wrando yr efengyl i'w swm yn achlysurol, a hyny yn tori allan yn fynych yn ddechreuad cyfnod o wrando cyson arni o hyny allan. Mae lluosogrwydd ein cynulleidfaoedd a'n poblogrwydd, yn ddyledus iawn i'r *doniau mawr*, fel eu gelwir, os ydyw yn briodol dywedyd fod y dyben yn ddyledus i'r moddion, ac yn hyn y mae y *pregethwr mawr* yn wasanaethgar i rai a f'o llai, a hwythau drachefn yn troi allan yn wasanaethgar i'r rhai mwyaf.

Mae cadw cynulleidfaoedd yn boblogaidd ac heb ymchwalu oddiwrth eu gilydd, yn enwedig ar amseroedd blinion, a thymorau adfeiliedig ar achos crefydd, yn galw am fesur pur helaeth o ddoniau gweinidogaethol, ac y mae y *pregethwyr enwog* wedi bod yn foddion neillduol i wneyd hyn yn ddiarnheu. Dywedai y Parch. W. Rees, Liverpool, pan y soniai y 'l'refnfyddion Calфинаidd am leihau y pregethu yn eu cymanfoedd, a'u gwneyd yn debycach i gynadleddau enwadau eraill, mai "colled fawr fyddai hyny i Ymneillduaeth y Nghymru, yn gystal ag i Fethodistiaeth yn neillduol, o herwydd fod y cymanfaoedd yn dangos talentau nas gall ein caseion na sefyll yn eu herbyn na'u gwrthddywedyd. Ac y mae gallu gweinidogaethol y cyfundeb parchus hwn yn profi ei hun i'r holl Dywysogaeth, yn ei ddylanwad i gasglu y fath gynulleidfaoedd mawrion at eu gilydd, a'u cadw i wrando mor astud a bywiog."

Efallai mai dymunol i ni hysbysu ein bod yn ystyr-ied y gall un fod yn bregethwr poblogaidd mewn rhyw gylchoedd, ac am ryw dymoran, heb ei fod yn deilwng o'r enw *pregethwr mawr*. Gwyddom am rai wedi cyrhaedd cryn lawer o boblogrwydd drwy fwyneidd dra eu llais, tanbeidrwydd eu sel, hynodrwydd eu dull o lefaru, ac eraill drwy ryw arferion dyeithr yn yr areithfa wrth draddodi, ac mewn rhai amgylchiadau, rhaid i ni addef i ni weled rhai wedi cyrhaedd hyny, yn unig drwy ryw hynodion a gyfrifem yn iselhad mawr arnynt fel athrawon cyhoeddus crefydd. Ond nid ydym yn cofio i ni weled neb wedi cyrhaedd poblogrwydd mawr gyda y dosbarth cyntaf o'u gwranda-wyr drwy y pethau hyn, nac ychwaith yn gallu cadw eu poblogrwydd yn faith ar ol ei gael, yn enwedig yn eu cartrefi a'r lleoedd y byddont yn troi fynychaf ynddynt. Rhaid cael rhywbeth sylweddol i gadw cynulleidfa, a galluoedd meddyl- iol yn gystal a galluoedd corfforol, i gyfaddasu dyn i fod yn athraw cyhoeddus, yn enwedig o dan y gyfundrefn sefydlog o weinidogaethu.

Yr ydym, ar ol gwranddo llawer ar bob dosbarth o bregethwyr, yn gorfod barnu na welsom un pregethwr *gwir* fawr, heb fod yn meddu meddwl treiddgar a manwl—meddwl ymchwilgar, a meddwl wedi arfer codi allan, a chwilio gwledydd dyeithr, yn gystal a'i faesydd cartrefol ei hunan. Dyma y dyn a all gyfeirio at forwr- iaeth mewn areithfa yn nghlyw y morwr, neu at amaethyddiaeth yn nghlyw yr amaethwr, &c., heb fradychu ei anwybodaeth yn y gwybodaethau hyny. Y mae meddwl galluog mewn gweinidog, fel ffynnon loyw, yn bwrw allan ddwfr newydd bob amser i'r gwranda-wyr— cartref cyfoeth di-hysbydd o ddrychfeddyliau yw hwn,

ac nid ydym byth yn y brofedigaeth o flino ar ei swm, fel y dywedir. Peth anhawdd yw blino ar newydd-deb meddylol, mwy nag ar newydd-deb celfyddydol neu naturiol. Clywsom wrandaŵr yn ddiweddar yn cwyno o herwydd ymadawriad ei weinidog, ac yn dywedyd, "Ni wrandewais arno erioed heb dderbyn rhyw syniad- au newyddion i mi, er cymaint a wrandewais ac a ddarllenais."

Nis gallwn yn ein byw beidio a rhyfeddu yn fawr wrth weled cymaint o weinidogion y Trefnyddion Cal-finaidd yn Nghymru wedi esgyn i sefyllfaoedd mor ddylanwadol, a hwythau yn gorfod rhoddi y rhan fwyaf o'u hamser i ddarbod dros yr eiddynt. Rhaid fod eu llafur yn ddau-ddyblyg, i.e. yn ormod ond i ychydig o blant gwragedd i ddal dano am hir amser, ac y mae yn bur debyg fod y gorweithiad hwn a fu ar gyfansoddiad llawer a ddoniwyd yn helaeth gan Dduw i waith y weinidogaeth wedi eu llethu i'r bedd pan oeddent yn dechreu tyfu. Dylai y gweinidog sydd wedi cael gallu i dderbyn addysg ac i gynyddu mewn nerth, gael ei gadw yn bell oddiwrth ofalon bydol, rhag iddo *ymrwystro* gyda negeseuon y bywyd hwn, fel y gwnaeth ein parchedig wrthddrych. Pan y dyrchefir swydd y gweinidog i'w safle briodol yn meddwl yr eglwys, fe'i dyrchefir yrtau gan yr eglwys i fwynhau ei holl amser i gyflawni ei rhwymedigaethau. Dywedai tywysog pregethwyr Cymru, wrth rododi cyngor i weinidogion, "Os nad wyf yn camgymeryd, chwi gewch mai moddion rhagorol tuag at ddiwyllio y meddwl, ac ymgyfoethogi mewn iaith a geiriau priodol, ydyw arfer ysgrifenu a darllen ar bob materion buddiol ac amrywiol gangen- au gwybodaeth, ac yn ychwanegol at hyny, pe cyfieithid

ambell i ddernyn mwy galluog na'i gilydd o iaith arall i'ch iaith eich hunain, byddai yn ddigon sicr o ateb dybenion daionus i chwi. Wrth gyfansoddi eich pregethau, meddyliwch am y mater yn gyntaf dim, ac am ddeall y mater hwnw yn drwyadl; oblegid felly fe fydd genych rywbeth i'w addurno ac i'w osod allan mewn geiriau, a chwi a fyddwch yn fwy galluog i wneuthur hyny yn ddyladwy. Y mae llafur fel hyn yn sicr o goethi eich iaith chwi. Oblegid y mae yn amheus a allwn ni fyfyrio o gwbl, na gwybod i ddim eglurdeb a sicrwydd, hyd yn nod ein syniadau ein hunain, cyn eu gosod hwy allan mewn ymadrodd. Yr ymadrodd yw y wisg yn yr hon yr ymddengys yr *idea* i' renaid ei hunan. Yr ydym yn geirio bron cyn gynted ag yr ydym yn meddwl. Ac am hyny y mae y pregethwr myfyrgar, yr hwn sydd yn llafurio *am bethau* i'w dywedyd yn y pwlpud, o dan angenrheidrwydd, *yn yr un llafur*, i ystyried hefyd *pa fodd i ddywedyd y pethau hyny*, gan nas gall feddwl am danynt heb eu llefaru, ac felly, rhaid yw ei fod yn cael ei arwain, i ryw fesur o leiaf, i astudio manylrwydd, eglurdeb, a phriodoldeb ymadrodd; mewn gair, yr oll a eilw y Beibl, "geiriau cymeradwy."

Wrth i ni ddywedyd unwaith eto fod hyn yn galw am ein holl amser, fe ddichon y dywed y darlennydd fod Mr. Williams wedi cyrhaedd gradd dda er gwaethaf y rhwystrau crybwylledig. Dywedwn ninau mai do; ond pe na buasai y llyffetheiriau hyny wedi eu cadw am ei draed yn nyddiau ei nerth, buasai yn bur siwr o fod wedi cyrhaedd safle llawer uwch nag a gyrhaeddodd. Ond wrth i ni gwyno o herwydd y blinderau y bu gweinidogaeth yr efengyl ynddynt yn yr amser a aeth heibio yn ein cyfundeb, y mae yn hyfryd i ni weled ei

bod yn cael yno amser gwell yn bresenol, a'n bod yn gweled rhagarwyddion o dymor mwy manteisiol i wawrio arni eto yn y dyfodol.

PENNOD VII.

EI DDYFOBIAD A'I AROSIAD YN NHALAETHAU EFROG
NEWYDD AC OHIO.

“Dywedasom o'r blaen ein bod wedi cyfarfod a mwy o sirioldeb a charedigrwydd yn Utica nag a welsom o'r blaen ar ol croesi yr *Atlantic*. Dygwyd ni i dy yr hen flaenor Rees Davies, gynt o Sir Drefaldwyn, ac yno y buom yn cymeryd ein cartref am wythnosau. Pregethais yno ddwy waith y Sabboth canlynol, ond heb ddyfod ataf fy hun o ran pregethu ar ol y fordaith; er hyny ymddygai y gwrandawyr yn dra boddhaol, heb un arwydd siomedigaeth. Dyma y tro cyntaf y cefais fy lloni yn America o ran amgylchiadau a phrofiad ysbrydol fy enaid, yn enwedig mewn cysylltiad a'r weinidogaeth. Y mae genyf feddwl tyner am Utica byth ar ol hyny. Yr wythnos ganlynol aethum i gyfarfod chwech-wythnosol i le a elwid Enlli. Ar ol myned yno llesmeiriai fy nghalon gan hiraeth, wrth weled pawb yn ddyeithr, ac yn ychydig iawn o nifer—dim mwy o swyddogion eglwysig nag oedd yn eglwys Llanidloes ei hunan. Ar ol hyn bum yn ymweled ar Sabbothau, a rhai nosweithiau o'r wythnosau, a'r gwahanol gynullidtaoedd yn Swyddi Oneida a Lewis am oddeutu wyth wythnos. Bu caredigrwydd cyfeillion Utica a'r ardalyr cylchynol yn fawr iawn tuag atom yn y tymor hwn, ac ystyried eu nifer ac iselder amgylchiadau y rhan fwyaf o honynt. Ar derfyn yr wythnosau hyn cytunais i symud i Remsen i breswyllo, a gwasanaethu yn gylchynol dair taith Sabbothol: Remsen a'r Nant, Pen-y-graig a French Road, a Pen-y-caerau ac Enlli. Ond cyn hir newidwyd y drefn, er fy nghael yn Remsen

a'r Nant bob yn ail Sabboth, ac yn y ddwy arall un-bob mis i bob un. Swm y cyflog oedd \$500 yn y flwyddyn, ac yr oedd yn rhaid cyflogi o flwyddyn i flwyddyn, ac mewn un amgylchiad o chwarter i chwarter. Bum fel hyn yn Nhalaeth Efrog Newydd am yn agos i dair blynedd, yn dilyn y cyfarfodydd chwechwythnosol a'r cymanfaoedd yn lled gyson. Yr oedd byd da crefyddol arnaf yn nghanol fy mrodyr, a graddau o lewyrch wyneb yr Arglwydd ar fy ysbryd, a'm gweinidogaeth yn ymddangos yn gymeradwy gan y saint. Yr oedd eglwys Pittsburgh, Pa., wedi anfon ataf amryw weithiau i ofyn i mi ddyfod i'w gwasanaethu yn yr efengyl, a minau yn methu dyfod i benderfyniad ebrwydd pa beth a wnawn yn ngwyneb y cais. Ond wrth nad oeddwn o'r dechreuad wedi meddwl cartrefu yn Nhalaeth New York, a bod fy nheulu yn teimlo yn anfoddlawn i aros yn mhentref Remsen, a'm bod inau yn ofni amgylchiadau dyrystlyd yn y dyfodol, o herwydd nad oedd yr eglwysi yn gallu talu i'r gweinidogion eraill yn gyfartal i'w taliadau i mi, a bod hinsawdd yr ardal yn annyoddefol gan oerni y gauaf a'i feithder. Yr oedd yr haf yn toddi fy sylwedd, a'r gauaf drachefn yn rhewi fy holl gyfansoddiad. Felly penderfynais symud i Pittsburgh, a chychwynais yno yn mis Ebrill, 1852. Daeth ein cyfeillion i ffarwelio a ni, ac i'n anrhegu a llawer o roddion, cyn ein cychwyn, a chollwyd yno lawer o ddagrau cyn i ni ymadael a'n gilydd y tro hwnw. Aethom yn mlaen drwy Rome i Buffalo, Erie, a Cleveland, i Pittsburgh. Pan aethom i'r *depot* yr oedd yno amryw o'r brodyr yn disgwyl am danom, yna arweiniasant ni rai yma a rhai acw i wahanol dai, i aros i ni gael hamdden i edrych am dy i'n boddloni ni fel teulu.

Ymddangosai pawb yn hynod siriol a boddhaus gyda eu gweinidog newydd. Ystyrid fod yn y dref a'r ardal- oedd cylchynol o gylch wyth mil o drigolion y pryd hwnw, yr hyn a barodd i mi edrych arno yn faes hel-aeth i'w lafurio, ac felly neseais at yr Arglwydd am ddoethineb a nerth i hwylio yn mlaen. Yr oedd y

Cymry hyn bron i gyd yn bobl y gweithiau glo a haiarn, a minau yn gwbl ddyeir i'w harferion; ond deallais yn fuan fod ôl stormydd eglwysig i'w weled yn y lle, yr hyn a'm harweiniodd i feddwl y dylaswn wneyd fy ngoreu i'w casglu yn nghyd ar ol y wasgarfa y tafodd y storm hwy iddo. Deallais hefyd fod y capel o dan ddyled o filoedd o ddoleri, ac fe ymdrechwyd i ddileu hono; ond er i mi gasglu llawer o arian ar wahanol amserau at gapel Pittsburgh, yr oedd efe yn dra thebyg i wartheg culion Pharaoh, yr oedd yn eu llyncu oll, ac yn gwaeddi yn barhaus, "Oh, fy nghulni!" a "Moes, moes," oedd ei iaith pan y gwelais i ef ddiweddaf. Yr oedd pob peth yn cerdded yn hwylus gyda yr eglwys am y flwyddyn gyntaf: y gwrandawyr yn lluosog, y weinidogaeth yn llwyddianus, y cyfarfodydd eglwysig yn wlithog, a'r cyfeillion yn gryfion eu profiadau, ac yr oeddwn yn gallu dywedyd yn fynych, "Diau fod Duw yn y lle hwn." Yr oedd yr eglwys yn hynod o haelionus at y weinidogaeth, a'u cyfraniadau yn helaeth iawn i minau a'r teulu. Dychweloddd amryw i'r eglwys, ac adferwyd rhai oedd wedi myned yn bur bell i arferion pechadurus gyda y *whiskey*, &c. Pan y daeth y flwyddyn gyntaf i ben arnaf, cytunwyd â mi yr un modd am flwyddyn arall, ac yn ysbaid y flwyddyn hono ni bu dim yn neillduol yn wahanol i'r un flaenorol. Derbyniwyd llawer i'r eglwys, ac ymadawodd llawer o honi drwy lythrau. Casglwyd mwy at y weinidogaeth y flwyddyn hon na'r un flaenorol, ac ataliwyd oddiwrthyf fi yr hyn oedd dros ben talu y cytundeb. Esgorodd hyn ar ddadleuon poenus, ond fe ddybenodd heb wneyd llawer o ddrygau ar y pryd, er, fe allai, iddo arwain i ddrygau eraill oedd waeth eu canlyniadau. Yr oeddwn erbyn hyn yn gwybod beth oedd byw mewn ofn a dychryn. Yr oeddwn yn gweled fod yn anhawdd iawn cadw y ddysgyblaeth ar ei thraed yma, yn enwedig gyda'r ieuencyd, y rhai oeddynt yn arfer rhodiana gyda'u gilydd ar ol moddion nos Sabbothau, a rhai o ferched yr eglwys gyda meibion hollol annghrefyddol. Ond pan oedd pob moddion tyner wedi methu, a'r

eglwys ar weithredu yn benderfynol ar rai personau, cyfododd rhai i'w hamddiffyn, yr hyn a fu i mi yn ofid calon. Pregethais amryw weithiau tua diwedd y drydedd flwyddyn ar y geiriau, "O, Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y prophwydi," &c. Yr oedd y rhai hyn yn effeithio yn wahanol iawn ar wahanol bersonau. Erbyn hyn yr oedd yn amser dechreu siarad a mi am y bedwaredd flwyddyn, ac wedi cael amryw gyfarfodydd heb ddyfod i un penderfyniad, tybiais eu bod yn gwrthod fy nghynnygiad, ac felly derbyniais alwad eglwys Columbus, Ohio. Yr oeddwn yn argyhoeddedig nad oedd genyf ddigon o ddawn a challineb i drin eglwys Pittsburgh, ac o'r tu arall, yr oedd llawer o bobl Columbus wedi bod yn aelodau o eglwys Llanidloes, G. C., lle yr oeddwn ninau cyn dyfod i America.

Wedi dyfod i Columbus yr oeddwn fel pe wedi dyfod adref. Yr oeddwn erbyn hyn mewn maes newydd, a hwnw yn llawer cyfyngach nag un y bum ynddo o'r blaen yn fy holl oes. Capel bychan, eglwys fechan, a chynulleidfa fechan oedd yma; ond yr oedd y capel heb ddyled arno, a'r eglwys mewn tangnefedd, a'r Ysgol Sabbothol yn llewyrchus, a'r canu yn hynod o dda. Nid wyf yn meddwl i mi glywed ei well yn unman yn America; er hyn oll yr oedd yma rywbeth dirgel iawn i mi. Nid oedd yma ddim nerthol gyda dim. Cerdded yn araf yr oedd yr olwynion gyda phob peth. Nis gwn beth oedd yr achos o hyn, ond yr oedd yn amlwg mai felly yr oedd pethau yma. Nid oedd dim arwyddion amlwg fod yr Arglwydd yn ein mysg yn achub pechaduriaid, nac ychwaith yn adeiladu yr eglwys ar y sancteiddiaf ffydd. Er hyn cytunais, rhwng bodd ac anfodd, i aros yno am flwyddyn arall, yr hon a dreuliais gyda yr un aflwyddiant a'r un flaenorol. Cymerais yr achos hwn a lledais ef ger bron yr Arglwydd, canys ofnwn nad oedd fy llafur am y ddwy flynedd hyn wedi ateb un dyben daionus. Yr oedd fy aflwyddiant gweinidogaethol yn gwasgu fy meddwl i iselder mawr, fel y byddwn yn ofni na anfonwyd fi erioed i bregethu, ac na symudwyd fi o farwolaeth i fywyd; ac os felly, yr

oeddwn yn swyddog yn nheyrnas Crist, ac ar yr un pryd yn elyn Duw! Dyma y drychfeddyliau cyffrous a'm llethent yn lân! Meddyliwn weithiau fy mod yn dysgwyl mwy nag a ddylwn yn nhymor hau, ac yn soddi mewn digalondid am na chawsw'n fwynhad diatreg o'm tipyn llafur, heb ystyried nad amser i gludo yr ysgubau oedd bob amser. Pwy a wyr na welir tywysenau addfed a llawnion yn tyfu o *soil* a ddyfrhawyd yn dda gan chwys a dagrau llawer gweinidog a dreuliodd ei oes mewn aflwyddiant ymddangosiadol i bawb, ond yr Hwn oedd yn gweled o dan y gwys. Gwyddwn wrth geisio gweithio fel hyn y nos, fod fy ngwaith gyda'r Arglwydd, a'm barn gyda'm Duw, ac nis gallasai neb beri i mi wadu nad oedd yn dda genyf Iesu Grist, a'm bod yn ewyllysio llwyddiant ei deyrnas, ac yn caru gwneyd a allwn gyda ei achos mawr, er fy mod yn gwybod fod llawer o wamalrwydd yn fy meddwl, a llawer o ddiffygion yn fy ngwasanaeth.

Cyn diwedd yr ail flwyddyn yr oedd eglwysi Utica, Racine, a Pittsburgh wedi rhoddi galwadau i mi i ddyfod i'w gwasanaethu, ond gwrthodais ymgymeryd a'r ddau le cyntaf, ac ymgymerais a'r alwad i'r ddiweddaf, ac felly dychwelais yn ol i Pittsburgh, o'r lle y daethum i Columbus, ar ol bod yno rhwng dwy a thair blynedd. Dichon nad oedd y symudiad hwn yn ddoeth-ineb ynof, canys cyfododd yn Pittsburgh anghydwelediad cryf rhwng y cyfeillion a'u gilydd, yr hwn a barhaodd am flwyddyn a haner, ac a ddiweddodd mewn ymrwygiad yn yr eglwys, ac a fu yn ofid mawr i'r ddwy blaid, ac yn achlysur llawer o drafferth poenus i'r eymanfaeodd yn y Dalaeth."

Wrth i ni edrych dros y benod hon, yr ydym yn cael ei bod wedi dilyn Mr. Williams am ddeng mlynedd o'i fywyd, ac yn dangos fod ei symudiadau o fewn y tymor hwnw wedi bod yn bur lluosog, a'i helbulon yn hynod o drymion; ac eto nid oeddynt ond tebyg i lawer o'i flynyddoedd blaenorol, ac i amryw o flynyddoedd yn ei

aros ar ol hyn. Yr oedd ei fywyd ef yn esboniad ymarferol a llythyrenol ar eiriau "y mwyaf o feibion y Dwyrain," "Dyn a aned o wraig sydd fyr o ddyddiau, a llawn o helbul." Buasai yn ddigon priodol iddo ddywedyd fel y patriarch Jacob am ddyddiau blynyddoedd ei einioes, "Ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy einioes." Gwelodd aml a blin gystuddiau. Yr ydym erbyn hyn wedi mwynhau cryn lawer o flynyddoedd yn America, ac wedi gwneyd cryn ymdrech, yn awr ac eilwaith, i ddeall y cysylltiad sydd rhwng gweinidogion y Trefnyddion Calfinaidd a'r eglwysi y gweinyddant iddynt, ac os ydym wedi dyfod i wybodaeth y gwirionedd yn ei gyleli, gellir dywedyd fod ansefydlogrwydd sefyllfa ein gweinidogion, a'u profedigaethau trymion yn eu cysylltiad a'r eglwysi, yn tarddu yn bur fynych oddiwrth wendid y llywodraeth eglwysig, neu ddiffyg gweinyddiad priodol a phrydiol o honi. Y mae yn wir fod ein cyfundeb yn cydnabod ei hunan o dan y ffurf Henaduriaethol, ac er hynny yr ydym yn gweithredu yn y ffurf Annibynol. Mewn gair, y mae llawer o'n heglwysi yn dangos yn amlwg eu bod yn hoffach o'r enw Henaduriaid, nag ydynt o'u hymarferion, yn enwedig pan eir i gysylltu gweinidogion ac eglwysi a'u gilydd. Undeb lled anghymarus yw hwnw a wneir drwy gysylltu iaith Henaduriaethol a gweithredoedd Annibynol a'u gilydd. Pe gosodem undeb ein gweinidogion a'r eglwysi i orwedd ar seiliau eangach, byddai ei barhad yn feithach. Oni byddai yn llawer mwy cyson a'n cyfansoddiad ni fel cyfundeb crefyddol, i ni osod yr undeb hwn i orwedd ar undeb yr eglwys a'r gweinidog a'r cyfarfod dosbarth, na'i seilio ar ewylllys yr eglwys a'r gweinidog, yn annibynol ar bob cysylltiad

arall? Byddai, fe fyddai yn fwy diogel a buddiol i'r eglwysi, a'u gweinidogion hefyd, na'r drefn annibynol sydd gan lawer o honom y dyddiau presenol. Gallem feddwl y byddai y drefn hon yn atalfa gref ar dra-arglwyddiaeth eglwysig, wrth ddewis gweinidog i eglwys, ac wrth ei fwrw allan o honi drachefn. Yn ddiameu, ni ddylai tynerwch ein barnau am ein gilydd sefyll ar ein ffordd i ystyried yn deg y cwynion mynych a glywir yn erbyn rhyw bersonau sydd, drwy chwenych y blaen mewn eglwysi, wedi cyrhaedd cymaint o ddy-lanwad gorthrymus arnynt, fel y mynant eu *dyn*, a hyny ar draul difeddianu y mwyafrif o'u hawliau mwyafrif cysegredig, ac ond odid fawr na raid i'r truan hwnw yn fuan ymwaseiddio i weithredu yn groes i'w gydwybod, neu fod o dan eu herledigaeth hyd nes y diango o'u dwylaw. Ac y mae yn ffaith amlwg i bob sylwed-ydd manwl fod y blinderau a gyfodir, o bryd i bryd, yn erbyn ein gweinidogion teilwng, yn tarddu oddiwrth yr un personau; ac er nad ydynt ond ychydig o nifer, tadogir eu pechodau i'r eglwysi diniwed sydd mor anffodus a'u cael hwy yn aelodau. Byddai yn drugaredd fawr i'r eglwysi a'u gweinidogion, pe y mabwysiedid rhyw gynllun i ddyfod a galwad ac ymadawiad gweinidog o eglwys yn fwy uniongyrchol o dan arolygiad a chydweithrediad y dosbarth, er mwyn gweled i sicrwydd fod y symudiadau yn cael eu dwyn yn mlaen mewn uniondeb a barn. Gallem feddwl hefyd y byddai y cynllun hwn yn rhagorol i ddiogelu y lleiafrif rhag cael eu gorthrymu gan y mwyafrif mewn eglwys, yn gystal a diogelu pob aelod rhag gormes y gweinidogion. Drwy wneyd pob eglwys, a phob aelod a swyddog o'u mewn, yn ddarostyngedig i'r holl gyfundeb, y mae holl allu ac

awdurdod yr enwad hwnw yn dyfod yn feddiant i bob gweinidog, ac eglwys, i.e., a phob aelod yn yr eglwys yr un modd.

Y mae y drefn hon yn gydweddol a'n trefn o ddewis diaconiaid. Pan y byddo eglwys wedi gwneyd ei meddwl i fyny i alw blaenor, y mae yn anfon i'r cyfarfod dosbarth i hysbysu ei bwriad, yna enfyn y cyfarfod hwnw ddau frawd i dderbyn eu pleidlais, a dygir y dewisedig o dan arholiad y cyfarfod uchod, ac os ceir ef yn gymeradwy, cydnabyddir ef yn swyddog rheolaidd. Ac os bydd galwad am ei ddiswyddo, drachefn, bydd yn angenrheidiol i hyny gael ei wneyd o dan arolygiad a chymeradwyaeth y cyfarfod dosbarth.

Y mae yn anhawdd meddwl fod neb ag sydd yn berchen barn ar drefn eglwys, yn tybied fod dewis gweinidog ar eglwys yn llai ei bwys na dewis diacon. Gan hyny, oni byddai yn dda i weinidogion ac eglwysi y Methodistiaid Calfnaidd yn America ddyfod i well deallwriaeth gyda eu gilydd ar y mater hwn, er mwyn dyfod i weithredu yn fwy cyson & rheolau yr enwad y perthynant iddo? Credir gan lawer y bydd yn rhaid gwneyd rhywbeth yn fuan yn y wlad hon gyda ni yn y cyfeiriad hwn, onide y bydd y naill ddosbarth o honom wedi llyncu y llall i fynu yn bur fuan, ac ar unwaith wedi codi y fath ragfarn yn y meddwl ieuanc yn erbyn y weinidogaeth, fel y bydd yn anhawdd cael meddyliau galluog i ogwyddo ati yn y wlad.

Peth arall sydd wedi achlysuero llawer o deimladau anfoddog, a gweithrediadau terfysglyd mewn eglwysi, ydyw yr arferiad ddifriol o rododi galwad i weinidog am ryw nifer penodol o flynyddoedd, ac weithiau fe'i cyflogir o flwyddyn i flwyddyn, fel y cyflogir gweision dis-

tadlaf yr amaethwr. Drwy hyn yr ydys yn agor y drws i ddynion cynhennus a bradychlyd i godi rhagfarn yn eu cyfeillion yn ei erbyn, ac os na allant ei bleidleisio allan ar y pryd, gobeithiant allu gwneyd ei le yn rhy anesmwyth iddo i allu aros yn hwy ynddo. Nis gallwn briodoli y drefn bresenol i ddrwg-fwriad, nac i dywyllwch eglwysig; yn hytrach, gwell genym farnu mai llithro i mewn a wnaeth i arferiad drwy fath o anys-tyriaeth diniwed yn y pleidiau cyfamodol. Ac os felly y bu, bydd yn bur hawdd newid yr hen ddull diraddiol hwn am ffurf mwy urddasol, yr hon yw dewis gweinidog am amser anmhenodol, a bod i'r gweinidog roddi rhybudd odri mis i'r eglwys os bydd yn dewis ymadael, a'r eglwys, o'r tu arall, i weithredu yn yr un drefn tuag at y gweinidog, os bydd yn dewis iddo ymadael oddiwrthynt. Pan y mae gweinidog yn derbyn galwad eglwys, y mae efe a hithau yn ymgysfodi i wasanaethu eu gilydd, a'r holl wasanaeth i fod yn fwynhad i'w gilydd. Nis gall y naill wneyd gwaith y llall, ac nis gall un o honynt wneyd ei waith ei hun heb gymorth gwaith y llall. Nid oes un gweinidog mor eang ei dalentau fel y gall wneyd holl waith eglwys, ac ni fendithiwyd un eglwys â digon o ddoniau i gyflawni gwaith gweinidog cymwys y Testament Newydd. Y mae ei le wedi ei benodi i bob un, a'r gwaith i'w gyflawni yn y lle penodedig. Ac un o'r pethau pwysicaf i heddwch a llwyddiant yr eglwys a'r gweinidog ydyw i waith y naill ddyfod i wrthdarwiad a gwaith y llall, neu fod i'r naill ymyraeth a gwaith y llall mewn cylchoedd crefyddol. Prif waith y gweinidog yw "iawn gyfranu gair y gwirionedd," a bugeilio "eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe a'i briod waed," ac y mae yr

eglwys i fod yn gynorthwy iddo yn y gwaith mawr hwn. Gwaith lled anhawdd i weinidog yw cadw y ddwy elfen yna heb niweidio eu gilydd. Os bydd y gweinidog yn cyfansoddi dwy bregeth at bob Sabboth, bydd yn anhawdd iawn iddo roddi llawer o'i amser i gerdded o dy i dy ganol yr wythnos, heb i hyny wanhau dylanwad y pwlpud, ac o'r tu arall, gall y gofal am ddylanwad y pwlpud lesteirio dylanwad yr ymweliadau. Dylai y gweinidog fod yn wyliadwrus rhag i un o'r elfenau daionus hyn fyned yn angau i'r llall. O'r ddau, gwell fyddai i ddylanwad yr ymweliadau wanhau, nag i ddylanwad y pwlpud glafychu, o herwydd y mae dylanwad y diweddfaf yn fwy gafaelgar a pharhaus nag eiddo yr ymweliadau. Pa les iddo fyddai casglu cynulleidfafa fawr yn nghyd os na bydd y pwlpud yn ddigon dylanwadol i'w chadw gyda'u gilydd? Ac yn wir y mae ein cyfarfodydd eglwysig ni yn gwneyd i ffordd â llawer o'r angenrheidrwydd am yr ymweliadau a arferir gan yr Americanaid, oddieithr mewn achosion o afiechyd a phrofedigaethau. Pe cofiai ein cynulleidfaoedd fod eu gweinidog yn gyfrifol am bregethu holl gyngor Duw ar y Sabbothau, yr ydym yn meddwl na byddent mor barod i'w feio am na byddai ei ymweliadau â hwy yn amlach. .

Gwyddom y gelwir sylw cyfarfodydd dosbeirith a chymanfaoedd at y cysylltiad uchod pan y bydd rhyw anghydfod wedi tori allan rhwng y pleidiau, a da iawn yw hyny; ond gwell o lawer fyddai cyfansoddi yr undeb ar y dechreuad yn y modd mwyaf teg, i atal pob anghydfod, ac i sicrhau heddwch a chariad parhaus rhwng yr eglwysi a'r gweinidogion. Debygid y rhaid i'r mwyaf hoff o dra-arglwyddiaeth eglwysig yn ein

mysg addef nad yw ein dull presenol yn cydweddu a'n cyfansoddiad, nac yn cynwys y diogelwch angenrheidiol rhag gweision y fall, y rhai a allant ddyfod i'n heglwysi yn ngwisgoedd defaid, a gwneuthur mawr ddrygau yn ein mysq cyn i'r craffaf yn yr eglwysi eu hadnabod. Gan hyny, "dymuned pawb heddwch Jerusalem, a llwydded y rhai a'i hoffant."

PENOD VIII.

EI SYMUDIAD A'I AROSIAD YN WISCONSIN

Gan fod ysgrifeniadau ein gwrthddrych wedi ein gadael i ymdaro goreu y gallom gyda yr anghydwelediad a fu yn Pittsburgh, gan hyny, yr ydym yn dewis gadael yr achos gofidus hwnw, a cherdded rhagom wrth ôl ei draed ef am y pymtheg mlynedd dilynol, y rhai a derfynwyd ar geulenydd yr Iorddonen.

Yr olwg gyntaf ydym yn ei gael arno gyda y 'Trefnyddion Calfinaidd ar ol hyn ydyw yn Newark, Ohio, mewn cymanfa, yn ail ymgaredigo a'i frodyr ar ol yr ystormydd blinion a'i cyfarfu yn ddiweddar yn y lle a nodasom. Yn mis Tachwedd, y flwyddyn 1859, aeth ar daith drwy Dalaeth Ohio, gan bregethu Crist i dyrfaoedd lluosog o wrandawyr awyddus, ac feddywedir fod ei weinidogaeth ar yr ymdaith hon yn fwy bywiog a dylanwadol nag arferol, ac nad yw y 17 o flynyddoedd a dreiglodd dros y wlad wedi hyny ddim wedi gorchuddio ei heffeithiau daionus ar rai eglwysi. Yn fuan ar ol dychwelyd o'r daith hon, cychwynodd drachefn ar daith i Wisconsin, a chyrrhaeddodd i gyfarfod dosbarth Racine ar y 3ydd a'r 4ydd o'r mis canlynol.

Y mae yn ymddangos ei fod ef mewn teimlad da ar hyd y daith hon, a'i fod mewn rhai manau wedi cael cyfarfodydd nerthol anarferol, a diameu fod gan lawer o'i wrandawyr ar y pryd goffa dedwydd am yr ymweliad hwn o'i eiddo â'r Dalaeth, ac y bydd ganddynt achos i edrych yn ol arno o'r gwynfyd tragwyddol fel y tymor y daethant trwodd o farwolaeth i fywyd, a go debyg ei fod yntau ei hunan erbyn heddyw yn gweled gwerth ei weinidogaeth fel moddion iachawdwriaeth yn llawer eglurach nag ar y pryd yr ydoedd yn ei thraddodi, a chan sicred a hyny, fe wel ddiwrnod yn y man y gall ddarllen nifer y rhai a genhedlodd yn Nghrist Iesu, drwy yr efengyl, a gweled cylch eang ei ddylanwad moesol ar feddwl ei wrandawyr lluosog ar hyd ei oes.

Ymddengys i'r frawdoliaeth grefyddol yn Milwaukee gael boddhad mawr yn ngweinidogaeth Mr. Williams ar ei ymweliad â hwy y tro hwn; a chan eu bod ar y pryd heb un gweinidog, ac wedi dyfod i ddeall hefyd ei fod yntau, o'r tu arall, yn rhydd i dderbyn galwad unrhyw eglwys a alwai am ei wasanaeth, os byddai efe yn dewis gwneyd hyn, hwy a roddasant alwad iddo i ddyfod i weinidogaethu iddynt, ac i'w llywodraethu yn yr Arglwydd. Yr oedd yr alwad hon yn deilwng o eglwys Crist, o ran brwdfrydedd ac unfrydedd gwirioneddol, ac fe'i derbyniwyd gan ein gwrthddrych gyda'r awyddfryd sydd briodol i weinidog a fyddo yn caru gweithio yn ngwinllan ei Arglwydd, yn gystal a bwyta o'i ffrwythau hi.

Trefnwyd iddo ddechreu ar ei wasanaeth yno yn Ebrill, 1860, a bu ei ddyfodiad yma yn foddion amlwg i gyffroi meddwl ein cenedl drwy y dref, a'u codi allan i wrando beth a ddywed yr Arglwydd, a bu hefyd yn

foddion i wisgo yr eglwys & newydd-deb ysbrydol pur ddymunol. Nid gweinidogaeth wanlyd yw hono sydd yn alluog i ddenu dynion at foddion gras, ar ol iddynt ymollwng unwaith i ymhyfrydu yn mudreddi cymdeithasau isel trefydd mawrion, o herwydd y maent hwy yn meddwi y galluoedd deallawl mewn dynion, ac yn llesmeirio eu holl alluoedd teimladol, ac nid gwaith llai i weinidogion a diaconiaid ydyw bywhau aelodau eglwysig ar ol i'w calon ymollwng i farweidd-dra gyda phethau hanfodol gwir grefydd.

Ond er yr holl anhawsderau hyn, yr ydym yn cael gweinidogaeth ein cyfaill yn boblogaidd gan y gynull-eidfa, ac yn gymeradwy gan y saint. Yr oedd efe yn un o'r rhai galluocaf i gadw y cyfarfodydd eglwysig yn fuddiol, heb wanychu dim ar eu bywiogrwydd hyfryd. Peth digon hawdd i weinidog ydyw cyflwyno pethau buddiol iddynt, a pheth mor hawdd a hyny yw cyflwyno iddynt ddigonedd o bethau hyfryd; ond nid pawb sydd yn gallu cyfuno y buddiol a'r hyfrydol yn nghyd mewn cyfarfodydd eglwysig. Ond am ein cyfaill, yr oedd wedi ei gyfoethogi yn helaeth a'r medrusrwydd anghyffredin hwn.

Dichon iddo gael llawn cystal mantais tra y bu yn aros yma ag a gafodd mewn un man arall yn America i roddi eu ffordd i'r hen ymadferthion hyny a'i cyfododd ef i'r fath sylw yn Nghymru fel holwyddorwr medrus ac adeiladol. Cafodd yr hyfrydwch o ddilyn yr Ysgol Sabbothol yn lled gyson tra y bu yn aros yma, ac fe wnaeth y defnydd goreu o'r cyfleusdra i'w holi yn fynych, ac yn fanwl, ac er hyny yn eglur iawn, yn egwyddorion sylfaenol crefydd, a hyny heb ddangos y cydymdeimlad lleiaf âg ysbryd bwhwmanlyd yr oes

arwynebol hon yn eu hymdriniaeth â gwirioneddau y Beibl. Nodwedd arall a berthynai iddo ef fel holwyddorwr, oedd ei fedrusrwydd anarferol i enill sylw pob dosbarth yn yr ysgol, ac i ddiwallu eu meddyliau & phethau hanfodol crefydd, ac ar yr un pryd eu codi i lafurio yn egniol am wybodaeth helaethach o'r gwirionedd.

Bernir yn gyffredin mai wrth weinyddu Swper yr Arglwydd yr ymddangosai wedi esgyn uchaf ar ei uchelfanau. Byddai wedi ymwisgo â'r difrifwch mwyaf bob amser pan yr ymaflai yn y gorchwyl hwn, a'i holl symudiadau wedi eu heneinio âg Ysbryd Crist, a'i feddwl wedi cyraedd i'w gartref dymunol, ac yntau yn teimlo ei hunan fel pe byddai wedi dyfod i gyffyrddiad agos âg angau yr Arglwydd Iesu, yr hwn sydd yn iawn difai i Dduw, ac yn sylfaen a haeddiant iachawdwriaeth gyflawn i bob pechadur a ymddiriedo ynddo am eu bywyd tragwyddol. Ac yn wir, nis gallwn yn ein byw farnu fod meddwl un gweinidog wedi esgyn i'w le priodol, na chyraedd yr addfedrwydd angenrheidiol, os gall fyned drwy y rhan hon o'i wasanaeth heb un cyffroad ar ei deimladau, i.e, heb gymaint o deimlad effro fel nas gall eu cadw o olwg ei wrandawyr wrth gyflawni y gorchwyl difrifol hwnw.

Bu ein cyfaill yn llafurio yn galed yma am bedair blynedd, ac yna rhoes yr eglwys i fyny, a gosododd ei resymau am hyny o flaen y brodyr, y rhai a'u derbyniasant fel rhesymau digonol dros ei ollwng ef yn rhydd o'i gysylltiad â hwy fel eglwys. Ymddengys iddo edrych ar Milwaukee fel ei gartref o Ebrill, 1864, hyd Ragfyr yn yr un flwyddyn. Teithiodd gryn lawer yn yr wyth mis hyn drwy y gwahanol Dalaethau, gan

bregethu efengyl y deyrnas, a phregethodd ei bregeth ymadawol o Milwaukee oddiar Salm cxxx. 8, a mawr oedd yr effeithiau a ddilynai ei thraddodiad.

Yn nechreu yr hydref canlynol dechreuodd ar ei lafur gweinidogaethol yn Chicago, ond ni symudodd ei deulu yno hyd y chweched o Ragfyr y flwyddyn hono. Bellach dyma fe mewn maes newydd, ac eto o fewn cylch yr un gymanfa a'r un dosbarth ag o'r blaen. Yr oedd yr eglwys a'r gynulleidfa yn lled ddyeithr iddo ef a'i deulu ar y cyfan. Yr oedd y ddinas, mae yn wir, yn boblogaidd iawn; er hyny, nid oedd gan y Cymry ond addoldy bychan yn y lle, a hwnw mewn man heb fod yn ddymunol, a hyny yn benaf o herwydd y gweithydd trystfawr a myglyd a'i cylchynai. Nid oedd yr eglwys chwaith ond ychydig o rifedi, a'r gynulleidfa yn lled deneu; ond er hyny yr oeddent yn ffyddlawr ac ymdrechgar gyda theyrnas y Gwardwr o dan eu holl anfanteision.

Yr oedd dylifiad y gwahanol genedloedd i Chicago yn gryf yn y dyddiau hyny, ac yn eu mysg yr oedd cryn lawer o Gymry yn ymsefydlu yno o'r newydd, a diamanu fod doniau poblogaidd ein gwrthddrych yn effeithio yn ddeniadol ar lawer o honynt, fel, rhwng y naill beth a'r llall yr aeth y lle addoliad yn rhygyfyng i'r gynulleidfa i breswyllo ynddo, ac y daeth y llauws i waeddi yn wynebau eu gilydd, a cher bron yr Arglwydd, "Dod le i mi fel y preswylwyf ynddo." Ac wedi ychydig o ymchwilio prynwyd yno gapel eang a hardd, mewn man llawer mwy manteisiol na'r un y safai yr hen addoldy arno. Erbyn hyny yr oedd meddwl y gweinidog a'r gynulleidfa yn gweithredu mewn sefyllfa llawer mwy boddhaol nag o'r blaen, ac yr oedd eu ty

newydd yn rhoddi gwell cyfleustra iddynt i gario allan amcanion eu galwad a'u safleoedd. Yr oedd y weinidogaeth yn rymus a phur ddylanwadol o enau ein brawd am amryw flynyddoedd, ac yn derbyn cymeradwyaeth yr eglwys a'r gynulleidfa yn lled gyffredinol, A diamau fod ei wasananeth fel gweinidog yr eglwys yno wedi bod o les mawr er codi yr eglwys a'r gynulleidfa i'r safle bwysig y maent wedi ei gyrhaedd yn y ddinas boblogaidd hono y dydd hwn. Bu yn gweinyddu i'r eglwys yma fel ei gweinidog hyd ddiwedd y flwyddyn 1869, pryd y barnwyd yn ddoethaf iddo ymgilio o'r sefyllfa hono, o herwydd rhyw anghydfod a ymgododd yn yr eglwys, ac a barodd gryn ofid iddo ef ac i'r eglwys hefyd. Ond er i'w gysylltiad ef â'r eglwys fel ei bugail derfynu gyda y flwyddyn uchod, byddai yn pregethu yma gryn lawer drachefn yn achlysurol, yn ol hen arfer y cyfundeb. Ei destyn diweddfaf cyn tori ei gysylltiad bugeiliol a'r eglwys oedd Mat. xi. 29, &c.

Dichon y dylid coffáu yma ddarfod i'r Cymry yn Chicago ymgysarfod yn nhy y Parch. D. Williams ar brydnawn yr 21ain o Hydref, 1870, er dangos eu hewyllys da i'w hen weinidog. Dygwyd y cyfarfod yn mlaen yn y drefn fwyaf gweddaidd, ac er na dderbynwyd symiau mawrion gan unrhyw bersonau, eto cyrhaeddodd cyfraniadau y lluaws yn nghyd y swm o \$179, am yr hyn y teimlai Mr. Williams yn dra diolchgar i'w gyfeillion, am eu gofal am dano yn ei hen ddyddiau, a'u haelioni iddo.

Mae yn ymddangos na bu Mr. Williams mor ofalus am gofnodi maint a dull cyflawniad ei wasanaeth yn Milwaukee a Chicago ag y buasai dda, ond y mae yr ysgrifenydd wedi cael digon o fantais i ddywedyd yn ddiogfn ei fod

wedi treulio y blynyddoedd y bu yn gwasanaethu y manau uchod mewn llafur caled, ac mewn ymdrech parhaus gyda Duw mewn gweddiau. a chyda dynion mewn cynghori, cyfansoddi pregethau, a'u traddodi gydag egni ac ymroddiad nad oedd dim arall yn hawlio ei fath. "Ymdrechodd hardd-dêg ymdrech y ffydd." Nid oes dim amheuaeth yn ein meddwl na byddis yn edrych yn ol ar ei wasanaeth yn y ddinas hon mewn amser a ddaw gyda theimlad o barch i'w goffadwriaeth. Y mae ein sylw personol, yn gystal a sylwadau eraill, yn ein harwain i weled ar brofiadau ein dychweledigion crefyddol, yn enwedig ar dymorau o adfywiadau neillduol, fod llafur gweision cymwysol yr Arglwydd, weithiau, yn cymeryd ysbaid maith rhyfeddol i ymddadblygu yn ddigon llydan iddynt hwy eu hunain a'u holynwyr i allu ei ddarllen yn rhigl. Ond iddo Ef, eu Meistr mawr, y mae eithafoedd tragywyddol dylanwad eu llwyddiant mor amlwg ar adeg cyflawniad eu llafur ag y bydd byth. Gan hyny, gall y gweithwyr difefl ar feusydd Emanuel edrych yn mlaen, fel Paul, a "diolch i Dduw, a chymeryd cysur," hyd yn nod ar adeg eu haflywyddiant tybiedig. Y mae yn rhaid llafurio yn galed am ddeng mis er mwyn cael dau fis o gynhauaf yn ein gwlad ni; ac felly yn fynych y mae yn nheyrnas nefoedd, yr hon a eilw am oes o lafur caled, cyn cael gwyled ond pur ychydig o lwyddiant yn ei ddilyn, oddieithr fod yr edrychydd yn gallu "rhodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg."

PENOD IX.

EI DDYDDIAU DIWEDDAF EF.

Er fod Mr. Williams ac eglwys y Trefnyddion Calfin-aidd yn Chicago wedi ymwahanu oddiwrth eu gilydd yn y cymeriad o fugail a phraidd, fel y crybwyllwyd, ni symudodd o'i breswylfa hyd nes y symudodd angau ef i dy ei hir gartref, yn mhen pedair blynedd ar ol hyny. Byddai weithiau yn gwasanaethu yr eglwys yn y lle, a phryd arall yn cymeryd teithiau byrion i bregethu yma ac acw yn y sefydliadau Cymreig y gelwid am dano y pryd hwnw. Ymddengys y byddai yn cael derbyniad croesawgar gan y cyfeillion yr ymwelai â hwy y dyddiau hyny, ac yn derbyn caredigrwydd mawr oddiar eu dwylaw, yr hyn yn ddiau a siriolai lawer ar ei feddwl yn ei henaint. Yr oedd y boneddwr caredig B. Jones, Ysw., ei frawd-yn-nghyfraith, wedi trefnu moddion digonol iddo ef a'i deulu i gael digonoldeb o gyfreidiau bywyd, yn y ffordd fwyaf anrhydeddus, heb bwysio dim ar neb, na gwasgu dim arnynt eu hunain. Yn yr ystyr hwn yr oedd ei frawd wedi darparu iddo ddigon, a digon o bob peth, fel ei dad Jacob gynt.

Nid ydym wedi dygwydd gweled neberioed ychwaith yn gallu mwynhau ei deulu yn fwy na'n gwrthddrych. Yr oedd ei dy yn gymydogoeth dda, ac yn eglwys dang-nesfeddus, os nad yn nefoedd ddedwydd i'w deimladau. Pan elai Mrs. Williams ar neges i'r *store*, neu ryw fan arall, nis gallai aros ond ychydig heb fyned i'w chyfar-fod. Cerddai yn ol a blaen ar hyd *block* neu ddau hyd nes y canfyddai efe hi, yna dechreuai ganu y geiriau

hyny, "Ohwilio am danat, anwyl Mary, mae fy enaid yma a thraw, teimlo mod yn berffaith ddedwydd, pan y byddost ti gerllaw." Gan nad ydym yn eithaf sicr o'r man y saif y llinell i ymserchiad teuluol, ni wnawn yma ond adrodd y ffaith hon, yn syml fel y mae, a gadael i'r darllenydd wneyd a fyno â hi.

Pe buasai y ffeithiau uchod yn cael eu dileu, a ffynonau iachawdwriaeth bersonol yn cael eu sychu i fyny, gallasai ddywedyd am ddiwedd ei oes, mai amser blinder iddo ef oedd y blynyddoedd hyn, yr hyn a'i dygai ef a'i deulu i gofio yn fynych yr hyfrydwch oedd iddynt yn y dyddiau gynt yn Llanidloes. Nid oedd efe yn awr yn gallu mwynhau cymdeithas yr eglwys y bu gynt yn ei gwasanaethu mor gyflawn ag y buasai dda, a theimlai yn fynych ei fod wedi cyfarfod â thynged Job gyda ei frodyr; ond o'r diwedd daeth i feddiant o brofiad y prophwyd yn nydd ei flinder, yr hwn a ddywedodd, "Daionus yw yr Arglwydd, amddiffynfa yn nydd blinder," a chafodd wybod drwy brofiad beth yw "ymlawenhau yn yr Arglwydd, a bod yn llawen yn Nuw ei iachawdwriaeth."

Dywedai Richard Edwards, Ysw., Milwaukee, ar ol ei letya y tro diweddfaf, "Yr oedd ei agwedd ostyngedig a diolchgar am y pethau lleiaf tra yn aros yn ein ty y tro diweddfaf y bu yn pregethu yma, yn gyfryw ei faint ag a synai Mrs. Edwards a minau. Ofnai yn fawr roddi dim traferth i ni. Yr oedd rhyw naws heddychol ar ei deimlad oedd yn dangos fod rhyw dro amlwg er gwell wedi cymeryd lle yn ei feddwl. Ymddangosai yn hynod o ddifrifol, a dywedai amryw weithiau drosodd o fewn ychydig oriau, ei fod ef ar y *borders*—lle pwysig iawn i sangu arno yw y *borders*. Cerddai rhyw bwysigrwydd

trydanol gyda ei holl eiriau, yn enwedig gyda y geiriau, *Lle pwysig yw y borders.*"

Pan oedd efe wedi treulio ychydig dros ddwy flynedd i wasanaethu ei genedlaeth ei hun, yn ol ewyllys Duw, yn y ffordd hon, fe ymddangosodd rhyw glap bychan yn codi ar ochr ei glun; ond gan nad oedd dim yn ymddangos yn ffyrnig yn ei wedd nac yn fygythiol yn ei ffurf, nid oedd yn cynyrchu nac ofn na phryder yn ei feddwl ef na'r teulu. Nid oedd jchwaith yn peri nemawr flinder iddo, yr hyn a fu yn achlysur iddo oedi am fwy na blwyddyn i ymofyn âg un meddyg rheolaidd am foddion i gael ymwarded ag ef. Ar yr un pryd, byddai y teulu yn defnyddio y moddion goreu a adwaenent i'w symud ymaith. Ond ymwthio yn mlaen yn araf yr oedd y drwg hwn drwy yr holl dawelwch ymddangosiadol, dan wenu yn dæg yn ei wyneb ef a'i deulu drwy gorph blwyddyn o amser. O'r diwedd, gwelid ei fod yn newid ei wyneb i wedd mwy lliidiog, ac yn dechreu peri clywed ei nerth mewn poenau trymion, ac ar un diwrnod yn nechreu mis Medi, yn y flwyddyn 1874, derbyniodd y newydd gofidus fod ei fab ieuangaf ar drancedigaeth o angau disyfyd, yn nhy ei chwaer, yn Pittsburgh; ond er cyflymed y rhedai angau at ei amcan, fe gafodd ei rieni trwmlwythog yr hyfrydwch cymysglyd o'i weled yn fyw, ac yn cychwyn ymaith ar y 4ydd o Fedi. Yr oedd dirdyniadau y brofedigaeth hon mor arteithiol i deimladau tyner ei rieni oedranus, fel na chawsant ond diangfa gyfyng rhag disgyn i'r glyn cyn cyrhaedd adref yn ol. Yr ydys yn barnu fod y cyffroad erfawr a dderbyniodd meddwl Mr. Williams oddiwrth y dyrnod trwm hwn, wedi rhoddi y fath symbyliad i'w ddolur nes ei gyffroi i redeg yn mlaen yn

llawer mwy gorwyllt nag o'r blaen, hyd oni therfynodd ei wasanaeth yn angau y dyoddefydd. O dan yr amgylchiadau hyn dywedai Mr. Williams:

Medi 4, 1874, bu farw ein hanwyl fab, D. C. Williams, yn 26 oed, yn Alleghany, yn dra annysgwyladwy. Ond nid ydym yn gorfod heddyw dristáu fel y rhai nad oes ganddynt obaith. Ein Duw a folianer am hyn. Oh! buasai yn ofnadwy pe buasem yn gorfod credu fod ein hanwyl blentyn yn golledig! Pwy fuasai yn medru dal dan y fath faich a hwn? Ond nid felly y mae. Diolch byth i ti, ein Tad nefol. Er y cwbl, y mae yn y teimlad ryw wagle dyeithr iawn, rhyw deimlad sydd yn peri i ni o'r bron amheu gwirioneddolrwydd y ffaith. Helpa ni i ymdawelu, O Dad nefol. Cuddia ni yn y dydd blin.

Nid oedd y meddygon yn unol iawn yn eu barn, neu o leiaf eu hysbysiad am enw y dolur; eto ymddengys mai *tumor cancer* y gelwid ef gan eu goreuon. Ond beth bynag oedd yr enw mwyaf priodol arno, fe gerddodd yn fanwl drwy holl gyfansoddiad cadarn y dyoddefydd, gan nychu holl ranau cedyrn ei natur, dwyn ceidwaid ei dy ef i grynu, a chrymu y gwyr cryfion, a gwneuthur y ceiliog rhedyn yn faich, a'i droi yntau, o'r diwedd, yn sypyn o wendid i dy ei hir gartref.

Y mae yn bur debyg mai am agwedd meddwl y gwrthddrych yn ei ddyddiau diweddaf y bydd y darlennydd yn edrych yn benaf yn y benod hon, am mai oddi yno y gall ddysgwyl mwyaf o ddaioni; ac os dygwydd iddo ef fel y dygwyddodd i'r ysgrifenydd, fe fydd felly; canys y mae efe, trwy ddarllen ac ystyried ei brofiadau, fel y mae efe ei hun wedi eu hysgrifenu yn dipynau gwasgaredig, yn gweled yn amlwg fod ei enaid yn addfedu yn brysur mewn crefydd yn ei flyn-

yddoedd diweddaf, a'i galon yn faethfa i gynydd duw-
io!frydedd uchel.

Yn nechreu y flwyddyn 1873, ysgrifennai: "Byddaf yn ystyried y diwrnod hwnw yn ddiwrnod tlawd a diffrwyth os aiff heibio heb i Dduw siarad â mi drwy ryw ran benodol o'i Air." Ar yr 21ain o Fai, yr un flwyddyn, ysgrifennai: "Dymunwn gael byw am ychydig flynyddoedd eto i dri dyben: 1. Er cael hamdden i ymdrechu am adferiad llwyrach o wyneb Duw ar fy enaid. Yr wyf i raddau mawr yn y tywyll-
wech, dan guddiad wyneb fy Nhad, yn amheus iawn am fy sefyllfa dragywyddol—yn ofidus, terfysglyd, a digysur iawn; eto, nid wyf yn gollwng fy ngafael—yr wyf yn ymdrechu mewn gweddi yn fwy nag erioed. Yr wyf yn credu y llewyrcha efe arnaf eto, er nad wyf yn haeddu dim ond fy mwrw ymaith; eto, trugarog a maddeugar yw fy anwyl Dad. Oh! fy Nhad, cymer drugaredd arnaf, y gwaelaf o bawb, a'r mwyaf anhaeddianol ar y ddaear. Oh! na fwrw fi ymaith, na chymer dy Ysbryd sanctaidd oddi wrthyf; achub fi rhag anobaith. O llewyrcha, llewyrcha, nis gallaf fyw heb hyny, fy Nhad! Gwawr, O! gwawr, dyro cyn drsgyn i'r bedd. O! maddeu, cyn y delwyf o'th flaen i roddi cyfrif. Un llewyrchiad cryf a goleu, fy Nhad, cyn machludiad haul bywyd. Nid oes waredigaeth i mi, mwy nag erall, ond yn a thrwy ryfedd gyfryngdod Crist Iesu, fy Ngwardwr anwyl. Gwerth ei brynedigaeth, anfeidrol rinwedd ei waed, haeddiant annherfynol ei angan, ei aberth a'i iawn, a nerth a llwyddiant ei eiriol-
aeth Ef yw y cwbl sydd genyf am fy mywyd byth. O! diolch am ddrws eang yn agored pan y mae yn cau arnaf yn mhob man arall."

Ar y 14eg o Awst, drachefn, cawn a ganlyn ganddo: “Boreu heddyw yn Pittsburgh. Y mae fy meddwl yn llawn o deimladau tra chymysglyd. Yr ochr dywyll i'r cwmwl sydd tuag ataf i fesur helaeth er's misoedd bellach. Y mae pedwar peth yn llenwi fy meddwl y naill ar ol y llall, a'r naill yn gwthio y llall. Pan y mae un yn gafaelu ac yn llenwi y meddwl, daw y llall yn mlaen i gymeryd meddiant o'r ystafell. Tymhestlog ac ystormus yw fy meddwl; eto, nid heb obaith. Yr wyf yn gweddio llawer iawn, ac yn cael help tebygaf i weddio, mwy o flâs a hyfrydwch mewn darllen y Beibl a gweddio na dim arall ar y ddaear o lawer iawn. Rhyw feddwl er y cwbl, a thrwy y cwbl, yr ydwyf y cedwir fi. Ond os nad ydwyf yn dduwiol, nis gwn beth ydwyf—nis gallaf gael fy hun yn ddim arall. 1. Un peth sydd yn gwasgu fy meddwl yw fy nghyflwr ger bron Duw. Cymer hyn i fyny lawer o'm hamser ac ymdrechion fy enaid. Byddaf yn cael ambell lygeidyn goleu, ond byr ac anaml fydd, eto yn ddigon nerthol i'm cadw rhag anobeithio. Iesu Grist yw fy mhob peth byth, byth. Fy ngweddi o hyd yw am ffydd i gredu ynddo, a modd i sylweddoli pethau ysbrydol; byw trwy ffydd—cael fy mywyd a'm bywioliaeth trwy ffydd. Cartref fy meddwl i raddau mawr yw Crist a'r Beibl. Y Salm cxxx. yw fy mara beunyddiol. Prynedigaeth trwy waed yw fy unig obaith am ddiangfa. Duw, yn Nghrist, sydd i mi yn bob peth, ac yn bob peth am amser a byth. O! fy Nuw mawr, y Cyfryngwr, llewyrcha dy wyneb arnaf. 2. Fy ngwaith yn ngwinllan fy Arglwydd fel pregethwr. Y mae hyn yn bwysig ar fy meddwl y dyddiau hyn. Wedi bod am 52 o flynyddoedd yn y weinidogaeth, yr wyf yn cywilyddio ac yn gwrido mor wael, mor

arwynebol, mor hunanol, mor anfuiddiol, ië, mor ddiwerth a diffrwyth y treuliais yr holl flynyddoedd hyn. Dymunwn i'm hoes gael ei chuddio i gyd am byth mewn maddeuant. Nid oes dim ynddi yn werth ei ddangos o'm heiddo i. Eto, nid wyf yn dibrisio y fraint ryfedd a ddaeth i mi i gael gwneuthur dim yn nheyrnas fy Mhrynwr. O! na buaswn wedi treulio fy oes yn well filoedd o weithiau yn ngwaith y weinidogaeth. Ond, O! nid oes modd galw yn ol i ail dreulio. Y mae y cwbl yn awr yn ymyl y diwedd, a diwrnod setlo gellaw. Cuddia fi byth yn Nghrist, O! Dduw, ac o hyn i'r diwedd gwna fi yn fwy ffyddlon, gonest a didwyll, yn fwy nerthol yn dy nerth di, fy Nuw, i ddyfetha teyrnas y diafol a phechod. Yr wyf am ddial ar bechod. O na allwn ei ladd yn mhob man, ac yn mhawb, yn enwedig ynof fy hun. O! Dduw, na âd fi fel gweinidog yr efengyl yn niwedd fy oes, na fwrw fi ymaith mewn hensaint a phenllwydni. Bydd yn agos, fy Nhad, nes croeswyf yr afon. 3. Mae achos fy nheulu yn drwm ar fy meddwl. Y mae y mater hwn bron a'm llethu yn lân. Yr wyf yn credu fod fy ngwraig yn dduwiol, a'r nifer fwyaf o'm plant; ond yr wyf yn ofni am rai o honynt. Gan dy fod, O Dduw, yn rhoddi cymorth i mi i barhau i weddio dros fy mhlant a'm hwyron, mi ddaliaf ati tra byddaf byw. Yr wyf yn ceisio credu y gwnei di eu cadw, ond fe allai mai yn y bedd yn pydru y byddaf fi, ond os deui mewn pryd, *all right*. O! Dduw, brysia, brysia i'w hachub; ti a elli, nid yw i ti ond gwaith moment. Fy Arglwydd a'm Duw, cymer afael yn fy mhlant a'm hwyron. Trin hwy fel y mynot, ond achub hwynt. Os rhaid myned dan oruchwyliaethau Manasse, dwg hwy i weddio a llefain am drugaredd

a maddeuant. Fy anwyl Dad, ni throaf ymaith oddi-wrth dy ddrws, ni chei lonydd genyf, tra byddwyf byw, yn eu hachos. Llefaf ddydd a nos, llefaf heb arbed, llefaf a'm holl enaid a'm calon, O! fy Nhad, gwrando fi." Yn niwedd y mis Medi dilynol, dywed: "Y mae fy achos tragywyddol fy hun, a'm plant a'm hwyrion, a'm holl gylch perthynasol, yn gwasgu yn drwm iawn ar fy meddwl y dyddiau hyn. Yr wyf yn hyderu fod cyflwr y mwyafrif o honynt yn ddiogel, ond y mae rhai o honynt hyd yn hyn o dan arwyddion colledigaeth. Yr wyf yn gwneyd fy ngoreu yn mhob modd i geisio eu hachub, drwy weddiau, dagrau, cynghorion, esiamplau, &c. Nid ydynt hwy, na Duw y nefoedd, yn cael llonydd genyf yn eu hachos. Debygaf fy mod yn cael cymorth yn y dirgel a'r teulu i fod yn daer ar eu rhan wrth orsedd gras. Hoffais weddi deuluol yn fwy na'm hymborth angenrheidiol. Yr wyf yn credu nad esgeulusais achos fy mhlant a'm hwyrion yn y weddi deuluol unwaith am yr ugain mlynedd diweddf. Y mae genyf amryw resymau yn cael eu defnyddio bob dydd ger bron Duw am eu hachubiaeth: 1. Ei gyfamod. 2. Ei addewidion. 3. Helaethrwydd ei ras a'i drugaredd. 4. Anfeidrol rin wedd, gwerth a haeddiant bywyd a marwolaeth fy anwyl Brynwr a'm Gwardwr, Iesu Grist. 5. Y gogoniant mawr a ddeillia i'r Gwardwr byth yn eu hiachawdwriaeth, yn hytrach na'u damnedigaeth. Daliaf ati i lefain dros fy mhlant a'm hwyrion hyd yr anadl olaf. Gwrando fi, gwna di, er mwyn dy enw." Ysgrifena foreu Sabboth, Ebrill 26, 1874, yn Racine, cyn myned i'r chapel: "Yr wyf dan deimladau dwysion a chryfion iawn y boreu hwn. Y mae y pethau canlynol ar fy meddwl yn hynod o drwm: 1. Y

mae cymylau duon yn toi fy meddwl gyda golwg ar fy nghyflwr—fy mhechodau yn cael eu danod. 2. Tywyllwch mawr am fy ngalwad i'r weinidogaeth. 3. Ystormydd rhyfeddol gyda golwg ar iachawdwriaeth fy nheulu. O! Arglwydd helpa fi. Dymunwn y boreu hwn gael yr ysbryd i ogoneddu Duw; i fod yn lles i bechaduriaid; i ddinystrio teyrnas y tywyllwch; i fod yn onest a diragrith ger bron Duw a dynion; i gael cenadwri o'r nefoedd. O! dyro, Arglwydd—i weithio heddyw er ymbarotoi ar gyfer diwrnod y cyfrif mawr. O! gyfrif ofnadwy! Help, O help, O Arglwydd!”

Go ddystaw, ar y cyfan, oedd ein cyfaill pan ar ei wely angau o barth ei ymadawiad a'r byd hwn a'i deimladau yn y rhagolwg ar y dyfodol; ond pan y siaradai, arddangosai yr ymddiried llwyr af yn ngwirionedd a chadernid yr athrawiaethau a bregethodd, a'r hyder mwyaf disigl yn niogelwch ei gyflwr ei hunan. Gofynai un o'i gyfeillion, wrth edrych arno yn ymrwyfo drwy donau a dirdyniadau angenol, “Pa wedd yr ymddengys yr hen gyfamod heddyw, Mr. Williams?” gan gyfeirio at un o'i ddewisol bregethau, y geiriau hyny, “Eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, na chyfamod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd yn trugarhau wrthyt.” “O,” ebai yntau, “os ffordd yna yr ydych yn edrych, y mae yn *all right* arnaf o'r gymydogoeth hono er's haner canrif bellach.” Ac yn wir bu yr ysgrifenydd lawer gwaith, wrth edrych arno yn ymladd am ei fywyd, ac er hyny yn disgyn rhwng danedd y tonau terfysglyd, yn sibrwd yn ddystaw, “O! mor gryfion yw geiriau grasusol yr Iesu! O! mor gadarn yw yr efengyl fendigedig! Gellwch wneuthur pethau annhraethol fwy na gwyrthiau i

bechadur, gan eich bod yn gallu codi ei enaid anfarwol i orfoleddu o dan y fath bangfeydd ar geulenydd y tra-gwyddoldfyd ofnadwy, ar y pryd y bydd yn agor ei byrth i'w dderbyn ef i mewn iddo ei hun."

Ymddengys mai at y Parch. D. Harries, gynt o Columbus, O., ond yn awr o Chicago, yr ydoedd y llythyr diweddar a ddaeth ac a ddaw byth o'i law ef. Cymerwyd y brawddegau canlynol o hwn, er dangos agwedd meddwl ein brawd ar lan yr Iorddonen :

"Anwyl Frawd—Yr wyf yn dra diolchgar i chwi am eich llythyr o gydymdeimlad â mi yn fy nghystudd blin. * * * Nid peth bychan yw hyn yn fy ngolwg heddyw, yn enwedig wrth ystyried eich bod yn byw mor bell oddi wrthyf. Yr wyf ar fy ngwely wedi cael Beibl hollol newydd, yn ddiweddar, er fod ei ddalenau yn rhyddion o'm cwmpas o'r blaen. Ond y mae hwn yn argraffiad hollol newydd. Yr hen wirioneddau a bregethais am lawer o flynyddoedd sydd yn greigiau cedyrn o dan fy enaid heddyw, heb un cyfnewidiad arnynt. Y mae tri pheth yn cynal llawer ar fy meddwl yn bresenol, o dan fy mlinderau trymion, sef: 1. Eu bod yn llai na'm haeddiant. 2. Mai fy nhad sydd wrth y llyw yn barhaus. 3. Mai yr holl ffrwyth fydd tynu ymaith y pechod. * * * Yr wyf yn garcharor ar fy ngwely mewn poen mawr, ac yn nesâu yn gyflym at lan yr afon, ac yn treulio ambell ddiwrnod i gerdded ar ei glanau, gan daflu fy ngolwg yn awr ac eilwaith i'r ochr draw. Byddaf yn tybied weithiau fy mod yn clywed adsain o'r gwledydd draw yn dywedyd, 'Pwy gwynai iddynt hwy, y teulu dedwydd llon,' gan fod yr hafan ddymunol mor agos. Yno, yno y byddaf cyn bo hir bellach. Cyn y caf eich gweled eto, byddaf yn gwybod yn brofiadol yr hyn sydd genyf yn awr mewn hanes. Dymunaf ran yn eich gweddiau. Byddwch ffyddlawn. Ffarwel, ffarwel.

Eich brawd cystuddiol,

DAVID WILLIAMS."

Wele yn canlyn farwgoffâu i'r Parch. D. Williams a ddyfynwyd o baprau Chicago:

OBITUARY.—THE REV. DAVID WILLIAMS.

The venerable Rev. David Williams, late pastor of the Welsh Presbyterian Church, of this city, and probably the oldest minister in Chicago, died peacefully at 3 o'clock yesterday morning, at the family residence, No. 233 South Sangamon street. He had reached the ripe age of 75 years, and had been a true and faithful Christian during his ministrations, which extended over a period of fifty-seven years, twenty-six of which have been spent in this country, and ten in this city. He was born in Bonterwyd, Wales, Feb. 29, 1800, and graduated at the age of 22 in Lady Huntington's College, 55 miles from Chester, England. He entered the religious field immediately afterwards, and began a career of usefulness, marked by peaceful experiences, and fraught with great good to his fellowmen in both Great Britain and the United States. Mr. Williams came to this country in 1849, and took up his abode in Remsen, N. Y., where he presided satisfactorily over a small congregation for three years and a half. Thence he removed to Pittsburg, and preached for three years, and until a call was made for his active services at Columbus, O., where he remained two years. His last duties, previous to coming here, were performed in Milwaukee, and occupied him for four and a half years. Ten years ago he took charge of a little congregation of his countrymen in a small chapel on Desplaines street, between Randolph and Lake, and by his energy and activity swelled its numbers to such goodly proportions that a larger and better edifice was found necessary, and a removal was had to the church on the corner of Monroe and Sangamon streets. Here, two months ago, he preached his last sermon, and was compelled against his will to forego his labors because of an illness which had greatly impaired his health for

the past two years. During the long period through which his ministrations lasted, he was a zealous and unflinching Christian, and active in the highest degree. His health was generally good until the time above mentioned,—two years ago,—when a tumor made its appearance on his body, and defied the efforts of medical skill to remove it. Ten days ago he was confined to his house, but not to his bed, and it was only until a few days since that the good old gentleman was forced, from sheer exhaustion, to succumb to the ravages of disease, and await the result of the last efforts to prolong his life. He gradually sank, however, and died with scarcely any perceptible pain. He maintained his consciousness nearly to the last, and remarked to his sorrowing family that it “was sweet to die.” He said, “I’m going home; this is the commencement of glory,” and expired after a few similar expressions indicative of his feelings.

Deceased was married forty-seven years, and leaves a wife and nine children, eight of whom are daughters, and, with the exception of two in Pittsburg, all living in Chicago.

The funeral takes place on Christmas day, at one o’clock P. M., from the late church of deceased, and the services, which will be unusually impressive and interesting, will be conducted by the Rev. A. E. Kittredge, the Rev. Mr. Hughes, and probably the Rev. Moses Williams.

The gay world still may seek delight,
The thoughtless wander on,
But his kind deeds with holy light
Will shine though he is gone.

—In Chicago, Dec. 23, 1874, Rev. David Williams, late pastor of the Welsh Presbyterian Church.

Mr. Williams was born in Bonterwyd, Wales, February 29, 1800, and graduated at the age of 22, in Lady Huntington’s College, England. He came to this country in 1849, from Llanidloes, Montgomeryshire, North Wales, and preached for more than three years

in Remsen, N. Y., when he removed to Pittsburg, Pa., and from there to Columbus, Ohio. He came to this city ten years ago, taking charge of a small congregation of his countrymen in a chapel on Desplaines street, between Randolph and Lake streets, and under his faithful ministrations the congregation increased in numbers so that a large building was purchased on the corner of Monroe and Sangamon streets. Here he labored until about two years ago, a successful minister of the Word of Life, upon whose prayers and teachings ever rested the seal of God's approval. He was married forty-seven years, and leaves a wife and nine children, all of whom but two reside in Chicago. His disease was a tumor, which defied all the efforts of medical skill to destroy it, and after a few weeks of suffering he sweetly fell asleep in Jesus. Thus another watchman on the walls of Zion has been called home to higher, grander, purer service in the immediate presence of Jehovah Jesus. And surely if any one from the vineyard of the Master will receive the "Well done" from his lips, our dear Brother Williams has already heard this approval, for he was one who lived from day to day in the secret place of the Most High. He was devotedly attached to his family, and as a husband and father was tender in his love, faithful in every duty, and earnest in prayer. As a preacher of the everlasting gospel, he was gentle and persuasive, but earnest and bold in rebuking sin and warning sinners. He preached Christ, and Christ only, and his one passion was a passion for souls. He was an earnest student of the Bible, rejoicing in its promises, and finding its words sweeter than honey to his mouth, and more precious than fine gold. He knew by experience the discipline of trial, but he bore every burden gladly for his Master's sake, and never murmured, but gloried, like Paul, in tribulation. Thus he lived, walking with God, leaning on the Beloved, winning souls to Christ, until in his old age the summons came, and death found him ready and glad to go. His sick chamber

was a daily witness to the power of the grace of Jesus. and even in his last hours he was preaching the gospel. Among his last words was this sweet testimony: "I'm going home. This is the commencement of glory." We shall go to him, Glory to God, but he will not, would not if he could, return to us. May our last end be like his.—REV. A. E. KITTREGE.

Er mwyn sicrhau i'r wlad fod yr ychydig anghydwediad a fu rhyngddo a'i frodyr yn ei flynyddoedd diweddaf wedi ei symud ymaith, ddir i mewn yma y llythyr canlynol, yr hwn a anfonodd cyfarfod ei ddosbarth at ei weddw ar ol ei gladdu:

RACINE, Mawrth 18, 1875.

Anwyl Mrs. Williams:

Mewn cyfarfod dosbarth a gynaliwyd yn Waterville, Waukesha, y mis diweddaf, galwyd ein sylw at y golled bwysig a gawsom drwy farwolaeth annysgwyliadwy eich diweddar a'ch anwyl briod, y Parch. David Williams, yr hwn a fu yn cydlafurio â ni am lawer o flynyddoedd yn y cylech hwn o feusydd ein Gwardwr mawr.

Yr oedd y crybwylliad cyntaf a wnaed yno am yr amgylchiad pruddaidd hwn yn arllwys y teimladau mwyaf dolurus i bob un o'r frawdoliaeth, o herwydd eu bod yn ystyried iddynt golli gwr grymus o'u plith yn ei farwolaeth ef; ac nid oeddem yn petruso barnu na dywedyd fod ei farwolaeth ef hefyd wedi gwneyd bwch mor fawr yn rhengau ein gweinidogion nas gall ein holl gyfundeb yn America lai na theimlo ei phwy-igrwydd i fesur helaeth.

Ond er mor boenus oeddem wrth ystyried y golled fawr hon, ac mor weiniaid y teimlem ein hunain i fyned yn nihaen hebddo, nis gallasem lai na llawenyachu mewn dagrau wrth wrando y newyddion cysurus a gawsom am sefyllfa dawel a dedwydd ei ysbryd drwy dymor ei gystudd. ac yn enwedig yn y dyddiau diweddaf y bu yn aros gyda chwi. Yr ydym yn

deall fod ei galon ef yn ymddiried yn ddisigl yn ei Dduw, a'i ysbryd wedi ymlenwi â'r llawenydd sydd trwy gredu, pan ydoedd yn sefyll yn ngwyneb yr amgylchiadau mwyaf ofnadwy ag sydd i gyfarfod â chreadur rhesymol byth. Ac y mae edrych ar y fath nerth a hyfrydweh yn cael eu gweinyddu iddo ef, drwy athrawiaethau cedyrn Cristionogaeth, ar y pryd yr oedd ei natur yn cyd-ymollwng yn nglyn cysgod angau yn cynrchu ynom ninau fesur helaeth o'r un teimladau dymunol ag oedd ynddo yntan. Bellach, nid oes genym ddim i'w wneyd, ar ol edrych ar holl gysylltiadau marwolaeth ein hen frawd ymadawedig, ond "diolch i Dduw a chymeryd cysur."

Weithian, anwyl chwaer, goddefweh i ni goffâu eto, ein bod yn teimlo yn ddwys o herwydd y golled a wnaeth angau yn ei ymweliad diweddar a'ch ty, ac yn galw ar ein gilydd i'ch cyflwyno chwi a'ch anwyl blant yn fynych, fynych, i sylw "Tad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon." Gwyddom yn dda mai peth mawr i wraig, a mam naw o blant, oedd colli ei gwr a thad ei phlant. Do, do, collasoch amddiffynydd cryf, arweinydd gofalus, a chynghorwr da, a pheth oedd fwy na hyny, collasoch weddiwr taer o'r teulu hefyd. Ond y mae yn dda genym gael hyderu na chollasoch eich Duw, eich Gwardwr, na'ch crefydd eto. Cewch lechu yn nghysgod yr Hollalluog, ar ol colli braich o gnawd, a thynu dwfr o "ffynnon y dyfroedd byw," ar ol i bydewau toredig y ddaear sychu i fyny oll. "A'r Arglwydd a'th arwain yn wastad, ac a ddiwalla dy enaid ar sychder, ac a wna dy esgyrn yn freision; a thi a fyddi fel gardd wedi ei dyfrhau, ac megys ffynnon ddwfr, yr hon ni phalla ei dyfroedd."

Gobeithiwn yn hyderus, a gweddiwn yn daer ar fod yr amgylchiad hwn yn foddion i gadw ein meddyliau ni a chwithau ar ddiffygion pethau daearol, ac i'n harwain i ymdrechu yn fwy egniol am dduwioldeb, "yr hon sydd fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd y sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd." Y mae colli ac enill wedi eu rhoddi i lawr yn ein gwers-lyfrau

ni yn y byd hwn, gan ein Hathraw mawr, a'n dyledswydd ninau yw dysgu myned drwy y naill a'r llall o honynt yn deilwng.

Dylem gofio na bydd ein habsenoldeb oddiwrth ein hen gyfaill a'n blaenodd ond byr ei barhad. Cawn ei gyfarfod yn bur fuan eto, mewn gwlad llawer mwy dymunol na'r byd hwn, ac mewn gwedd llawer mwy manteisiol i fwynhau ein gilydd, "heb byth ymado mwy." Am hyny, sychwn ein dagrau, gyfeillion, a golchwn ein dillad, ac eneiwn ein penau, a gloewn ein wynebau i gyfarfod ein hanwyliaid ger bron ei ogoniant ef, yn ddifeius mewn gorfoledd, y rhai sydd wedi eu casglu i lys y Brenin. O! mor werthfawr i ni fydd cael mesur o sicrwydd fod ystormydd ein bywyd yn ein cario i'r hafan ddymunol, a phob chwerwedd a'n cyferfydd yn y byd presenol yn ein cyfodi i chwenychu gwlad well.

Bydd yn briodol a buddiol i ni gofio hefyd yn barhaus nad yw y Brenin Mawr, er ei fod yn cario rhan fawr o'i waith yn mlaen mewn ystafelloedd tywyll i ni, yn ddarostyngedig i wneyd unrhyw gamgymeriad gyda ein hamgylchiadau ni, na neb arall. Na, da ac un-iawn yw pob peth a wna efe, a diau mai felly y byddwn ninau yn gweled iddo wneyd ar ryw adeg sydd i'n cyfarfod ar ol hyn.

Terfynwn bellach drwy gofnodi y llinellau canlynol o waith y diweddar Barchedig Wm. Roberts, Amlwch, pan oedd wedi ei gylchynu â phrofedigaethau pyrth marwolaeth:

Fy nghroesau o bob rhyw
A rifwyd gan fy Nuw,
Mae mwy gerllaw ;
Yn trydlawn iawn fe dry
Awelon nefoedd fry,
Caf weled hyn o'm tu
Ryw ddydd a ddaw.

Ydwyf, anwyl chwaer, dros y cyfarfod dosbarth,
Yr eiddoch yn gywir, WILLIAM HUGHES.

PENOD X.

EI NODWEDDION GWEINIDOGAETHOL.

Y mae y byd moesol yn ymsymud yn mlaen yn gyflym, fel y cawn fod y byd materol yn gwneyd. Dywed yr athronydd fod y ddaear yn teithio yn ddiorphwys ar ei chylchdroadau erfawr, a hyny yn hynod gyflym, ac y mae awdurdod uwch nag athronydd wedi ein hysbysu fod ei thrigolion hwythau "yn myned heibio, a'u chwant hefyd." Pan yr edrychom yn ol ar y rhan a aeth heibio o'n hoes, yr ydym yn gweled fod y naill genedlaeth wedi ymwithio i mewn i'r byd gyda y fath gyflymdra, a chenedlaeth arall wedi llithro allan o hono o fewn yr un ysbaid o amser, ac nis gallwn lai na chyfrif y tymor fel gwiliadwriath nôs, a'r holl oruchwyliathau a gyflawnwyd ynddo yn ail i freuddwyd un wrth ddiuno. Bydd gweled fod dosbarth mor luosog o'r genedlaeth bresenol heb wybod ond ychydig am John Elias, Christmas Evans, Williams y Wern, a'u cydoeswyr, heblaw eu henwau fel prégethwyr, o leiaf heb eu gweled, na'u clywed erioed yn pregethu, yn taro ein meddwl â syndod dirfawr, nes ein gwasgu yn fynych i ofyn, Pa le yr ydym, ac i ba le, mewn difrif, yr ydym wedi myned? Wel, yr atebiad yw, "Y mae y byd yn myned heibio." Gellir dyfod yn nes eto, a gweled fod nifer mawr o Gymry America bron mor ddyeithr a hyny i Rees, a Hughes, o Liverpool, a Jones, 'T'alsarn, Aubrey, &c., a buan iawn bydd tyrfaoedd o wrandawyr y weinidogaeth Gymreig yn y wlad mor anwybodus am wrthddrych y cofiant hwn ag ydynt eisoes am ei hynafiaid. Erys ei enw ar dafod gwlad yn llawer hwy nag

ar ei chôf, a bydd rhyw gymaint o'r cofiant hwn, ond odid, yn aros yn llyfrgelloedd teuluol ein cenedl pryd na bydd neb o'u mewn yn gallu cofio ei wrthddrych. Dyna reswm yr ysgrifenydd am roddi cais ar gyflawni y gorchwyl anhawdd o roddi darluniad cywir o nodweddion Mr. Williams mewn gwahanol gylchoedd yn y benod hon.

Tuag at i'r darlennydd a adawyd heb gydnabyddiaeth bersonol â gwrthddrych y gyfrol fechan hon i gael pob mantais gyrhaeddadwy i enill hyny trwy ei Gofiant, da fyddai iddo, yn mlaen pob peth, edrych yn graff ar ei arlun yn nechreu y llyfr, canys fe fydd hyny yn sier o gadw ei syniadau yn lled gywir am ei ddyn oddi allan, a bydd yn bur debyg hefyd o'i arwain i fwynhau adnabyddiaeth led helaeth o lawer o ansoddion cryfaf ei feddwl.

Gallem feddwl mai o gylch pum' troedfedd a saith modfedd ydoedd o daldra, a'i ysgwyddau yn bur lydain, fel pe buasant wedi eu bwriadu i ymgynal o dan feichiau trymach nag eiddo y cyffredin o ddynion. Yr oedd iddo ben pur fawr, a'i ffurf yn addaw helpu cryn lawer ar gynydd gwybodaeth dduwinyddol ei genedl; a'i wyneb yn mesur yn bur agos yr un faint bob ffordd; ond llygaid bychain, o bryd tywyll, a gafodd, a'r rhai hyny wedi eu gwthio yn bur bell i'r dwfn, ac aeliau mawrion yn sefyll oddi arnynt, fel pe buasant wedi rhedeg i lawr oddiwrth odrau ei dalcen mawr ef, o dan ryw ystorm neu gilydd, gan fygwth eu gorchuddio oddiwrth bob perygl allanol a allai ymosod arnynt; gorweddaei ei drwyn ar gyfran pur helaeth o'i wyneb, ac estynai ei ben llydan a chrib-goch yn ddigon isel i weled pob peth a wnaei ei enau; yr oedd ei enau yn

llydan, fel un a wnelsid i siarad llawer yn ddiraffferth. Yr oedd yn ddigon eang i ollwng allan lifeiriant o hyawdledd, heb ei orfodi i besychu, na thagu, na chlician, fel potel fawr wrth fwrw allan ei chynwysiad trwy wddf cul. Mewn gair, yr oedd holl ffurf ei wynebpryd yn brydweddol i edrych arno, ac yn hynod o addawol fel pregethwr poblogaidd i'r minteioedd a'i gwrandawai yn wastad. Byddai yn cerdded yn heinyf ac yn lled gyflym, yn gyffredin; ond pan yn ymrodio ar yr heol ydd byddai yn bur dueddol i osod ei ddwylaw i ymgaredigo a'u gilydd ar ei gefn llydan, ac ymsymud yn mlaen yn weddol araf, gan ogwyddo ei ben i lawr i edrych am y lle mwyaf manteisiol i roddi ei draed i lawr bob tro ar ol eu codi oddiwrth y ddaear. Ni byddai braidd un amser yn ymdrafferthu i edrych ar ddim o'i gwmpas, nag ar neb a'i cyfarfyddai; o herwydd ei fod yn gweled fod myfyrio wrth gerdded yn talu yn llawer gwell iddo na llygadrythu ar bob peth o'i gwmpas. Dichon, ar yr un pryd, fod yr agwedd hon wedi peri i rai ei gyhuddo o fod yn rhy ddisylw o'i gyfeillion, ac yn anfaddeugar i'w gaseion. Ond beth bynag am gywirdeb neu anghywirdeb y cyhuddiad hwn, y mae yn rhaid i'r rhai a'i hadwaenai oreu addef ei fod yn *meddwl* llawer iawn ar y ffordd a gerddai, ac yn y tai y lletyai ynddynt, yn ogystal ac yn ei fyfyrgeill ei hunan. Yr oedd yn feddyliwr caled a gwydn iawn, o dan lawer iawn o anhawsderau.

Yr oedd Mr. Williams yn etifedd tymer naturiol fywiog, fel y gallesid casglu yn naturiol oddiwrth ei ymddangosiad allanol, ac y mae tymer fywiog yn wastad mewn perygl o ferwi dros ymylon rheswm, pan y cyferfydd â rhyw wrthdarawiad cryf, yn enwedig os cyfer-

fydd â hyny yn sydyn a dirybudd. Y mae profedigaeth annysgwyliaidwy yn demtasiwn beryglus i berchen tymer fywiog, ac felly y profodd ei hun lawer gwaith iddo yntau. Gwelid elfenau y dyn ynddo ef, fel eraill, pan yn blentyn, ac yr oedd y dymer hon yn egluro ei hun ynddo yn gynar iawn, fel y gwelir drwy lythyr ei chwaer henaf, Sarah Williams, at yr ysgrifenydd: "Pan oeddem yn blant gyda ein gilydd, yn saith o nifer, yr oedd Dafydd o ddeuddeg i bymtheg oed, a minau yr henaf o'r cyfan. Un diwrnod yr oeddem gyda ein gilydd yn cadw yr anifeiliaid, ac fe esgynai Dafydd i ben craig i bregethu i ni bob cyfle a gaffai; ac un waith, pan wrthi a'i holl nerth, ac yn methu a gweled ei wrandawyr yn teimlo o dan ei weinidogaeth, daeth i lawr o'i bwlpudd, a chawsom gosfa dda ganddo â gwialen, nes gorfu arnom deimlo ac wylo dan weinidogaeth hono, am beidio teimlo o dan weinidogaeth y pwlpudd craig." Gwelsom aml un, o bryd i bryd, o'r frawdoliaeth hono sydd yn llawnach o dân chwilboeth nag o ddwfr oer, yn syrthio i'r un amryfusedd ag yntau yn awr y brofedigaeth. Gallem feddwl fod hyd yn nod yr apostolion eu hunain yn ymylu weithiau ar y camgymeriad hwn. A dichon y gallwn ddywedyd fod y nifer luosocaf o gwympiadau swyddogion eglwysig yn cael eu cynyrchu neu eu hachlysuero gan ryw fath o anghydbwysedd sydd rhwng eu sel a'u brwdfrydedd a'u hamynedd a'u dyoddefgarwch o dan wahanol amgylchiadau eu bywydau. Go debyg fod y dymer hon i'w gweled yn bur fynych yn ein gwrthddrych, drwy lymder ei arabedd. Yr oedd rhai o'i sylwadau yn fin-iog ofnadwy, er fe allai na byddai efe ei hun yn bwr-iadu iddynt gael eu teimlo felly bob amser. Dywedwyd

wrthym ei fod yn cerdded unwaith yn Nghymru, pan oedd ei amgylchiadau bydol wedi dyrysu, a chyfreithiwr yn cydgerdded âg ef ar un llaw, a cheisbwl ar y llaw arall, ac i'r cyfreithiwr, wrth alw ei sylw at amrywiaethau siarad y cyhoedd am dano, ofyn iddo pa un a'i cnaf a'i lleidr ydoedd, ac iddo yntau ateb, "Nid wyf yr un o'r ddau, syr, ond yr wyf yn cerdded yn y canol rhwng y ddau." Pa un bynag a'i efe neu rywun arall oedd tad cyntaf y wireb, yr oedd ei defnyddiad yn yr amgylchiad uchod yn weinidogaeth lem iawn i'w gymdeithion ar y pryd. Gallem nodi llawer gwireb pur finiog o'i eiddo heblaw honyna, ond ystyrir un yn ddigon i'n hamcan presenol.

Yr oedd ein gwrthddrych yn berchen meddwl cryf hefyd, a'r cryfder hwnw yn cael ei nodweddu â'r cyflymder a addewid yn ei fywiogrwydd cynhenid. Anfynych y cyfarfyddir â meddwl mor dreiddgar a'r eiddo ef, ac anfynychach fyth y gwelir meddwl yn gallu gwneyd gwaith mawr mewn cyn lleied o amser ag ef. Gwnai lwybrau iddo ei hunan i diroedd digon anhygyrch ar brydiau, ac archwiliai gyfandiroedd hollol ddyeithr i'r nifer amlaf o'i gyfoedion, a hyny mewn amser byr. Yr oedd y manylrwydd a arferai wrth ymdrin a gwirioneddau y Beibl, yn dangos nodwedd fanwl ei feddwl wrth ei chwilio. Edrychai yn astud yn ngwyneb pob gwirionedd, ac nis gollyngai ef o'i olwg heb fyny gweled ei wahanol gysylltiadau. Yr oedd yr elfen hono, hefyd, a elwir yn allu trefniadol, yn bur gref yn ei feddwi ef. Gwelid hon yn ymddangos yn y wedd gyfundraethol oedd ar ei holl waith ef. Gwisgai ei holl bregethau, ei draethodau, ei areithiau, ac hyd yn nod ei anerchiadau eglwysig ef y ffurf hon, Mewn

gair, yr oedd ei feddwl ef wedi ei gyfoethogi a helaeth-rwydd o'r galluoedd angenrheidiol i wneuthur beirniad ysgrythyrol o radd pur uchel.

Ond er fod yr Arglwydd wedi ei wneuthur yn "llestr etholedig iddo ei hun, i ddwyn ei enw ger bron y cenedloedd, a breninoedd a phlant Israel," wrth ei greu y tro cyntaf, yr oedd yn llestr gwag, heb ddim daioni yn trigo ynddo hyd y dydd y crewyd ef o'r newydd yn Nghrist Iesu i weithredoedd da. Dyma y dydd y derbyniodd efe yr "eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw, fel y gwybyddai bob peth," ac y daeth pethau Ei Lyfr yn bethau ei galon, a phethau ei ddeall yn bethau ei serchiadau, a'r hyn oedd yn cartrefu yn ei ben i orwedd ar ei deimladau dyfnaf. Erbyn hyn, yr oedd y dyn newydd yn teimlo ei hunan wedi dyfod i fyd newydd i fyw—o'r tywyllwch i oleuni, neu o'r byd anianol i'r byd ysbrydol. Yr oedd yr hen bethau wedi myned heibio, a phob peth wedi eu gwneyd o newydd, ac yntau yn rhodio mewn newydd-deb buchedd. Nid ydym, wrth grybwyll hyn, yn dewis i'r darlennydd feddwl ein bod yn ei ystyried yn ddifai ger bron Duw na dynion, mwy na dynion eraill. Na, yr ydym yn gwybod yn amgen; eto, nid ydym yn barnu fod yn ddyledswydd arnom goffa ei anwiredd, mwy nag y gwnaeth Dafydd am eiddo Saul par yn galarnadu ar ei ol. Y mae gormod, ysywaeth, o ddiffygion a chamweddau yn y byd eisoes, a bychan o rinweddau, ac am hyny, gwell genym gladdu llygredigaethau dynolryw na'u cloddio allan o feddau y meirw.

Yr oedd ein gwrthdych yn sefyll yn uchel iawn fel gweddiwr, ac yn wir y mae pob gweinidog a welsom ac a glywsom am danynt hyd yma, wedi cyrhaedd

grymuder a llwyddiant anarferol yn y weinidogaeth, wedi hynodi eu hunain fel gweddiwyr. Un o'r pethau penaf a ellir eu rhoddi yn rheswm dros boethder dylanwadol a goleuni seraphaidd pregethau llawer o'n tadau a'n diwygwyr yw, eu bod yn cynal cymundeb gwastadol gyda Duw yn eu myfyrdodau a'u gweddian, ac y mae yn ddiameu ei fod yntau felly. Dywedai y Parch. John Hughes, Liverpool, mewn llythyr atom: "Ni chefais y fraint erioed o glywed y diweddar Barch. D. Williams yn pregethu, er i mi ddymuno yn fawr cael hyny; ond clywais ef yn gweddio ar ddechreu oedfaon fwy nag unwaith, ac yr oeddwn yn y fan yn teimlo mai nid dyn cyffredin ydoedd. Yr oedd ganddo gyfoeth o ymadrodd, llais treiddgar a chlochaidd, ystryd bywiog a thanllyd, ac yr oedd yn hawdd gweled ei fod yn ymarfer llawer â Duw." Dywedai yr un gwr drachefn: "Dywedai gryn lawer o'i hanes wrthyf pan oeddwn yn Wisconsin, yr amserau a aethant drosto—yr amgylchiadau profedigaethus a'i cyfarfyddodd yn Nghymru pan yn ddyn ieuanc, a'r helbulon a welodd yn America; ond er ei fod fel un wedi ei glwyfo, eto yr oedd mor siriol a bachgen, yn llawn bywiogrwydd, ac nid ymddangosai fod dim surni yn ei ysbryd at neb na dim. Mae yn dda genyf i mi ei adnabod, ac y mae genyf adgof hyfryd am ei dynerwch a'i garedigrwydd." Y mae genym y tystiolaethau mwyaf diamheuol y byddai yn treulio llawer o'i amser i weddio yn ddirgel bob dydd. Yr oedd yn byw y ty nesaf i'r capel yn Milwaukee, ac fe fyddai yn treulio llawer o'i ddyddiau i weddio yn y capel yn ddyddiol. Derbyniasom y dystiolaeth hon gan ei briod, a chan gyfeillion eraill a fuont yn gwrando arno ddegau o weithiau, ac y mae yn

hawdd gweled ar ei ysgrifeniadau ef ei hun ei fod yn "gweddio yn wastad ac heb ddiffygio,"—yn "gweddio yn ddibaid." Ac yn sicr, yr oedd ei weddïau cyhoeddus yn dwyn yr un dystiolaeth am ei weddïau dirgel ef. Yr oedd ei "Dad, yr hwn a welai yn y dirgel, yn talu iddo yn yr amlwg." Ac y mae yn ddigon amlwg fod llygaid treiddgar ein hymwelydd o Liverpool wedi canfod hyn, wrth gael ond rhyw drem neu ddwy ar ei weddïau cyhoeddus ef. Ni buasem yn aros cyhyd gyda hyn, oni b'ai ein bod yn gwybod mai colled anferthol i weinidogaeth yr efengyl a fyddai i'w gweinidogion golli ysbryd gweddi, ac nis gallwn ymatal heb ddatgan ein hofnau yn America yn y dyddïau hyn. Nid yw ein gweddïau cyhoeddus yn cyhoeddi mor glir ag y byddai da rhyw lawer o weddïau dirgel; ac os felly, nid rhyfedd fyddai gweled y weinidogaeth Gymreig yn colli ei nerth, ac yn nychu i farwolaeth yn ein mysg cyn hir eto.

Yr oedd Mr. Williams yn fyfyrwr pur nodedig. Yr oedd ei holl bregethau a'i anerchiadau, a'i ymddyddanion cyffredin yn cario arwyddion o feddwl a myfyrdod pur drwyadl. Yr oedd wedi arfer meddwl cyn siarad, ac o herwydd hyny byddai ei siarad ef beunydd yn arddangos y rhagfeddwl a'i blaenorai. Nid peth dibwys a diwerth i bregethwr yw bod yn gynil ar siarad ar fater na chafodd lawer o'i feddwl yn flaenorol; o herwydd y mae pob camgymeriad bychan a wna efe yn bur debyg o'i dynu i lawr yn meddwl y lluaws gyda ei bethau mwyaf. Yr oedd ei fyfyrdodau yn cymeryd cylch llawer eangach at eu gwasanaeth na therfynau ei lyfrgell, a llawer mwy o amser i weithio na rhyw nifer terfynol o oriau allan o bob diwrnod. Byddai yn myfyrio yn barhaus pan ar ei deithiau, ac ar ei rodfeydd

cyffredin, ac yn y tai yr ymwelai yn achlysurol â hwy, yn ogystal ag yn ei dy ei hun. Dywedai Mrs. Edward Thomas, Ottawa, Minn.: "Fe fum i yn aelod o eglwys Mr. Williams am wyth mlynedd,—yr holl amser y bu yn Milwaukee, a rhan o'r amser y bu yn Chicago,—a gallaf ddywedyd iddo ddangos y fath ofal am danaf a phe buaswn yn blentyn iddo, o'r amser yr oeddwn yn bedwararddeg ced i fyny hyd derfyn yr wyth mlynedd canlynol. Cyfarfyddais ef lawer iawn o weithiau ar yr heol, yn cerdded yn ol ac yn mlaen tua y *lake shore*, a llyfr yn ei law. Gofynwn iddo weithiau, 'Beth ydych na ei wneyd, Mr. Williams?' Atebai yntau yn siriol, 'Yr wyf wrthi hi yn pobi, fy ngeneth i, erbyn y Sabbath.'" Yr ydym ninau yn gwybod, drwy sylw personol arno, mai peth anhawdd oedd ei gael i eistedd yn dawel gyda chyfeillion yn nhai ei letywr ond am ychydig iawn o fynyddau, heb godi ar ei draed i gerdded yn ol ac yn mlaen yn yr ystafell, a'i ddwyllaw ar ei gefn, a'i ben yn ymblygu at y llawr, fel un a fyddai wedi ei lyncu i fyny gan ryw bwnc neu gilydd. Gellir ychwanegu eto, a dywedyd fod yr ysgrifeniadau a adawodd ar ei ol yn dangos yn amlwg ei fod yn wr hynod o fyfyrgar drwy ei oes; ac o ran hyny, y mae yn rhaid i'r gweddiwr mawr gael bod yn fyfyrwr mawr hefyd; ac y mae yr hwn fydd mawr mewn gweddi a myfyrdodau ysgrythyrol, yn sicr o fyw mewn cymundeb dyfal â Duw. Gallen farnu yn bur sicr fod llawer iawn o'i nerth gweinidogaethol yn tarddu o'r ffynonellau uchod, a diameu fod duwioldeb uchel, a chymundeb gwastadol â Duw, yn allu cryf ynddo ei hunan tuag at iawn weinyddu gweinidogaeth yr efengyl.

Bwriadem wrth ddechreu y benod hon ei hestyn yn

mlaen can belled ag i sylwi ar gyfansoddiad ei bregethau; ond gan fod hyny yn cael ei wneyd yn rhagorol yn y benod nesaf, ymataliwn, rhag ein cael yn euog o adrodd yr un pethau ddwywaith.

PENOD XI.

LLYTHYRAU AT YR AWDWR.

NODWEDDION GWEINIDOGAETHOL Y PARCH.
DAVID WILLIAMS, CHICAGO, ILL.,

GAN Y PARCH. WILLIAM ROBERTS, D. D., HYDE PARK, PA.

Gallwn ddywedyd heb betrusder fod y Parch. David Williams yn sefyll ar ei ben ei hun yn mhlith holl weinidogion y cysegr. Nid oedd ei ddoniau gweinidogaethol yn dwyn tebygolrwydd i'r eiddo neb a adwaenem, yn mhlith y Cymry na'r Saeson. Nis gallasai neb ei gyhuddo o ddynwared yr un pregethwr, ac yn wir yr oedd yn anhawdd iawn i'r un pregethwr ei ddynwared yntau. Nid oedd yn debyg i neb ond iddo ei hun. *Un* Parch. David Williams, Llanidloes, oedd yn Nghymru, tra y bu yn aros yno; ac *un* Parch. David Williams, Chicago, oedd yn America, wedi ei ymfudiaeth yma. Yr oedd yn wahaniaethol oddiwrth bawb o'i frodyr. Gwelid ynddo brawf byw a nerthol o gywirdeb tystiolaeth yr apostol Paul, parth dull gweinyddiad doniau yr Ysbryd Glan, "Yr hwn sydd yn cyfranu i bob *un* o'r neilldu, megys y mae yn ewyllysio."

Er fod ei enwogrwydd fel pregethwr yn gwisgo y nodwedd unigol hwn, eto yr ydym yn teimlo anhawdder yn nglŷn â'r gorchwyl o dynu allan brif linellau y portread, a'i arlliwio yn briodol, gan ddangos y *shades* yn unol â chymesuredd y goleuni a adlewyrchai arno. Teimla yr arlunydd, yn ddiau fod mantais ac anfantais

yn nglŷn â'r gwaith o dynu ardeb o flodeuyn na cheir ei gyffelyb. Felly y byddwn ninau yn teimlo wrth geisio darlunio nodweddion neilldrol pregethwr ag y gellir darllen ar ei gymeriad cyffredinol y cylymair "non-such"—"neb yn debyg." Yn *neillduolion* yr arweddau, a *manyllion* cymesuredd y cysgodion, y gorwedd elfenau yr anhawsder i'r arlunydd a ninau i berffeithio gwrthdrysychau ein sylw, cyn belled ag y gallo llaw dyn ei gyrhaedd. Nis gallwn dd'od i fyny â pherffeithiad prydfert hwch gwaith llaw Duw yn y naill na'r llall. Mae cywreinerwydd y gweithrediad dwyfol, yn y blodeuyn ac yn y pregethwr, yn mhell tu hwnt i ddynewarediad a desgrifiad dynol. Mae dirgelwch yn elfen hanfodol yn ngweithredoedd Duw, ac wrth eu hystyried, gwelir yn amlwg "ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod;" a'r hyn sydd wir am y blodeuyn, neu ryw wrthdrysych arall yn y byd materol, sydd wir hefyd am y pregethwr yn y byd moesol ac ysbrydol. "Anrhydedd Duw yw dirgelu peth; ond anrhydedd brenin yw chwilio peth allan." Yr ydym, modd bynag, i adnabod y gweithiwr wrth ansawdd ei waith; yr achos, wrth natur yr effeithiau a gynyrcha. Baich ein hymchwiliad, gan hyny, yn hyn o orchwyl, fydd ymofyn am deithi gweinidogaethol y gwas hwn i Grist, fel ffrwythau yr Ysbryd. Nis gallwn wneuthur hyn yn annibynol ar ei gymwysderat corphorol a meddyliol; canys yr ydym yn credu ei fod wedi cael ei neillduo gan Dduw o groth ei fam i ddatguddio ei Fab ynddo ef, fel y pregethai ei efengyl yn Nghymru ac yn America.

Yr ydym yn teimlo ein rhwymedigaeth i ddyweyd yn gyntaf, ei fod yn

BREGETHWYR GWIR FAWR.

Mae gwir fawredd pregethwr i'w weled, i'w deimlo, ac i'w fynegi, nid ganddo ef ei hunan, bid siwr, ond gan eraill. "Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hun; estron, ac nid dy wefusau dy hun." Pell ydym oddiwrth feddwl na ddylai pregethwr, fel rhyw ddyd arall eistedd mewn barn arno ei hunan. Dylai, yn

ddiameu, gyflawni y ddyledswydd bwysig hon er budd iddo ei hun, er llesad i'w wrandawyr, ac er gogoniant i'w Feistr. Pa fodd y gall pregethwr adnabod ei le priodol ei hun yn mhlith ei frodyr, a gwybod natur a therfynau y gwaith a osodwyd iddo i'w gyflawni, heb ddirnadaeth lled gywir am ei alluoedd, ei dalentau, a'i gymhwysderau. Gwelwyd llawer o ddynion da, i.e., yn ddiameu, dynion duwiol, wedi ymddyrysu, ac wedi amharu eu dylanwad a'u defnyddioldeb, o ddiffyg eistedd mewn barn dëg a diduedd ar eu galluoedd deall-dwriaethol chrefyddol. Yn nglŷn a'r diffyg hwn y gorwedd y perygl o "uchel synied, yn amgen nag y dylid synied." Wrth i ddyn eistedd mewn barn bwyllus arno ei hun, bydd yn lled debyg o "synied i sobrwydd, fel y rhanodd Duw i bob un fesur ffydd," ac ond odid na theimla rym angerddol geiriau dwyfol ysbrydoliaeth yn gwefreiddio ei enaid. "Pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti ac eraill? A pha beth sydd genyt ar nas derbynaiast; ac os derbynaiast, paham yr ymfrosti, fel pe baet heb dderbyn?"

Diau fod y brawd Williams yn ymwybodol o helaethrwydd y cymwysderau a dderbyniodd, ac yr oedd yn mawrhau ei swydd fel gwasanaethwr Iesu Grist. Ac yn wir, yr oedd ei dalentau dysglaer, ei ddeheurwydd wrth drafod y gwahanol bynciau a ddeuai dan ei sylw, ei hyawdledd ffrydlifol yn y traddodiad o honynt, yn nghyd a'r dylanwad grymus, ar amserau, a brydferthai yr oll, yn gorchymyn parch ac edmygedd ei frodyr. Yr argraff gyntaf a gynyrchwyd ar ein meddwl, ryw ddeng mlynedd a deugain yn ol, pan y clywsom ef yn pregethu yn Nghaergybi, ar y geiriau, "Yr hyn ni allai y ddeddf," &c., oedd ei fod yn bregethwr gwir fawr, gan sefyll yn y dosbarth cyntaf o weinidogion y M. C. yn Nghymru y pryd hwnw; ac wedi i ni gael yr hyfrydwch o'i wrando lawer gwaith, ar wahanol achlysuron, yn America, ni chawsom achos i newid ein barn.

Clywsom rai pregethwyr yn Nghymru, pan yn nyddiau ein hieuenctyd, ag yr oeddym yn edmygu eu hyawdledd a'u dylanwad; ond wedi eu gwrando yn

America, nis gallellai na'u cyffelybu i Samson wedi colli ei nerth. Am dano ef, modd bynag, yr oedd yn parhau yn ei berffeithrwydd, os nid wedi cynyddu mewn addfedrwydd barn, chwaeth, a theimlad. Pan wedi heneiddio o ran dyddiau, ymddangosai yn ieuanc o ran meddylddrychau. Yma, rhoddwn engraifft neu ddwy o'r ffaith hon. Pan yn pregethu yn ein clyw ar y testyn, "O phecha neb, y mae i ni eiriolwr gyda'r Tad," &c., sylwari ddau beth: *Y credadyn a'i bechod, a'r Eiriolwr a'i haeddiant.* Bryd arall, pan yn llefaru ar y geiriau, "Yna y dychwelwch, ac y gwelwch ragor rhwng y cyfiawn a'r drygionus," &c., cyfeiriai ein sylw at *gyfnod gorchuddiad rhagoriaethau y cyfiawn, a chyfnod eu dadleniad.* Trinai y materion hyn yn fanwl a meistrolgar, gan ein llwyr argyhoeddi ei fod yn "ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd, ac yn dwyn allan bethau newydd a hen o'i drysorau." Arwain hyn ni yn naturiol at sylw arall, sef ei fod yn

BREGETHWR SYLWEDDOL

Pregethu "y Gair" oedd ei amcan, ei waith, a'i hyfrydwch, heb ddal ar ddychymygion, chwedlau, a streion. Nid oedd ganddo archwaeth at, na blás ar bethau disylwedd, ond gwirionedd pur, syml, efengyl Crist—"gair gwirionedd yr efengyl," "y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu." Yr oedd cyngor Paul i Timothy yn cael sylweddoliad byw yn ei bregethau: "Gâd heibio halogedig a gwrachiaidd chwedlau," * * "heb ddal ar chwedlau ac achau anorphen, y rhai sydd yn peri cwestiynau, yn hytrach nag adeiladaeth dduwiol, yr hon sydd drwy ffydd; gwna felly." Gallasai ddywedyd yn ngeiriau Pedr a'i frodyr, "Canys nid gan ddilyn chwedlau cyfrwys, yr hysbysasom i chwi nerth a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist—nid trwy chwedlau gwneuthur y gwnaethom farsiantiaeth o honoch." Adroddai ambell i hanesyn, weithiau, er bywiogi teimlad ei wrandawyr, ac ehedai o ran ei ddychymyg, yn awr a phryd arall, er deongli rhyw fater fyddai dan ei sylw, ond ni lanwai ei bregethau â hwy, "megys y

mae arfer rhai." Edrychai arnynt fel ũs yn nglyn & gwirionedd yr efengyl. "A pha beth yw yr ũs wrth y gwenith?"

Yr athroniaeth a gynwysid yn ei bregethau oedd athroniaeth trefn iachawdwriaeth: yr athroniaeth a efrydir gan yr angelion sanctaidd, fel *students* yn athrofa y prynedigaeth—"Mawr, amryw ddoethineb Duw, trwy yr eglwys." Yn ei fyfyrdodau ar ddeddfau natur, a natur deddfau, yn nghyntedd nesaf allan y byd materol, rhwygai y llen, gan fyned i mewn i'r cysegr sancteiddiolaf, i edrych ar ogoniant yr Arglwydd yn neddf fawr, ogoneddus, ei gariad at bechadur yn Nghrist Iesu. Ac am wyrthiau, testyn mawr dadleuaeth Hume a Chalmers, ac eraill, barnai ef mai y wyrth fwyaf a gyflawnodd Duw erioed, neu a gyflawna byth, mewn cysylltiad & dyn syrthiedig, yw ei wneyd yn greadur newydd yn Nghrist Iesu. Dywedai fod cyfnewid dyn o fod yn gythraul mewn gelyniaeth, i fod yn angel mewn cariad, yn wyrth o natur uwch yn y byd moesol, na phe troid llew i fod yn oen yn y byd materol.

Prif bynciau ei weinidogaeth oeddynt: Duw, a'i briodoliaethau gogoneddus, a'u gogoneddiad yn Nghrist; dwyfoldeb a dilysrwydd y Beibl, a chydgyfarfyddiad ei holl linellau yn Nghrist Ie-u, fel canolbwynt; graslonrwydd yr ethcledigaeth; cadernid y cyfamod tragwyddol; perffeithrwydd aberth Crist; digonolrwydd ei iawn; ei fuddugoliaeth ar angau a'r bedd; ei ddyrchafiad a'i eiriolaeth; dylanwadau argyhoeddiadol, ailenedigol, a sancteiddiol ei Ysbryd; ymgysegrïad i Dduw a'i ogoniant mewn buchedd sanctaidd; cosbedigaeth dragywyddol esgeuluswyr iachawdwriaeth; a dedwyddwch didranc credinwyr mewn buchedd ddyfodol. Mewn gair, pregethau "holl gyngor Duw," "yn ol cysondeb y ffydd." Nid ataliai ddim o'r pethau buddiol heb eu mynegi i'w wrandawyr, ond tystiolaethai iddynt "yr edifeirwch sydd tuag at Dduw, a'r ffydd sydd tuag at ein Harglwydd Iesu Crist." Yn nesaf, yr oedd yn

BREGETHWB EGLUR.

Gallwn ddywedyd yn ddibetrusder ei fod wedi ymboeni llawer "yn y Gair a'r athrawiaeth," gan chwilio yn ddyfal, nid yn unig am faterion cyfaddas i'w wrandawyr, ond hefyd am "eiriau cymeradwy." Ysgrifennai lawer iawn, ac ymdrechai a gwiliai ar fod yr hyn a ysgrifennai yn "uniawn, sef geiriau gwirionedd." Nis gellid ei ddarnodi ef, fel y gwnaed â Democritus,—“yr athraw tywyll.” Na, trinai yr elfenau dyfnaf mewn duwinyddiaeth yn y modd mwyaf eglur a diamwys. Yr oeddym yn ei restru yn mhlith y duwinyddion mwyaf yn y wlad hon, ie, yn wir, yn yr Hen Wlad; a phrif ragoriaeth duwinydd yw ei fod yn gallu arddangos ei feddyliau mewn iaith ddealladwy. Pa ddyben a all fod i eiriau ond i egluro meddwl. Clywsom rai yn pregethu, a buom yn darllen ysgrifau rhai eraill, ac wrth wneyd y naill a'r llall, barnem eu bod yn amcanu cuddio y meddwl, trwy frwydwëu a chyfrodeddu geiriau blodeuog ac anarferedig, er mwyn cael eu hystyried yn ddynion mawr. Bradycha hyn ddiffyg chwaeth, gwendid synwyr, a ffolineb hunan-gais. Gallwn ddywedyd wrth ein pregethwyr ieuainc, er mwyn anrhydedd yr efengyl, ymgedwch oddiwrth yr ynfydrwydd hwn. Gallasi y brawd Williams, modd bynag, gyduno â Paul a'i frodyr, gan ddywedyd, “Nid ydym yn pregethu ein hunain, ond Crist Iesu, yr Arglwydd; a ninau yn weision i chwi, er mwyn Iesu.” “Canys ni a ymwrthodasom a *chuddiedig* bethau cywilydd, heb rodio mewn cyfrwysdra, na thrin Gair Duw yn dwyllodrus; eithr trwy *eglurhad* y gwirionedd yr ydym yn ein canmol ein hun wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw.” “Yr ydym ni yn pregethu Crist wedi ei groeshoelio,—nid mewn doethineb ymadrodd; fel na wnelid croes Crist yn ofer.” Peth mawr a phwysig iawn i weinidog yr efengyl yw gallu mabwysiadu geiriau apostol y cenddoedd: “A'm hymadrodd a'm pregeth i, ni bu mewn geiriau denu, o ddoethineb ddynol; ond yn eglurhad yr ysbryd a nerth.”

Gallwn sylwi yn nesaf, fod y brawd ymadawedig yn

BREGETHWYR DONIOL.

Wrth ddefnyddio y gair *doniol*, ein meddwl yw, nid yn unig ei fod yn llefarydd rhwydd, parablus, a hyawdl; ond hefyd ei fod yn ffraethlym, arebaidd, ac athrylithgar. Yr oedd yn gyfoethog a chyflawn iawn mewn ymadroddiaeth. Braidd na feddyliem, rai prydiau wrth ei wrando, ei fod yn aml-eiriog, gan luosogrwydd yr ansoddeiriau a fwrlyment o'i enau gyda chyflymder gorlifol. Yr oedd wedi ei gynysgaeddu & chymwysderau a manteision fel dyn i fod yn ddawnus. Yr oedd yn meddu tafod llithrig, llais cryf, cyrhaeddig, a soniarus, ysbryd bywiog, yn llawn o yni a brwdfrydedd; ac yr oedd, trwy ddylanwad hunan-ddysgyblaeth, yn gallu rheoleiddio yr oll gyda deheurwydd a phrydferthwch. Barnem ei fod weithiau yn cario allan ei arabedd (*wit*) yn rhy bell, a theimlasom fwy nag unwaith fod yr amryfusedd hwn yn effeithio gwendid yn nghanol nerth, ac yn cynrchu niwl yn nghanol dysglaerder. Disgynai fel ffrydlif o ddwfr oer ar deimladau cynes y gwrandawyr, ac odid fawr na ddiffoddid y tân nefol ag oedd wedi dechreu cyneu, er fod yr arabedd yn peri iddynt wenu, a hwyrach chwerthin. Dylai pregethwyr fod yn dra gwiliadwrus rhag tarfu y golomen nefol yn ei dysgyniad tawel i'r cysegr. Yn olaf, sylwn fod y brawd anwyl dan sylw yn

BREGETHWYR EFENGYLAIDD AC YMARFEROL.

Wrth ei ddarnodi yn bregethwr efengylaidd, ein meddwl yw, mai testyn mawr ei bregethau oedd "Efengyl gogoniant y bendigedig Dduw;" "gair gwirionedd yr efengyl;" "Crist Iesu, a hwnw wedi ei groeshoelio." Mae yn bosibl pregethu Cristionogaeth heb bregethu Crist, fel y dengys Dr. Charles Hodge, Princeton, cawr duwinyddol y bedwaredd-ar-bymtheg ganrif, mewn erthygl benigamp yn y *Princeton Review*. Dywedwn ninau fod yn bosibl pregethu y Beibl heb bregethu Crist y Beibl. Yr unig wir efrydydd y Beibl

yw yr hwn sydd yn darganfod Crist y Beibl; a'r unig wir bregethwr y Beibl yw yr hwn sydd yn pregethu Crist y Beibl. Yr oedd ein brawd yn enwog iawn yn hyn, a theimlai yn eiddigus dros anrhydedd enw Crist yn mhregethau ei frodyr.

Ni chlywsom neb erioed yn pregethu athrawiaeth fawr y Diwygiad Protestanaidd, yr hon a alwai Luther "Athrawiaeth yr Eglwys,"—"cyfiawnhad trwy ffydd,"—yn fwy eglur, penderfynol, a gogoneddus nag a wnai ef. Dangosai mewn goleuni dysglaer fel y mae ffydd yn Nghrist yn cadarnhau y ddeddf, yn ei gallu gorchymynol a chosbedigaethol. Eglurai yn y modd mwyaf argyhoeddiadol nad oedd gwaith Crist yn ufuddhau i'r ddeddf, fel amod bywyd tragywyddol i gredinwyr, yn eu rhyddhau o'u rhwymedigaeth i ufuddhau iddi fel rheol bywyd; ond yn hytrach eu bod, trwy ras eu Harglwydd Iesu Grist, wedi eu gosod dan rwymedigaethau newyddion a mwy cymhelliadol i ogoneddu Duw mewn buchedd sanctaidd.

Yr ydym yn meddwl yn siwr na ddarfu i'r un pregethwr erioed egluro yn fwy goleu a chyflawn y cysondeb rhwng "cyfiawnhad trwy ffydd," gan Paul, a "chyfiawnhad trwy weithredoedd," gan Iago, nag y gwnelai ef—y naill yn gyfiawnhad *ger bron Duw*, a'r llall yn gyfiawnhad *ger bron dynion*. Un yn gyfiawnhad y person, a'r llall yn gyfiawnhad y cymeriad. Un yn llys Duw, a'r llall yn llys cymdeithas. Un ger bron yr orsedd yn ddirgelaid, a'r llall yn y farchnad yn gyhoeddus. Hoffai foesau da a rhinweddau yn nglyn a dynion, fel aelodau hardd a defnyddiol yn y gymdeithas ddynol; ond rhybuddiai hwy gyda dwysder, ie, mewn dagrau, o'r perygl o adeiladu eu gobaith am gymeradwyaeth gyda Duw, a bywyd tragywyddol ar ddim gwanach na'r "sylfaen safadwy," sef haeddiant anfeidrol yr Arglwydd Iesu Grist. O! mor soniarus y clywid ef yn bloedllo, "Sylfaen arall nis gall neb ei osod, heblaw yr un a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist."

Gosodai yr athrawiaethol, bob amser, yn sail ac yn gymhelliad i'r ymarferol. Cysylltai y *theory* a'r *prac-*

tice a'u gilydd; ac yn gyffelyb i epistolau Paul, a gweithiau y Puritaniaid, yr oedd y *practice*, neu yr ymarferol, yn codi yn naturiol o'r *theory*, neu yr athrawiaethol. Credwn bydd i weinidogion y Gair, wedi eu crwydriadau yn yr oes fympwyol hon, ddychwelyd i'r "hen lwybrau, lle y mae ffordd dda," o bregethu, trwy egluro a chymhwyso "gair y gwirionedd." Yn nghyfnod mawr adfywiad cyffredinol ar grefydd, yr hwn, gobeithiwn, sydd yn agos, effeithir chwildroad yn meddyliau gweinidogion yr efengyl. A yr ysbryd oddiwrth Dduw i'r tystion a laddwyd, cyrph y rhai sydd yn gorwedd dan yr allor, a chaiff y byd eto deimlo nerth dwyfol, a than angerddol gweinidogaeth rhai tebyg i'r Diwygwyr a'r Puritaniaid. Prysured yr Arglwydd hyn yn ei amser!

Hwyrach y dywed rhai, wedi darllen y sylwadau hyn, nad ydynt yn coleddu yr un farn a ni am gymhwysderau y Parch. David Williams. Wel, efallai hyn; eithr cofied y cyfryw rai mai nid mynegi eu barn hwy, ond ein barn ein hun oedd ein hamcan. Barnant hwy fel y mynont; ond gallwn sicrhau y darlennydd fod ein sylwadau yn cynwys ein barn seml a diduedd am dano, heb ei iselhan, gan genfigen, heb ei chymylu, gan ragfarn, ac heb ei dallu, gan anghariad.

Nid oes a wnelom ni yn hyn o draethawd, a'i ddiffygion fel bugail. Addefwn yn rhwydd ei fod, i raddau mawr, yn amddifad o gymhwysderau i fugeilio eglwys; eithr dylem wneyd *allowances*, ar amryw gyfrifon, yn y cysylltiad hwn. Bu am amryw flynyddau, yn Llanidloes, heb rwymedigaethau bugeiliol yn gorphwys arno. Tra yn aros yno, yr oedd yn troi mewn cylchoedd anrhydeddus, wedi d'od i gysylltiad priodasol a theulu parchus, ac yn dwyn yn mlaen fasnach lwyddianus am gryn amser; eithr pan y cyfarfu a cholledion trymion—rhy drwm iddo eu dwyn—yn ei amgylchiadau, gorfodwyd ef, mewn ystyr, i ymfudo i'r wlad hon. Daeth yr hen ysbryd annibynol, uchelfrydig, ac *aristocrataidd*, a fagwyd ac a feithrinwyd yn Llanidloes, gydag ef; ond ni allai swyddogion eglwysig y wlad rydd, ddemocrat-

aidd hon, gyd-ddwyn ag ef. Yr oedd ef wedi arfer bod yn *foss* ar ei wasanaethyddion yn Llanidloes, ac yr oedd yn ddigon naturiol iddo ddysgwyl cael gweinyddu fel *boss* wedi dyfod drosodd yma, er fod cylch y weinidogaeth yn wahanol. Ymddengys i ni mai hyn, yn nghyd a thueddfryd uchelfrydig ei deulu, a gor-dynerwch ei deimlad serchusol ef tuag atynt, a orweddent wrth wraidd yr holl ymrysonau a'r ymrafaelion a fu rhyngddo a'i frodyr. Wrth i ni ystyried y ffeithiau hyn, a'r anghysuron, y pryder, y poen, a'r sarhad a ddyoddefodd yn ngwahanol gyfnodau ei fugeiliaeth, nis gallasem lai na chydymdeimlo ag ef. Diau fod cryn lawer o fai bob ochr, a chredwn fod edifeirwch a maddeuant wedi cario eu dylanwad bendithiol ar yr oll o honynt. Gan hyn, na chofier hwy mwyach.

Nid oes a wnelom ychwaith, yn y nodiadau hyn, a gwendidau, gwaeleddau, a beiau y Parch. David Williams. Dywedwn, modd bynag, y gellir ei restru yn mhlith yr apostolion, y rhai a fynegent yn groew, "Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro." Ni welsom erioed eto, a mwy na thebyg na welwn, tra yn y fuchedd hon, yr un dyn mor dda, na'r un cyf-aill mor berffaith rydd oddiwrth ddiffygion moesol, na byddai ein cariad, ar adegau, i raddau mwy neu lai, yn oeri tuag ato.

Credwn, pa wendidau a beiau bynag oedd yn nglyn a'n brawd anwyl ymadawedig, eu bod oll wedi eu tafu o'r "tu ol i gefn y Duwdod," "i ddyfnderoedd y môr,"—môr haeddiant iawnol ein Ceidwad,—ac nis gallwn ryfygu i geisio chwilio am danynt. Diafol o ddyn yw hwnw a edliw fai, wedi i Dduw ei faddeu; a geisia ei arddangos, wedi i'r Anfeidrol ei guddio. A *hyena* o ddyn yw hwnw a dyrchia i'r bedd ar ol y marw. Heddwch i lwch ein hanwyl frawd; ac enw Duw Jacob a ddiffyno ei weddw, ei blant, a'i wyrion! Amen.

NODWEDDION PREGETHWRIAETHOL Y PARCHEDIG
D. WILLIAMS.

At y Parchedig W. Hughes :

Anwyl Gyfaill—Da iawn genym ddeall eich bod wedi ymgymeryd a'r gorchwyl teilyng-wiw o ysgrifenu Cofiant i n hen gyfaill talentog, y diweddar Barchedig D. Williams, Chicago, gynt o Lanidloes, a chredwn y bydd, nid yn unig yn deilwng o wrthddrych y cofiant, ond hefyd o'r awdwr. Yr ydych yn gwneyd yn ddoeth iawn mewn cadw eich dynion enwog mewn coffadwr-iaeth, yr hyn nid yw ond rhesymol wasanaeth y byw. Fe'n cyfarwyddir gan ysbrydoliaeth i "feddwl am ein blaenoriaid, y rhai a draethasant i ni Air Duw, fydd y rhai dilynwch." Ond, ysywaeth, y mae llaweroedd o ddynion enwog iawn yn ein plith yma, yn Nghymru, wedi disgyn i fro marwolaeth, heb ond y nesaf i ddim sylw yn cael ei wneyd o honynt. A phe y dygwyddasai i wrthddrych eich cofiant dynu y gwys i'r pen yn y wlad hon, yn Nghymru, y mae yn fwy na thebyg y buasai raid i'r "Hen Lanidloes," fel y gelwid ef weithiau yn America, lechu yn dawel yn ei "argel wely," heb fod neb yn "tosturio wrth ei lwch ef," dim mwy na'i hen gyfaill a'i gyd-drefwr enwog a boneddigaidd, y diweddar Barchedig Mr. Gwalchmai. A gallem enwi llaweroedd yn ein plith, fel y gwyddoch chwi yn dda, o'r cyfryw o'n dynion mawr ag y gwneir yr anrhydedd a hwy o berarogli eu henwau mewn cofiant parchus am danynt, y mae yn rhaid i flynyddoedd lawer lithro heibio cyn y cwblheir hyny, nes bydd y wlad wedi colli llawer o'r dyddordeb, ond odid, ag a deimlid ganddynt. Pe y cyhoeddaisid y cyfryw mewn rhyw reswm o amser, diambhu y cawsent dderbyniad helaeth iawn. Ond nid ydych chwi yn euog o'r difrawder yna mewn un modd, eithr ymaflasoch yn y gorchwyl a ymddiriedasid i chwi ar unwaith.

Yr ydych yn gofyn genym roddi disgrifiad byr o'n hen gyfaill talentog fel "pregethwr ac holwyddorwr

plant." Y mae hyn yn orchwyl nad wyf yn teimlo fy hun yn alluog arno oll. Y mae yn y wlad yna amrai o fechgyn Llanidloes, yn neillduol y Parch. John T. Pryce (*Idloeson*), un o hen ysgolorion Mr. Williams, yn llawer mwy cymhwys i hyn o orchwyl na ni. Ond heb fyned i geisio rhoddi darluniad manwl o hono, ni geisiwn nodi ychydig bethau a welid yn bur amlwg ynddo fel

PREGETHWYR.

Yr ydoedd yn un o'r pregethwyr mwyaf trefnus, *compact*, a phert, o ran cymwysedd a thraddodiad ei bregethau, a glywsom erioed. Nid ydym y foment hon yn gallu cofio am neb a ragorai arno yn y pethau hyn, yn neillduol o'r dosbarth y troai efe ynddo. Ni fuasem, am a wyddom ni, yn ei restru yn y dosbarth blaenaf o bregethwyr cymanfaol, yn neillduol felly tra yr oedd Mr. Rees, Mr. Hughes, hynaf, o Liverpool, Dr. L. Edwards, Bala, y Jonesiaid, o Lanllyfni, Mr. O. Thomas, Mr. Evans, Tonyrefail, Dr. Phillips, Mr. Matthews, &c., &c., yn fyw. Ond os rhaid dwyn Mr. Joseph Thomas, Mr. Phillips, Bangor, a nifer lluosog o'r gweinidogion a saif yn lle amlaf y bobl yn ein cymanfaoedd yn y blynyddoedd hyn, i'r gymhariaeth, yn sicr, ni phetrusem am foment osod Mr. Williams i sefyll ochr yn ochr a'r goraf o honynt, yn y neillduolion a nodir uchod yn arbenig, ac hwyrach, ar brydiau, mewn mater a dylanwad hefyd, yn neillduol pan fyddai "yr awel deneu, lem" yn chwythu o'i du ef. Yr ydym yn cofio clywed sylw am dano a wnaed gan Mr. Evans, gweinidog yr Annibynwyr yn Llanidloes, pan oedd Mr. Williams yn byw yma, sef: "Pe buasai Mr. Williams yn cael ei ryddhau o lyffetheiriau masnach, gan ymgyflwyno yn llwyr i achos gweinidogaeth yr efengyl, heb orfod ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn, buasai yn un o bregethwyr enwocaf Cymru." Ac yr ydym ninau yn hollol o'r un golygiad ag ef ar y mater yma. A gresyn ydoedd fod, ddeugain mlynedd yn ol, gynifer oddynion mor dalentog yn cael eu llwyr lethu gan 'ofalon bydol,

fel yr oedd yn syndod eu bod o gwbl yn gallu galw eu meddyliau crwydredig at ddyledswyddau arbenig eu swydd sanctaidd. Ond, o drugaredd, y mae pethau wedi newid yn fawr er gwell yn ein plith y blynydd-oedd diweddar hyn yn Nghymru, er fod rhai yn ceisio codi rhwystrau ar ffordd y symudiad, a'n gwthio yn ol i ganol yr oesau tywyll gyda golwg ar y fugeiliaeth eglwysig. Yr unig beth y teimlwn ni duedd i'w feio, ydyw y diffyg o fod dipyn yn fwy *systematic* gyda hyn, —rywbeth yn tynnu at drefn y Wesleyaid. Buom ni, rai blynyddau yn ol, dan y ffugenw o "Wrandawyr y Methodistiaid," yn dwyn y penawd cyffredinol o "Eglwys Henaduriaethol Cymru," fel testyn, yn argymhell cynllun i sylw y cyfundeb yn Nghymru, fel y bu y diweddar Barch. Mr. Morgans, Trallwm, ryw bymtheg mlynedd yn ol, yn y *Drysorfa*, dan y ffugenw o "Weinidog Briglwyd." Ond yr ydym yn ofni yr aiff llawer o honom yn ddigon briglwyd cyn y gwrendy y cyfundeb ar neb o honom, er cystal cynllun a gynygiem i'w sylw. Yn wir, y mae yn beth ag yr ydym yn synu ato, weithiau, iddynt erioed wrandaw ar "Wrandawyr y Methodistiaid," trwy fabwysiadu ei awgrymiad o fynu un Llyfr Hymnau i'r cyfundeb trwy y Deyrnas Gyfunol. Ac yr oedd hyn yn gam yn yr iawn gyfeiriad; ond dim yn fwy felly na'r awgrymiad blaenorol, ac eraill a nodwyd ar y pryd.

Wedi y *digression* yna, deunwn yn ol bellach at wrth-ddrych teilwng eich cofiant. Yr oedd rhai o weinidogion enwocaf y cyfundeb yn synio yn gyffelyb i ninau am ei dalentau pregethwriaethol, ac un o'r cyfryw oedd yr efenglyydd dymunol Mr. Evans, New Inn. Wedi ei glywed, neu glywed adroddiad am dano, yn pregethu o flaen Mr. Morris, Cilgeran, fel y tybiwn, mewn cymanfa yn Sir Gaerfyrddin, teimlai Mr. Evans awydd angerddol i'w glywed drachefn, yn ei ardal ef ei hun, yn Pentwyn, ac efe a gafodd hyn, a mawr foddheid ef yn Mr. Williams, a siaradai yn uchel iawn am dano.

Yr ydym yn ei gofio yn dda ddigon ryw gwpl o flynyddoedd cyn ei ymfudiad i America, yn pregethu

yma, ar nos Sabboth, yn ardderchog hefyd, dybiem ni ar y pryd, ar laddiad y tystion, yn Llyfr y Datguddiad. A'r sylw a wnaed ganddo, yr hwn a lynodd byth er y pryd hyny yn ein meddwl, ydoedd, y byddai i bob gwlad a fu yn gyfranog yn lladdiad y tystion, ei chael yn beth anmhosibl i ddianc oddiar ffordd dialeddau y Goruchaf, fel eu nodir yn y llyfr uchod. Ac wrth gwrs, yr oedd Lloegr, a holl wledydd Ewrop, yn ddwfn iawn yn y camwedd anaele yma; a'r unig wlad a welai ef a ddiangai y gosbedigaeth ydoedd America. Ac nid yw oll yn annhebygol na ddarfu i'r meddylddrych hwn o'i eiddo, addfedu llawer iawn ar ei feddwl i ddianc o ffordd y trychineb ofnadwy a fygythid arnom, ydoedd i'w ddysgwyl ar ein gwlad ni. yn ogystal a gwledydd eraill y Cyfandir, gan ymsefydlu yn y wlad ddiogel yna. Ond pa fodd bynag, tra yr oedd yn America, yn adeg y rhyfel cartrefol diweddar rhwng y De a'r Gogledd, ysgrifenasom ato, gan ddwyn ar gof iddo syniadau y bregeth y cyfeirir ati uchod, mewn rhyw dipyn o *joke*, trwy ddanod iddo ei fod yn meddwl dianc rhag dialeddau Llyfr y Datguddiad, trwy ddianc o Gymru, gan ymsefydlu yn y wlad ddiogel yna. Ond, meddem ni wrtho, tybed nad oedd wedi rhoddi y fotas am y goes chwith. Beth feddyliai yn awr o'r syniad uchod o'i eiddo, pan yr ydoedd yn cael ei hun yn nghanol y trychineb, y galanasdra, a'r dialeddau a gyhoeddasiid ganddo ar ein gwlad ni, druan, mewn undeb a gwledydd eraill Ewrop? Yn lled fuan ysgrifennodd atom, ond ni chynygiaf oll at amddiffyn ei olygiad—dim ond yn unig dyweyd nad oedd, mewn un modd, wedi newid dim yn ei farn ar y mater hwn. Ond beth bynag am y sylw uchod, yr oedd ef ar y pryd yn pregethu yn alluog, bywiog a dylanwadol iawn, fel y byddai yn wir bron bob amser. Ni chai neb ryw lawer o hamdden i hepian a chysgu dan ei weinidogaeth ef, hyd yn nod ar yr awr drymaf, dau o'r gloch. Yn annibynol ar fater y bregeth, fe fyddai y bywiogrwydd a'r asbri a pha un y traddodai ei genadwri, yn hoelio pawb i wrando.

O barth iddo fel

HOLWYDDORWB,

gallwn dybio am dano ei fod y goraf a glywsom ni erioed. Yr oedd, ni feddyllem, yn ddiguro ar y pen hwn. Nid yn gymaint fel "holwr plant," fel y nodir genych chwi, yr oedd yn rhagori. Dichon fod llawer un yn rhagori arno yn hyny. Yn wir, yr oedd ei gyd-drefwr, y diweddar Barch. Robert Evans, gryn llawer o'i flaen ef yn yr ystyr yma, heb son am y diweddar Barch. O. Jones, o'r Gelli, y Parch. Robert Owen, Rhyl, gynt o Nefyn, &c., &c. Eithr fel holwyddorwr dynion mewn oed y rhagorai efe ar bawb y daeth i'n rhan ni erioed i'w clywed. Dichon y gall fod ei gyd-drefwr enwog a boneddigaidd, y Parchedig Mr. Gwalchmai, ac eraill, yn holwyddorwyr mwy dwfn nag ef, ar y cyfan. Ond rywfodd, nid oedd neb o horynt, na neb a glywsom ni erioed, yn rhagori arno, a chymeryd pob peth at eu gilydd. Yr oedd yn ddigon trwm a manwl, eithr rhagorai ar bawb y gwyddom ni am danynt yn yr yni a'r bywiogrwydd a nodweddai ei holwyddoriad ef. Byddem ni yn arfer myned amrai filldiroedd i'r wlad, i'r cyfarfodydd chwech-wythnosol, yn unig er mwyn ei glywed ef a'r ysgolion yn ymgomio a'u gilydd ar un o benodau yr Hyfforddwr, ac nid gwledd fechan oedd bod yn bresenol ar y pryd. Yn wir, byddem yn cael llawer iawn o oleuni ar bynciau dyrys yn y cyfryw gyfarfodydd, heblaw llawer iawn o bleser a difyrwch o radd pur uchel. Efe'ydoedd y cyntaf erioed a glywsom yn holwyddori oddiar benod o'r Beibl, yn hytrach nag o'r Hyfforddwr fyth a hefyd. Llawer brwydr galed a welsom rhyngddo â hen fechgyn cadarn-gryf Ysgol Sabbothol y dref hon, a'r cylchoedd, pan yr oedd amrai yn mysg yr holiedigion a godasant wedi hyny i fod yn bregethwyr enwog, megys y Parchedigion D. Morgan, o'r Dyffryn, John Mills (*Ieuan Glan Alarch*), Richard a John Herbert, T. T. Evans, Holland Patent, T. R. Jones, Randolph, John 'I. Pryce (*Idloeson*), &c.

Ryw wyth neu naw mlynedd yn ol, fe gyrhaeddodd y

si i'r ardal hon o'i fwriad ef a Mrs. Williams o ddyfod drosodd am dro i'r wlad yma, ar ymweliad á'i frawd-yn-nghyfraith, Benjamin Jones, Ysw., o Lanelly, Sir Gaerfyrddin, ac i ymweled á'i hen gyfeillion yn y dref hon a'r cymydogathau, a mawr y dysgwyliad am gael ei glywed unwaith yn rhagor yn efengylu yr efengyl dragywyddol yn ein plith. Ond yn hyn fe'n siomwyd, gan yr ofnid nas gallasai Mrs. Williams ddal y daith. Felly y dywedai Mr. Williams yn ei lythyr atom. Yr ydym yn gwybod y codasai yr holl wlad, o Fethodistiaid, allan i'w wrando, gan y meddwl uchel a goleddid am ei alluoedd fel pregethwr. Ni a wyddem y rhoddasai yr eglwys a'r gynulleidfa yn y dref hon wahoddiad iddo i ddyfod yn weinidog iddi gyda'r parodrwydd mwyaf, a bu rhyw ychydig o siarad personol am hyny gan rai o flaenoriaid hynaf yr eglwys.

Hefyd, yr oedd yn

WEDDIWR

mawr a dylanwadol iawn. Yr ydym yn cofio yn bur dda fel y byddai rhywbeth pur neillduol yn cyd-fyned á'i weddiau ef ar adegau neillduol, megys cyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf, &c., &c., ac yr oeddyd am y blynyddoedd cyntaf ar ol ei fynediad i'r America yn gweled y cyfarfodydd hyn a'u cyffelyb, ac yn arbenig felly y cyfarfodydd chwech-wythnosol, yn wág iawn hebddo. Yr oeddyd yn gweled y cwbl yn hollol *flat* a diyni wedi ei gollu ef. Ond hwyrach, o ran hyny, fod hyn yn codi oddiar y syniad uchel yr oeddyd ni yn bersonol wedi ei ffurfio am dano ef, fel y dichon ein bod yn cael ein dallu am gymhwysderau pobl eraill, i raddau pur helaeth, fe allai. Ond yn y goleu uchod y byddem ni yn dygwydd edrych ar bethau, a chan hyny, nis gallwn wrtho.

Nid ydym yn meddwl fod genym nemawr ddim arall i'w chwanegu a allai fod o unrhyw ddyddordeb i ddarllenwyr Cofiant Mr. Williams. Y mae yn chwith iawn genym feddwl na chawn weled ei wyneb ef byth mwyach, ac na chawn byth glywed yr arabedd hwnw wrth

holwyddori a hoeliai sylwgarwch pawb o'i wrandawyr, a'r ffrwd lifeiriol hono o hyawdledd gysegredig a arllwysai yn ddidor am ben y cynulleidfaoedd mawrion a'i gwrandawai, nes y byddent yn hyfryd fwynhau ei weinidogaeth. Yr ydych chwi yna, fel ninau yn Nghymru, wedi colli prif ddynion y pwlpu, dynion y byddai eu gweinidogaeth yn ysgwyd cynulleidfaoedd talgryfion fel coedig o flaen rhuthr-wynt ystormus; ac mae adfeddwl am yr hen amseroedd hapus hyny yn rhyw iachbâd i'n hysbrydoedd, ac yn gyfnerth i ni i dynu yn mlaen ar daith ein pererindod trwy hen anialwch diffaith y byd yma; a bydd yn rhywbeth o bwys tragwyddol i ni gael ein hunain yn nghymdeithas y seintiau perffeithiedig mewn gogoniant. Hyn fyddo rhan dragwyddol pawb o honom.

O. Y.—Hwyrach y byddai yn burion crybwyll, er mwyn i Fethodistiaid deimlo tipyn mwy o ddyddordeb yn eich Cofiant a'i wrthddrych, y gwyddom, oddiar yr awdurdod fwyaf dilys, ddarfod i Mr. Jones, ei frawd-yn-nghyfraith, roddi gwahoddiad i Mr. a Mrs. Williams ddyfod yn ol i Gymru. Y buasai iddo ef eu cadw fel boneddigion dros weddill eu bywyd. Ond dewisasant, yn hytrach, oddef adfyd gyda chwi yn America na chael mwyniant Cymru hyd derfyn eu hoes. Ac yn sicr fe ddylai y ffaith unigol yna beri i holl Fethodistiaid America deimlo mwy o ddyddordeb yn ei goffadwriaeth, gan wneyd yr oll a allant dros ledaeniad ei Gofiant drwy y wlad yna. “Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi Air Duw, ffydd y rhai dilynwch.”

T. WILLIAMS,

(*Hafrenydd.*)

Llanidloes.

BARDDONIAETH.

AR FARWOLAETH Y PARCH. DAVID WILLIAMS.

Chwerw alar, a chreulon—ergydio
 Sydd ar gedyrn Seion;
 Ac ergyd fawr yr awr hon
 Roi Williams at farwolon.

Ow! Mab y Daran sydd mwy heb dori
 Gair dry 'i genedl o garu drygioni;
 I dorf gwahoddiad darfu 'i gyhoeddi,
 Ac angau 'i heriodd byth i gynghori;
 Ond yn awr o'n byd ni—a'i wres yn fflam,
 Seinio mae D. Williams yn y moli.

Gwr i Dduw y gwiriodd ef—ei hunan,
 Dyna oedd ei gartref;
 Y Dduw-ddyn wedi dyoddef,
 A gwaedu, nes ~~honddu~~ Nef.

Godidog y dywedai—am yr Iawn,
 A'r mawr ras ddylifai
 O'i haeddiant, a chyhoeddai
 Air y groes i'r euog rai.

Eglurai 'i bwnc i oleuo'r byd—nid
 Ei adael yn dd'rlysyd;
 A'r prawf ni cheid ar y pryd
 Yn blyfyn lle Beibl, hefyd.

Gadael yr aradr a'r llestr hau, gwedi
 Diwrnod, ddarfau, o weithio diwyrni;
 O! hen frawd anwyl, mae'n hyfryd ini,
 Er yn orfodol, dy roi'n rhifedi
 Rhai wysiwyd o'r rhesi—a gwlad i'w chael,
 Heb ymadael, dim ond byw a medi.

EOS GLAN TWRCH.

ETO.

Galw Williams i'w gul wely—a wnaed,
 Er nych trwm i'r Cymry,
 A'i fyw enaid i fyny,
 O law noeth ei elyn hy'.

Gweinidog enwog y gwirionedd—oedd,
 Cryf dros ei eirwredd ;
 Ni rodiai heb anrhydedd
 Yn wag law—miniai ei gledd.

Rhagorodd mewn amllder geiriau—i ddweyd,
 A'i ddawn heb derfynau ;
 Môr oedd hwn yn ymryddhau
 I'w awelon a'i hwyliau.

Gyrai gel graig i wylo—ag araith
 Geiriau yn dwysbigo ;
 Enaid hwn, pan yn tanio,
 Un ddawn â'r daran oedd o.

O'i delyn ceid t'rawiad eilwaith—i ddwyn
 Pur ddyddanwch peiffaith ;
 I wynebu anobaith
 Daliai 'r groes yn dileu'r graith.

Y bregeth fraeth wnaeth ar No'—yn hir gawn
 Ar gof llawer Cymro,
 A than y bregeth hono
 Ar ei fedd yn para f'ô.

IONORON GLAN DWYRYD.

ETO.

Ow, Ow! ymadael yn wael nôd
 I wely tawel y tywod ;
 Williams anwyl, e'm synwyd,
 Llwy'r ing yw cofio lle 'r wyd.
 Rhy arw rhoi i orwedd
 Mwynder byd yn meindy'r bedd ;
 Marw gwr mawr rhagorol
 A egyr rwyg ar ei ol.
 Ond er rhyw hynod rinwedd,
 Taith yw'r byd tua thy 'r bedd ;
 Llawer o wylo welwn,
 Dyn heb ball sydd dan y pwn.

Seion hawddgar, o lwyr alar, welaf
 Heddyw yn wylo am Dafydd anwylaf ;
 Y coeth bregethwr, a'r gwr rhagoraf,
 Dim ond ei rinwedd a'i fedd ganfyddaf—
 Mae fry'n lân a dianaf—mewn heddwch,
 Uwchlaw tawelwch ei lety olaf.

RHISIART DDU O FON.

ETO.

Buddugol yn Eisteddfod Chicago.

Beth yw'r sw'n sy'n myddin Seion?
 Beth yw'r cynwrf sy'n y gâd?
 Beth yw'r galar sy'n y teulu,
 Megys plant ar ol eu tad?
 Oni wyddoch i dywysog,
 A gwr mawr yn myddin Crist,
 Gwmpo heddyw yn ein dinas?—
 Hyn a wnaeth y teulu'n drist.

David Williams a'n gadawodd,
 'Hedodd draw i'r nefoedd fry,
 A rhaid rhoi ei enw mwyach
 Gyda'r hen enwogion fu;
 Gwel'd "diweddar" wrth ei enw
 A wna lawer bron yn brudd;
 Ond rhaid ydyw ymfoddloni,
 "R Arglwydd yn teyrnasu sydd."

Nid rhyw filwr dewr cyffredin
 A fu ef yn myddin Duw,
 Ond un o "hen gedyrn Israel"—
 Daliodd felly tra fu byw;
 Hyf a chadarn fel pregethwr,
 Ac esboniwr bron di ail—
 Crist yn Geidwad i bechadur,
 Trwy 'r efengyl, oedd ei sail.

Nid rhyw gorach sych, annheilwng,
 Heb roi 'i galon yn y gwaith,
 Fu 'r Parchenig David Williams,
 Yn myn'd trwy ei yrfa faith;
 Ond pregethai gyda theimlad,
 Gyda deall, dysg a dawn,
 Nes arddangos efengylwr
 Yn ei ymddygiadau'n llawn.

Cychwyn wnaeth yn moreu 'i ddyddiau
 I gyhoeddi 'fengyl hedd,
 A bu 'n ffyddlawn hyd y diwedd—
 Daliodd ati hyd ei fedd;
 Ond yn awr fe a'n gadawodd,
 Ac ymfudodd tua'r ne'—
 Yno i dderbyn gwobr ei lafur—
 Nid oes yma ond ei le.

Eto, cofir ei bregethau,
 A'i gyngorion, amser hir,
 Pan f'o 'i gorph yn faluriedig
 Obry yn yr anghof dir ;
 Heddwch f'o i'r man y gorwedd—
 Caffed gysegredig barch—
 Am fod *gwas y Duw Goruchaf*
 Yno'n gorwedd yn ei arch.

WILL JONES.

BEDD-ARGRAFF.

Buddugol yn Milwaukee, Rhag. 25, 1875.

Wele 'r anedd ~~yn dawol~~ yr hun a
 Un oedd ufudd genadydd Jehofa ;
 A'i ddoniau dirfawr dyddanai dyrfa
 A goludoedd hael foroedd Calfaria ;
 Caiff glod, er darfod ei yrfa—a'r byd
 Ar ael ei weryd yn hir alara.

Wisconsin.

W. W. ROWLANDS.

LINES ADDRESSED TO MRS. WILLIAMS,
 ON THE DEATH OF HER HUSBAND, REV. DAVID WILLIAMS,
 WELSH PRESBYTERIAN MINISTER.

BY B. P. REYNOLDS, M. D.

Oh ! weep not for him, though he's gone to the grave,
 His bright spirit fled to the mansion of love ;
 His breath he resigned to that Being who gave,
 And now calmly rests with his Master above.

Oh ! weep not for him, he's gone from thy sight,
 To mingle his praise with the songs of the blest ;
 Through heaven's vast circuit he now wings his flight,
 Where sorrow disturbs not the peace of the breast.

He left this dark earth for a brighter abode,
 Where angels encircle him round with delight ;
 He's freed from the burden of sin-crushing load,
 And gone where the day knows no shadow of night.

He blossoms in Eden, whose bowers ne'er fade
By the sun's scorching heat or cold winter blast,
There sweetly reposes, beneath its cool shade,
And fears not the storm, for his anchor is fast.

He left thee, his partner, the joy of his heart,
The friend of his bosom, in grief to lament,
Whose voice soothed his sufferings in death's final smart,
While thy heart with deep sorrow and anguish was rent.

Thou watched his sick couch till the last shades of death
Passed o'er his pale features, and closed his dim eye,
And pressed his parched lips as he drew his last breath,
And took his departure for glory on high.

Beside that clear river which peacefully glides
Mid the beautiful pastures in yon holy land,
He wanders secure by Emmanuel's side,
Led on by his gentle, omnipotent hand.

In that lovely clime no threatening thunders roar,
Or vivid lightnings flash above his holy head ;
No, in that blessed region scenes like these are o'er,
No cloud can dim the brightness which its sunbeams shed.

Yes, he lives in the land of pure delight,
Where truth shines like day, and where error is night.
Then dry up thy tears, thou shalt not long be riven ;
He'll welcome thee soon to the portals of Heaven.

Chicago, Ill.

FAMILY CHAPTER.

REMINISCENCES, BY HIS AFFLICTED AND SORROWING WIFE.

The Lord works in a mysterious way. His ways are in the deep waters. I can not comprehend them. He took my beloved home, and left me alone. My grief is so great to-day that no one is able to heal but the Great Physician of the soul. As a minister, my beloved husband was faithful in all his callings, and never neglected his publications, if able to go. I always went with him to see him safe in the cars, and the chief thing on his mind always as starting was, that the Lord would accompany him and bless his ministry. He was afraid to go on such an important message without him. He never wrote a letter to me when from home without asking us to pray for him, and for the Lord to shine his face on him, and make him an instrument in his hand to turn many lost sinners to Christ as their Savior. He had a passion for saving souls; his soul was burning with zeal for his Master. Many times I went to his study and found him on knees in private prayer with his God. Oh! the wrestling and groaning in agony, like Jacob; he would not let him go till he would bless him. We could often see in his face, like Moses, that he had been with his God. He devoted his time and strength to serve his dear Master, thinking it more of an honor than to wear an earthly crown. He devoted an allotted time every day for prayer in his closet. He went from 11 till 12 o'clock to church while living in Milwaukee. When studying his sermons he never made use of books, except his dear Bible and Concordance. Oh! how earnest he was in offering a crucified Saviour and his atoning blood to a lost world. He told me, a few weeks before he died, that he was so thankful to his heavenly Father that his bodily sufferings were not impairing the faculties of his

soul. "My views are as clear on religious subjects, and the great plan of salvation, to-day as ever, and I am able to study and compose a sermon to-day as twenty years ago, and my soul burns with zeal within me to my dear Saviour, for what he did for me, that I rejoice in his love so much these days." For 57 years Christ was in all of his subjects, and how he gave himself a ransom, that we might go free. As listening to him, many times, describing the great plan of salvation, my soul would be so enraptured that all earthly ties and connections would vanish out of sight. A faithful watchman has fallen off the walls of Zion. May the Lord raise others to fill his place. A very important subject, for months, lately, on his mind, was, the long eternity, and his prayers were that the Lord would stretch out his arm and rescue sinners, that were going on heedless and careless without a Mediator, and for the Lord to take the covering off the great deep, that the sinner might see the danger before it would be too late. Oh! how earnest he was on the subject at the family altar every day. He was acquainted with sorrow, like his Master; he forgave all men, saying: "I have no enemy on earth." He would always say to me: "My dear, forgive all, or you will not have forgiveness." He said, as Christ did: "Oh, Father, forgive them, they know not what they do."

He was the kindest of husbands and fathers. We lived 47 years together, and the union was one of perfect happiness, cemented with love. I thought it more of an honor to be united with a child of God, and an ambassador of Christ, than to one that wore an earthly crown. We were getting more attached as old age was advancing. I knew it was sinful, and that he was taking too much room in my soul—more than the Lord, so he thought best to take him home. My dear ones were the Lord's. He only lent them to me; so I will try to be silent. Although having lost my beloved ones, and the earthly union is dissolved, still, I trust my union with Christ can never be dissolved—even

death can not do it. Oh! may he take full possession of my soul and body forever, and make me ready to meet those loved ones gone before. He made our home a little heaven on earth with his loving and peaceful disposition. He was all a man could be in his family. He was a king, priest, and prophet. For the last few months, we had great pleasure in the morning, after he had been wrestling most all night in prayer with his God; he would say to me, "Dear Mary," such and such a verse or hymn "gives me so much consolation to meditate on them." The first thing I did in the morning, before taking his breakfast up, was to give him his Bible and Concordance, and he would always read that portion that was on his mind, at family prayers, and it paid him well. He loved his Bible more than his necessary food, he lived fat on all the rich promises, and died in the full possession of them. The last Thanksgiving day he lived, we had a rich feast to our souls. All the family were together, when he read the ninth chapter of Isaiah, especially the sixth and seventh verses, and he prayed lying in his bed; his soul mounted to heaven in ecstasy, thanking and praising that the government was on the shoulder of his dear Brother; that he was able, willing, and mighty to save his dear children, the church, and the world. Rev. A. Kittredge came to see him that day. He told him what unspeakable joy he experienced. He said the Lord was so near. He was, like Simeon, wanting to go home. Mr. Kittredge then offered a prayer. Oh! what a place—heaven on earth! the presence of God was so visible. I valued godliness then more than ever. What consolation it affords when all earthly comforts forsake us. He lived in the atmosphere of prayer; prayer was the breath of his soul. He never missed family prayers for forty-seven years of our married life, always morning and evening, after meals. His examples, admonitions and prayers are as a wall of fire around us, to guide us in the right path; and we still keep up the same family altar, and offer up our feeble

and unworthy prayers to him who has promised to be a God to the widow and fatherless. May the Lord support, sustain and answer us, although unworthy. He had great reverence for the Sabbath. He would not allow any one in the family to read any irreligious books, or do anything that was not becoming the sacredness of the day. He always went Sabbath afternoons, when at home, to read and pray with his married children and families. He dearly loved his children, and they deeply feel their loss to-day. If any of us will be lost it will be our own fault. All the earnest prayers and counsels we received from his lips, to think of them keeps my troubled soul from despair. He kept family prayers for months lying down on the sofa, not able to go on his knees, and from that place he was pulling at the rope of the promises so strong till they would echo up to the mercy seat, and blessings would come down in return. A few days before he died he commenced reading the cxxx. Psalm; he read six verses, then dropped the Bible, and that was the last time the precious words of God fell from his dear lips. A few days afterwards his purified spirit was lifted from the crumbling tabernacle to Jesus' bosom. That Bible is now in his casket, opened on that Psalm. Oh, the consolation he drew from that sweet promise: "I will be your God, and the God of your children after you." He clung to that till his last breath. He said a few days before he died: "Indeed he will fulfill it with all my dear children, and my prayers in their behalf will be answered, and we shall sit at the same table at home." The last time he sat at the table with us, he got up, walked around the room, while we were eating; he was singing all over the room, "Rock of ages cleft for me," and "If I should die, to Jesus I fly; I know that he loves me, but can not tell why; but this I do find, that we are so joined, he can't live in glory and leave me behind;" "Safe in the arms of Jesus." He was always singing in the minor key here; but to-day he can sing in the highest key praises to him that

loved and washed him in his own blood. A few months before his death, when not able to preach himself, he went to hear Rev. A. Kittredge. It was the last time he heard him preach and administer the Lord's supper. He sat with his elder Brother at the table, meditating on the richness of his atoning blood; his cup was full to the brim, he could not control himself in the seat, meditating on the great love of his dear Saviour, who gave himself a substitute that he might go free. Oh, what love! Who can comprehend it? Eternity will not be too long to praise him for his great love to us. Little did we think then that it was the last time he should sit at the table on earth; that the next he would be drinking anew in the kingdom of heaven. Oh, happy change! A friend asked him a few weeks before his death how he felt, when he answered, "All right." "How do the things that you have been preaching for so many years pay to-day?" He said, "The precious things I preached to others are like the everlasting rock under my soul, supporting me, and the everlasting arms are around about me. Glory be to God, it is all right." He wanted to live ten years longer to preach the everlasting gospel, and revenge on the devil and his kingdom more than ever; but it was not the Lord's will for it to be so. He was preaching a few days before he died, pointing his finger, saying: "My hearers, I believe on the Lord Jesus Christ; he is the only Saviour." He always wished, if it was his heavenly Father's will, not to have a long and lingering illness. It was granted. Although his disease baffled every medical skill, he was patient, and never murmured during all his sufferings, saying, "What are my sufferings compared to my dear Saviour's sufferings that I might go free!" He was taken home at an advanced age, like a shock of corn ripe for glory. He left his children, and six of his grand-children, members of church, and had to see and pray for a great-grand-child, the fourth generation. He would sometimes be so bold in prayer as to nearly demand the

Lord to be up to his promise to bless his offspring; that he was a covenant-keeping God, and his promises were yea and Amen. His death was beautiful; he was ready, waiting the message; his Father sent a host of angels to escort him home; before his feet had hardly touched the waters he saw the beautiful land, and the King in his glory, welcoming him home, saying, "Well done, good and faithful servant, enter into the joy of thy Lord;" he had an abundant and triumphant entrance into everlasting bliss, where the wicked cease from troubling and the weary are at rest. Among some of his last words were these sweet testimonies: "I am going home." "It is sweet to die." "This is the commencement of glory." He turned his face to me and kissed me, and then closed his eyes and sweetly fell asleep on the bosom of his Saviour. Oh, happy death, without a sting! My great loss was his eternal gain. Oh, my burden is heavy. I have no place to lay it down, but at the foot of the cross—the only place I can get relief. My Saviour is able to carry me and my burdens. The Lord is a refuge in time of trouble. I will run and hide myself under the shadow of his Almighty wings till all calamities are over past. The rod is in a dear and very tender Father's hand, May the Lord in his infinite mercy sustain me, and prepare us all as a family to meet him in that home where sin never enters, nor ties are never broken.

We buried three sons: Benjamin Jones Williams, born in Llanidloes, Wales, June 12, 1829; died June 14, 1829.

John Henry, born July 12, 1848; died at Remsen, N. Y., November 16, 1851.

David Charles, born July 12, 1848; died at Pittsburg September 4, 1874.

If I could have composed in Welsh, I would have written some of the beautiful Welsh hymns he used to sing. Many times did I hear him repeat the same sweet words over and over till nature was exhausted, and his soul would be in ecstasy, forgetting himself

and all other earthly objects. If I should devote the remainder of my days to write his experience, virtues, and Christian life, my life would be too short to do it, they were so many.

BY HIS DAUGHTER MARGARET.

First and most prominent among the pictures hung upon the walls of memory is that of our dear, sainted father. His consistent life and peaceful death will always stimulate and remind us of the nobler, higher life in the home above. The tendrils of our hearts clung about him, like the ivy around the strong oak. To-day they lie bleeding and crushed, having lost the protecting care and love of one that was everything to us. But God is speaking tenderly to us in these afflictions, taking away the earthly support, in order that we may be taught to lean the harder on the heavenly. The consciousness of having had so tender and kind a parent, makes the loss so much the greater, and, consequently harder to bear, sheltering us from every storm, his large, warm heart ever ready to sympathize and help, at the least sign of physical pain or mental suffering. He had but little of earthly riches to leave his children; but his devoted life, earnest prayers, anxiety that each one of us should become true christians, his love to Christ and his people, his sacred regard for God's Word and his holy day,—the memory of these things are a far richer and more enduring legacy than gold or silver. In his life we have a strong proof of the power and reality of the Christian religion—always cheerful amid the darkest scenes and most perplexing difficulties, knowing that God would certainly open the way and bring all things out right; never daring to undertake the least thing without first asking God's blessing; never shrinking from duty, however unpleasant it might be to perform; his advice and example never conflicting; decided, yet gentle; firm, but

kind; always forgetting self; honest and true towards God and man.

Our grief is very great to-day. We cannot express it in words. But we have consolation; we do not sorrow as those having no hope. Our loss is his eternal gain. Instead of pain and tears, joy for ever more, walking the golden streets of the New Jerusalem, clothed in the spotless robe of Christ's righteousness, singing the new song of Moses and the Lamb, and wearing the beautiful crown. Our interest in heaven is greater to-day than it ever was before. Those loved ones that have gone a little before, are waiting and watching for each of us. Still, the loneliness grows upon us more and more: the vacant chair will never be filled here, the sweet voice will never be heard at the family altar any more; but if he will not return to us, we shall go to him. Oh, that a double portion of his spirit might rest upon each one of us, that we may, with the assistance of God's Holy Spirit, be enabled to say from the heart that "his God shall be our God, and his people our people," that at last, when each one shall cross the river, his home will be our home. Oh, his peaceful death!—all fears taken away, the rod and staff near him in the valley. He spent the day of his life with his Saviour, and when the evening came he was with him, a support in the trying hour.

His dying words are very precious: "Sweet to die," although soul and body were about to be sundered, that had never been separated for one moment during a long life, together in joy and sorrow, sickness and health; but to be with Christ was far better. Another expression: "Going home." In this world we associate everything pure, beautiful and grand with the word "home;" but what must be the home which God has prepared for those that love him! We cannot understand but little about its grandeur, but he knows to-day; and we know there is no sin, no sorrow, no pain, no death. "Eye hath not seen, ear hath not heard, nor has it entered into the heart of man to conceive the

things which God has prepared for those that love him." Another: "The commencement of glory." As he was nearing the river of death, he could catch a glimpse of the celestial city. While here upon earth, in the midst of weakness, his soul was lost in wonder, meditating upon the mysteries of the plan of redemption. What must he be to-day, his spirit unfettered and free, comprehending with all the saints the height, breadth, and length of the love of Christ, which is past knowledge, and seeing that blessed Saviour face to face! Oh, the happiness of those redeemed ones! In the midst of sorrow, we thank God, through the gospel of our blessed Lord and Saviour Jesus Christ, we have a hope of an immortality beyond the grave, and a certainty of meeting those loved ones again, and be a united family in the home above. May the Lord bless these bitter providences to do us good, is our earnest prayer.

COFFADWRIAETH AM MRS. JONES, BANC,
LLANIDLOES.

Medi 26, 1840, bu farw Mrs. Mary Jones, gweddw y diweddar Mr. B. Jones, Llanidloes, a mam B. Jones, Ysw., maer y dref, a mam-yn-nghyfraith y Parch. D. Williams, yn 59 mlwydd oed.

Medi 30, claddwyd ei rhan briddlyd yn anrhydeddus mewn bedd gwneuthuredig o briddfeini, yn mynwent yr Eglwys Sefydledig, yn Llanidloes. Traddodwyd y bregeth angladdol gan Mr. Gwalchmai, i dyrfa luosog iawn o wrandawyr, yn nghapel Bethel, perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, yn Llanidloes, oddiwrth Dat. xiv. 13; a thua y rhan olaf o'i bregeth gwnaeth y sylwadau canlynol mewn perthynas i'r chwaer ymadawedig, gan ddyrchafu gras Duw fel gwreiddyn a ffynon pob rhinwedd, a chan alw y dyrfa, yn enwedig y rhyw fenywaidd, i efelychu gwrthddrych ein sylwadau coffaol, yn y cyfryw rinweddau a enwir, mor bell ag yr oeddynt yn dwyn perthynas â'u gwahanol sefyllfaoedd hwy.

Yna efe a enwodd y rhestr ganlynol, fel ffrwythau gras a rhinweddau teilwng o sylw :

“1. Fod y chwaer a gymerwyd ymaith y dydd o'r blaen o'n mysg wedi gwneyd ymgyflwyniad boreu o honi ei hun i Grist a'i deyrnas. Rhoddodd ei hun pan yn ferch ieuanc iawn i'r Arglwydd ac i'w bobl; a phwy bynag sydd wedi aros yn blant Belial heb iau hyd bell-der eu hoes, dygodd y chwaer hon yr iau yn ei hieuen-tyd.

2. Pan gyrhaeddodd i oedran gweddus, a chynygion iddi dderbyn galwad i'r sefyllfa briodasol, gochelodd rhag ieuo yn anghymarus, gan wrthod pob cynygion ag oedd a thuedd i hyny, a chan ymgadw wrth reol y Gair dwyfol, os priodi a wnai, i *briodi yn unig yn yr Arglwydd*; ac felly y bu, cafodd wr yn ofni yr Arglwydd.

3. Ymdrechodd (gan ei chyfrif yn ffrain) i ddwyn ei phlant i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, a bu yn llwyddianus yn hyn; cafodd farw gan adael ei phlant a'i hwyron o fewn muriau tŷ yr Arglwydd.

4. Dangosodd hyfrydwch mawr, megys Dorcas gynt, mewn dilladu a chyfranu i'r tlodion; tystion ydyw llawer o honynt sydd yma yn awr, pa rai sydd yn gwisgo y peisiau a roddodd.

5. Ymlynodd wrth yr Arglwydd a'i achos o ddechreuad ei chrefydd hyd ei marwolaeth, sef mwy na deugain mlynedd o daith yn yr anialwch, a mwy na 32ain o'r rhai hyny yn weddw barchus ac anrhydeddus.

6. Dangosodd yn ei chylch teuluaid ei bod yn ferch fwyn, yn wraig hynaws, yn fam dirion, yn weddw ddi-rodres, a meistres addfwyn, a bod ei thŷ a'i chalon yn agored i groesawu gweision Crist.

7. Arferodd ddiwydrwydd i ddyfod i foddion gras yn Sabbothol ac wythnosol. Yr oedd yn y capel hwn y nos Lun olaf y bu byw; safodd ar y maes gyda'r fyddin yn ffyddlon hyd angen.

Er fod y gweithredoedd hyn o eiddo ein chwaer drancedig yn anwadadwy; eto, nid am y cyfryw na'r cyffelyb weithredoedd yr â neb byth i'r nefoedd. Bod

yn Nghrist sydd yn rhoddi *hawl* i'r nefoedd, a gwaith yr Ysbryd sydd yn *cymwys* i fyned yno. A phwy bynag sydd wedi ei greu yn Nghrist, y mae wedi ei greu yn Nghrist i weithredoedd da; a bod yn Nghrist ydyw y gwreiddyn, a gweithredoedd da ydyw y ffrwyth. Gellir dyfod at Grist heb un weithred dda; ond ni ellir profi fod neb yn Nghrist heb weithredoedd da. Ac nid yw hyd yn nod y gweithredoedd da sydd yn ffrwyth bod yn Nghrist yn teilyngu y nefoedd, nac yn myned o flaen eu perchen i agor y ffordd iddynt i'r nefoedd; eto, y mae gan bawb o oed ag sydd yn myned i'r nefoedd weithredoedd da; ac er eu bod hwy yn eu bwrw ymaith, megys i'r domen, dan ddywedyd, "*Gweision anffuddiol ydym*," eto y mae Duw yn eu codi i fyny ac yn eu golchi, ac yna y mae yn peri i'w gweithredoedd da *ganlyn* y saint i'r nefoedd, ac yna y mae yn eu tra-gywyddol wobrwyo â'i ras. Ac oddiwrth ffrwythau ffydd ein chwaer ymadawedig, y mae genym le cryf i hyderu ei bod heddyw yn gwisgo y goron, mewn gwlad lle y mae dagrau pawb o'r saint sydd yno wedi eu cwbl sychu am byth."

Troi yn erbyn hunan-duedd
 Ddarfu Mair yn more'i hoes;
 Gwrthod gwagedd, dewis sylwedd,
 Canlyn Crist a chodi'r groes;
 Trigo wnaeth yn nhy yr Arglwydd
 Hyd fachludiad haul ei dyd i;
 Hoffi'r oedd y teulu dedwydd—
 Byw a marw yn y ffydd.

E. HUGHES.

TRAETHODAU

O EIDDO Y GWRTHDDRYCH, A'I FARDDONIAETH.

Gwnaed ychydig o gyfnewidiadau ar ffurf amryw o frawddegau yr awdwr yn y traethodau canlynol, er mwyn eu gwneyd yn fwy darllenadwy; ar yr un pryd, cymerwyd y gofal mwyaf rhag i hyny wanhau na chyfnewid dim ar y meddwl. Byrhawyd hefyd ychydig ar rai o'r traethodau ar yr "Eithafion Pechadurus," y rhai a gyhoeddwyd yn Nghymru, o herwydd ein bod yn gweled yr awdwr parchedig wedi rhoddi ail a thrydedd adroddiad o'r un pethau, yr hyn oedd yn dyfod i mewn yn bur fynych, o herwydd fod cryn amser yn cymeryd lle, weithiau, rhwng cyhoeddiad y naill a'r llall o hon- ynt. Barnem y byddai hyny yn fwy cymeradwy gan y darllenydd, ac yn rhoddi ychydig mwy o le i bethau eraill a ystyrid yn wir werthfawr i mewn yn y Cofiant.

CYNGOR AR ORDEINIAD GWR IEUANC
YN MINNESOTA.

2 TIM. ii. 15.

Y mae pob gwaith yn gofyn cymwysder yn y gweithiwr, a pha bwysicaf y gwaith, mwyaf y gofal i ddewis y gweithiwr. - Y gwaith pwysicaf i ddyd, tu yma i'w iachawdwriaeth bersonol, yw gwaith gweinidog. Gwir nad yw y gwaith hwn yn hanfodol i iachawdwriaeth; eto, y mae meddu iachawdwriaeth yn hanfodol i iawn gyflawniad y gwaith hwn. Diau ei fod yn hanfodol i bob gweinidog yr efengyl fod yn

dduwiol; nid yn unig yn ei gysylltiad personol â Duw, ond hefyd yn ei gysylltiad gweinidogaethol dros Dduw. Er hyny, nid yw bod yn dduwiol o gyflwr yn bob peth sydd yn angenrheidiol i wneyd gweinidog cymwys. Dylai fod, ac y mae ysbryd a theimlad gweinidog, i ryw fesur, yn mhob Cristion. Un o hanfodion gras yr eferygl yw awydd am achub ei gyddynion; ac eto, y mae rhywbeth mewn derbyn gweinidogaeth sydd yn myned tu hwnt i'r hyn sydd yn mhob dyn duwiol. Beth yw y gwahaniaeth rhwng yr awyddfryd sydd yn mhawb duwiol am achub a llesâu eraill, â yr hyn a berthyn i ddawn gweinidogaeth y cymod? 1. Y mae yr awyddfryd hwnw yn gryfach yn y rhai a elwir allan i wasanaeth cyhoeddus. 2. Y mae Ysbryd Duw yn dangos llwybr a maes y weinidogaeth iddynt hwy. 3. Y mae rhyw oleu cryf yn cael ei roddi ar bethau ysbrydol iddynt, ac y mae yn rhoddi pethau o'u mewn i losgi fel tân, ac i ferwi fel crochan, fel na *allant* beidio a phregethu, a gwae fydd iddynt oni wnant. Ni ddylai pawb a allo bregethu ymaflyd yn y gorchwyl; ond y rhai na *allant beidio* a gwneyd—y rhai y gosodwyd *angenrhaid* arnynt a ddylai bregethu. 4. Y mae y rhai a alwyd gan Dduw at y gwaith, wedi derbyn cymwysderau neillduol ato. “Cyn i mi dy lunio di yn y groth mi a'th adnabum,” a'th fwriedais, “a chyn dy ddyfod o'r groth mi a'th sancteiddiais,” neillduais di o ran cymwysderau, “mi a'th roddais di yn brophwyd.” Y mae y genadwri yn cael ei rhoddi iddo hefyd: “Wele, rhoddais fy ngeiriau yn dy enau;” a dywedir i Paul gael ei neillduo o groth ei fam, a'i alw drwy ras.

I. Y peth mawr hanfodol a dechreuol i'r weinidogaeth, yw crefydd bersonol. “Bydd ddyfal.” Ymddyro i'th osod dy hun.—*Dr. Morgan*. Astudia ar dy osod dy hun.—*W. S.* Astudia i ddangos dy hun yn gymeradwy i Dduw.—*Saes*. I Dduw, medd pob darlleniad—neb ond Duw yn y pwnc hwn. Dengys yr ymadrodd safur, ymdrech, gonestrwydd, ymroad di-ildio, a'r mater

yw, bod yn gymeradwy gyda Duw o ran cyflwr, a hyny i raddau yn wybyddus i'r dyn ei hun, yn brofiadol. 1. Edrych ar dy fod yn gyfaill Duw; canys peth ofnadwy yw i ti gario cenadwri heddwch i eraill, a bod dy hun yn elyn. 2. Bydd ddyfal i gyrhaedd profiad personol o'r gwirionedd a draddodi i eraill. Y mae yr asyn yn cludo nwyddau gwerthfawr i eraill, ac eto yn ymborthi ei hunan ar ysgall y clawdd. Dywedir mai y *cook* a'r *carver* sydd yn gallu bwyta leiaf wrth y bwrdd. Mynwch ymborthi eich hunan wrth goginio (myfyrio), ac hefyd wrth dori bwyd i eraill. Bydd gwirioneddau yn sychion i eraill os na bydd y traddodwr ei hun yn eu profi. Rhywbeth tebyg i adrodd darnau o waith Plato, Homer, a Virgil, yw traddodi gwirionedd heb ei brofi, neu y bachgen yn adrodd ei ddernyn oddiar ei gof. Esgyrn sychion fydd y pynciau goreu, heb i'r traddodwr eu hadnabod yn brofiadol. Y mae mēr yn yr hen athrawiaethau; ond eu profi yw y gallu i'w dangos i eraill. 3. Bydd ddyfal i beidio colli dy hun wrth geisio cadw eraill. Fy mrawd, wrth astudio, rhoddi cymalau y pynciau wrth eu gilydd, gochelwch golli eich hun. Byddwch ddyfal rhag colli eich hun o fysg y gwrandawyr. Pan beidio y pregethwr a bod yn wrandawr, ni thâl ei bregeth nemawr. Gochelwn fod fel peiriant, yn gweithio yn gelfyddydol a deheuig, ond heb galon nac enaid, bywyd na theimlad, na wyr ddim am y grym sydd yn ei yru. Rhywbeth dyeithr iddo ei hun yw y peiriant yn ei waith. Gwareder ni rhag bod fel peirianau, frodyr. Bydd ddyfal i beidio bod fel y meddyg, yn *prescribio* i eraill, ac ar unwaith heb deimlo ei fod ef ei hun yn perthyn i'r meddygdy. Gall-em gymeryd gwers oddiwrth goleg y ddiod feddwol, yr hon a ddysga i ddyn ddywedyd, "Iechyd da i chwi," wrth yfed ei hun. Yfwn ein hunain yn dda wrth bregethu, a dywedwn "iechyd da" i'n gwrandawyr—gwnawn ein goreu i'w cael hwythau i yfed.

Y mae yma hefyd olygiad swyddol. 1. Bydd ddyfal i gael allan feddwl Duw. *Fel hyn y dywed yr Arglwydd.* Negeswr yw y pregethwr rhwng dwy wlad, ac y mae

perygl i ni fod heb ddeall y neges. Gofynwn am oleuni yr ysbryd; deall da trwy ras; ysbryd gweddi, ac awydd llafurio. 2. Bydd ddyfal i gael cenadwri. Gall fod y dyn yn ddoniol, yn dywedyd gwirionedd, ac wedi ei alw i bregethu, ac eto heb genadwri. Nid wyf yn beio pregethu yr un bregeth fwy nag unwaith; ond y mae eisiau adnewyddu y genadwri. Gwr da oedd Ahimaas, ond eto heb genadwri. 3. Bydd ddyfal i *engagio* yr Ysbryd, er cael meddwl Duw—cenadwri Duw. Heb gael Ysbryd Duw aiff y cwbl yn ofer. Dacw Moses wedi cael cenadwri; aiff drwyddi bellach. Na, “Onid â dy wyneb gyda mi, nac arwain fi oddi yma.” Fy mrodyr, nac ymadawn o'r ystafell heb gael cenadwri Duw, ac Ysbryd Duw. Yn mhellach eto, y mae yma ryw brofi gan Dduw. Y mae y dyn yma yn ngwydd Duw, yn trafod pethau ag y mae Duw ei hun, yn brofiadol i'r dyn, yn setlo â'r dyn yn y pethau a nodwyd. Y mae treialon mawrion i fod rhwng enaid gweinidog & Duw. Tipyn o beth yw pasio treialon gyda y *bosses*, weithiau; ond bod dan brawf Duw sydd beth pwysig. Y mae yma onestrwydd mawr i fod. Bydd ddyfal, ymrodda, agor dy holl bethau i archwiliad Duw. Bydd onest, frawd, gyda yr eiddot; gad iddo weled a chlywed y cwbl; dyro iddo yr agoriadau i bob cell o'th fewn, i chwilio yr holl gelloedd. Ar ol gosod y bregeth oll wrth ei gilydd, gelwch ar Dduw i edrych drosti, ac i ofyn ei gymeradwyaeth o honi. Teflwch y pwnc, y bregeth, i glorïanau y cysegr, cyn eu dwyn i olwg neb. Ac wedi ei thraddodi, drachefn, dylem droi yn ol i setlo & Duw. Y mae yma waith cyfaddef i ni, a gwaith maddeu i Dduw. Nid yw cael ambell i Amen ac och- enaid yn brawf fod ein gwaith yn *all right*. Dod dy hun yn brofedig gan Dduw. Llafuriwn am fod yn gymeradwy gan Dduw. Gwir mai peth rhyngom & dynion yw pregethu; ond mor wir a hyny, peth rhyngom & Duw yw y cyfrif. Byddwn ryw ddiwrnod yn troi cefn ar y gwrandawyr am byth; Duw a ninau fydd yn *setlo* y cyfrif. Dywedaf eto, bydd ddyfal, fy mrawd, i fod yn gymeradwy gan Dduw.

II. Bydd weithiwr difefl. Dyma y pregethwr yn awr yn y cyhoedd—fel Moses, wedi bod gyda Duw; fel yr archoffeiriad, o'r sancteiddiolaf; fel Pedr, wedi cael ei arholi gan Grist; fel Paul, wedi ei ystwytho,—yn weithiwr difefl, heb gywilyddio. Na chywilyddied y bregeth yr un gangen o athrawiaeth, ac na chywilyddied bywyd y pregethwr ei bregeth, ac na wna achos cywilydd i ti dy hun yn dy waith yn trin pynciau a fyddant yn anghyson âg athrawiaeth yr efengyl. Gellir cywilyddio yr athrawiaeth drwy aiferwch yr ymdriniaeth â hi. Gwaith cywrain, manwl, a chelfyddgar yw trin pynciau y Beibl. Rhoddwch chwareu tég i holl ranau pob pwnc—*cubic measure*; nid mewn un ffordd, ond yn mhob ffordd. Rhoddwch chwareu teg i gysylltiadau pob pwnc â phynciau eraill. Gofalwch am y *joints*. O ddiffyg manylwch yn hyn y mae cyteiliornadau lawer wedi tarddu. Y mae yn anmhosibl pregethu un pwnc yn *orthodox*, heb ddeall a phregethu y cysylltiadau rhyngddo â phynciau eraill. Bydded y cwbl yn iach; gochelwch y meflau. Pregeth iach, os na bydd yn fawr; pregethau cyson, os na byddant yn ddyfnion. Cedwch yn eu lleoedd priodol ras a dyledswydd, colledigaeth dyn a'i iachawdwriaeth, deddf ac efengyl, calon a buchedd, gogoniant yn y goruchaf i Dduw ac i ddyfnion ewyllys da, gweddio a gwilio, gwaith a gwobr. Hefyd, cedwch y pynciau hyn rhag cilgwthio eu gilydd; ond bod fel milwyr yn *marchio* yn unol, a phob un yn ei le ei hun. Gweithiwch a llefarwch hefyd yn y goleu,—goleu presenoldeb Duw. Gwaith rhy gywrain yw hwn i'w wneyd wrth oleu canwyll. Goleu haul raid gael ato. Ac wedi y gorphenom bob peth, rhaid i ni roddi lle i Ysbryd Duw. Y mae y doniau a rydd efe yn rhai o'r iawn ryw. Gweithiwr; nid edrychwyr, na barnwr, na beiwr, na siaradwr, na dadleuwr, nac ymfrostiwr,—na, gweithiwr. Gweithiwr cyson yw hwn i fod; gweithiwr yn mhob man, a phob amser. Gwareder ni rhag ffitiau gyda ein gwaith. Gweithio pan fyddo Amenau yn tincian fel clychau, ie, a gweithio pan fyddo dystawrwydd marwolaeth o'n hamgylch. Gweith

iwr ymdrechgar. Y mae i nofio gyda y llif, ac i rwyfo hefyd yn erbyn y *current*; rhedeg gyda y gwynt, a dal yn dyn yn ei erbyn pan y chwytho yn chwithig. Os ceir codwm gan odfa galed, rhaid codi i ail gynyg wedi hyny. Gweithio yn ddi-droi yn ol. Os cawsoch bum' talent, rhaid ymdrechgu; ac os un, ymdrechwch i'w gwneyd yn ddwy, ac felly, dichon y daw yn ddeg cyn hir. Rhaid gweithio yn syml (*simple*). O holl ragoriaethau pregethu, *simplicity* yw un o'r goreuon. Gochelwch ddull meistrolgar, gochelwch ddull hen nes myned yn hen, gochelwch ddull dynwardol. Eich gwisg eich hun yw yr oreu i chwi, frawd. Gweithiwch yn onest, hefyd. Os bydd ambell i odfa yn talu yn dda, rhoddwch y gogoniant oll i Dduw.

III. Iawn gyfranu gair y gwirionedd. Gair y gwirionedd yw defnydd y pregethau. Gair y gwirionedd yw rheol y pregethu. Gair y gwirionedd yw barnwr y pregethu. Gwirionedd, nid sothach; gwirionedd, nid ūs a gwegi. *Iawn gyfranu*. Dygwch ddigon i'r bwrdd—digon am fywyd yn mhob odfa. Deuwch a bwyd iach i'r bwrdd; y defnyddiau i gyd o *store* Duw ei hun. Dygwch amrywiaeth i'r bwrdd,—llaeth a bwyd cryf. Deuwch a'r cyfan yn drefnus, pob dysgl ar ei phen ei hun, heb eu cymysgu. Bwyd glân, coginiaeth lân, a llestri glân—*iawn gyfranu*. Ond, Oh, wrth ystyried y cwbl, pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn! Trown ac edrychwn i fyny: "Ein digonedd ni sydd o Dduw." Gair Duw fyddo ein llwybr, Ysbryd Duw fyddo ein harweinydd, a gras Duw ein cymorth i'w deithio.

Y LLWYBR CUL.

Rheol anffaeledig ymddygiad dyn at Dduw, ef ei hun, a'i gymydog, yw Gair Duw; ac nid yw anallu moesol yn ddirymiad na dirywiad ar hawl Duw i ofyn perffaith gydymffurfiad â'r rheol, nac ar rwymedigaethau y dyn i berffaith gydymagweddu â hi yn ei manylrwydd eithaf.

Mae y rheol hon yn ganolbwynt mawr pob eithafoedd cyfeiliornus y mae dyn syrthiedig yn dueddol iddynt, ac yn brif-ffordd freiniol, rydd, uniawn, diysgog, ac anffaeledig byth. Ond y mae dyn, yn nghanol ei dywyllwch a'i ddychymygion, yn tori drosodd, weithiau ar y dde, a phryd arall ar yr aswy, ac yn gwenieithio iddo ei hun mai gwell yw ei lwybrau ceimion et na'r hen ffordd ddiberygl, ac yn ei ynfydrwydd yn rhyfygus ddywedyd, "Nid cymwys ffordd yr Arglwydd." Eze. xviii. 25. Yn bresenol, cawn ddangos rhai o'r eithafion pechadurus, a thrwy hyny ddangos y rheol yn arwain rhyngddynt, yn sanctaidd, cywir, a digoll; ac wrth fyned yn mlaen, ceir gweled mai cul yw y llwybr bob cam, ac mai ychydig yw y rhai sydd yn ei chael hi,

1. *Ysgafnder a Sarugrwydd.* Y mae y ddau hyn yn groes i'w gilydd; ac eto, y mae y naill a'r llall yn groes i'r rheol. Gwir fod dynion o wahanol gyfansoddiadau a thymerau; ond ni ddichon dim o'r cyfryw bethau esgusodi troseddiad y rheol. Mae sefyllfaoedd, amgylchiadau, a chyfeillion, yn esgusodion cryfion; eto nid oes, ac ni ddichon fod, dim i gyfreithloni troi o'r ffordd. Mae yn angenrheidiol cael trefn a goruchwyliaeth Ysbyrd Duw ar y meddwl, cyn y bydd yr agwedd yn ei lle; ac hefyd wyliadwriaeth fanwl ar y meddwl, i wrthsefyll y pethau parotaf i'n hamgylchu mewn gwahanol amgylchiadau, er dianc rhagddynt mewn pryd. Y mae sobrwydd siriol, a sirioldeb sobr, yn agwedd oruchel ar y meddwl. Y mae y llwybr cul yn cael ei groesi gan yr un dyn, weithiau, lawer gwaith yn y dydd, i.e., yn yr awr. Un mynyd mor afrywiog a sarug, fel nad oes na Duw na dyn, na dim a wneir gan y naill na'r llall, wrth ei fodd; a'r mynyd arall, bydd mor ysgafn yr olwg arno nes y mae bron yn alluog i berswadio pawb a'i gwelo nad oes enaid mewn dyn, na marwolaeth o'i flaen, na rhwymau i Dduw arno, na barn, na thragywyddoldeb yn ei aros. O! agweddau annheilwng! Y mae cymaint o'r llygredd brwmstanaidd hwn ynddo fel pe y torid ond llestr pridd, gwnai y lle yn ddychrynlyd. O'r ochr arall, y mae y llong mor ddifalast fel y mae yr

awel leiaf, pe b'ai ond un gair, yn ei guro yn erbyn creigiau ynfydrwydd a gwallgofrwydd. Y mae y sarugrwydd hwn yn chwerwi cymdeithas, yn difa cysur, yn euogi cydwybod, yn rhwystro gweddiau, yn tristau yr Ysbryd, ac yn digio Duw. Y mae fel y lefain i'r blawd, yn troi y cwbl i'r un agwedd bron a'r creaduriaid afresymol; mae fel gwenwyn i'r cylla, yn chwyddo ac yn mwyhau pawb o'i amgylch, a'r bychan yn ymsythu i ddywedyd, "Ni waeth gen i am neb." Ac o'r ochr arall, os troir y llestr, fe'i dymchwelir i bellder anghymedrol, nes bydd y llawenydd yn chwerthiniad ynfyd, a'r sirioldeb yn gellwair, y pleser yn goeg-ddigrifwch, a'r holl gysur a'i ddefnydd yn enyniad, a'i gynaliad yn feddwl gwag o Dduw. Rhwng y ddwy ochr hyn y mae y llwybr rhydd, a goleu, er yn gul i gnawd a llygredd. Gweddiwn, fel Dafydd, "O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau."

2. *Digalondid a Rhyfyg.* Y mae y ddau yma yn milwrio yn erbyn eu gilydd, ac ar yr un pryd yn milwrio yn erbyn y rheol. Ni wna y digalon a allai wneyd, a gwna y rhyfygus yr hyn ni ddylai ei wneyd. Y mae y digalon yn dianrhydeddu trwy wrthod ei gymorth, a'r rhyfygus drwy arwyddo nad oes arno eisiau ei gymorth ef; y digalon yn edrych ar bob peth yn rhyfawr i'w wneyd, a'r rhyfygus yn edrych arnynt yn rhyfychain i'w gwneyd. Y mae y digalon a'r isel mor anheilwng, dybygid, i ymaflyd mewn gras na thrugaredd. Yn ei olwg y mae y blewyn lleiaf yn fynydd nas gellir ei groesi; y mae pob peth yn faich arno, yn ormod ganddo, ac yn ddefnydd digalondid iddo. Tybia fod gwedd yr holl greadigaeth yn cyfateb i'w agwedd ddi-gysur ef ei hun. Y mae ei feddwl trwm yn sychu ei esgyrn, yn treulio ei gysur, yn pellau ei gyfeillion, yn lleihau ei barch, yn difa ei ddefnyddioldeb, yn tristau yr Ysbryd, ac yn ei anghymwyso i fywyd naturiol ac ysbrydol. Gweddai fod pawb yn ymdrwsio â gostyng-eiddrwydd; ond y mae digalondid yn ymollyngiad pechadurus, yn ymddarostyngiad slafaid, ac yn terfynu ar gyffiniau gwlad anobaith, a meddyliau celyd a

chwerwon am Dduw, a dynion hefyd. *Gwared ni, Arglwydd daionus.* Cymharer yr ychydig yma a'r rheol, yna gwelir yn amlwg fod y teithiwr hwn ar y naill ochr i'r ffordd bob cam. Y mae yr ochr arall eto mor beryglus, lle y cafodd llawer archollion na all meddygon y byd eu gwellau. Un hynod yw y rhyfygus. Nid oes un lle yn rhy uchel iddo, nac un anturiaeth yn ormod ganddo. Rhed yn y gwddf i Dduw, ymeifl mor ddiwylder yn llestri y deml a phe baent geryg, rhuthra i'r sancteiddiolaf fel i dafarndy, deil amgylchiadau a bair braidd i'r greadigaeth ymollwng. Y mae ei feddwl mor wag o Dduw, a llawn o hunan, fel y mae yn symud yn mlaen gyda phob peth heb Dduw, na gweled ei angen. O! y gwallgofrwydd anamgyffredadwy sydd yn llenwi meddwl ac yn amgylchu yr anystyriol! Y mae mewn tywyllwch, yn camru yn ddioga ar leoedd mor ddychrynlyd ag y byddai arno arswyd symud arno; o herwydd, heb gynaliad, syrthiai i ddyfnderoedd anobaith yn ddiatreg, wedi colli y llwybr cul. Gallu a doethineb dwyfol yn unig a all ddwyn y digalon a'r rhyfygus at eu gilydd, i iawn rodio yr iawn reol, mewn iawn agwedd.

3. *Deddfoldeb a Phenrhyddid*—Dyma y trymaf. Y mae eithafoedd mawr rhwng y rhai hyn, ac eto y mae y naill mor ddinystriol a'r llall. Rhwng y ddau eithafion yma y mae y rheol ddwyfol—y llwybr perffaith ac uniawn i bawb yn mhob lle. Gellir dywedyd fod deddfoldeb yn y penrhydd, a phenrhyddid yn y deddfol; ond rhag i'r ddwy ochr ymddangos yn un sylwedd neu beth, gellir edrych arnynt fel hyn: 1. Y mae graddau o'r ddau beth yma yn mhob dyn; ac yn y diadgenedledig y maent heb un gwrthwynebiad, ond yr hyn a wrthwyneba y naill ar y llall. Diamheu fod meddwl cael bywyd tragywyddol yn llwybr y cyfmod gweithrededd yn achos o dristwch weithiau am bechod a gyflawnwyd, ac yn atalfa i gyflawniad llawer pechod; ac ar y llaw arall, y mae gelyniaeth at Dduw a chariad at bechod yn tori dros bob rhwymau deddfol, i gyflawni pechodau yn un chwant. Hefyd, y mae y ddau yn or-

thrymwy'r y Cristion, ac yn enill neu golli tir yn ol graddau gorchwyliaeth yr Ysbryd ar ei enaid, mewn argyhoeddiad i weled eu niwed, dadguddiad o Grist, a chymwysiad o fendithion y cyfamod gras er sancteiddio ei natur, &c. 2. Gellir dywedyd fod un o'r pethau hyn yn fwy nerthol ac anlwg yn y naill ddyn ragor y llall; y mae rhai yn ddichlynaidd a manwl eu rhodiad, ac eto yr holl ymddangosiad teg ac achos eu hysgogiad yn ysbryd y cyfamod gweithredoedd; ac eraill yn un llinell ddu o bechodau gwarthus. Felly, gwelir eu bod ar ddwy ochr wahanol. Gwelir gwrthuni y ddwy ochr yn mhellach wrth ystyried fod y deddfol yn dysgwyl mwy gan y ddeddf nag a fedd hi, a'r penrhydd yn rhoddi iddi lai nag a ddylai; y naill yn dirmygu Duw a'i drefn trwy geisio bywyd lle nad yw, a'r llall yn ei ddiystyru trwy wrthod ei unig reol i fyw; y naill yn fyw i'r hyn y dylai fod yn farw, a'r llall yn farw i'r hyn y dylai fod yn fyw; y naill yn ei anwybodaeth a'i elyniaeth yn ceisio gweithio am fywyd, a'r llall drwy ei anghydfurfiad â'r rheol yn profi nad oes bywyd ynddo. Y mae un "dros ei holl fywyd dan gaethiwed," a'r llall "nid yw mewn blinder fel dynion eraill." Y mae un yn ymlwytho â gormod baich i'w ddwyn, a'r llall yn fab Belial, yn diystyru ac yn bwrw ymaith bob *iau*. Y mae ysbryd a gweithrediad deddfol yn gryf iawn yn y byd. Y mae y deddfol yn gosod pob rhinwedd yn risiau i'w draed i ddringo i ddedwyddwch, heb ystyried eu hanmherff-ithrwydd yn eu natur, eu diffyg o gyflawnder, &c.; nac ychwaith fanylrwydd, eangder, sancteiddrwydd ac anghyfnewidioldeb y ddeddf y mae yn ceisio ateb iddi.

O, ynfyrwydd a thywyllwch calon dyn! Nid oes ganddo ond ei hunan yn yr holl weithrediad—cymeryd gogoniant Duw iddo ei hun—gwneyd Crist o'i rinweddau ei hun—gwneyd cyflawnder o'i fratiau budron ei hun, a rhoddi cymaint o ddiystyrwch ar drefn achub pechadur ag a all. Ië, peth mawr yw gwared Cristion rhag gwneyd Crist o'i weithredoedd da; ac os cenfydd y rhai hyn yn rhy wael, cyn y rhydd heibio, cais roddi

ei rasau yn iawn, &c.; a phan y gweithir ef o'r tir hwn, rhydd y cymorth grasol, a'r cynaliaeth ysbrydol yn lle Crist a'i aberth. Wele dueddiad cryf i ymgyfiawnhau yn y ddeddf, a throi Crist a'i drysorau o'r neilldu. "Ty-wysed dy Ysbryd daionus ni i dir uniondeb." Nid yw y penrhydd ddim gwell pan y dywed, "Drylliwn eu rhwymau," &c., ac yn herio pawb nes byddo mewn cadwynau tragywyddol, oni ymeiff gras ynddo. "Yn dy nerth cadw blant marwolaeth."

MYFYRDOD Y PARCH. HUMPHREY GWALCHMAI AR
OL DARLLEN YR UCHOD.

Ffordd gul i gnawd yw ffordd y nef,
Ond cysegredig yw;
Gwir brif ffordd Duw i'r duwiol rai
Gael yma ddedwydd fyw.

Er culed yw y ffordd i gnawd,
'Rwy'n dewis hon yn wir;
Caf arni ogoneddu Duw,
A myn'd i'r nef cyn hir.

Arweinier fi gan Ysbryd Duw
'Rhyd ffordd y nef o hyd,
Heb droi ar dde nac aswy law,
Tra byddwyf yn y byd.

EITHAFION PECHADURUS.

Ceir dyn yn mhob man ond y lle y dylai fod, a gorchwyl mawr ydyw ei gael i'w le; a phan gaffer ef yno, nid llai gwaith fydd ei gadw yno. Y mae ei farn yn anghywir am lwybr ei ddyledswydd, a'i anian naturiol yn taro yn nerthol yn ei erbyn. Hefyd, y mae nerth tentasiynau, grym traddodiadau, ac effaith esiamplau yn cydgyfarfod mewn eithaf gweithrediad i gadw dyn yn mhell o'i le priodol; ac nid oes ond gallu dwyfol trwy foddion effeithiol a geidw ddyd yn ngwyneb y fath wrthwynebiadau ar ganol llwybr barn. Edrych-

wn ar rai o'i eithafion pechadurus, croes i Air Duw, lle y gwelwn luoedd o hil Adda yn ymddyrsu mewn anialwch, tyllau, ceuffosydd a phydewau, gan wrthod prifffordd ddirwystr y brenin, yr hon o'i cherdded, pe byddent ynfydion, ni chyfeiliornt.

CYBYDD-DOD A GWASTRAFF.—Dyma ddau anghenfil hyll a drwg, mor gas a'u gilydd, ac yn dinystrio rheswm a dynoliaeth pawb sydd dan eu llywodraeth. Y mae y ddau yn cam-ddefnyddio trugareddau Duw; un yn eu caru yn ormodol, a'r llall yn eu dibrisio yn anfoddog; un yn casglu ac yn eu cadw i ddybenion drwg, a'r llall yn eu gwasgaru i ddybenion mor ddrwg; un yn gwneuthur Duw o'r rhoddion yn lle y rhoddwr, a'r llall yn dirmygu y rhoddwr wrth eu sathru; i.e., un wrthgaru, enill, a chadw y byd, yn casáu ac yn colli ei enaid, a'r llall wrth afradloni ei feddianau yn rhedeg i ardaloedd tlodi tymorol; ac oni achub gras, yn wynebu ar wlad y bydd dyferyn o ddwfr oer yn rhy ddrud i'w bwrcasu ynddi. Nis gwn, pe byddai orfod, pa un i'w ddewis; ond gan nad ydynt yn gyfeillgar iawn â'u gilydd, cymerwn hwynt bob yn un.

1. *Cybydd-dod*.—Dywed rhai mai *cwb*, sef ymgau am, yw ei ystyr priodol; os felly, gellir dywedyd am dano, fel am Nabal, "Fel y mae ei enw, felly y mae yntau." Y mae y cauwr mor awyddus, a'r caudad mor dyn, fel mai prin yn aml y maird y perchenog ei hun agor y clawr; a phan agorir, rhaid dychwelyd bron yn walglaw, gan leied y rhyddid; a bernwch chwi pa faint fydd rhan y dyeithr. Dywed eraill mai tros y tersyn yw ystyr y gair. Wel, onid rhy wir hyn hefyd? Myned dros derfynau natur, rheswm, Gair Duw, ac yn fynych derfynau gonestrwydd, gan docio eithaf ei derfyn; mentro i haner y clawdd, a pheth rhyfedd os bydd yr haner a adawyd mor llydan a'r haner a gymerwyd. Iaithe calon y cybydd yw, y cwbl i mi; rhyfedd faint ei galon. Y mae cybydd-dod yn sathru rheolau duwioldeb, moesoldeb, a pharchedigaeth, yn rhoi ei draed ar wddf rhwymedigaeth berthynasol, heddwch cymydogol, a hunan-ymgeledd naturiol. O, leiddiad dyn, a gelyn

Duw. Y mae yn eilun-addoliaeth, gwrthod Duw, de-wis un yn ei le, ymhyfrydu yn hwnw, talu iddo y deyrnged briodol i'r gwir Dduw. Duw pawb yw yr hwn y meddylir mwyaf am dano, y cerir mwyaf arno, ac yr ymddiriedir mwyaf ynddo. Pechod cuddiedig iawn yw cybydd-dod, llecha yn y cysegr, tyf yn ngwinllan Duw, a chydgerdda â llawer o ddyledswyddau ymarferol crefydd. "Deuant ataf fel y daw y bobl—â'u genau y dangosant gariad, a'u calon sydd yn myned ar ol eu cybydd-dod."—Ezec. 33. 31. Gelwir ef, "Byw yn gynil." Cyfrifir ef yn llai na phechod; y mae bron o gyrhaedd dysgyblaeth; pan y gwybyddir pa le y mae, anhawdd fydd dyfod ato; pan y deuir ato, anhawdd fydd ymaffyd ynddo; a phan ymaflir ynddo, peth rhyfedd os na lithra o'r gafael fel llysywen. O, bechod dichellgar; lladdodd filoedd drwy sugno eu gwaed. Oni chwilia Duw hyn allan?

Yr ochr arall yw *gwastraff*.—Aiff y gwastraffwr i'r pwr, a chymer oddiyno y rhyw oreu, sef yr aur (Esa. 48: 6) a gasglwyd gan ei henafiaid drwy chwys a llafur, a gwasgar hwynt mewn llwybrau annymunol, ac i ganlyniadau dychrynllyd, os nid dinystriol. Y mae y gwastraffwr y rhan amlaf yn colledu ei gymydog, yn ysbeilio ei wraig, yn tlodi ei blant, yn niweidio ei gwmpeni, yn tynnu melldith i'w dy, yn difa ei gysuron, yn lladd ei gorph, ac yn damnio ei enaid. Y mae yr afradlon yn troi ei fendithion yn felldithion, ei drugareddau yn farnedigaethau, ei gysuron yn ofidiau, ei rad roddion yn fawr ddyledion erbyn dydd y farn, ei ddydd yn nos, ei ryddid yn rhwymau, ei win yn wermod, ei iechyd yn glefyd, ie, ei fywyd yn angau. Oh! adyn, yn troi pethau da i'w ddinystr a'i wae ei hun; y mae yn treulio mwy o bethau tymorol na neb, a llai o'u hol er hynny arno na neb; yn gyffredin, dinystrwr yw ei dduw, sef ei fol.—Phil. 3: 19. A pha ryfedd y bydd ei ddiwedd yn ddistryw? Nid yw cynaliaeth deg o ddyinion yn ddigon iddo ef ei hun; eto gwna y gwanaf o honynt fwy tuag at ei gynal nag ef. Dyma drueni blin, a fon trugareddau yn rheleg i ardaloedd mor ddiffryth

a lleidiog. Ei arglwydd yw chwant, ei reol yw blys, ei waith yw distrywio, ei gyflog yw tlodi, amharch, gofid, afiechyd a marwolaeth.

Disgynodd afradlonrwydd lawer un o balas prydfferth i fwthyn myglyd, o ddillad heirdd i fratiau llychlyd, o gwmpeni y goreuon i'r gris isaf o'r dosbarth gwaelaf; o hen gartref cynes ei dadau yn grwydryn amharchus, heb wely dano ond y ddaear, na thô uwch ei ben ond y ffurfafen. O, yr anrhaith a wna gwastraff! gyr ei gaethwas o blith y rhai dedwydd, a gwna iddo aros mewn lleoedd ac agweddau ag a dynai ddwfr o'r gallestr wrth feddwl fod creadur rhesymol wedi ei ddarostwng i'r fath drueni. O, ddinystwr dynoliaeth! Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, gwelir yr eithafion afresymol a dinystriol y mae llawer o uchder llwch y byd wedi eu darostwng iddynt. Arglwydd y greadigaeth yn gaethwas i garcharor y diafol; yr anrhydeddusaf ar y ddaear dan arglwyddiaeth un condemniedig pechod; ië, gogoniant y byd yn ymdroi mewn pydewau mor aflan na ddaw creaduriaid afresymol yn agos iddynt. Pwy na ryfeddai wrth y darostyngiad? Pwy na wylai wrth yr iselder? Pwy na ddiolchai am lwybr i godi? A phwy na chanai am drefn i gadw rhag syrthio mwy?

EITHAFION PECHADURUS.

BYD A CHREFYDD.—Gellid meddwl fod yma ieuo anghydmarus, oblegid nad yw yn ddichonadwy gwyro i un math o ormodedd mewn crefydd. Ar amryw olygiadau nis gellir. Dylai crefydd gael y lle blaenaf; prif orchwyl yr oes a ddylai fod byw yn dduwiol; peth gwerthfawrocaf meddwl a chalon pob dyn a ddylai crefydd fod. A phwy bynag a esyd unrhyw beth o flaen crefydd, neu yn gyfartal â hi, ni bydd y dyn hwnw yn well o'i crefydd. Delw Duw, dedwyddwch dyn, gogoniant gwlad, ac anrhydedd cymdeithas, yw gwir crefydd. Blaenfrwyth Paradwys, dechreuad nef-

oedd, i.e. ffynon ddysglaer, a'i gwreiddyn yn môr gwynfyd, yw crefydd bur. Yr hanfod ddwyfol yn dri o bersonau yw gwreiddyn crefydd iawn; ac er hyny y mae y fath beth ag i grefydd yn ei chylchoedd allanol daflu pethau o'u lle, er niwed ac anghysur. Y mae yr hwn sydd heb ddarbod dros yr eiddo yn waeth na'r anghredadyn. Pwy na chanmolai Mair? Wel, gwir; a phwy na wel eisiau Martha hiefyd? Gwnaeth Duw bob peth yn deg yn ei amser, a dyma yr unig adeg y mae yn deg. Y mae gan bawb gorph ac enaid, y byd presenol a'r byd tragwyddol; gan hyny, rhaid edrych ar ol y naill a'r llall. Y mae esgenluso diwydrwydd, llafur, gofal, a doethineb gyda phethau tymorol, o dan rith ymroddiad crefyddol, yn dwyn canlyniadau gofidus, megys analluogi y cyfryw i esgyn i anrhydedd, parch a defnyddioldeb, ac yn achlysur o lychwino cymeriad y crefyddwr a'i grefydd hiefyd (2 Tim. 3: 7—12), ac yn ei osod mewn sefylla nas gall gynorthwyo y tlodion, na chynnal achos y Cyfryngwr yu ei bethau amgylchiadol. Rhyfedd yw twyll calon dyn! Tyn ddrwg o dda, gwenwyn o fêl, a marwolaeth o fywyd; try ras yn drythyllwch; pecha wrth gyflawni ei ddyledswyddau; niweidia ei hun, dianrhydedda Dduw, ac anghysura ei berthynasau a'i gydnabod, a hyny gyda math o ymarferiad â phethau crefyddol. Tywysed doethineb ni ar hyd canol llwybr barn, fel na wyrom ar dde nac aswy. Ond i'r ochr arall y mae y nifer luosocaf o ddynolryw yn gogwyddo—y byd yw y cwbl. Ac os eir i ofyn am drugaredd, a derbyn y cymun ar wely angau, dyna ddigon. O, y siomedigaeth a gaiff miloedd yno! Clywais am heliwr, pan ofynwyd iddo, a oedd efe ddim yn meddwl fod arno eisiau crefydd, yn ateb, "Os caf ddywedyd tri gair wrth farw, bydd genyf ddigon o grefydd, sef, 'O, Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur.'" Tri gair a gafodd ddywedyd. Pan wrth helæ, neidodd y march dros graig fawr, ac wrth fyned drosodd, gwaeddodd, "Y diawl a gymero y cwbl." Dyna y tri gair. Pa reswm i neb swpera ond ar fwrdd yr hwn y gweithiwyd iddo ar hyd y dydd? Pa syn-

wyr cael nefoedd wedi marw, ar ol teithio pob mynyd o'r oes i le arall? Pa gyfiawnder cael medi gwell peth nag a hauwyd? Pa gysondeb dysgwyl y lle goreu, a phob agwedd a gweithrediad am oes gyfan yn dywedyd nas derbynir ef? Iaith agwedd miloedd ydyw, Nid oes byd ond hwn; nid yw iachawdwriaeth yn werth mynyd o amser i ymofyn am dani; chwedl a dyfais dynion penffol i dwyllo y wlad yw cyhoeddi hon! oferedd yw colli amser i gael moddion gras! "Segur, segur ydych," medd Pharaoh, ac y mae mwy o frodyr ganddo nag sydd gan lawer un.

Gwesgir ar derfynau dydd yr Arglwydd; nis gellir ymuniawni boreu Sabboth, gan effeithiau llafur yr wythnos a aeth hebio; a rhaid paratoi yn gynar y prydawn i orphwys, er addasu at waith yr wythnos i ddyfod. Boreu Sabboth, am naw o'r gloch, gellid meddwl fod yr holl deulu wedi marw. Boreu ddydd Llun, am bump neu chwech, gellid meddwl fod yr adgyfodiad wedi cymeryd lle. Boreu Sabboth, gellid meddwl fod yr holl deulu wedi gorphen eu gwaith am byth; ond boreu Llun gellid meddwl fod pawb o ran ei oes yn Methuselah, ac o ran ei waith yn Alexander Fawr! Cawod o wlaw, ychydig gur yn y pen; i.e., weithiau, heb bin o esgus, ond diogi, yn peri colli moddion gras am Sabboth cyfan; ond erbyn tranoeth, ni rwystra cawod o eira hwy; delir ati er gorfod rhwymo y pen â napcyn, a gadewir y diogi rhwng dillad y gwely wrth godi. A ellir yn briodol gymwyso y pethau hyn at berchen enaid? Ai dynion i fyw byth mewn byd arall sydd fel hyn? A oes yn Nghymru y fath dylwyth di-dduw a hyn? Ai creadur a wnaed i fwynhau Duw yw hwn? Onid yw ffurf corph dyn ar i tyny yn dangos mai i bethau uchod yn benaf y gwnaed ef? Uchder llwch y byd yw ei gorph, ac uwchlaw llwch y byd y dylai fod ei drysor a'i galon ef. O, ynfydrwydd! treulio oes gyfan gyda phethau a'i gedy yn ddiymwared yn y bwlech y bydd mwyaf o eisiau cymorth; i.e., pethau a fyddant fel picellau tanllyd a saethau gwenwynllyd yn rhwygo yr enaid, ac yn fflamio uffern i ryw eithaf-

oedd o boenau anamgyffredadwy byth! O, ffolineb, dewis yfed gwenwyn o herwydd rhyw felusder twyllodrus fydd byth yn rhwygo y coluddion, yn lladd bob moment, ac heb orphen lladd yn dragywyddol! "Pa lesâd i ddyn os enill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?"—Mat. 16: 26. Dyged yr Arglwydd ni i afael pethau cadarnach na'r rhai sydd yn myned heibio; 1 Ioan 2: 17. Pethau sicrach na pherchen aden; Diar. 23: 5. Pethau rhagorach na bwyd a diod; Rhuf. 14: 17. Pethau hwy eu parhad nag oes; 1 Tim. 4: 8. Pethau uwch na'r dddear; Col. 3: 2. A phethau gwerthfawrocach na byd o berlau; Job 28: 15—19.

Arglwydd grasol, er mwyn Iesu,
 Gwranddo weddi daer yn awr,
 Ac na omedd im' dy Ysbryd
 I fy arwain ar y llawr,
 Heb gybydda nac afradu,
 Am fynydyn gyda 'th waith,
 Na cham-arfer byd na chrefydd,
 Yw 'nymuniad ar fy nhaith.

GWALCHMAI.

EITHAFION PECHADURUS.

Y DIOG A'R TRAFFERTHUS.—Dyma ddau beth gwrthwynebol i'w gilydd, a phechadurus; ni wna y naill y peth a all y llall, a gwna y llall fwy nag a all; ni wna y naill a ddylai, a gwna y llall fwy nag a ddylai; y mae y naill yn niweidio ei hun trwy beidio gweithio, a'r llall yn niweidio ei hun trwy weithio gormod. Anhawdd iawn i'r naill argyhoeddi y llall, oblegid edrycha y naill ar fai y llall, a'r dibechod yw y goreu i daflu ceryg; ond yma nid yw i'w gael. Pa un o'r ddau yw y pechadur mwyaf, nis gwn. Os gofynir i'r diog, y trafferthus yw; ac os gofynir i'r trafferthus, y diog yw. Ond ceisiwn ddangos i'r ddau bob un ei ochr ei hun, gan obeithio y bydd y drych yn gywir ac effeithiol:

1. *Y Diog.*—Y mae yr enw yn swnio yn farwaidd a

swrth; rhaid gostwng y tafod i lawr i swnio y gair. Sylwer, nid ydym yn rhoi yn erbyn esmwythder angenrhëidiol dynoliaeth yn ei dymor priodol, ond diogi pechadurus. Rhyfedd yw yr ystumiau a wna y diog arno ei hun wrth wneuthur y peth lleiaf; efe sydd yn son mwyaf am weithio. Tybia ei orchwyl yn galetach na gwaith neb, a dysgwylia gael ei ganmol gan bawb; ac os na wnant frys, ni fedd bwyll i aros, ond tyr allan i ganmol ei hun; ac os credir ef, gellir meddwl na bu ei fath ar y ddaear er dyddiau yr enwog Paul. Ond rhag eich twyllo, edrychwch ar y gwaith yn hytrach na gwrando ar y gweithiwr. Mewn gwirionedd, pe byddai mor lleied o bob peth a gwaith yn ei ddigoni, bydd yn hawdd iawn ei gadw. Da chwi, edrychwch acw: mae ei osgo yn annyben, fel pe b'ai wedi tori asgwrn ei gefn, yn tuchan, yn ymestyn, yn cwyno ac yn achwyn wrth godi ei damaid o'r phiol i'r genau; Diar. 26: 15. Y meistr a ddysgwyl fwyaf o waith yw yr hwn a wnai leiaf pan yn was ei hun. Yr hwn a wna leiaf ei hun yw yr hwn nis gall neb wneuthur digon iddo. O'm rhan i, gwell genyf fod yn was i bawb nag i'r diog, a gweithio gyda phawb na'r diog. Hawdd ei adnabod mewn tyrfa, a buan y nodir ef allan yn y lluwaws. Dywed ei ddillad pa fath un sydd danynt; esbonia ei waith y fath un a'i gwnaeth; dengys ei wedd doraeth ei waeledd. Y mae ei ddillad yn garpiau o'i gwmpas; Diar. 23: 21. Un pwyth mewn iawn adeg a ragflaena lawer deg. Y mae ei dy yn adfaelion, ac yn gollwng defni; Preg. 10: 18; y dodrefn yn braenu, y dillad yn pydru, y wraig yn ymgynhyrfu, a'r plant yn ymlechu o ffordd y defni du. Gwelir drain yn ei faes yn lle egin, a danadl yn lle ffrwythau, a'r fagwyr amddiffynol ar lawr; Diar. 24; 30, 31. Os oedd yno rywbeth heblaw drain a danadl i'w gael yr oedd pob rhyddid i anifeiliaid y cymydogion i'w gymeryd. Dyma gaulyniadau diogi. Beth ond tlodi sydd i'w ddysgwyl o hyn? Pedair ffordd sydd i fyw, cloddio, cardota, etifeddiaeth, neu ladrata. Cloddio nis gall y diog, os credir ef. Cardota nis myn, etifeddiaeth ri fedd, ond

anaml; gan hyny, gwelir o ba le y caiff ei damaid. Dichon nad yw yn lleidr uniongyrchol, eto nid yw fawr well, wrth ystyried pob peth, o herwydd gwasga ar ei berthynasau a'i blant, neu pwysa ar ewyllys da ei gymydogion, neu y plwyf, gan ysbeilio yr afiach, yr hen, yr amddifad a'r weddw, o'u rhan. Y mae y diog yn hynod am ei esgusodion; nid oes derfyn ar eu rhif, na diffyg ar ei synwyr yntau i'w dangos. Wrth eu traethu y mae ei dafod fel y drych mwyhaol, yn dangos clwpa pin gymaint a'r Wyddfa. Dywed, Y mae llew mawr ar y ffordd, fe'm lleddir; a pha ryfedd iddo lechu yn ei gongl, canys peth i ffoi rhagddo yw y llew. Ond pa bryd, tybed, y newidiodd y llew ei ffau o'r goedwig i'r heol? A phwy oedd y dewr a allodd ei hysbysu ef am y bwystfil? Y mae yn dda gan y diog am ei fywyd; ond pe lleddid ef, fe laddwyd ei well lawer gwaith. Y mae llewod ei dychymygion ef yn waeth na llewod creadigaeth Duw. Gwna y diog ei boced yn wag, a'i fwrdd yn llwm. Ac Och! y mae llawer mewn ystyr ysbrydol yn nghylech pethau tragywyddol eu heneidiau anfarwol yn cyfateb i'r disgrifiad uchod, yn treulio eu hamser, yn gwario eu breintiau, yn cysgu yr haf, yn gorwedd y cynhauaf, &c. * * * Ac wedi hyny ceir tragywyddoldeb o ofid a gwae i esbonio beth yw cysgu dydd gras, ac esgeuluso iachawdwriaeth.

2. *Trafferthus*.—Dyledswydd pob dyn yw bod yn llafurus gyda ei orchwylion tra y caniatâ ei iechyd a'i oedran. * * * Y mae gweithio yn briodol i ddyn yn mhob amgylchiad, cyn y cwmp fel creadur glân, ac ar ol y cwmp fel creadur syrthiedig. Eto, gellir myned yn rhy bell ar y ffordd hon mewn dau beth: (1.) Gofal gormodol y meddwl am bethau na welwyd erioed, ac ni wyddys a welir hwy byth. Dychymygion yn arlunio pethau i'r meddwl na welir hwy byth. Byw wrth y can' mlynedd, ac nid wrth y dydd; treiddio i ororau y gwagle mawr; sylweddoli pethau na welir byth; ymlwytho â baich o ofidiau nad ydynt mewn bod, ac ymlenwi â mwynhad nad yw; ceisio adeiladu cestyll yn yr awyr. Bwriada fyned i gyfryw ddinas;

ond pa le? Erys yno flwyddyn; ond pwy a roes y *lease*? Marchnata, pwy a wyr? ac enill, pwy a ddywedodd? Ni fedr efe gael llonydd ar ei wely. "Cyfoeth y cyfoethog ni ad iddo gysgu," gan ofn na chaiff yr hyn nid yw ganddo, neu y cyll yr hyn sydd ganddo. Y mae yn methu cysgu, neu yn breuddwydio wedi cysgu, ac mewn traferth flin yn barhaus. Iaith ei feddwl ydyw, Nid oes neb yn gofalu am ddim ond myfi fy hunan. (2.) Llafur gormodol y corph; codi yn foreuach, a dilyn yn hwyrach nag y gall natur ddal. Gorphwys, medd natur; gweithio, medd awydd; llonyddwch, medd corph; llafurio, medd chwant; rhoi heibio, medd rheswm; dal ati, medd blys. Er nad oes iddo na mab nac wyr, eto, wrth edrych ar ei drafferth, gellid meddwl fod ganddo gymaint o blant ag Isban o Bethesda; cymaint o wyrion ag Abdon, mab Hilel; cymaint o wragedd a Solomon, a chymaint ymerodraeth ag Alexander Fawr. Mae ei oes yn un linell o lafur, a'i fywydd yn ysbaid o ofid; mēr ei esgyrn yn sychu, hawddgarwch ei wyneb yn cilio, a'i gefn yn crymu o dan faich ei fywyd, ac heb gymeryd mynyd o amser gyda pheth nas gall ei hebgor heb golli ei enaid dros byth yn uffern.

Y DIOG.

Gwlith falwen* a glwth fulyn—yw 'r segur,
 A sarug ddwndrog un;
 Fel gorddor ar ei golyn,
 Pader ni dd'wed y pwdr ddyd.

Y GWASTRAFFWR.

Heb seibiant na ffyniant ffydd—ei ben,
 Ymboena hwn beunydd;
 Yn crafu heb fawr grefydd,
 A marw heb ddim ryw bryd.

* *Sluggard*.

EITHAFION PECHADURUS.

Y GRWGNACHLYD A'R DIDEIMLAD.—Y mae pob peth a wnel Duw a dynion yn faich ar y cyntaf; ond ni effeithia dim o honynt ar yr olaf. Y mae un drwy ei oes yn gorwedd fel Issachar rhwng dau bwn, a'r llall fel asen wyllt yn chwerthin am ben lluaws tref. Mae un yn sugno gwenwyn o bob bendith, ac yn llenwi ei gwpan â chwerwedd o bob trugaredd, a'r llall yn chwareu yn gellweirus gyda phob peth fel eu gilydd. Ni chaiff y naill na'r llall air da gan neb.

1. *Y Grwgnachlyd*.—Y mae rhyw swm garw, anniolchgar ac anniddig yn y gair ei hun; ac er gogoniant i'r iaith Gymraeg, y mae natur y peth yn cael ei ddesgrifio ynddo. Toriad allau anniolchgarwch, mewn geiriau ac agweddau, yn erbyn pob peth a roddir ac a wnelir i'r cyfryw ddyn, ydyw grwgnachrwydd. Dyna y desgrifiad byraf a allaf roddi o hono. Dyledswydd dyn yw defnyddio pob moddion cyfreithlawn i ochel gofidiau, a chyrrhaedd mwynhad; a dylai erfyn yn ostyngedig ar Dduw ysgafnhau y baich a deimlwn. Ond mae y grwgnachlyd yn myned mor bell a difrio doethineb Duw; ei iaith yw, Nid uniawn ffordd yr Arglwydd; nid yw yr hwn a drefnodd bethau fel y maent yn addas i'r fath orchwyl; yma y mae y coll; aqw y mae y gwall. O! pwy a all oddef i'r hwn na fedr lywodraethu ei gaban bach ei hun, i ymddigio am na chai awenau y bydoedd i'w law. Nid yw yn ystyried mai trugareddau Duw sydd yn ei gylchynu bob dydd a nos. Pwy bynag sydd yn cael chwareu teg, cam y mae ef yn gael oddiar law pawb. Y mae pawb yn cael gwell byd nag ef; hwn yn cael, y llall yn derbyn, a'r trydydd yn mwynhau, pan y mae efe yn wrthodedig gan Greawdwr a chreadur; ac oddiar ei ddychymyg anghywir, a'i ysbryd anniddig, a'i galon anniolchgar, chwerwa iddo ei hunan flaenffrwyth addfed trugareddau rhagluniaeth, a lleinw ei gwpan â bresych gwylltion a fagwyd yn ngardd ei feddwl drwg ei huu. Y mae y grwgnachlyd

mor ddyeithr i bleserau hyfryd boddlonrwydd ag ydyw yr Esquimaux druan i'r cylch poeth. Yn mhellach, y mae ymddygiad y tuchanwr, fel un yn haeddu pob peth a gaffo. Gwneler cymwynas iddo, eto ni fedr ganfod; ie, taler iddo dda am ddrwg, hona ei fod yn haeddu hyny. Grwgnach ydyw un o'r pechodau dielw yn y byd; grwgnach o eisiau cael mwy yw y ffordd debycaf i gael llai. Y mae grwgnachrwydd yn cau drysau yr hael, yn rhewi ymysgaroedd y tirion, ac yn cloi i fyny glustiau yr hwn y mae ganddo beth i'w gyfranau. Y mae yn digio Duw, ac yn ei arwain yntau ei hun i wlad nad oes ynddi un dafn o ddwfr oer. O! amynedd diderfyn y Duw mawr! pan yn goddef y fath ymddygiad oddiwrth bryfyn y domen—un a haeddodd ffamiau, er hyny yn nghanol trugareddau yn ddigon wyneb-galed i ddirmygu a chablu y rhoddwr, o eisiau cael mwy ganddo.

2. *Y Dideimlad*.—Diau y dylid wylo megys heb wylo; llawenhau megys heb lawenhau; prynu megys heb feddu; myned heibio i glod ac anghlod; peidio ymddyrchafu drwy barch, nac ymwylltio o herwydd anmharch; ac ymddwyn fel Saul yn eu hwyneb: "Ni chymerodd efe arno glywed hyn." Ond am y dideimlad, y mae hwnw yn debyg i Quintus Fabius Maximus, pan y clywodd fod adeilad wedi syrthio ar ei wraig a'i fam-yn-nghyfraith, y rhai a garai efe yn fawr eu lladd ill dwy, a'i fab ieuengaf yn yr un oriau wedi marw mewn lle arall, ni chyfnewidiodd ei wynebpryd un gradd, ac aeth yn mlaen gyda ei orchwylyon cyffredin fel o'r blaen. Onid oedd yma ddideimladrwydd annirnadwy i'r cyffredinolrwydd o ddynion beth bynag. Y mae toraeth o galedwch ac anystyriaeth yn y dyn dideimlad, yr hyn sydd yn ei anghyfaddasu yn hollol i dosturio wrth y truenus; y mae efe fel cnu gwlan sych Gedeon; pan y mae y byd teimladwy yn ymdrochi mewn dagrau, ni chaniata efe i natur gael ei rhediad arferol; nid oes ynddo, ac ni wneir ganddo yr hyn sydd briodol i ddyn. Un o'r rhywogaeth yma oedd Horpulus, yr hwn a wahoddwyd i swpera gan Astyoges, a

phan ddaeth i'r ystafell, beth oedd y swper ond dau fab y gwahoddedig, wedi eu trwsio yn barod; ac er mynegu iddo beth oedd i'w fwyta, eisteddodd i lawr a bwytaodd ei swper arnynt gyda y cwmpeini, heb un arwydd cyffroad ar ei deimladau. Dyna ddideimladrwydd gwarthus. Y mae y dideimlad fel y lefiathan, "yn galwed ei galon fel careg, a chaled fel darn o'r maen isaf i felin; cleddyf yr hwn a'i tarawo ni ddeil; efe a gyfrif haiarn fel gwellt, a phres fel pren pwdr; ni phar saeth iddo ffoi, ceryg tafel a dröed iddo yn soft." Gall edrych ar ei gyd-ddynion o dan ddialedd barnau Duw heb un cyffro; cylchynner ef â saethau pigog, eto ni theimla efe ddim; pentyrer ar ei ben farwor tanlyd caredigrwydd, drachefn, ond ni bydd arno un arwydd o gyfnewidiad. Caner iddo bibellau, ni theimla awydd dawnsio; cwynfaner iddo alarnadau, ni wela efe. Y mae fel y pysgod a ddesgrifia Aristotle, y rhai er brathu tryferau i'w hystlysan, ni ddeffroant o'u cwsg. Felly mae y dideimlad, nid yw holl amgylchiadau cymysgedig y byd hwn, na'r darluniad a gawn o sefyllfaoedd y byd anweledig, yn ei eithafion cyffrous, yn dylanwadu nemawr ar ei alluoedd teimladol ef. Y mae y pellafodd hyn sydd yn perthyn i ddideimladrwydd, mor ddyeithr fel nas gallaf ei ddarlunio na'i ddeall; a'm gweddi ydyw, Na ddeued fy enaid byth i'w gyfrinach na'i agwedd.

EITHAFION PECHADURUS.

YR EHUD A'R DICHELLGAR.—Dyma ddau hynod beryglus i'w cymydogion, a niweidiol iddynt eu hunain, er fe allai fod y dichellgar yn fwy peryglus i eraill, pan mai yr ehud a wna fwyaf o gam a cholled iddo ei hun. Mae yr ehud yn ddigon disynwyr i gymeryd ei arwain gan bawb; a'r dichellgar mor gyfrwys fel na chymer gyngor gan neb. Mae y naill yn tywallt allan ei holl feddwl mewn byrbwylldra, a'r llall a gwên ar ei

wyneb yn brathu y galon â dager bradychwyr; un fel colomen ynfyd heb galon, a'r llall fel y sarph wenwynig, heb ddiniweidrwydd. Y mae ffolineb y naill, a dicheill y llall i'w hofni a'i gochel.

1. *Yr Ehud*.—Mae llawer un yn iselhau ei hunan, ac yn gwaradwyddo eraill drwy ei diwydrwydd yn ymofyn, chwilio, traethu, a barnu materion pobl eraill. Y maent yn cadw gwinllanoedd nad yw eiddynt, heb un angen am eu gwasanaeth, nac un gwobr am eu llafur ofer ond euogrwydd cydwybod, casineb cymydogion, ac anfoddlonrwydd Duw; pan ar yr un pryd y mae eu gwinllanoedd eu hunain yn eithaf annhrefnus, a hyny am fod eu perchenogion oddi cartref bron holl ddyddiau eu bywyd. “Y neb wrth fyned heibio a ymro â chynen ni pherthyn iddo, sydd megys un yn cymeryd ei erbyn ei glustiau.”—Diar. 26: 17. Paham y llafuria neb ar faes arall heb ei eisiau, a heb gyflog na diolch, pan y mae ganddo ddigon o waith gartref? Gwrandawn yn hytrach ar bregeth y Crynwr: “Edryched pawb at ei orchwyl ei hun.” “Ië,” meddai arall, “y mae hyny yn llawn ddigon.” Y mae llawer, ar ol cael y manteision goreu, nas gallant ymddyddan am bum' mynyd â boneddwr teilwng heb waradwyddo eu hunain a'u teuluoedd, a dwyn penllwydni eu rhieni mewn tristwch i'r bedd o'r diwedd. Mae yr ehud yn ddi-gyngor; nid oes ganddo gyngorlys o'i fewn ei hun; ac y mae yn rhy falch i gymeryd cyngor o'r tu allan iddo ei hun; ac felly y mae mewn perygl bob awr. “Yr ehud a goelia bob gair.” Ni chwilia ddim er ei adnabod yn well; mae fel y plentyn yn dewis y ddimai yn lle y penadur. Un byrbwyll a dall ydyw efe, heb gyngor na barn yn eisteddfod ei feddwl, ar unrhyw achos. Yr ehud a farn beth cyn ei weled; penderfyna beth cyn edrych arno; canmola beth cyn ei brofi; llwnc beth cyn ei archwaethu, &c.; byr ei bwyll ydyw efe am bob peth. Gwell fyddai iddo wrando ar eraill, yn hytrach na rhuthro dros ddibynau dinystriol i ofid a gwae. Os edrychir arno mewn ystyr ysbrydol, y mae yn ddigon i beri i'r galon dori yn ddrylliau; y mae heb

adwaen pethau ei fywyd na phethau ei ddinystyr. Ei ddeall dan orchudd, a'i gydwybod wedi ymddyrysu, ac yntau ar fin ceulan distryw, yn chwareu mor gellweirus a phe b'ai allan o bob perygl. Ow! druan, y mae yn ffolach na'r ych, ac yn ddylach na'r asyn ei hunan. Duw a drugarhao yn fuan wrth lawer o'r cyfryw fodau cyfrifol, drwy lewyrchu goleuni y rhai byw yn eu meddyliau, a'u troi o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef.

2. *Y Dichellgar.*—Y mae ffordd hwn yn gyffredin o olwg pawb ond Duw, y diafol, ac efe ei hunan; llunia ei ystrwiau dinystriol yn ei galcn ei hun, yn yr hon y mae dyfnderoedd o ddirgeledigaethau cuddiedig. "Ceudod," neu du-mewnol feddwl, "a chalon pob un o honynt sydd ddofn."—Salm 64: 6. Gellid meddwl ar ei wyneb fod heddwch, goleuni, a chysur yn gorlenwi ei holl diriogaethau, ond erbyn eu chwilio, ceir yno ardaloedd na thywynodd yr haul erioed arnynt. Y maent fel Edom a Bozra, pa Israeliad bynag a ddelo i'w cyffiniau, gellir dywedyd am dano, "Darfu am ei obaith." Y mae ei galon ddichellgar mor wahanol i'w wyneb gweniaethus, a'i fwriad mor anghydfurfiol â'i eiriau, fel y twylla ei gymydog yn ddiraffferth. Efe a ladd tan wenu, bradycha y diniwed â chusan; mae ganddo wisg dafad a chalon blaidd; geiriau cyfaill a gweithredoedd gelyn; llais tirion Jacob ond dwylaw geirwon Esau. "Llyfnach yw ei enau nag ymenyn, a rhyfel yn ei galon; a thynrach yw ei eiriau nag olew, a hwynt yn gleddyfau noethion."—Salm 55: 21. Rhydd laeth i'w yfed, a phwya hoel i'w arlais. Ac os datguddir ei ddichellion, ceisia eu cuddio â lleni tewion o esgusodion, megys nad oedd efe yn meddwl dim drwg, ac mai felly y dygwyddodd pethau droi, &c. Tebyg i dafu y clust-dlysau aur i'r tân yn ddigon diniwed, ond ryw fodd, er mawr syndod, daeth allan yn llo; rhyfedd dro. Os oedd bai ar rywun am hyn, gellid meddwl mai ar y tân yr oedd hyny.

Y mae holl deyrnas Satan yn gorphwys i fesur mawr ar ddichellion ei gynlluniau; ac fel y cyfryw mae y dichellgar yn ymdebygu i'w dad diafol. "Cas yw y

dichellgar." Cas yw ei ymddygiadau at eraill, ac nid ydynt yn teilyngu ond casineb pawb a ddelo i gyffyrddiad â hwy.

Y mae y dichellgar yn oeri cyfeillion, yn gwaradwyddo cyfeillion, yn bradychu ymddiried, yn diffodd cariad, ac yn dinystrio cymdeithas; ie, y mae yn gwneutbur y byd yn faes brwydr, a'i holl drigolion yn benben a'u gilydd. Dylem ddiolch i Dduw am y llonyddwch a'r tangnefedd ydym yn ei gael, wrth ystyried gymaint o ddefnydd, tuedd a mantais i fradychu sydd yn bod yn mhob rhan o'r wlad.

Pe yr edrychem ar natur, nod, a niwed dichell dyn tuag at Dduw, a'i ddeddf, a'i Fab, a'i efengyl, gwelem ei annhraethol ddrwg. Dyma eithafion anfesuradwy o ddrygioni; cynllunio dichellion i gael Duw o dan draed, ei orsedd a'i gyfraith yr un modd, ac i ddwyn ei Fab a'i efengyl i warth a gwaradwydd ac anfri bythol, a'i enaid ei hun i ddyfnderoedd distryw ar unwaith; dyma eithafion anfesuradwy! Onid yw amynedd Duw yn fôr diderfyn, pan y mae yn goddef y fath yma i anadlu am foment yn ei awyr! Ac yn sicr fe fydd gras a gallu trugaredd Duw trwy Iesu Grist yn destyn syndod y gwaredigion mewn gogoniant, wrth gofio beth ceddynt yn eu sefyllfa bechadurus yn y byd.

GWEDDI AM UNIONDEB.

Rhag bod yn ehud ffiadd, ffol,

Dysg im' ystyriol wrando;

Ac yn lle dichell gyfrwys, gâs,

O, Dduw, dy ras im' dyro. H. G. GWALCHMAI.

EITHAFION PECHADURUS.

Y BALCH A'R HUNAN-DDIBRISIWR.—Dyma ddau bell oddiwrth eu gilydd, ac annhebyg iawn i'w gilydd; ac er cymaint o annhebygolrwydd, nid hawdd dywedyd pa un o'r ddau yw y nesaf i'w le. Y mae un yn di-

brizio pawb ond ei hunan, a'r llall yn dibrisio ei hunan; y mae un yn ceisio gwneyd ei hun yn uwch na Duw, a'r llall yn gwneuthur ei hun yn is na dyn; y mae un yn marchogaeth pawb, a'r llall tan draed pawb; y mae ar un ddelw y diafol yn amlwg, ac ar y llall raddau o ddelw yr anifail, a'r ddau heb ddim o ddelw Duw, nac ond ychydig o ddelw dyn. Gwaith y balch drwy ei oes yw dringo i fyny, gan ddywedyd, Byddaf uchel; ond yr hunan-ddibrisiwr a orwedd ei oes mewn anmharch, gwarth, difaterwch, ac aflendid. Y mae un fel Pharaoh, a'i lais Luciferaidd yn herio Duw a dyn; a'r llall fel y falwoden, yn ymlusgo ar y ddaear, heb ymgais gwrthsefyll niwed ac anmharch. Y mae un yn diystyru ei hun trwy ddyrchafu ei hun, a'r llall yn ei ddiystyru ei hun trwy ddarostwng ei hun. Ymdrechaf roddi darluniad byr, eto cywir, o'r ddau, gan obethio gwneuthur lles.

1. *Y Balch*.—Nid wyf yn amcanu dywedyd yn erbyn i ddyn garu ei hun, a thrwy bob moddion cyfreithlon ymgeisio i enwogi ei hun, os bydd y dybenion yn dda. nid wyf chwaith yn gwrthwynebu, ond yn hytrach yn cefnogi, harddwch gwisgiadau, trwsïadau prydfferth, ac arferion boneddigaidd; ond y pechod o falchder, fel y gosodir ef allan yn yr Ysgrythyrau, yw nod fy saethau. Pa beth yw? Meddwl mawr ac uchel dyn am dano ei hun, a hyny yn cael ei ddangos yn ei holi ymddygiadau allanol, mewn derchafu ei hun a darostwng eraill. Nid yw y balch yn gweled un gwaeledd na choll ynddo ei hun; y mae ei fwriadau yn anffaeledig, ei weithrediadau uwchlaw rhoddi cyfrif am danynt; a'i ymddygiad at bawb yn hunan-ddibynol a thra awdurdodol; un o berffeitholion y byd ydyw; tybia ei eiriau yn ddigonol i greu a llywio bydoedd a'u trigolion; gwelwch ni phetrusa ymwisgo a phriodoliaethau hanfodol y Duwdod mawr. "Gwr balch yw efe, ac heb aros gartref" (Hab. 2: 5) gyda ei bethau priodol ei hun. Y mae mor hawdd digoni angau a'r bedd ag ydyw digoni ei falchder gwancus ef. Dyma syndod! yr hwn a dorwyd o'r clai wedi ymchwyddo fel hyn; yr hwn a gyn-

elir o'r pridd wedi dringo cyfuwch a hyn! yr hwn sydd yn byw bob moment ar gymwynasau a rhad roddion yn ymddwyn mor hunan-ddibynol!—ie, y condemned-ig yn ei gadwynau heiyrn mor uchelfrydig a hyn! Nid oes le y gall y balch eistedd ynddo ond yr uchaf; a rhyfedda, ie, ffroma yn aruthr os cynygir iddo le is. Tybia yn anfri ar ei fawrhydi i dywysog na brenin gael mwy o barch nag ef. Pharaoh yw—Pwy yw yr Arglwydd, a phwy yw neb fel y gwrاندawn I ar eu llais? Haman yw—Pwy y mae y brenin a'r deiliaid hefyd yn chwenychu ond *myfi*? Nebuchodonosor yw—Pwy a adeiladodd ac a wnaeth bob Babilon enwog a rhyfedd ond *myfi*? Herod yw—Teyrnged pwy yw y gogoniant, ac eiddo pwy yw y clod ond *myfi*? Anghrist yw—Pwy bia deml Dduw, pwy ddylai eistedd ynddi, pwy ddylai ddangos ei hun megys Duw, a phwy ddylai gael ei addoli ond *myfi*? Ie, tebyg i Beelzebub yw, yn gwrthryfela ac yn ymladd am le uwch nag sydd addas iddo; am barch mwy nag a ddylai gael, ac am ddarostwng y rhai sydd ac a fyddant uwch nag ef.

Y galon yw eisteddfod balchder, ac fel ffynon ddi-hysbydd tardda ei ffrydiau i'r ymddygiadau allanol. Un o'r cornentydd cryfion yw edrych yn wael ar bawb a phobpeth pawb eraill. Nid yw is-radd y balch yn deilwng i fod gyda ei foch ef; nid yw ei gydradd yn addas gwmpeni iddo ef. "Saf hwnt," meddai, "sanct-eiddiach ydwyf na thi." Ac am ei uchradd, nid oes yn ei feddwl ef y fath un i'w gael.

Ffrwd arall sydd yn esbonio yn amlwg ei galon ef yw ystumiau y corph; y mae efe fel Israel, a'i falchder yn tystiolaethu yn ei wyneb; Hos. 5:4. Y mae argraff y galon ar y wynebpryd; balchder a gadwynodd y gwddf (Ps. 73:6), fel na all ond edrych i fyny; y gwddf yn estynedig, y traed yn rhygyngu (y camrau yn fyr) wrth gerdded, a thrystio a'u traed drwy fath o glychau bychain wrth eu hesgidiau; Esa. 3:18. Er nad oes clychau yn awr, eto hyfryd gan rai yw swm yr esgidiau pan byddont yn sychion. Hefyd dangosir balchder drwy wisgiadau ac addurniadau. Nid yw

gwisgoedd ond pethau angenrheidiol wedi y cwmp, yn dangos dyn y peth nad oedd o'r dechreuad; ond y mae llawer yn gwisgo pethau nad ydynt na chynesrwydd na harddwch i'r corph, namyn i borthi balchder. Gosodir y gwallt yn fynych yn y fath foddau annaturiol ac anferth, fel pe barnent fod eu Creawdwr wedi gwneyd rhyw syrdd o gamgymeriadau wrth ei osod i dyfu fel y gwnaeth ar y pen. Rhyfedd amynedd yr Anfeidrol, ei fod yn goddef y fath sarhad a esyd llawer ar eu penau arno ef a'i waith!

2. *Yr Hunan-ddibrisiwr*.—Y mae agweddau gostyngedig yn hardd, ac ymddygiadau hunan-ymwadol yn ganmoladwy; ac nid oes blodeuyn harddach yn nghoron yr urddasol, na bod yn iselfrydig; ie, y mae Duw a' dynion synwrol yn hoffi gostyngeddrwydd, ond y mae difaterwch ymollyngar a hunan-ddibrisidod slafaidd i'w beio. Nid yw yr hunan-ddibrisiwr yn gwneyd cyfrif o'i gymeriad; er fod enw da, fel y dywed Solomon, "yn well na chyfoeth lawer," (Diar. 22:1), y mae yn darostwng ei hun o'i fodd, trwy ei ymddygiadau annoeth, i'w hwtio a'i anmharchu gan y gwaelff o ddynion. Diau y gallasai llawer fod yn barchus ac anrhydeddus yn mhlith eu cydwladwyr, pe busent ond edrych atynt eu hunain; yn lle hyny, dystyrir hwynt, ac nid heb achos, mewn rhyw ystyr, gan eu his-radd. Y mae cymeriad yn berl gwerth ei gadw, hawdd ei golli, ac anhawdd ei adenill pan y coller ef. Y mae enw da yn well na'r enaint, yn werthfawrocach na chyfoeth, ac yn anrhydeddusach na choron. Y mae y tlawd o gymeriad da yn fwy parchus na'r cyfoethog hebddo; am hyny nid oes a ollynga ei asael arno o'i fodd ond yr hunan-ddibrisiwr.

Hefyd dibrisia llawer un ei hun yn y cwmpeini a ge'dw; er na ddylid dirmygu neb, eto dylai pawb, i raddau, gyfeillachu â'i gydraddolion. Llawer gwr o gyfoeth, dysgeidiaeth, a dygiad da i fyny sydd yn iselu ei hun trwy ddewis yn gyfeillion wehilion yn mhob peth, yn enwedig mewn moesau ac ymddygiadau, nes o'r diwedd myned mor isel a dibarch a neb. Trueni

gweled rhai oedd yn hardd eu cyrff, glan eu gwedd, uchel eu cymeriad, mawr eu cyfoeth, dedwydd eu sefyllfa, yn awr o herwydd dibrisio ac esgeuluso eu hunain, yn wawd gwatwarwyr, yn gân meddwon, yn warth gwlad, yn destyn tristwch cyfeillion, a gwaradwydd pob cymdeithas. Y mae yr hunan-ddibrisiwr yn darostwng ei hun fel yr heol, i bawb a ewyllsiont fyned drosto a'i sathru dan eu traed; ni saif yn erbyn trais, ac nid ysgog mewn hunan-amddiffyniad er cael cam. Y mae ei iaith fel eiddo y meddwyn, "Curent fi, ac ni chlafychais; dulient fi, ac nis gwybum;" mi a af rhagof fel o'r blaen. Os fy lles sydd yn eu golwg, ni waeth genyf fi; ac os fy niwed, ni effeithia hyny arnaf chwaith; pa beth a gaf fi, beth a wnaif, pa beth ydwyf, a pha le byddaf, sydd bethau o ychydig bwys yn fy ngolwg.

Y mae y byr ddesgrifiad uchod yn rhoddi golwg isel iawn ar yr hunan-ddibrisiwr; ond ped edrychem ar y mater gyda golwg ar iachawdwriaeth yr enaid, y mae yn ymddangos yn ddychrynlyd. O! pa faint o Gymry sydd yn diystyru iachawdwriaeth, gwrthod bywyd, distrywio eu heneidiau, lladd eu cyrph, trysori digofaint, a selio eu damnedigaeth, gan ddywedyd yn ddi-fater, "Os af i uffern, nid myfi yw y cyntaf, a chaf yno ddigon o gwmpeini." O! greadur tragwyddol ei barhad, ystyria, gwybydd, a meddwl pa beth, a pha fath beth yw colli enaid! Unwaith eto, O enaid tlawd, os dibrisio a gwrthod dy drugaredd dy hun a wnei, bydd dy waed ar dy ben dy hun; bydd dy fai wrth dy ddrws dy hun; bydd dy golledigaeth o honot dy hun; a chyfiawnder yn dysgleirio byth yn dy gosbedigaeth; gan hyny, O bechadur, cymer addysg.

MARWOLAETH JOHN HENRY,

MAB Y PARCH. DAVID A MARY WILLIAMS, REMSEN.

Tachwedd 16, (Sabbath,) 1851, bu farw o'r enynfa ar yr ymenydd, John Henry, mab y Parch. David a Mary Williams, gynt o Lanidloes, Swydd Drefaldwyn, G. C., yn 3 blwydd, 4 mis, a 5 diwrnod oed. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol, yn mynwent Penycaerau, i huno yno hyd pan elwir arno, ond nid gan dad na mam, ond ei Brynwr byw, i adael ei wely bach, du, oer. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y personau canlynol: Yn y ty, cyn cychwyn, darllenwyd Job 14, a gweddiwyd gan y Parch. A. Adams, yn Saesoneg. Wedi hyny cychwynwyd yn rheolaidd i gapel y Trefnyddion yn Remsen. Dechreuwyd y cyfarfod yno gan y Parch. M. Roberts, trwy ddarllen Heb. 12, y rhan flaenaf, a gweddiodd; yna pregethodd y Parch. A. Adams yn Saesoneg, oddiwrth Esa. 40: 6-8, ac ar ei ol y Parch. D. Williams, Holland Patent, yn Gymraeg, oddiwrth 1 Thes. 4: 13-18. Yn ganlynol dygwyd y corph bychan i Penycaerau, a phan ar lan y bedd darllenodd y Parch. R. Everett 1 Cor. 15, rhan olaf, a gweddiodd. Yna trodd pawb i'w ffordd, ond y bychan a adawwyd yno.

WM. W. PRITCHARD.

Collais blentyn yn dra sydyn,
Daeth yn fuan at y terfyn;
Methu'n lân yr wyf a thewi,
Cwyno 'ngholled am John Henry.

Ergyd trwm yn peri teimlad,
Ergyd dwys yn cyrhaedd enaid;
Ergyd mawr, bydd cof am dano,
Ergyd llym, mae'n peri wylo.

Remsen.

D. WILLIAMS.

GALAR-GAN TAD AR OL EI ANWYL BLENTYN.

O! Angau, mor greulon yw'th droion i gyd,
 Rhyw weithio'n dra dyeithr yr ydwy't o hyd;
 'Rwy'n methu, er ceisio, cymodi â thi,
 Ti roddaist im' archoll sy'n rhedeg yn lli;
 Yn hyf a diarswyd y gwywaist i'r beddrod
 Flodeuyn bach hardd—ei olwg oedd hynod—
 Yr i'angaf o'r teulu fu'n nod i dy saethau,
 Prydferthaf o'r plant sydd heddyw yn eisiau.
 Trwm ydyw ein calon, mae yma alaru,
 Collasom, O do! ein hanwyl John Henry!
 Pum' niwrnod cyfan, a 'chydig o oriau,
 Bu'r ifanc ryfelwr yn ymladd ag Angau;
 Caled, O! caled, a fu yr ymdrechfa!
 Ond er pob ymdrechion, yr Angau fu'r trecha';
 Ymladdodd fy mhlentyn yn rymus a gwych—
 Bron torai'n calonau wrth weled ei ddrych.
 Yn niwedd y frwydr fe ildiai tan wenu,
 Gan dd'wedyd, 'rwy'n coelio, " Dim niwedd 'd oes imi;"
 Ac er ei orchfygu diangai'n orchfygwr,
 O afael pob pechod a gofid a llwgwr.
 O! Angau, O, Angau! pa le mae dy golyn?
 O, Angau! rho ateb, a minau yn gofyn;
 Os na roddi ateb, y gwir ydyw hyn,
 Fe'i tynwyd yn gyflawn ar Galfari fryn;
 Mae hyn yn rhy oleu, nis gellir ei wadu,
 Fe'i gwiriwyd, 'rwy'n credu, yn mhrofiad John Henry.
 Y glyn ydoedd enbyd, a'r *passage* yn arw—
 Rhyw brofiad tra rhyfedd yw gorwedd i farw!
 Ond yn y dyfnderoedd, rhyfeddol ras Duw!
 Daeth goleu tra hyfryd, a melus iawn yw,
 'Rwy'n gweled trigfanau heb ofid na phoen,
 A'm hanwyl hoff blentyn yn mynwes yr Oen;
 Ond arno rhaid cefnu am ronyn yn awr,
 A'm dagrau'n gorlifo fy ngruddiau i'r llawr;
 Er hyny t'wy'r t'w'llwch mi welaf y dydd
 Caiff rhwymau John Henry oll fyned yn rhydd;
 Cawn eto gyfarfod ar newid ein gwedd,
 Wrth lef yr archangel ni godwn o'r bedd;
 Cawn gyfarch ein gilydd ar doriad y wawr,
 A melus gyfeillach wrth adael y llawr.
 Ac eto na synwch, fy mrodyr, am hyn,
 Fy mod er y cyfan a'm gafael mor dyn—

Fy Menjamin bychan a gollais yn wir,
 'Rwy'n methu ei weled na'i glywed yn glir;
 Mae cofio'i hoff eiriau yn agor fy nghlwy',
 Ond O ! mi a'i collais, nis clywaf ef mwy;
 Ond colli ni wnes, pa le ynte y mae ?
 Mewn gwynfyd a hedd, a gogoniant di-drai !
 Yn nghanol perth'nasau a thyrfá ddi-drist !
 Yn syndod angylion, yn byw gyda Christ !
 O dywed, fy mhlentyn, pa beth yw dy wedd,
 Pwy yna yw'th gwmmi, pa raddau yw'r hedd ?
 A fedri di eisoes ar dónau gogoniant ?
 A ddysgaist mor gyflym bêr nodau y moliant ?
 A ydyw'th alluoedd mor gryfed yn awr
 Y gelli di ddirnad dirgelwch sydd fawr ?
 Ti wyddost, mae'n debyg, fil mwy na dy dad
 Am bethau'r cyfamod, am rinwedd y gwaed,
 Am drefen y cadw, am fawredd yr iawn,
 Am goncwest Calfaria, am daliad oedd lawn.
 Dych'mygaf y clywaf dy hyfryd lais clir
 Yn seinio'n dra uchel yr anthem yn wir ;
 O, henffych i'r boreu caf finau ryddhad,
 Ac yna heb oedi cychwynaf i'r wlad.
 O, Arglwydd, rho gymorth, yn wyneb y tro,
 I dewi a llechu, beth bynag a f'o,
 Ac achub y gweddill o'r plant sydd ar ol,
 A dwg ni fel teulu yn gyfan i'th gol.

Remsen.

DAVID WILLIAMS.

SYLWADAU BYRION,

YN DANGOS

DUWIOLFRYDEDD AC ARABEDD Y GWRTHDDRYCH.

Y mae ysgrifeniadau Mr. Williams yn cynwys llawer iawn o awgrymiadau sydd yn dangos y byddai yn ymgyfamodi â Duw yn fynych iawn o dan wahanol amgylchiadau a'i cyfarfyddai ef a'i deulu, pa un bynag ai mewn amgylchiadau tymorol ai ymweliadau ysbrydol y byddai yr amgylchiadau hyny.

Yr ydym yn ei gael unwaith mewn gofid caled wrth edrych ar ei anwyl briod wedi ei gosod gan Dduw i ymladd yn galed am ei bywyd dros amryw oriau, yn dywedyd:

“Nid oedd genyf ddrws i droi ato ond porth fy Nhad yn y nefoedd; edrychwn ar y creadur yn methu yn hollol. Wrth feddwl am nesâu ato yn yr amgylchiad hwn, y chweched-Salm-a deugain oedd fy ninas noddfa. O, mor felus y cefais ryw ymadrodd tebyg i hwn: *Dysgwyliais wrth dy drugaredd*. Aiff fy oes heibio, mi feddyliwn, cyn y cyll y geiriau hyn eu hargraff oddiar fy meddwl. Pan oedd gobaith iachawdwriaeth ar gymeryd ei aden ymaith, daeth fy Nuw yn mlaen, a safodd yn yr adwy, ymafodd yn yr ysglyfaeth o safn angau, gan ddywedyd, ‘I mi y perthyn diangfeydd rhag marwolaeth.’ Bendigedig fyddo ei enw mawr. Adnewyddais fy nghyfamod ag ef yn y fan, gan ddywedyd, ‘*Dy was di ydwyf fi—dy was di ydwyf fi—dy was di ydwyf fi,*’ &c., ‘datodaist fy rhwymau.’ Yr Arglwydd a’ m helpo i dalu fy addunedau.”

Cawn ef drachefn wedi ysgrifenu ychydig adgofion yn niwedd ei ddydd-lyfr am y flwyddyn 1864, fel y canlyn:

“Wele, cyrhaeddais ddiwedd y flwyddyn 1864; yr wyf yn teimlo hiraeth wrth ffarwelio a hi, ac yn teimlo yn athrist am na buaswn wedi ei threulio yn fwy sanctaidd. O, maddeu, ansancteiddrwydd fy serch a fy myfyrdodau, a gwella fi byth, O Dduw, drwy iachawdwr-iaeth. Cefais lawer o dywydd garw ynnddi, weithiau oddiwrth aelodau eglwysig, bryd arall oddiwrth afiechyd yn y teulu; ond cafodd pob un o'r teulu fyw drwy y cyfan. Duw a faddeuo ein beiau ni a'n cyfeillion, ac a fendio ein briwiau. Derbyniais lawer iawn o diriondeb oddiar ddwyllaw cyfeillion a brodyr mewn gwa-hanol Dalaethau. Bu yr Arglwydd yn dda iawn i ni fel teulu yn ei ragluniaeth a'i ras; cadwyd ni rhag eis-iau, ac hefyd rhag syrthio i byllau budron; bu yn gymorth i mi i draethu yr efengyl fawr gyda graddau o flas a llwyddiant. ‘Fy enaid bendithia yr Arglwydd am ei holl ddoniau.’ Yr wyf yn gweddio llawer iawn yn bersonol a theuluaidd dros fy mhlant a'm hwyrion, gartref ac oddicartref. Ni chefais arwyddion amlwg o wrandawriad eto; ond pwy a wyr na chaf ryw bryd; daliaf ati hyd fy medd. Yr wyf yn penderfynu bod yn fwy sanctaidd a llafurus nag erioed y flwyddyn nesaf, os caf fyw. O, Arglwydd, cynorthwya fi i hynny; helpa fi, O Dduw. Ymgyflwynaf i fod yn eiddo i ti byth; cynorthwya fi i fod yn ddoeth, llafurus a llwyddianus, i godi achos Crist yn fy lle newydd, Chicago. Amen.”

Dro arall, ar ol darllen 2 Cor. v. yn ei dy, ysgrifennodd ar ddernyn o bapwr fel hyn :

“Yr wyf heddyw yn teimlo pwysau y geiriau, ‘*Cymododd ni ag ef ei hun—cymoder chwi a Duw—feroddodd i ni weinidogaeth y cymod—wedi gosod ynom ni air y cymod—gweinidogaeth y cymod.*’ Rhyw eiriau llawn o bwysau a sylwedd yw y rhai hyn! O, pa mor

werthfawr i bechadur ydyw bod mewn sefyllfa o gymod â Duw; ac yn enwedig i mi sydd yn pregethu cymod i bobl eraill; yr ydwyf yn profesu bod yn genad dros Dduw yr heddwoch i gyhoeddi heddwoch i wrthryfelwyr. O, Ysbryd Duw, gwared fi oddiwrth lywodraeth gelyniaeth at Dduw yn fy nghalon, pan y mae cenadwri heddwoch ar fy ngwefusau. Gwelaf hefyd drwy y geiriau, mai peth annhraethol bwysig i lwyddiant gweinidogaethol ydyw gosodiad gair y cymod ynof; heb hyn aiff fy holl lafur yn ofer, a gwaeth nag ofer, canys chwanega fy nghyfrif ofnadwy. O, Ysbryd Duw, dyro ynof air y cymod, gweinidogaeth y cymod. Gweinidogaeth yr Ysbryd yw yr hon a roddir ac a arddelir. Yr wyf yn ofni fy mod yn tristáu y person Glan wrth geisio myned yn mlaen hebdo ef. Ni lwydda ond gweinidogaeth yr Ysbryd byth; hon yn unig yw gweinidogaeth y cymod; a hon yn unig yw y weinidogaeth sydd yn debyg o gyrhaedd yr amcan o gymodi dynion â Duw."

Yn fuan ar ol iddo ymsefydlu yn Chicago, ysgrifennai ar ddalen hen lyfr a ddaeth yn ddamweiniol i'n llaw, gan ddywedyd:

"Boreu heddyw teimlais bryder mawr wrth edrych ar y dyfodol; yr ydoedd yn ymddangos i raddau yn dywyll ac amheus, eto nid yn ddiobaith; troais fy meddwl i edrych pa bethau a ddymunwn gael er treulio gweddill fy oes yn fwy manteisiol a buddiol na'r rhan a aethai heibio o honi. Daeth y pethau canlynol i fy meddwl: 1. Cael mwy o gasineb at bechod, a dymuniad am fwy o sancteiddrwydd—darostyngiad ar fy llygredigaethau, goruchafiaeth ar bechod, cynydd ar bob rhinwedd daionus, a gras tuag at Dduw yn bersonol—cael byw yn fwy duwiol, &c. 2. Cael bod yn fwy duwiol a defnyddiol a llesol i ddynion; cael cenadwri a bendith arni i droi pechaduriaid, ac i adeiladu yr eglwys—cael gweled llwyddiant amlwg ar deyrnas Iesu Grist, ac adfaeliad prysur ar deyrnas y diafol yn ein

plith. Daw yn symud dynion o deyrnas Satan i deyrnas ei anwyl Fab. 3. Dymunwn gael fy amgylchiadau tymorol yn ddibrofedigaeth; cael bod i raddau yn an-nibynol. Nid wyf yn awyddu bod yn feddianol ar law-er o gyfoeth, canys gwn nŷs gallaf ei drin. Nid wyf chwaith yn dymuno tlodi, am na fedraf ddal hwnw chwaith heb bechu. O'r tri pheth uchod a ddymunwn eu cael i dreulio gweddill fy oes, gallaf sicrhau, os wyf yn adnabod fy hun, fod fy syched am y ddau gyntaf yn llawer cryfach nag am yr olaf. O, Dduw, gwna fi yn gymwys i fyw mewn byd o sancteiddrwydd am dragy-wyddoldeb!"

Ysgrifennai boreu dranoeth ar ol pregethu ei bregeth ymadawol yn Milwaukee:

"Dyma fi wedi llafurio yn galed yn y lle hwn am bedair blynedd; cyfansoddais, ysgrifennai a thraddodais 350 o bregethau. Yr wyf yn barnu yn ostyngedig i mi fod mor onest a diffuant gyda y gynulleidfa fechan yma a phe buasai yn rhifo deng mil o bersonau. Yr wyf yn penderfynu, wrth wneuthur fy nghyfrif i fyny gyda fy Meistr mawr, am fy ngwasanaeeth gyda ei bobl ef am y pedair blynedd diweddf, gydnabod gyda gofid, nas gwn pa les a wnaethum; ond gwn hyn, fy mod yn golchi fy nwylaw oddiwrth waed pawb o honynt; a gwn hefyd i mi fy hun gael llawer o gysur a llesâd yn fy myfyrdodau dirgelaid, ac wrth draddodi rhai o'm pregethau. Dydd y farn a ddengys y cwbl yn amlwg."

Yn ddiweddarach o bedair blynedd drachefn, ys-grifena:

"Y mae tri pheth pwysig ar fy meddwl, nos a dydd, yr wythnosau presenol, sef, 1. Cael ymweliad neillduol oddiwrth Dduw i mi fy hunan; edifeirwch i fywyd am fy ngwaeledd, fy niffrwythder, fy nghnawdolrwydd, a phechadurusrwydd fy holl oes grefyddol, a fyddai yn werthfawr genyf ei gael. Yr wyf yn chwenychu yn fawr gael profiad anwadadwy o faddeuant, nes fy ngollwng yn gwbl rydd—dianc byth gan fy Marnwr.

Carwn hefyd yn fawr iawn gael Ysbryd Duw i ladd, croeshoelio, a difa pob pechod o honof am byth, ac i wneyd fy mywyd yn fwy defnyddiol, a'm natur yn fwy addfed i ogoniant. Yr wyf hefyd mewn caledi mawr a pharhaus am weled cyfnewidiad ac achubiaeth pob un o'm plant a'm hwyrion, a'm perthynasau oll, y rhai sydd yn 30 o nifer o'm hamgylch. Hefyd rhaid i mi gael datgan fy mod yn gweddio am i gydmares fy oes gael ei haddfedu yn gyflym i ogoniant, a'i dyddanu ar y ffordd yn fynych â llawer o gysuron gwir grefydd. 2. Agor o'r Arglwydd ryw raddau ar ein hamgylchiadau tymorol, yn ei ragluniaeth ddoeth a da, a rhoddi i ni oleuni. 3. Cael ymweliad mawr, grymus, crefyddol, nes deffro yr eglwys, achub y gwrandawyr, achub cenedl y Cymry yn Chicago; i.e., achub pob cenedl o ddynion tan y nefoedd, nes dyfetha Satan a'i deyrnas; nes lladd pechod yn farw. Y mae y pwnc hwn yn pwysio yn ddwy iawn ar fy ysbryd yn y dyddiau hyn."

Dywed drachefn :

"Y boreu heddyw teimlais rym temtasiynau a nerth llygredigaeth bron a'm gorchfygu yn lân. Cyffroais, a neseais at Dduw mewn gweddi daer, ond er hyny yr oeddwn yn methu cael glan am beth amser. Meddyliais am Barnabas, yr hwn oedd yn llawn o'r Ysbryd Glan; ac O, mor dda genyf finau fuasai bod felly; ond heb fod yr oeddwn, ac o herwydd hyny yr oedd yn parhau yn galed iawn arnaf. Ond daeth i fy meddwl yn sydyn a nerthol, mai yn Nghrist y mae i bechadur godi ei ben; cefais nerth, a thawelwch goruwch tangnefedd bron, wrth ystyried y gall pechadur ynddo ef godi ei ben a chael ei bechodau o dan ei draed, yn yr Hwn sydd yn aberth difai i Dduw. Diolch am wawr bywyd i bechadur fel myfi, trwy Grist. Oni buasai am dano ef, ffarwel fuasai am bob pechadur; ond dyma ddrws ag y dianga miloedd drwyddo i'r bywyd. O, diolch!—nid wyf mwyach yn amheu llawer na chaf finau godi fy mhen gyda hwynt. O, ryfedd, ryfedd ras!"

Yn mhen y mis, yn ddiweddarach, dywed drachefn :

“Yr wyf yn methu gweled nac adnabod neb tebyg i mi yn y dyddiau yma, ond y brenin Dafydd, yn enwedig yn ei iselderau ; a hynod o dda genyf ddarllen llyfr y Salmau ; ie, yr wyf yn methu cael fy meddwl at un ran arall o'r Beibl er's wythnosau ; ac ar ryw ystyr buaswn heb Feibl er's talm oni buasai am lyfr y Salmau. Diolch i'r Arglwydd am y rhan yma o'r datguddiad Dwyfol i'm gwasanaethu y dyddiau hyn. O, mor felus yw dilyn y gwr da yma yn ei ddyfnderoedd. a meddwl pwy ydoedd ; ac hefyd yn ei dderchafiadau gan Dduw. Dyfod i fyny o bob dyfnder sydd felus iawn i un a fu bron llewygu o dan y tonau mawrion. Fy nymuniad penaf yw cael fy nerchafu byth yn gyfreithlawn, mewn cyflwr ac agwedd, o bob tonau a stormydd, drwy Grist Iesu, fy achubwr. Darllenas yn ddiweddar lyfr y Salmau drosto i mi fy hun, a thebygol ydyw, heddyw, mai dychwelyd at yr un wers sydd raid i mi eto, oblegid mai dyna y gostrel sydd yn fwyaf cyfaddas i mi yn y dyddiau hyn.”

A ganlyn ydynt rai o'i sylwadau byrion :

“Crynhoad o'r goleuni a grewyd y dydd cyntaf ydyw yr haul a wnaed ar y pedwerydd dydd ; nid oedd na dydd na nos cyn creu haul ; ond yr hwyr a fu a'r boreu a fu, sef amser y dyddiau canlynol o ran hyd.”

Dywedai, wrth sylwi ar Salm 23 : 1 :

“Dyma grefydd bersonol—*fy* mugail ; crefydd bresenol—*yw* fy mugail ; crefydd lawn—*ni bydd eisiau arnaf* ; crefydd barhaus—*ni bydd eisiau arnaf* ; crefydd a dylanwad mawr ganddi, fel y gwelir yn y rhanau canlynol o'r Salm hon.”

Wrth sylwi ar wleddoedd yr efengyl, dywedai am y saint :

“Y mae mwynhad y mwynhawyr yn mwyhau y mwynhad.”

Pan yn sylwi unwaith ar weddi y publican, dywedai:

“Curo ei ddwyfron ei hun yr oedd y pechadur argyhoeddedig hwn, ac nid curo dynion eraill yn eu cefnau, fel pobl O—a yma.”

Pan yn pregethu mewn cymanfa yn Remsen, a'r bobl wrth ddyfod i mewn i'r capel yn lled ddiweddar, yn taflu y drws i gau yn bur drystfawr, efe a ymataliai am ychydig, ac yna dywedai yn sydyn:

“Wel, mi feddyliwn mai y drws yna yw y pechadur mwyaf yn y pentref yma, gan fod pob un o honoch, ar ol dyfod i'w gyrhaedd, yn rhoddi y fath ddyrnod ofnadwy iddo.”

PREGETHAU:

PREGETH I.

A DRADDODWYD YN NGHAPEL PALL MALL, LIVERPOOL,
TACHWEDD 15, 1835.

“Canys deddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu a'm rhyddhaodd i oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth.”—RHUF. 8: 2.

Galarus yw gweled dyn, yr hwn oedd unwaith mor uchel, heddyw mor isel; yr hwn oedd unwaith mor gyfoethog, heddyw mor dlawd; yr hwn oedd unwaith yn gyfiawn, yn awr yn euog; yr hwn oedd unwaith yn glyd, yn awr yn noeth; yr hwn oedd unwaith mor lân, yn awr yn halogedig; yr hwn oedd unwaith mor agos at Dduw, heddyw yn mhell oddiwrtho; yr hwn oedd unwaith ar ddelw Duw, heddyw ar ddelw y diafol; yr hwn oedd unwaith yn is-arglwydd y greadigaeth, heddyw yn was gweision; yr hwn oedd unwaith yn rhydd, heddyw mor rhwym! Yr oedd gan Adda dri rhyddid yn ei gyflwr creadigol: 1. Person rhydd, dieuog, heb gondemniad. Yr oedd yn berffaith yn ateb i bob gof-yn oedd arno, fel nad oedd gan Dduw ei hun ddim i'w roddi yn ei erbyn: yn ei gyfiawnder creëdigol yr oedd yn berffaith wrth fodd Duw.

2. Rhyddid i fwynhau pob peth er ei wneyd yn ddedwydd. Yr oedd ganddo ryddid i fwynhau y Creawdwr a'r creadur hefyd, y nefoedd a'r ddaear, pethau corph ac enaid, rhyddid i fwynhau Duw yn yr oll ag ydyw, ac yn yr oll a wna. Nid oedd ond efe yn unig etifedd y ddaear y pryd hwnw; ni chadwyd oddiwrtho ond un pren, i brofi ei ufudd-dod i ewyllys Duw; ond diau pe buasai arno eisiau hwnw, y cawsai efe ef.

3. Rhyddid a thuedd ewyllys yn llywodraethol ogwyddo yr holl ddyn at yr oll oedd dda, a hyny yn unig.

Er fod tuedd lywodraethol yn enaid y dyn at ddaioni yn unig, eto nid oedd y duedd hon yn dinystrio rhydd weithrediad yr ewyllys, oblegid yr oedd perffaith gyd-gordiad yn ngweithrediadau yr holl gyneddfau, dan lywodraeth tuedd sanctaidd at ddaioni; i.e., gweithrediad y duedd yma oedd rhydd-weithrediad yr ewyllys. Ond pan bechodd ein tad, collwyd y tri rhyddid yma; yn lle person rhydd, wele gondegniad; yn lle rhyddid i fwynhau Duw, a phob dedwyddwch ynddo a thrwyddo, wele gleddyf ysgwydedig yn llaw cerubiaid; ac yn lle rhyddid ewyllys at ddaioni yn unig, wele duedd lywodraethol yn yr enaid at ddrwg yn unig. Gen 6: 5. Yn awr, yn y pethau hyn yr oedd, ac y mae, gwir ddedwyddwch dyn yn gynwysedig; gan hyny, rhaid eu cael yn ol, neu fod yn dragywyddol annedwydd. Yn yr adnod flaenorol gwelwn y tri: "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth;" dyma berson rhydd oddiwrth gondegniad. "I'r rhai sydd yn awr yn Nghrist Iesu;" dyma ryddid i fwynhau pob peth hanfodol i ddedwyddwch. Crist yw unig drysordy holl gyfoeth y Duwdod, ac ystordy mawr holl fendithion y cyfamod gras, a threfn iachawdwriaeth; "oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef." (Col. 1: 19.) Gan hyny, yma y mae pob peth iachawdwriaeth pechadur (nid wyf yn traethu am fendithion tymorol), a dwyn i Grist yw yr unig ffordd i gael hawl ynddynt a mwynhad o honynt. Yr oedd trysorau Joseph i eu dwyn allan o'r trysordy i'w mwynhau, ond nid oes dwyn allan ddim o Grist byth; dwyn i Grist, neu fod heb gyfoeth Crist; mwynhau yn Nghrist, neu dodi dragywyddol. Gan hyny, i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu y mae rhyddid mwynhau Duw, oblegid "Duw yn Nghrist yn cymodi y byd ag ef ei hun" yw Duw; ond nid yw efe, yn mhob man arall, i bechadur, ond "tân ysol a llosgfeydd dragywyddol." Hefyd, "y rhai sydd yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd;" dyma anian rasol yn llywodraethu yr enaid i fwynhau Duw, a gweithredu er clod i Dduw. Tro ar yr enaid yn du-mewnol, trwy ddiorseddiad yr hen anian, a gos-

odiad ar yr orsedd anian dduwiol, yr hon sydd yn llywodraethu ar yr holl gyneddfau; o ganlyniad yn llywodraethu yr ewyllys i weithredu yn rhydd ar bethau daionus. Sylwch, *anian*-lywodraeth yw, gan hyny ni ddichon fod trais ar yr ewyllys i weithredu.

Mae'r testyn yn foddion offerynol i ddwyn y rhyddid triphlyg yma i'r gafael, neu yn foddion rhyddhau pechadur. Yn awr, beth a feddylir wrth y ddwy ddeddf yn y testyn? Wrth y gyntaf, meddwl rhai, yr efengyl, ac wrth y llall, deddf Moses, neu'r ddeddf foesol; meddwl eraill, sancteiddrwydd dynoliaeth Crist, fel ffynon fawr rhyddhad a glanhad pechadur, a'r ddeddf arall, llwgr dynoliaeth yr hil ddynol; meddwl eraill, nerthol weithrediad yr Ysbryd, a nerthol weithrediad pechod; eraill a farnant mai y cyfamod gras, yr hwn a wnaethpwyd â Christ, a feddylir wrth y ddeddf gyntaf, a phechod, o ran y condemniad, a gallu llywodraethol, wrth y ddeddf olaf. Ond wrth y ddeddf sydd yn rhyddhau, golygw'n ni yn bresenol, yr holl ddatguddiad dwyfol, ond yn benaf, yr efengyl, yn llaw Ysbryd Duw; ac wrth y llall, pechod yn y condemniad a'r llywodraethiad o hono. Yn y testyn, gwelwn ddeddf ar gyfer deddf; deddf yn datod cadwynau deddf, a deddf yn rhyddhau pechadur o afael deddf. Sylwn, yn

I. *Yn eglurhaol, ar y ddwy ddeddf a nodir yn y testyn.*

II. *Yn gymwysiadol, ar y modd y mae deddf Ysbryd y bywyd yn rhyddhau pechadur oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth.*

I. *Yn eglurhaol, gan sylwi,*

1. Ar ddeddf pechod a marwolaeth. Priodol iawn ydyw galw pechod yn ddeddf,

(1.) O herwydd lluosogrwydd ei ddeiliaid. Ni bu, ac ni bydd, ymerodraeth mor eang ag ymerodraeth pechod; teyrnasodd ar holl blant Adda, o fychan hyd fawr, yn mhob oes o'r byd, a thros holl derfynau y ddaear. Ni theyrnasodd ymerawdwyr China a Rwsia ar bawb, er mor eang eu llywodraeth; ond dyma ddeddf yn teyrnasu ar bob dyn wrth natur. Ganwyd pawb

dan lywodraeth hon, oddieithr ychydig a neillduwyd i Dduw o'r groth; ac a ryddhawyd y rhai hyny yn weithredol odditan gondemniad ac arglwyddiaeth pechod, nis gwn. "*Pawb a bechasant.*" Hefyd, teyrnasa pechod ar yr holl ddyn, gorph ac enaid. Nid yw deddfau gwladol yn cyrhaedd ond gweithredoedd a geiriau dynion; ond y mae pechod yn llywodraethu yn gyffredinol. Y mae gwreiddyn ysgogiadau pob gweithrediad y galon tan ei lywodraeth ef; y mae ffynon wreiddiol pob ffrwd weithredol o dan ei awdurdod; try holl weithrediadau allanol y corph, yn nechreuad, ffurfiad, a lluniad dychymygion y galon, at bob peth sydd ddrwg. Nid dygwyddiad yw, fod yr ymddygiadau allanol yn ddrwg, ond effaith anocheladwy, oddiwrth achos llywodraethol, sef teyrnasiad pechod ar orsedd y galon. "O helaethrwydd y galon y llefara y genau." Mat. 12 : 34; a 15 : 19.

(2.) Priodol ei alw yn ddeddf, o herwydd nerth ei afael. Y mae mor nerthol fel nad oes ond person dwyfol a all ryddhau ei afael. Deil y pechadur yn ei deyrnas er gwaethaf cydwybod wedi ei goleuo—cystuddiau a phoenau corphorol—loesion angau naturiol, ac arteithiau angau tragwyddol—tyr addunedau gwely cystudd—dryllia gadwynau dysgyblaeth—trecha weddian a dagrau rhieni duwiol—gorchfyga rybuddion ac anogaethau gweinidogion ac athrawon; ie, ni wna profi chwerwder ei gyflog beri casineb ato fel pechod, na gwir ymgais am ddiangfa oddiwrtho. O, y nerth anorchfygol i bawb ond Ysbryd Duw, sydd yn nheyrnasiad pechod! Hefyd, bob amser, yn mhob man, mae marwolaeth wedi ei gysylltu ag ef; *pechod a marwolaeth.* Y saint yn unig a ddiangant, a hyny oblegid i Grist ddyoddef eu marwolaeth yn eu lle. Marwolaeth yw hanfod ei deyrnasiad; marwolaeth yw rheolau ei deyrnasiad; marwolaeth yw grym ei deyrnasiad; a marwolaeth yw pen draw ei deyrnasiad. Nid oes yn ei holl wlad ond marwolaeth; a phawb sydd tan ei lywodraeth ydynt yn ngafael ac yn rhwym i'r holl farwolaethau cynwysedig yn mygythiad toriad y cyfamod.

“*Gan farw ti a fyddi farw.*” Marwolaeth gondemniol ar y person—marwolaeth ysbrydol yn yr enaid—marwolaeth naturiol y corph gerllaw—marwolaeth dragywyddol corph ac enaid wrth y sodlau! “Teyrnasodd pechod i farwolaeth.” Rhuf. 5 : 21. Nid oes yn ngwlad pechadur tan lywodraeth pechod, ond marwolaeth; nid oes dim a ellir yn briodol ei alw yn fywyd yn ei feddiant. Y bywyd naturiol, nid bywyd, mewn ystyr, yw, ond gohiriad gweinyddiad y condemniad; marw yw, er ei fod yn fyw. Hyny yn unig sydd, y mae y gohiriad yn adeg werthfawr i gael bywyd cyfiawnhaol, trwy symudiad o'r condemniad, ac mewn canlyniad i hyny gael bywyd ysbrydol, a hawl i fywyd tragywyddol. Felly y byddo i filoedd, cyn i'r adeg fyned heibio.

Hefyd, nid yw gweithrediad deddf pechod heb ddeddf Duw; ie, ni buasai bechod oni buasai deddf Duw. Os anghyfraith yw pechod, y mae yn anmhosibl fod anghyfraith heb gyfraith; os trosedd yw pechod, y mae yn anmhosibl fod trosedd heb reol i'w throseddu. “Lle nid oes deddf, nid oes gamwedd.” “Ni chyfrifir pechod pryd nad oes deddf.” Eto, er na all pechod fod heb ddeddf, er hyny gall fod deddf heb bechod, pe amgen, deddf fyddai achos pechod. Bu amser pan nad oedd pechod, er fod deddf, sef yn Eden; a bydd y nefoedd byth heb bechod, er na bydd heb y ddeddf. Gan hyny, gwelwch nad achos pechod yw'r ddeddf.

Hefyd, “grym pechod yw'r gyfraith.” Yn hyn y mae yn rhyfedd; y peth goreu yn rym y peth gwaethaf; y peth glanaf yn rym y peth aflanaf; y peth tebycaf i Dduw yn rym y peth tebycaf i ddiafol. Nid grym cyflawni pechod, ond grym cosbi am bechod. Y gyfraith sydd yn cael y troseddwr yn euog—yn ei wysio o flaen y fainc—yn ei gyhoeddi i farw, ac yn dal ei gafael ynddo nes trengu ar y crogbren; gan hyny mae mwy rhwng y troseddwr a dyfod yn rhydd na muriau y carchar—na rhwymau ei ddwylaw a'i draed, ac na gofal ceidwad y carchar; boddloni y gyfraith sydd eisiau, ac yna daw allan heb ofyn cenad neb. Felly am y pechadur; ateb drosto i Dduw, boddloni y gyfraith, a'i

ryddhau yn y llys; ac ond cael hyny, daw allan yn gyfreithlon. Hyn a wnaed gan Grist, fel meichiau, yn lle y troseddwr. "Efe a fawrhaodd y gyfraith, ac a'i *gwnaeth* yn anrhydeddus;" gan hyny y mae drysau y carchar yn agored, a chyhoeddiad cyfreithlon o'r llys, "Ewch allan, ac ymddangoswch." "Esa. 49: 9 Yr Ysbryd Glan a effeithiola y cyhoeddiad i gael llawer allan.

2. Deddf Ysbryd y bywyd, &c.

(1.) Deddf. Pa briodoldeb sydd mewn galw yr efengyl yn ddeddf? Cyffelyb ydyw i ddeddf ar amryw ystyriaethau:

[1.] Uchder ei tharddiad. Y mae deddf bob amser yn dyfod o le uchel. Nid gwag siarad y cornelau, nid bygythion y gwyllt ei dymerau, na phob math o awdurdodol ddywediadau a wna ddeddfau; pe felly, ni chynwysai y byd y deddfau a wnelid. Rhaid i'r ddeddf ddeilliaw o'r senedd, wedi ei chaniatai a'i chadarnhau gan y brenin. Felly y dadguddiad dwyfol; "Nid trwy ewyllys dyn y daeth;" y mae yn uwch ei darddiad na'r *Alcoran of Mecca*, ac na chymysgfa wenwynig Rhufain. Deilliodd "o orseddfaine Duw a'r Oen." Penderfyniadau cyngor Trindod—esboniad natur, hanfod, priodoliaethau, a bwriadau Duw—cyhoeddiad Brenin y breninoedd. Mae uchder ei tharddiad yn sicrhau ei rhediad; rhaid codi y gwrthglawdd a'i hetyl, cyfuwch a ffynonell ei tharddiad; yr hyn nis gellir ei wneuthur gan lid daearolion, na malais uffernolion, dynion, na chythreuliaid. Gan fod y tarddiad o Dduw, y mae yn bur (Salm 12: 6) yn ei natur, a'i effeithiau. Diolchwn am yr efengyl yn ein hiaith yn ddigymysg.

[2.] Helaethrwydd ei chynwysiad. Y mae deddf i fod yn gyflawn a chynwysfawr. Ac nid pawb a all wneyd deddf; mae synwyr canoedd yn nghyd yn aml yn methu gwneuthur deddfau digon cynwysfawr i ateb i holl amgylchiadau y wladwriaeth. Onid oes newid yn aml? Onid oes dirymu yr hen, a gosod yn eu lle y newydd? Onid oes rhoddi i mewn, a thynu allan? Paham? Ond oblegid nad ydynt yn ddigon cynwys-

fawr i ateb y dyben. Y mae amser ac amgylchiadau ar y wladwriaeth yn gofyn cyfateboli y deddfau i ateb iddynt. Ond am y datguddiad dwyfol, y mae yn ddigon eang i ateb i holl amgylchiadau y byd, am oesoedd y byd. "Dy orchymyn di sydd dra eang;" digon eang i holl drigolion daear, gwahanol liwiau, sefyllfaoedd, a pherthynasau—rheol meddyliau, geiriau a gweithred-iadau—rheol masnachau, llywodraethau, a chrefydd hefyd—rheol pob dyn at Dduw, ato ei hun, ac at ei gymydog. Beth bynag o gyfnewidiadau a gymer le, ni bydd eisiau newid llyfr y gyfraith. Pan wawrio y mil blynnydoedd, diau y bydd gwelliant mawr ar bethau, yn wladwriaethol ac yn eglwysig; gwell llywodraeth, a gwell ufuddhau yn wladol; gwell pregethu, canu, gweddio, darllen, a gwrando, ond ni wellbeir llyfr y gyfraith. "Gair ein Duw ni a saif;" ni fydd rhoddi ato, na thynu oddiwrtho; a phwy bynag a gynygia wneuthur, melkigedig fydd. Dat. 22: 18, 19.

[3.] Mae awdurdod a gallu yn hanfodol i ddeddf. Chwardd llawer am ben cyngorion, rhybuddion, a bygythion; ond pan ymeifi swyddog y brenin, rhaid plygu. Paham? "Lle y byddo gair y brenin, y mae gallu." (Preg. 8: 4.) Felly pan ymaflo geiriau Duw, y mae yno allu deddf; nid yw y cryfaf yn y wlad ond fel gwelltyn o'i flaen; darostwng y gwrthnysig, dofa y gwyllt, dryllia y caled, daw a'r cyndynaf ar ei liniau i lefain am faddeuant. Wrth edrych ar agwedd miloedd yn ein gwlad, y mae'n ddigon i ddigaloni y dewraf; ond pan ystyriom nerth a grym geiriau Duw, y mae digon tu cefn. O, Arglwydd, anfon dy eiriau gyda nerth.

[4.] Y mae deddf i'w chyhoeddi a'i gwneyd yn hysbys. Diau fod llawer o ysgrifeniadau yn ysgrifengist y brenin, na welodd y gwyr mwyaf yn y deyrnas erioed mo honynt; ond pan wnelir deddf, anfonir a chyhoeddir hi trwy y deyrnas. Felly, diamheu fod dirgel-edigaethau yn nghyfrin-gyngor Duw, na welodd yr angel uchaf erioed; ond am yr efengyl, hysbyswyd hi, i, i ni, y Cymry tldion. "Pethau amlwg a roddwyd

i ni." "Y mae efe yn mynegu ei eiriau i Jacob." "Y ddeddf a á allan." "Ysgrifenis iddynt bethau mawrion fy nghyfraith," &c. Ac o'r gyfraith, i.e., i gyd, y rhyfeddaf, a'r gwerthfawrocaf, mewn rhyw ystyr, i bechadur, ydyw y darn hwnw a gyhoeddwyd uwchben meusydd Bethlehem, "Ganwyd i chwi heddyw Geidwad," &c.; ac os molianodd yr angylion Dduw, wrth edrych ar ein Ceidwad ni, oni ddylem ni ddiolch am ein Ceidwad ein hunain?

(2.) Ddeddf Ysbryd. Yr Ysbryd, sef y trydydd person yn yr hanfod ddwyfol.

[1.] Y mae y ddeddf yma yn hanfodol ddeillio o'r Person yma, fel y Personau eraill.

[2.] Moddion yn ei law i weithredu yn ysbrydol ar bechaduriaid ydyw.

(3.) Ddeddf Ysbryd y bywyd.

[1.] Mae ganddo fywyd ynddo ei hun fel Person dwyfol.

[2.] Awdwr bywyd pechadur trwy'r efengyl. "Yr Ysbryd yw yr hwn sydd yn bywhau." Dengys golledigaeth, marwolaeth, a sefyllfa y pechadur; dengys hefyd gadwedigaeth a bywyd yn yr efengyl, trwy Grist; ac effeithiola a tystiolaethau dwyfol, gan roddi ffydd i'w credu, nes teimlo min a nerth dyeithr i'r dyn o'r blaen. Pan arddelir y gair, y mae yn ordd, yn dân, yn gleddyf, yn glorian, yn tori cadwynau, yn barnu pethau, yn dangos rhyfeddodau, ac yn ei fin yn cyrhaedd trwy holl dewder annheimladrwydd, nes dwysbigu y galon. Rhyfeddol y gwahaniaeth pan y mae arddeliad ar y geiriau, rhagor amser arall! Hyn a wnaeth i deulu y pentecost waeddi allan, "Beth a wnawn ni?" Beth a wnaethoch? O, hyny sydd yn peri i ni ofyn, "beth a wnawn?" Pa beth sydd? A oes daeargryn? Nac oes. A oes mellu yn goleuo, neu daranau yn rhuo? Dim o'r fath beth. Paham, ynte, y mae golwg mor arswydol a chrynedig? Pethau am Iesu o Nazareth sydd yn cydio gafael yn ein calonau. Onid hwnw a groeshoeliasoch chwi? Ië. Oni ddaliasoch yn ddigryn pan oedd yr haul yn duo, y meini yn hollti, y ddaear yn

crynu, a'r beddau yn agor? Do, felly y gwnaethom. Deliwch heddyw; na fyddwch mor wael ag ymollwng. Nid oes bosibl i ni ddal o flaen y fath nerth. Pwy yw y pregethwr? O, nid yno y mae y gallu. Nid yw y pregethwr ond pysgotwr o ddechreuad; a hefyd clywsom ef yn tyngu a rhegu nad adwaenai ei Feistr; ond nid oes dim o bethau felly yn abl troi min y cleddyf yn ol. O! y mae ynddo nerth! O! y mae arno fin! O! y mae yn cyrhaedd y galon! O! "beth a wnawn ni?" Felly, lladd a bywhau a wna geiriau Duw, pan o dan arddeliad yr Ysbryd Glan.

[3.] Cynaliwr bywyd Cristion trwy'r gair. Y mae yn diddyfnu yr enaid oddiwrth bompiwn, ac oniwn, a garleg yr Aipht, i "chwenych didwyll laeth y gair." y mae yn dwyn i'r gwindy nefol yma nes sirioli yr enaid; dwg y Cristion i'r arfdy ysbrydol yma, gwisgir ef a'r arfogaeth, a nerthir ef i ddal ei ffordd. A'r Ysgrythrau sydd fel y creigiau cedyrn; cynelir yr enaid gwan yn nghanol moroedd o drallodau. O! mor werthfawr yw cael ambell adnod trwy'r Ysbryd; mae yn fywyd o farw. Sugno ein cynaliaeth y byddom o'r efengyl trwy yr Ysbryd.

(4.) Deddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu. Efengyl a Christ, dyma ddau anwahanol; pe byddai modd gwahanu, collid efengyl, collid Crist, a chollid pechadur byth. Pa le y ceir efengyl heb Grist? Pa le y ceir Crist heb efengyl? A pha le (ond yn eigion anobaith) y ceir pechadur heb Grist ac efengyl? Ond diolch i Dduw, dyma y tri gyda'u gilydd heddyw! Crist yw canolbwynt yr efengyl; Crist yw gogoniant yr efengyl; a Christ yw testyn yr efengyl.

1. Hanfod Crist, fel person dwyfol, yw gwreiddyn yr efengyl. Rhyw afon lifeiriol a redodd o fôr natur rasol y Jehofah, yw'r datguddiad dwyfol o ffordd achub pechadur. Ffynonodd y drefn ryfedd yn ymysgaroedd y personau dwyfol; tarddodd mewn amlygiad, a rheddodd mewn gweithrediad, i'n hardaloedd tlodion ni. Diolch i'r Arglwydd am ein cofio!

2. Cyfoeth Crist yw sylwedd yr efengyl; mae pob

llinell o honi yn llawn o Grist. Ni fyddai yr efengyl fawr-gwell na phapyr newydd, pe tynid Crist allan o honi.

3. Cyflawnder Crist yw cyhoeddiad yr efengyl. Yr efengyl am ei Fab ef; pa le bynag yr éi, hwn sydd ganddi i'w ddangos i bob iaith a gwlad. (1 Cor. 2: 2.) Efe yn unig, efe yn bob peth, ac efe am byth.

II. *Yn gymhwysiadol. Rhyddhad pechadur gan y ddeddf flaenaf o afael yr olaf*, yr hyn sydd fwy o werth na bydoedd o aur. Pa fodd gan hynny y gwneir hyn? A dau beth, sef cyhoeddiad a datguddiad.

(1.) Cyhoeddiad o ddigon i foddioni deddf Duw. "Efe a fawrhaodd y gyfraith." Dangosir i'r pechadur tlawd, yn ei gadwynau, y digon boddlonol mewn aberth, i dawelu, llonyddu, a boddloni cyflawnder a deddf, heb ofyn dim iddo ef. Nid oes gan Dduw na'i ddeddf un hoffder yn rhwymo a chosbi yr euog; dywed nad "ymhoffa yn marwolaeth yr annuwiol;" gan hynny cael digon drosto a bair lawenydd i'r gofynwr a'r dyledwr. Aeth yn orfoledd drwy holl ororau gogoniant pan ddywedwyd, "Gorphenwyd;" ac aiff yn llawenydd anamgyffredadwy trwy holl wlad yr euog rhwym, pan yn ei gadwynau, y datguddir iddo ddigon i'w gael yn rhydd o afael gofynion y ddeddf.

(2.) Cyhoeddiad fod pechod wedi ei ddiorseddu o ran hawl teyrnasu. "A gondemniodd bechod yn y cnawd." Rhuf. 8: 3. Nid oes gan un condemniedig hawl i deyrnasu.

2. Cymhwysiad. Mae Ysbryd Duw yn cymeryd yr efengyl i gymwyso adref i afael yr euog, yr holl bethau er ei wneyd yn rhydd byth. Rhoddir o blaid yr euog yr hyn a wnaeth Crist yn ei le. Fel y mae cyflawnder y ddeddf yn cael ei gyflawni yn y troseddwr, y mae y fath berthynas rhwng y meichiau a'r dyledwr, fel y gellir yn briodol ddywedyd, fod cyflawnder y ddeddf yn cael ei gyflawni ynom ni; yn ein natur ni, yn ein deddfle ni, drosom ni, ac i ni; ac yn wyneb y ddeddf, dyma berson rhydd.

Diorseddir pechod yn weithredol oddiar orsedd yr

enaid. Enfyn Duw ei air gyda nerth i ymaflud yn yr hen ormeswr, gan ei dafu o'i eisteddle, nid heb ddangosiad amlwg mai ildio'r dydd a myred allan a ddylai. Dangosir anghyfreithlondeb ei deyrnasiad, a dangosir mai gras yw iawn etifedd y galon; ac yma wele ras yn teyrnasu mewn cyfiawnder.

Yn awr, dyma berson rhydd oddiwrth gondemniad, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist i'r euog; ac enaid rhydd oddiwrth arglwyddiaeth pechod, o herwydd teyrnasiad gras; o ganlyniad, rhydd oddiwrth farwol-aeth gondemniol y person, a rhydd oddiwrth farwol-aeth ysbrydol yr enaid; ac yn y diwedd, rhydd oddiwrth y bod o bechod, ac ofn marwolaeth hefyd. Rhyfedd ras Duw! Rhyfedd haeddiant Crist! Rhyfedd ffyddlondeb yr Ysbryd! A rhyfedd fraint y pechadur!

CASGLIADAU.

1. Rhyddhad heb ei haeddu ydyw. Nid oedd gan gâr na chyfaill ddim i'w wneyd; nid oedd na dagrau na rhinweddau i'w dangos; aeth yr offeiriad a'r Lefiad heibio o'r neilldu; ond, bendigedig fyddo Duw, nesaodd y Samariad at yr archolledig, a chymerodd ei blaid. Rhyw ddiwrnod heb ei ail, daeth cenad o'r llys i'r carchar at yr euog, a dywedodd wrtho, "Gollwng ef yn rhydd, myfi a gefais iawn." Dyma swn rhyfedd! Pan nad oedd dim i dalu, dim newid ar y gyfraith, dim tori ar y carchar, dyma y drysau a'r pyrth haiarn yn agor o honynt eu hunain!

2. Rhyddhad yn y goleo. Yr oedd eithaf goleo ar y gyfraith, a llygad treiddgar y Jehofah yn edrych ar y troseddwr a'r ddeddf ar unwaith, a dyma y ddau yn anrhydeddus, a'r Barnwr yn foddlon. Deil y rhyddhad fanwl-chwiliad dynion, Duw, y Beibl, cydwybod, a'r farn hefyd. Nid oes yma na thwyll nac anwiredd; pob peth yn dda a gonest, o uchder llyfrau y llys, i wlad cuddiedig cyhuddiadau cydwybod; pawb yn dawel, a phawb wedi cael digon.

3. Rhyddhad tragwyddol. "Ni ddaw i farn;" daw i lawer peth, a llawer lle, ond "ni ddaw i farn." Rhyf-

edd ras! Dywedodd Duw unwaith ei fod yn rhydd; byth mwy nis gellir ei rwymo. Aeth allan o'r carchar, ac wrth fyned, clywaf ef yn dywedyd, Ffarwel garchar a chadwynau; dyma fi yn gadael y daeardy am byth; nid oes neb a'm gwel yma mwy. Pa ryfedd os ydyw yn neidio a gorfoleddu wrth ymadael? Gadael carchar, a chael palas; gadael y carpiâu, a gwisgo y gown gwyn; gadael tlodi, ac etifeddu teyrnas; i.e. gadael uffern, a chael nefoedd.

4. Heddyw yw yr amser cymeradwy i ryddhau. Dyma unig wlad gollwng yn rhydd. Nid oes datod cadwynau tu draw i'r gagendor. O! garchar anobeithiol sydd yno! Duw wedi cau, ac nid agorir! "Ni ddeuir oddiyno hyd oni thelir," ac ni thelir byth "yr hatling eithaf." Gan hyny, rhyddhaer ni yn awr gan y Mab; a diolch nad ydym yn y carchar anobeithiol.

5. Y rhai a ryddhawyd, diolchwch byth, ac na thewch, i'r hwn a gymerodd ei rwymo i chwi gael dyfod yn rhydd. Ac wrth ddiolch, cofiwch am y rhai sydd yn rhwym; a Duw, o'i ras, a'u cofio yn fuan. Amen.

PREGETH II.

A DRADDODWYD YN NGHYFARFOD BLYNYDDOL CROESOSWALLT,
EBRILL 24, 1836.

"Nid pob un sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhadr yr hwn sydd yn y nefoedd. Llauer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw, Arglwydd, Arglwydd, oni prophwydasom yn dy enw di? ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di? Ac yna yr addefaf wrthynt, Nis adnabum chwi erioed; ewch ymaith oddiwrthyf, chwi weithredwyr anwiredd."—MAT. 7 : 21—23.

Y mae'r Arglwydd Iesu yma yn nesu at ddiwedd ei bregeth ar y mynydd; am hyny mae yn gwneuthur sylwadau cymwysiadol, gan wasgu y pethau yn ddwys ac onest iawn at ystyriaethau ei wrandawyr. Y mae

fel yn dyfod i afael â chalonau pawb oedd yn bresenol; ac i'r dyben i fod yn fwy effeithiol, y mae yn y rhan olaf o'i bregeth yn arwain y rhai oedd yn clywed i olwg barn a thragywyddoldeb; yn dal y gwrandawyr yn wyneb y bregeth, a'r bregeth yn wyneb y gwrandawyr; ac yn wyneb eu gilydd yn eu dal yn ngolwg y farn olaf. Dyma ddal sobr ac effeithiol. Beia rhai o herwydd fod y pregethwyr yn son gormod am farw a barn, i'r dyben i effeithio ar dymerau eu gwrandawyr; edryched y cyfryw a feiant, pa un ai hwynt-hwy ai Iesu Grist sydd yn iawn.

Yn y rhan y cymerwyd y testyn allan o honi, rhoddir desgrifiad o'r gau athrawon. Yn y lle blaenaf dangosir pa fath rai ydynt, sef, "a deuant atoch yn ngwisgoedd defaid," &c.; wedi hyny dangosir pa fodd y mae eu hadwaen, sef "wrth eu ffrwythau;" ac yn y testyn rhoddir desgrifiad pa fodd y mae yn sefyll rhyngddynt a'r Barnwr yn awr, a pha fodd y bydd y farn ddiweddaf. Diau y cynwys y testyn yr holl ragrithwyr a geuir allan o'r nefoedd yn y diwedd; y rhai sydd yn galw Duw yn Arglwydd, sef yn proffesu ei enw, ac heb ddim tu-mewnol, ysbrydol a gwirioneddol rhyngddynt a Duw erioed. Er na ellir dywedyd y bydd yr holl broffeswyr mewn enw yn gallu dangos y fath weithredoedd ag a nodir yn y testyn, eto tebygol y byddant yn dysgwyl nefoedd am ryw bethau a wnaethant. Tebygol mai dedwyddwch gogoneddus wedi marw a olygir yma wrth deyrnas nefoedd. Nid yr oruchwyliaeth efigylaidd a feddylir, canys bu. ac y mae, gau athrawon a gau broffeswyr yn hono. Nid eglwys weledig Crist a ddeallir, oblegid nid yw hono yn ddigymysg; gan hyny nefoedd a olygir, lle ni ddaw gweithredwyr anwiredd.

Y mae Crist yn llefaru yma mewn rhyw fodd uchel ac ardderchog iawn, nid yn unig fel Brenin Seion a'r Messia addawedig, ond hefyd fel Barnwr y byd, a threfnwr sefyllfa dragywyddol pawb. Nid yn aml tra ar y ddaear yr ymwisgodd â'r fath fawrhydi ardderchog. Wrth gydmaru ei ymadroddion awdurdodol, a'i agwedd

allanol y pryd hwn, y mae yma ryw beth hynod o ddy-eithr i syniadau anianol. Ond dychwelwn i sylwi :

I. *Fod mewn gwir grefydd weithrediad* ; a dyma y diffyg a ddangosir yn y rhai hyn. Nid yw yn beic ar yr hyn oedd ganddynt, na'r hyn a wnaethant ; ond nid oedd eu gweithredoedd yn gyflawn, nac ychwaith yn uniawn ; nid gwneuthur ewyllys Duw oedd. Sylwer, gweithrediadau swyddol yw'r cwbl a enwir ; lle y gwelwn y gall rhai wisgo swyddau eglwysig, a gwneuthur pethau mawrion fel swyddwyr, ac eto bod yn ol yn y diwedd. Hefyd, wele lawer a gweithredoedd mawrion, ac eto y gweithredwyr a'u gweithredoedd yn anghymeradwy. Wrth feddwl hyn, pwy na chrynai ?—ond nid oedd y cwbl yn wneuthur ewyllys Duw. Y mae hyn fel rhyw begwn mawr yn y testyn yma, ar yr hwn y mae yn troi hawl a mynedfa i fywyd tragwyddol. *Ewyllys Duw* ; ei feddwl datguddiedig yn ei air. Amlygodd trwy ddatguddiad dwyfol ei ewyllys, a'i weithrediadau grasol tuag at ddyn, o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, yn nghyda holl ddyledswyddau dyn tuag at Dduw. Yn awr, *gwneuthur yr ewyllys*.

1. Ewyllys Duw yw defnydd y gwaith ; pethau yr ewyllys datguddiedig sydd i'w gwneuthur.

2. Ewyllys Duw yw rheol y gwaith ; megys y dywedodd Efe yn y datguddiad dwyfol, felly y dylid gwneyd.

3. Yn ewyllys Duw y mae modd i weithio. Yr ewyllys yn rheol gwneyd yr ewyllys, a'r ewyllys yn rhoddi modd gwneyd yr ewyllys : yma y mae, (1.) Dangos y gwaith, trwy roddi goleuni i'r meddwl. (2.) Rhoddi addasrwydd i weithio, trwy fywhau yr enaid. (3.) Rhoddi hyfrydwech yn y gwaith, trwy roddi anian dduwiol i orseddu ar yr enaid, nes gorchfygu yr holl ddyn i weithredu yn wirfoddol. (4.) Rhoddi cymorth i weithio trwy dderbyn gras yn adnewyddol bob dydd.

1. *Ewyllys Duw*.—Mae yn ewyllys Duw bob peth o ran trefniad, datguddiad, gwneuthuriad, cyhoeddiad a chymwysiad, er codi dyn i heddwch Duw, ar ddelw Duw, wrth fodd Duw, ac i fwynhau Duw ; yn yr hyn

y mae yn gynwysedig ddedwyddwch diamgyffred y dyn ei hun. Trefniad: "Ni ddaeth i galon dyn y pethau a ddarparodd Duw." Datguddiad: "Dug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl." Gwneuthuriad: "Pob peth yn barod." Cyhoeddiad: "I efengylu yn mysg y cenedloedd anchwiliadwy olud Crist." Cymwysiad: "Efe a ddysg i chwi yr holl bethau, ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi."

Yn awr, rhag cuddio gras drwy wasgu dyledswydd, neu yn hytrach rhag gwneuthur i fyny y gyfundraeth, a *gwneuthur* dyn heb ras Duw, megys y mae arfer rhai; gwelwch ras trwy holl linellau yr ewyllys yn ffynoni yn wreiddiol, yn rhedeg yn weithredol, ac yn cael gafael ar y gwrthdrysau yn gymwysiadol. Heb ras yr ewyllys ni fyddai byth wneuthur yr ewyllys; heb ras yn sylfaen, ni cheid goruwch-adeiladaeth o weithredoedd da.

(1.) Rhaid cael y person yn rhydd o garchar condemniad. Onid o ras y mae hyn? Pa fodd y gwasanaetha neb ei frenin, pan tan ddedfryd y gyfraith, yn y carchar mewn cadwynau, ac yn ngafael awdurdod y ceidwad? Nid yw o ran cyflwr yn addas, nac o ran lle yn abl, i wasanaethu ei Arglwydd; a gwyr pawb fod yn rhaid ei gael yn rhydd cyn y byldo yn wasanaethgar; a gwyr pawb cystal a hyny nad oes ond gras, ewyllys da, i.e. ewyllys da y brenin hefyd, ac nid neb arall, a all ei gael yn rhydd. "Dy was di ydwyf fi, dy was di ydwyf fi." Paham yr wyt yn dyblu yr ymadrodd? O! ni fedrat byth ymrwymo yn ddigon tyn, na gwasanaethu yn ddigon ffyddlon; "dy was ydwyf, a'th was fyddaf byth." O ba le y tarddodd y rhwymau cryfion yma? O ddatodiad rhwymau y daeth hyn i mi; gan i ti ddatod yr hen rwymau, yr ydwyf finau am ymglymu â rhwymau newyddion; "datodaist fy rhwymau." Dyma ras a gofiad byth, a ryfeddaf byth, a ganmolaf byth; a gwnaf dy ewyllys byth am i ti fy nghofio. Felly, gwelwn, rhaid symud y condemniad trwy ras, cyn y gwna neb ewyllys Duw.

(2.) Enaid rhydd oddi tan lywodraethiad pechod.

Mae llywodraeth pechod y fath ar ddyn, fel na fyn wneuthur ewyllys Duw pe gallai, ac nas gall pe mynai. Gwas i arall yw dyn, a'r arall yma yn arglwydd mewn awdurdod, ac yn berffaith groes yn mhob peth, bob amser, ac am byth, i ewyllys Duw; gan hyni ni ellir gwasanaethu dau arglwydd perffaith yn erbyn eu gilydd. Heblaw hyny, dewisiad pob dyn yw gwasanaethu pechod; mae gorsedd y llywodraeth yn yr ewyllys, a ffug-bleser pechod yn y serchiadau; ac er mawyn tawelwch yn y gwasanaeth, rhaid dallu y deall, dystewi cydwybod, a throi heibio wasanaeth y cof. Yn awr, dyma y dyn sydd i wneuthur ewyllys Duw; gan hyny, gwelwch rhaid ei dechreu yma gan ras, ie, creu o ras. Rhaid cael yma beth nad oes; "Canys ei waith ef ydym, wedi ein creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da." Eph. 2: 10. Gwelwch nad oes gweithredoedd da heb greu, a'i waith ef yw creu. Oni weithia Duw o ras trwy greu yn gyntaf ynom ni, ni weithiwn ni ewyllys Duw. Yn awr, yn yr ewyllys dangosir gelyniaeth y galon, llygr-edigaeth y natur, teyrnasiad pechod, gwreiddyn yr holl ysgogiadau yn ddrwg, a phob tarddiad allan mewn ymddygiadau yn ymladd yn erbyn Duw. Hefyd, yn yr un ewyllys mawr dangosir gras i lywodraethu yr anian, modd diorseddu llygredd, a lladd yr elyniaeth; wele erbyn hyn gariad yn lle gelyniaeth, gras yn lle pechod; tuedd, awydd, modd ac addasrwydd, i wneuthur ewyllys Duw. Ond cofiwch, daeth yn gwbl o ras; gras yn teyrnasu ar yr enaid trwy y cyfiawnder hwnw a ryddhaodd y person.

2. *Gwneuthur ewyllys Duw.*—Er fod achub pechadur o ras, eto yr oedd y gweithio a fu yn ei gylch er tra-gwyddoldeb, y gweithio a fu trosto gan Grist, a'r gweithio ynddo ac arno gan yr Ysbryd Glan, yn cyd-dirwyn ac yn cyd-ffeithio er cael dyn i weithio yn ol i Dduw. "Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef." Phil. 2: 13. Dyma ewyllysio a gweithio Duw yn achos, yn wreiddyn, ac yn gynhyrfiad ewyllysio a gweithio dyn. Ni fyn Duw heb y dyn, ac ni all dyn heb Dduw; a'r

hwn a wyr fwyaf am waith Ysbryd Duw arno, yw yr hwn sydd yn gwneyd mwyaf yn ol er gogoniant Duw. "Y bobl hyn a luniais im' fy hun; fy moliant a fynegant." Esa. 43 : 21. Y mae'n wir fod y pechadur yn oddefol yn y gweithrediadau achubol cymwysiadol cyntaf gan yr Ysbryd Glan, ond bron mor fuan ag y dechrenir gweithio arno, fe weithir ganddo. Nid yw gwaith y dyn yn rhan o gymwysiad iachawdwriaeth; gwaith yr Ysbryd Glan yn hollol yw hyny; ond mae yn brawf o'r cymwysiad, ac yn ffrwyth i'r cymwysiad. Mae rhyw agosrwydd a pherthynas rhyfedd rhwng gwaith cymwysiadol yr Ysbryd a gweithrediadau duwiol y Cristion; nid yw Ysbryd Duw i wneuthur gwaith y dyn, eto ni wnai y dyn ddim byth oni b'ai gwaith yr Ysbryd; nid yw dyn i gyflawni gwaith yr Ysbryd, na rhan o'i waith; eto nid yw Ysbryd Duw yn gweithio ar y dyn heb godi y dyn, nid i gyd-weithio á'r Ysbryd Glan, ond i gyflawni dyledswyddau er gogoniant Duw. Ymorphwysiad ar Grist—pa fodd? trwy greu; rhodd Duw yw ffydd; gwir, gwaith dyn yw credu er hyny. Rhodd Duw yw edifeirwch; ie, ond gwaith dyn yw edifarhau. Rhodd Duw yw anian dduwiol; sicr iawn, ond gwaith y dyn yw rhoddi heibio yr hen ddyn yr hwn sydd lygredig. Rhodd ac ewyllys Duw yw eich sancteiddiad chwi; er hyny gwaith dyn yw meddianu ei lestr ei hun mewn sancteiddrwydd a pharch. Gras yw gwreiddyn ac achos rhoddiad pob peth i'r Cristion, ac yn nghymorth gras yn unig y defnyddir pob peth a dderbyniwyd er mawl gogoniant gras.

Gwneuthur ewyllys Duw.—(1.) Gweled fel y mae efe yn dangos. Deall, adwaen, a barnu pob peth fel Duw; nid i'r un graddau, ond o ran cywirdeb ac uniondeb golygiadau a phenderfyniadau. Dyma yr iawn ddrych i weled pob peth trwyddo; yr iawn glorian i bwysio pob peth ynddi; yr iawn reol i fesur pob peth wrthi, i gael golygiadau cywir ar bob peth hanfodol i iachawdwriaeth, a ffurfio barn yn ol gwirionedd. Nid arferion dynion, nid traddodiadau yr hynafiaid, nid grym dysgeidiaeth, nid nerth cyneddfau naturiol, ac nid tymerau

a theimladau chwaith sydd reol i weled fel y mae Duw yn dangos; ond grym a thanbeidrwydd datguddiad dwyfol. "A'r Iesu gan ateb addywedodd wrtho, Gwyn dy fyd di, Simon mab Jona, canys nid cig a gwaed a ddatguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd."—(Mat 16 : 17.) Nid wyf yn dal perffeithrwydd mewn adnabod; "Canys o ran y gwyddom—yn awr yr adwaen o ran," ond pan ymlidio y goleuni ysbrydol dywyllwch pechod yn llwyr o'r enaid, "yna yr adnabyddaf megys y'm hadwaenir." Gwelir a bernir yn awr yn iawn, er nid yn llawn; gwelir yn gywir, er nid yn gyflawn. Gwelwyd colledigaeth y cyflwr nes gwaeddi beth i wneyd—darfu am danom. Gwelwyd, y mae'n debyg, gymaint ag a allasai llawer ddal. Mae'r fath ddyfnderoedd yn ngholledigaeth y cyflwr, a ddyrjai synwyrâu y cryfaf ar y ddaear pe tynid y cauad ymaith ar unwaith. Gellir dywedyd ar hyn, "Nis gwel dyn a byw." O! ryfedd ddaioni a thiriondeb, datguddio yn raddol, a rhoi modd i ddal! Gwelwyd cymaint o addasrwydd, gogoniant, a graslonrwydd Crist, nes cyflwyno y mater drwg i'w law byth. Diwrnod rhyfedd oedd hwnw, pan caed rhoi ein baich o euogrwydd i lawr, a gorwedd ein hunain ar sylfaen ddisigl byth. O! diolch am le i lechu yn nghysgod Crist, pan oedd melldithion cyfraith yn pwysu, cleddyf cyflawnder yn dysgleirio, digofaint Duw yn gwasgu, euogrwydd cydwybod yn fflamio, a drws y noddfa yn guddiedig; caed golwg ar Waredwr pechadur, ond ceir tragywyddoldeb heb derfyn na thrai, i dreiddio i mewn i ryw helaethach olygiadau ar ryfeddodau iachawdwr pechadur, ac iachawdwriaeth y colledig. Gwelwyd yr affendid nes gwaeddi, "Ys truan o ddyn ydywif fi;" gwelwyd y ffynon nes gwaeddi, "Golch fi yn llwyr ddwys;" gwelwyd y pla nes ofni marw; gwelwyd y meddyg nes gobeithio cael byw; gwelwyd y tlodi nes methu byw ynddo; gwelwyd y cyfoeth nes methu byw hebdo, &c. Gwelwyd llawer, ond gwelir mwy; adwaenwyd o ran, ond adwaenir yn berffaith. Henffych foreu clir heb gymylau.

(2.) Cymeradwyo pob peth a gynygir i ni gan Dduw.

(3.) Gwneyd fel y mae Duw yn dyweyd. Mae Duw wedi dyweyd y cwbl sydd i'w wneyd, ac y mae yn y Cristion awydd diflino cyflawni y cwbl, a chyflawni pob peth yn berffaith. Nid yw yn gallu eto wneuthur dim yn berffaith, ac eto y mae ynddo ddymuniad gwneuthur y cwbl yn berffaith. "O, am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau" yw ei iaith. Cyrhaedd adgyfodiad y meirw yw ei ddymuniad. Nid oes dim o'r ewyllys a ddymunai ei adael ar ol; y dyledswyddau caletaf i gig a gwaed, efe a'u cyflawna; y gorchymynion croesaf i arferion a thueddiadau oes lygredig, efe a ufuddha iddynt gyda hyfrydwch; ie, y pethau a gyfrifir yn benboethni a ffolineb gan ddynion y byd hwn, yn y pethau hyny mae bwyd a diod, cysur a chynaliaeth, gogoniant a llawenydd, yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw. Y maent yn cyflawni dyledswyddau personol, dyledswyddau perthynasol, dyledswyddau teulnol, dyledswyddau cymydogathol, dyledswyddau eglwysig, a dyledswyddau gwladol; yn byw yn dduw-iol tuag at Dduw, byw yn gyfiawn tuag at ei gymydog, a byw yn sobr tuag ato ei hun. Y mae â'r meddwl yn gwasanaethu cyfraith Duw, (Rhuf. 7 : 25,)—ymadrodd y tafod yn gymeradwy, (Salm 19 : 14)—a holl waith y dwylaw yn cael ei drefnu gan Dduw, (Salm 90 : 17). Dyma wneuthur ewyllys Duw, yn ol rheol Duw, trwy Grist, Mab Duw, dan gynhyrfaid a chyfarwyddyd Ysbryd Duw, o gariad at Dduw, ac i'r dyben i ogoneddu Duw.

Hefyd y mae pedwar peth gan bob Cristion tuag at wneuthur ewyllys Duw.

(1.) Llywodraeth Brenin arno nes gorfod gwneyd. Y mae'n rhaid gwneyd; nid os gwelant yn dda; gorchfygwyd hwynt mor llwyr nes ydynt yn mynu gwneuthur. Dyma goncwest, concro dyn i ddewis! Goruchafiaeth fyddai trechu dyn i wneyd o'i anfodd, ond goruchafiaeth yn y *superlative degree* yw trechu dyn i wneyd o'i fodd; "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth." (Salm 110 : 3.) Bydd y goncwest

yma yn anrhydedd diderfyn i Fab Duw, a gwarth diderfyn i ddiabol; pe achub a'u cipio o deyrnas y diafol o'u hanfodd, ni thawsai y cythraul a dywedyd mai gydag ef yr oeddynt yn dewis bod, oni buasai eu cipio oddi yno o'u hanfodd. Ond, O! diolch, fe gauwyd ei safn am dragywyddoldeb, darfu iddynt *ddewis* meistr arall, *dewis* gwaith arall, *dewis* ei adael ef a'i deyrnas warthus am byth. Llywodraeth Brenin i'w gorchfygu i wneuthur ewyllys Duw.

(2.) Dysgeidiaeth prophwyd i'w dysgu beth i wneyd. Peth mawr yw cael parodrwydd meddwl i wneuthur ewyllys Duw, wedi hyny mae eisiau deall pa beth a pha fodd i wneyd. "Arglwydd, beth a fyni di i mi ei wneuthur?" A wyt *ti* yn ystwyth? O, ydwyf ar lawr. Wel, gan dy gael *di* i lawr, ni ddigalonwn am neb. A wyddost ti ddim beth i'w wneuthur? Na wn; mae'r hen lwybrau wedi cau, mae'r hen dull o grefydda wedi darfod am byth, dysg di fi pa beth i'w wneuthur. Dysgeidiaeth prophwyd i adwaen ewyllus Duw a'i wneuthur.

(3.) Gras yn gymorth cyfamserol trwy eiriolaeth Crist, nes cael modd i wneyd. "Yr wyf yn gallu pob peth;" gallu pregethu, gallu gweddio, gallu byw yn dduwiol; ie, gallu pob peth;" ond cöfwch, "trwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu." Cyfrenir o drysor-dy gras, trwy eiriolaeth Crist, fodd i weiniaid a rhai diddym gyflawni pethau anghredadwy—modd i wneuthur ewyllys Duw.

(4.) Perthynas a chariad plentyn, nes *hoffi* gwneyd. Teyrnas fy Nhad yw, achos fy Nhad yw, ewyllys fy Nhad yw: pe na byddai rhwymau ond rhwymau cariad, y maent yn ddigon i'm tueddu i wneyd a allaf.

Yn awr, dau ofyniad: 1. A oes *gwneyd* yn ein crefydd ni? Y mae llawer o siarad am grefydd; rhai yn y tafarnau, rhai yn y cornelau, rhai gyda'r pyncian, a'r lleill gyda'r dadleu; ond y mae lle i ofni fod *gwneuthurwyr* y gair yn ychydig iawn.

2. Yn ein holl weithrediadau crefyddol pa faint o

wneuthur *ewyllys Duw* sydd? Ond wele ni yn awr yn cael ein harwain at yr ail sylw,

II. *Mae llawer o bethau crefyddol gan lawer, eto heb wneuthur ewyllys Duw.* Dangosir yn y testyn bethau mawrion, pethau crefyddol, a phethau da ynddynt eu hunain, eto y Barnwr yn diarddel y cwbl; i.e., yn galw y rhai a'u cyflawnasant yn "weithredwyr anwiredd." Nid pechodau y maent yn eu dangos, ond gweithred-oedd da; eto o herwydd rhyw ffalsedd drwg, a diffyg, dyma y rhai a'u cyflawnasant yn cael eu rhestru gyda'r dosbarth duaf yn y Beibl. O! Arglwydd, beth yw bod yn gadwedig? Pwy sydd gadwedig? A ddianc rhyw rai yn y diwedd?

Ond sylwn ar rai pethau hanfodol i iachawdwriaeth, nad oedd gan y rhai hyn, ac nad oes gan filoedd o grefyddwyr yr oes hon.

1. Heb gyfiawnder Duw—y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd. Sonir mai gwaith Duw yw credu; ond ni dderbyniodd y rhai hyn trwy gredu, gyfiawnder Crist erioed. Yn awr, y mae bod heb y cyfiawnder yma yn profi fod dyn dan y condemniad; i.e., nid oes a symud y condemniad ond y cyfiawnder hwn. Cyfiawnder yn gwared rhag angau yw; cyfiawnder yn symud angau condemniol, ac yn diddymu hawl a gafael angau tra-gywyddol.

Y mae'r condemniad, (1.) Yn cloi allan holl ymgel-
edd iachawdwriaeth. Mae angau ysbrydol yn teyrnasu. Mae clwyfau ac archollion trwy yr holl natur. Mae'r wlad yn dihoeni a marw o eisiau ymgeledd bendithion y cyfamod. Mae triagl yn Gilead, mae yno physigwr. Mae pob peth yn yr iachawdwriaeth er gwella yr afiech-
yd. Wel, "Paham na weliha merch fy mhobl?" Yr ateb yw, mae condemniad y gyfraith o herwydd tros-
eddau, a gafael cyfiawnder dwyfol am y person i'w gospi, yn cadw draw bob ymgeledd byth. Rhaid cael cyhoeddiad o'r llys i ryddhau gwddf yr euog, a'i godi yn gyfreithlon o'r carchar, cyn y gellir ei ddwyn i'r *hospital* i'w wella. Cyhoeddiad Barnwr fyddo yn ein cyfarfodydd, i ryddhau carcharorion trwy waed Crist.

(2.) Mae'n oloi pob gweithrediad ysbrydol allan; ie, yn sicrhau marw ysbrydol yn holl wlad yr ensid; nid oes yn yr holl wlad un ysgogiad bywyd. Gall cyneddffau dyn yn naturiol, weithredu yn sianel pethau crefyddol, heb ddim ond gweithrediad naturiol. Pahan ras gall dyn weithredu yn maes crefydd, yn debyg yr un modd ag y gweithreda y cyneddffau ar faes un o'r celfyddydau?—deall naturiol yn treiddio i bethau, ac yn cysoni pethau—serch naturiol yn ymhoffi yn nghyweirnydd, rhyfeddodau, ac ardderchawgrwydd pethau, &c., a'r cwbl heb fynydd o fod, na mynydd o weithredu uwchlaw gwlad y cnawd; gwlad cyneddffau natur yn ymlwybro yn anianol ar feusydd pethau crefyddol. "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd." Yr hyn a weithredir gan gnawd sydd gnawd; yr hyn a ddeallir gan gnawd sydd gnawdol, &c. Hefyd, os caniateir fod mwy yn ngweithrediadau dyn anianol mewn pethau crefyddol na'r hyn a nodwyd uchod yn ngweithrediad naturiol y cyneddffau, dirdyniad annaturiol yw ar y dyn at bethau crefyddol, naill ai gan hunan-serch neu ddychryniadau cydwybod wedi ei goleuo. Hunan-serch: daeth rhai i ymarfer â phethau crefydd o herwydd serch at eu henafiaid; eraill er mwyn elw bydol; eraill er mwyn esmwythder bydol; eraill er mwyn enill nefoedd wedi marw, a'r cwbl yn tarddu o wlad marwol-aeth ysbrydol tan gondegniad a melldith deddf Duw. Hefyd, gwesgir llawer at ymarferiadau crefyddol gan daranau cydwybod wedi ei goleuo; gorchfygwyd llawer ganddi i ymostyngiadau, gweithrediadau, a dyoddefiadau crefyddol. Daw, weithiau, â llyfr cyfranth Duw a llyfr hanes bywyd y dyn wyneb yn wyneb, a hi a'i barna ac a'i condemnia, nes y byddo teimladau uffern yn y dyn. Dengys ei hawdurdod fel swyddog tros Dduw; geilw Duw yn dyst o'i holl gyhuddiadau hi a gweithrediadau y dyn, nes y byddo yr euog yn glasu o flaen ei gorsedd; ac yn y bwlch yma, gan nerth yr ar-teithiau, torir brigau pechodau, sethrir pleserau y serchiadau, rhoddir dystawrwydd ar swm a gweithrediadau preswylwyr y ty; bydd y fath nerth ynddi nes

gwasgu i gysgod ymarferiadau crefyddol, ac er y cwbl, yr holl weithrediadau crefyddol hyn yn tarddu o wlad y cnawd; gweithrediad naturiol yn ngwlad marw ysbrydol, yn y carchar tan gondemniad. Mae'r ddeddf yn dweyd wrth y rhai sydd tani, hyd nes y cauir pob genau. Hyd nes dystewir y ddeddf a boddlonrwydd, rhaid i'w holl droseddwr dewi byth, o ran dim gweithrediadau crefyddol cymeradwy gan Dduw.

2. Heb gariad at Dduw; *yn gas ganddynt Dduw*. Mae pob gweithrediad pob dyn yn ei gyflwr natur, bob tarawiad amrant, yn tarddu o elyniaeth at Dduw. Gelyn yw dyn, a gelyniaeth yw gwreiddyn ysgogiad pob gweithrediad. Y mae'r elyniaeth yn gweithredu ddwy ffordd: (1.) Trwy bechodau amlwg, a gwrthryfel gweithredol allanol. (2.) Trwy weithrediadau crefyddol oddiar egwyddorion yr hen gyfamod. Dywedodd un, pan syrthiodd Adda, aeth yn ddau; sef yn Adda lygredig, ac yn Adda grefyddol. Yn awr, y mae yr Adda lygredig yn ymladd â Duw mewn modd amlwg a gonest, trwy gyflawni pob math o bechodau gwarthus; dryllio y rhwymau, a thafu y rheffynau; sathru y ddeddf, dirmygu moddion iachawdwriaeth, a herio Duw i wneyd a allo. O! adyn annedwydd. Ond yr Adda grefyddol yn ei weithrediad sydd yn y testyn, ac oddiar yr un gwreiddyn yn berffaith y mae'n tarddu yr holl weithrediadau crefyddol hyn. Yr ydwyf yn edrych ar weithrediadau yr Adda grefyddol yn fwy dichellgar, cuddiedig a maleisus, bron, na phechodau amlwg. Edrychwn ar weithrediadau deddfol, tan lywodraeth egwyddorion yr hengyfamod. Dirmygaf Grist, medd y ddeddfol, trwy ei droi o'r neilldu, ni fynaf mo hono ef na dim o'i bethau; diystyraf drefn gras trwy ei gwrthod, er mai y drefn sydd yn datguddio ymysgaroedd y Duwdod o ran gras a thrugaredd yw; o herwydd cymaint o amlygiadau o gariad a thosturi at bechadur colledig sydd yn y 'drefn, am hyny dirmygaf y cwbl; dirmygaf air Duw trwy ei anghredu. Dywedodd ef, "Gan farw, ti a fyddi farw;" gwrthwynebas hyny trwy geisio bywyd lle y dywedodd ef nad oes ond

marw i'w gael. Dywedodd ef fod "cleddyf tanllyd ysgwydedig yn cadw ffordd pren y bywyd;" ni waeth genyf am hyny, rhuthraf ar fin y cleddyf, os oes yno gleddyf, er mwyn dirmygu gair, awdurdod a bygythiad Duw. O, amynedd! yn goddef y fath am ddiwrnod! Hefyd, ped edrychem ar y deddfol yn ceisio ei hunan— Os caf fi ddedwyddwch, meddai, ni waeth genyf pa le y bydd gogoniant Duw; ie, ni chaiff efe ddim gogoniant oddiwrthyf fi, dringaf ffordd arall, yn fy nerth fy hun, i'r nefoedd, ac erbyn dyfod yno, caf nefoedd o ddedwyddwch cystal a neb, a'r gogoniant i gyd i mi fy hun. Y mae Duw yn cynyg nefoedd i mi, ond y mae yn dyweyd y myn y gogoniant oll iddo ei hun; nid ymstyngaf fi byth i gyfiawnder Duw, nac i gymeryd fy achub trwy ras; ni allaf oddef i Dduw gael y clod oddiwrthyf fi. Wele, dyma ranau ffyrdd dyn deddfol. Onid yw pob anadliad, pob gweithrediad, pob ysgogiad, a phob cyflawniad crefyddol yn esboniad ar wreiddyn y cwbl, sef gelyniaeth at Dduw. Heb gariad at Dduw yn *gwneuthur gwyrthiau*, &c. Beth bynag fyddo hyd a lled ein cyflawniadau crefyddol, bydded cariad at Dduw yn wreiddyn y cwbl.

3. Heb ysbryd Duw. Y maent yn amddifad o'r Ysbryd a'i holl weithrediadau yn ol y cyfamod. "Yn anianol yn eu didoli eu hunain, heb fod yr Ysbryd ganddynt." Y maent yn rhwym o fod heb bob peth iachawdwriaeth yn y gafael, oblegid ni feddant y Cymwyswr o'r pethau. (1.) Heb yr Ysbryd yn ei breswyliaid. Ni chymerodd ei lety ynddynt erioed; ni bu eu cyrph yn demlau iddo fynydd erioed. Dichon fod gweithrediadau cyffredinol yr Ysbryd yn effeithio ar eu tymerau, a'i ymrysoniadau yn peri anesmwythder yn ngwlad pechod; dichon fod teimladau gofidus am bechod yn ei ganlyniadau, ac ymladdfeydd rhwng y cyneddfau, y gydwybod yn condemnio pechod, gan ddychrynu y pechadur, a'r cwbl yn tarddu o ryw fath o weithrediadau cyffredinol yr Ysbryd. Gallant ffeiddio rhyw bechodau a'u gadael, gan nerth pechod arall yn gwthio ac yn mynu lle yr un oedd anwyl o'r blaen. Ond gan yr

un teulu y mae y perchenogaeth; ni newidiwyd y *family* erioed; er maint o guro sydd wedi bod gan Ysbryd Duw wrth eu drysau trwy y weinidogaeth, rhagluniaeth, &c., mae'r clo yn ei erbyn; nid yw ynddynt yn wreiddyn ffrwythau. "Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad," &c., gan hyny ni ddichon y ffrwythau fod heb y gwreiddyn, ac ni ddichon yr Ysbryd fod yn wreiddyn heb breswyllo; oblegid peth arosol yw gwreiddyn. Nid yw yn wreiddyn sancteiddrwydd buchedd; oblegid tarddiad naturiol o breswyliaid a gweithrediadau yr Ysbryd yw ymarweddiad sanctaidd.

(2.) Heb oleuni yr Ysbryd; ni feddant yr eneiniaid yn aros ynddynt. "Ond y mae yr eneiniaid a dderbyniasoch ganddo ef yn aros ynoch chwi, ac nid oes arnoch eisiau dysgu o neb chwi; eithr fel y mae yr un eneiniaid yn eich dysgu chwi am bob peth, a gwir yw, ac nid yw gelwydd; ac megys y'ch dysgodd chwi, yr aroswech ynddo." (1 Ioan 2: 27.) Nid oes ganddynt mo'r ddysg-eidiaeth am ddim perthynol i iachawdwriaeth o ran gras na dyledswydd. Nid oes dim digon cadarn rhyngddynt a chredu celwydd, cofleidio cyfeiliornadau, ie, a myned o'r diwedd yn anffyddwyr profsedig. Nid oes ganddynt oleuni anffaeledig yr Ysbryd am ddim; a deall naturiol y gwelwyd cyflwr colledig, a'r un goleu ffaeledig y gwelwyd Achubwr y colledig. Mae grym dysgeidiaeth wedi galluogi rhai i fod yn feirniaid manwl, a gwneuthur math o *mathematical system* o athrawiaeth yr efengyl. Mae nerth cyneddfau wedi cloddio i'r golwg lawer o bethau rhyfedd yn maes rhinwedd. Mae zel a hunan-glod wedi dwyn llawer trwy anhawserau mawrion, mewn hunan-ymwadiad a chodi croesau trymion, a'r cwbl heb oleu na dysgeidiaeth yr Ysbryd Glan. Gwyr llawer am ryw oleuo unwaith, rhyw fflag fel goleu mellten, yn cyffroi yn hytrach na dysgu adnabod, yn myned heibio heb amser i farnu. Wrth a ddywedwyd ar y mater hwn, gwelwn mor bell y gall dynion fyned gyda phethau allanol crefydd, heb un cam yn iawn, heb gyfiawnder Duw, yn euog; heb gariad at Dduw, yn elyn; ac heb Ysbryd Duw, yn anianol.

III. *Mor bell yr a dynion mewn ymddangosiad o grefydd, ac eto heb ddim ond twyll yn y ddeheulaw.*—
 Dywedant yn y dydd hwnw, y dydd olaf, dydd y farn; daliant i wag-obeithio, i ryfygus ddysgwyl, i.e. bron na orchymynant yn awdurdodol dderbyniad a chymeradwyaeth. “Y cyfaill, pa fodd y daethost i mewn yma, heb fod genyt wisg priodas? (Mat. 22: 12.) Daethost yma heibio i bawb a thrwy y cwbl; clywaist am y wisg, ond daethost yma hebddi; mynegwyd i ti fod yn rhaid ei chael; dangoswyd mor hawdd oedd ei chael; amlygodd y gweision mor fanwl y byddai yma; ond er y cwbl daethost yma heb y wisg. Ymfoddlonodd y pum’ morwyn ffol ar y lamp yn unig, nes y daeth y waedd haner nos. Mor bell yr a dyn heb ddim ond twyll; aiff trwy holl oruchwyliaethau rhagluniaeth, mewn gwng a gwén, hawddfyd ac adfyd, &c., heb ei ddeffro i ymofyn am wirionedd; treulia ugeiniau o flynnyddoedd, a phob mynyd yn datguddio pethau newydd, ac eto efe a a a thwyll yn ei ddeheulaw trwy ei oes. Hefyd dianc ar bob gweinidogaeth; taranau Sinai, darluniau o fanylrwydd y farn; ymguddia rhag y weinidogaeth fanylaf, rhag y llygad craffaf, rhag y chwilio dwysaf. Pa faint o *warantau* sydd allan i geisio ei ddal; gwr anonest yw yn dwyn rhed-nwyddau (*smuggled goods*). Ond wele ef wedi dianc ei oes, a swyddogion y Brenin wedi methu ei ddal, a dyma efe yn curo wrth ddrws y Brenin ei hun, fel gwr gonest, am dderbyniad a chymradwyaeth, a gwobr am ei lafur. O! galedwch ac anystyriaeth. Tybiodd efe fod y Brenin fel efe ei hun, ond dyma argyhoeddi a threfnu yr achos o flaen ei wyneb. Dychymygaf glywed y Brenin yn dywedyd, Os twyllaist y swyddogion, ni thwylli fi; os aethost trwy bob bwlch a holiad, trwy bob moddion ac ordinhad, heibio i bob swyddog a llys, nid ai trwodd yma, wele dydi yn y ddalfa. O, Arglwydd, pa fodd y try allan arnaf fi fy hun, ac ar filoedd sydd yn ymarfer a phethau allanol crefydd? O! am onestrydd a chywirdeb mewn crefydd, os bydd pethau eraill yn fach. Y mae y rhagrithiwr yn darllen, yn canu, yn gweddio,

ond y cwbl wedi ei stampio ag auonestrywidd ; yn cymuno bob tro yn annheilwng, yn pregethu ac yn gwrando pregethau, a llon'd ei galon o ddichell a thwyll, &c. Unwaith eto, Ohwiliwr y calonau, didwyla holl broffeswyr crefydd.

Nid yw gwneyd llawer dros achos Duw ; nid yw dianc rhag drwgdybiaeth y dynion mwyaf ysbrydol ; nid yw oes o grefyddda yn allanol heb fwch, yn ddigon o brawf y diangwn gan ein Barnwr ; ie, nid yw marw mewn tawelwch, heb ddychryniadau meddwl, yn ddigon o dystiolaeth fod y cwbl yn dda ; oblegid yr wyf yn meddwl fod llawer yn myned yn rhy bell o gyrhaedd y byw i allu trosglwyddo gwybodaeth yn ol pa fodd y mae'n troi, cyn deall eu hunain pa fodd y mae'n sefyll rhyngddynt a Duw. "Canys nid oes rhwymiau yn eu marwolaeth." Gan hyny, O wrandawyr, ymfynweh am y gwir.

IV. *Tystiolaeth y Barnwr, a'r ddedfryd sydd yn disgyn ar yr euog.*—"Nis adnabum chwi erioed." Nid ydym i ddeall fod Duw yn anadnabyddus o neb fel y mae yn hollwybodol, yn chwiliwr y calonau, a phrofwr yr arenau ; nage, canys gwyr yr Arglwydd feddyhau dynion, adwaen yr eisteddiad a'r cyfodiad, &c. Ni lecha neb mewn dirgel fanau fel nas gwel efe ef, ond' yr ystyr yw, nid oedd dim a fynech chwi a mi ; cafodd holl drysorau y cyfamed a bendithion achubol iachawdwriaeth, eu hesgeulaso a'u gwrthod genych chwi ; ni fynech ddim o'm cyngor na'm cerydd i, eich bara eich hun a fwytaoch, eich dillad eich hun a wisgasoch, y cwbl oedd arnoch eisiau genyf fi oedd cael eich galw ar fy enw ; mi a'ch gwelais gyda'm teulu, ond gweision cyflog oeddych ; gwnaethoch eich crefydd i fyny heb ddim genyf fi ; diystyrasoch ogoniant fy mherson ; nid oedd fy aberth a fy iawn yn ddim am eich bywyd ; ni dderbyniasoch fy nghyfiawnder i er rhyddhau eich personau ; pan oedd graddau o gyfyngder yn nechreu eich crefydd, daeth gwardigaeth o ardal natur, a thrwy bethau gwlad cartref ; llyisiau a dyfodd yn eich gerddi eich hunain a wellhaodd eich holl glwyfau. Hefyd, yn

mysg y lluoedd a ddaeth ataf a'u sachau yn weigion, ymofyn ymborth rhag marw, ni welais chwi erioed, cawsoch a gwnaethoch y cwbl hebof fi. Yn mhellach, nid oedd undeb gwirioneddol trwy ffydd rhyngoch a myfi erioed; heb gyfatal y pen o'r hwn y mae lluniaeth, bywyd, a chynaliaeth yn deillio—yn debyg i'r eiddew yn cylymu am y pren, yn pwyso ar y pren, ac heb allu ymgynal heb y pren, eto heb undeb; gellwch ddatod y ddau oddiwrth eu gilydd, heb dori un pwythyn, na cholledu neb. Heb undeb a'r gwreiddyn, na chyfranogi o nodd y pren, yr ydwyf yn ymwrthod a chwi heddyw fel dyeithriaid ac estroniaid; ie, fel rhagrithwyr a bradychwyr. Ni chymeradwyais chwi erioed, yn y gwagfeun trymaf am bechod, nid oeddynt wrth fy modd i; yr ydwyf yn ymwrthod yn llwyr a'r peth tebycaf i grefydd fu genych erioed; yr ydwyf yn ymwrthod a chwi, ac a'ch crefydd, nid oes genych ddim ag sydd a'm hargraff i arno, gan hyny ewch oddiwrthyf, ewch heb ragor o sylw ar eich mater; ewch, i mi gael llonydd byth genych; ewch o blith fy nheulu i ewch tan y nodweddiad du o "weithredwyr anwiredd," ewch i breswyllo gyda chythreuliaid; ewch heb ail gynyg arni byth mwy. Gwelaf hwynt yn troi ymaith byth, yn myned i'w lle eu hunain, ac anobaith yn ymaflyd ynddynt, heb ollwng ei afael mwy. Pa galon all ddychymygu arteithiau y siomedigaeth, yr anobaith, a'r boenedigaeth y byddant yn ei gafael byth! O, Arglwydd Dduw trugarog, er mwyn Crist achub a di-dwylla ni bechaduriaid.

CASGLIADAU.

1. Daw yn siomedigaeth ar lawer sydd yn gwag-ob-
eithio am y nefoedd.
2. Nid oes dim ond gwirionedd a ddeil fanylrywydd y
farn. Beth bynag sydd yn gwneyd y tro yma, rhaid
cael sylwedd yno, neu fyned ymaith o flaen y gwynt
byth!
3. Mae modd adwaen gwr y ty heddyw, a chael dy-

fodfa i'w heddwch a'i gymeradwyaeth; a diolch am hyny.

4. Deffrown i lefain am y gwir; i gael barn a mater da. Heddyw yw'r tymor, dyma'r adeg, yn awr yw'r amser cymeradwy; gan hyny beth bynag a fyddo yn ol, duwioldeb yn awr, cyn i'r dydd fyned heibio. Amen.

PREGETH III.

"Fy mhlant bychain, y pethau hyn yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, fel na phechoch. Ac o phecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y Cyfiawn; ac efe yw yr iawn dros ein pechodau ni; ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros *bechodau* yr holl fyf."—
 I IOAN 2: 1, 2.

Fy mhlant bychain.—1. Gwelir yma ofal Ioan am y dysgyblion ieuainc. Nid oedd ond Ioan yn fyw o'r apostolion ar y pryd presenol, ac fe ddywedir mai efe oedd y *Cristion* henaf ar y ddaear hefyd y pryd hwnw, ac yr oedd yntau weithian ar eu gadael. Arwydd dda ar grefydd yw fod yr hen a'r ieuainc yn anwyl o'u gilydd. a thebygol yw fod yr anwyldeb hwn yn cael ei gyfan-toddi yn benaf gan yr hen. Troi calon y tadau at y plant sydd i ddechreu; ac y mae i'r ieuainc ddiystyru yr hen yn groes i ddeddfau rhagluniaeth a gras. Un o brif ddybenion gadael y saint i fyw yn hir ydyw estyn mantais i fagu yr ieuainc. Felly y mae yr holl greadigaeth, a dylai yr ieuainc gydnabod mai ieuainc ydynt, ac ymddwyn felly. Dysg y greadigaeth ddireswm i ni y wers hon.

2. Gwelwn hefyd natur gras—toddi, tynu, gwellâu a chynyrchu teimlad brawdol. (1.) Gwelwn yn Ioan *emblem* o berffeithrwydd gras. Os ewyllysiech gael trem ar y nefoedd, edrychwch ar Ioan—dyma dywysen bron yn addfed. Mor llawn ydoedd o diriondeb—"Fy mhlant bychain! (2.) Goruchwyliaeth tiriondeb yw y llwyras, a'r sicraf o gyrhaedd yr amcan goreu. Dyma y llwybr a gymerodd y Duw mawr i goncro dyn. Dy-

wedaf yn wylaidd, nas gall yr Anfeidrol ei hunan ei goncro mor llwyr a thrwy diriondeb. "O herwydd tiriondeb ei drugaredd yr ymwelodd efe â ni godiad haul o'r uchelder."

Dengys y testyn ddau lwybr dedwyddwch dyn. *Bywyd* trwy *beidio pechu*. Dyma ffordd Adda pan ydoedd yn greadur perffaith; perffeithrwydd o ufudd-dod a ddygai berffeithrwydd bywyd o ddedwyddwch.

1. Nid oedd ganddo foment o amser segur, ac yr oedd holl ysgogiadau ei enaid a'i gorph mewn cyflawn waith yn ddibaid, a'r cwbl oedd yn ei wneyd oedd *peidio pechu*.

2. Nid oedd oysylltiad annatodol, fel cysylltiad achos ac effaith, rhwng ufudd-dod Adda a'i fywyd. Yr oedd yno gysylltiad, mae yn wir, ond un wedi ei gyfansoddi gan benarglwyddiaeth Duw ydoedd.

3. Nid oedd yr ufudd-dod hwnw yn gydbwys ei werth â'r bywyd oedd i'w fwynhau. Diau fod gwerth mawr mewn ufudd-dod perffaith creadur rhesymol, eto yr oedd gwerth bywyd yn fwy; canys po fwyaf y creadur, mwyaf gwerth ei fywyd. Yr oedd delw Duw arno, a holl gyflawnder cyfryngol Duw yn fwynhaol ganddo; rhaid, gan hyny, fod gwerth yr ufudd-dod yn fawr; ond darfu am y llwybr hwn i gael bywyd. Paham gan hyny y cyngorai Ioan ni i beidio pechu? (1.) Er mwyn parhaus ddal allan ddrwg pechod. Er fod pechod yn llon'd y byd, yn orchfygwr y byd, yn dywysog llywodraeth, &c.; eto dylid tystiolaethu yn ei erbyn, trwy ei ochel, a galw ar bawb i beidio a phechod, ac aflonyddu arno, &c. (2.) Dylid galw ar bawb i beidio pechu er dangos mai gormeswr a *thyrant* ydyw. Fe fyn Duw ryw rai yn ei erbyn trwy oesoedd y byd—"ysgrifenu fel na phechoch." Myn Duw fod yn lân ac yn rhydd oddiwrth bleidio pechod; myn ei aflonyddu yn ei berchenogaeth anghyfiawn. Dengys Duw ar ddiwrnod y traial mawr lonydd i gyfansoddi perchenogaeth gyfiawn. Y mae yma ryw beth tebyg i'r bobl yn yr Hen Wlad, a gawsant lonydd am nifer o flynyddoedd—hawliant ei fel eu heiddo eu hunain, ond byddai yr hawlydd

cyfiawn yn aflonyddu arnynt y naill ar ol y llall yn y treial; felly y gwna Duw. (3.) Dylid rhybuddio i beidio pechu, oblegid ni chosbir ond am yr hyn a gyflawnir. Bydd cymaint o gyfiawnder yn y gosb, fel ag i gau pob genau am byth; ni bydd gan neb air i'w dafu i wyneb y Barnwr am anghyfiawnder y gosb. Bydd yno gynddaredd, i.e. gwallgofrwydd cynddaredd; ond ni bydd cythreuliaid na cholledigion yn gallu dywedyd gair yn erbyn yr oruchwyliaeth ofnadwy. Gan hyny, O, ddynion y ddaear, os colledig fyddwch yn y diwedd, peidiwch a phechu ond can lleied ag a alloch; os y ffordd lydan a fynwch, ewch yn mlaen mor araf ag y galloch. "Fel na phechoch."

Y mae llon'd y byd o leisiau o bob man yn dywedyd, "Na phechwch." 1. Llais Duw sydd yn llon'd y wlad, yn uchel ddywedyd, "*Na phechwch*," yn gorchymyn peidio, yn addaw gwobr am beidio, yn bygwth cosb am wneyd. "*Na wna* i ti dy hun ddim niwed," medd pob llinell oddiwrtho. Y mae fel ar ei oreu yn ceisio atal pechu; weithiau mewn tystiolaeth, bryd arall mewn dymuniad; i.e. mewn gweddiau, erfyniau, deisyfiadau. Bryd arall y mae fel yn dilyn ar ol y pechadur, gan estyn ei law ato; dro arall yn agor y nefoedd, tywallt bendithion; bryd arall, saif o'i flaen, a chaua ei ffordd a drain; dro arall tywallta ei farnedigaethau yn gawodydd dychrynlyd, Beth yw hyn oll? Atal pechadur fel *na phecho*. 2. Y mae llais cydwybod yn rhoi, *Na phechoch*. Dyma dyst dros Dduw at y dyn, fel na phecha. Gwasanaeth y gydwybod yw gwilio y dyn dros Dduw. 3. Anfanteision y gydwybod—ei llygredigaeth ei hun, y gwobrwyo sydd arni er ei dystewi; eto tystia ddau beth, sef hawliau Duw, a chanlyniadau pechu. Dywed, er fy mod yn cael fy nhroi heibio heddyw, mi a'th gyfarfyddaf eto mewn lle na elli ddianc.

Y mae lleisiau creadigaeth a rhagluniaeth yn gwaeddi, *Na phechwch*; tlodi, cystuddiau, siomedigaethau, poenau, angau, trychineb gwladol, &c. Yr un peth a ddywed haul a lloer, a ser y nefoedd, ehediaid yr awyr, a'r

ddaeear a'i chyflawnder, &c. Y mae tafod gan bob creadur, a iaith pob tafod ydyw, *Na phecwch*. O, mor fyddar yw dyn at alwadau Duw! Y mae Iesu Grist yn nglendid ei ddynoliaeth, perffeithrwydd ei ufudd-dod, yn ngwerth ei aberth, ei waed, digonolrwydd ei lawn, ei weddian, ei eiriolaeth, yn uchel lefain, *Na phecwch*. Y mae gruddfanau yr ardd, chwys Gethsemane, gwardwydd y llys, cernodau y milwyr, yr hoelion dur, yr ingau a'r cur, y bicell fain, y goron ddrain, brwydr Calfaria, yr Eli Lama Sabacthani—buddugoliaethus lef y gair Gorphenwyd yn lleisio mor uchel, *Na phecwch*, fel y mae swn nerthol yr holl bethau hyn yn llenwi nefoedd, daear ac uffern. Tybiwyf mai y pethau rhyfedd hyn a dynant sylw holl ymerodraeth Duw, i.e. sylw mwyaf Duw ei hunan. Beth yw llais dŵfn a dwys y cyfan, NA PHECHWCH. Tybiwyf fod y gweinidogion sydd wedi cyrhaedd eu cartref yn anfon eu cenadwri gyda phob angel, Dywedwch oddiwrthym wrth drigolion y ddaear am iddynt beidio pechu. Gallem feddwl fod tadau, mamau, brodyr a chwiorydd, cyfeillion, athrawon, &c., yn deisyf arnynt ddywedyd wrth holl bobl y ddaear, *Na phecwch*. Ac nis gallwn lai nac ofni fod rhai o wlad colledigaeth yn erfyn arnom beidio a pechu. Dywedant, Gwelwch ein cadwynau, clywch ein gruddfauau, syllwch ar ein gwaeau, edrychwch ar ein poenau, ystyriwch ein tloidi anobeithiol, a dirdyniadau ein sefyllfa—ewch i ryw le yn hytrach nag yma. Os deuwch yma, bydd eich poenau yn fil mwy nag ydynt yn awr. "Oh dad, Abraham, anfon i dy fy nhad," &c., ein bod yn unfrydol am iddynt beidio a dyfod i'r lle poenus hwn. *Na phecwch* yw iaith y rhai hyn oll.

Gwelwn fod ffordd gwneyd am fywyd wedi ei chau i fyny. Darfu am hon byth; pechu, pechod, a pechaduriaid, sydd yn llon'd y ddaear. O PHECHA *neb, os pecha neb, ac er pechu neb*. Y mae pawb yn bechaduriaid, am hyny y mae cael bywyd yn hon, y ffordd wreiddiol, wedi ei chloi i fyny am byth. Nid oes gan bechadur mwy fodd i agor y ffordd hon; amlygodd Duw hyn yn y fân pan y pechwyd; cauwyd, a chad-

wyd, a chedwir y ffordd hon yn gauedig byth. Y mae yma gerubiaid a chleddyf tanlyd, neu fflam cleddyf yn ymdroi, neu yn ei droi ei hun bob ffordd. I ba beth? I gadw y ffordd yn gauedig rhag eu dyfod at bren y bywyd. Darfu am y ffordd hon; ond yn y testyn dangosir ffordd newydd i gael bywyd. Bendigedig fyddo Duw, yn dri o bersonau, am y newydd rhyfedd hwn! Y mae y ffordd newydd yn cynwys dau beth oedd yn gwbl ddyeithr i'r hen ffordd, sef Eiriolaeth ac Iawn. Mae yn wir mai Iawn sydd yn ymddangos gyntaf yn nhrefn Duw; Eiriolwr a enwir yn gyntaf yma. Ymlithro y mae yr Apostol at athrawiaeth yr Iawn oddiwrth athrawiaeth yr Eiriolwr, fel pe buasai yn cydnabod nad oedd sylfaen, defnydd na grym yn yr Eiriolaeth heb yr Iawn. Rhaid cael Iawn i ollwng y pechadur yn rhydd, a rhaid cael Eiriolaeth i'w gadw yn rhydd byth. O herwydd yr Iawn y gollyngwyd ef yn rhydd, a rhinwedd yr Iawn drwy weinyddiad yr Eiriolaeth a'i ceidw ef yn rhydd byth.

Nid yw yr apostol yma yn athrawiaethu ar yr eiriolaeth yma fel mater, ond yn unig coffau am gymwysderau yr eiriolwr, ac wrth hynny gadw y sicrwydd am ei llwyddiant yn y golwg. Dengys yma dri pheth sydd yn sicrhau ei llwyddiant; sef, 1. Sefyllfa yr eiriolwr—"gyda y Tad. 2. Swydd, "Iesu Grist." 3. Ei gymwysder personol—"cyfiawn." Dyma dri pheth sydd yn gwneyd Iesu Grist yn eiriolwr cymwys iawn. Swydd a chymeriad, heb sefyllfa fanteisiol, sydd ry fychan. Gall fod un yn eiriolwr mewn llys gwladol yn ei swydd, a chymeriad da iddo, ond heb sefyll mewn sefyllfa fanteisiol gyda y barnwr a'r llys. Ni wna sefyllfa a chymeriad y tro chwaith heb iddo ymgymeryd ag achos y troseddwr. Mynych iawn y ceir eiriolwyr yn ddiffygol yn y pethau hyn. Ond y mae i ni eiriolwr sydd yn orlawn o'r holl gymwysderau hyn.

Cyfiawnder yw un o hanfodion eiriolaeth Crist. "Y Cyfiawn" yw eiriolwr pechadur. 1. Y mae yn gyfiawn bersonol ei hunan; y mae cyfiawnder yn briodoledd anfeidrol ynddo. Gall hyn fod yn eisiau mewn llys-

oedd gwladol, er hyny fod yr eiriolaeth yn llwyddianus; ond ni fyn Duw eiriolwr heb ei fod yn gyfiawn ei hun.

2. Eiriolaeth gyfiawn yw ei eiddo. Efe a bleidia y *case* yn deg, ar dir cyfiawnder; cerdda ganol llwybr barn gyda'i achos bob cam. Gwna y troseddwr yn rhydd, yn gyfiawn. Dyma beth na ellir ei wneyd yn wladol; os bydd troseddwr, y mae yn anmhosibl ei gael yn rhydd yn gyfiawn; ac anmhosibl oedd i Grist wneyd hyny oni b'ai yr hyn sydd yn y rhan arall o'r testyn. "Ac efe yw yr Iawn." Dyma beth arall a ddengys nerth a llwyddiant yr eiriolaeth, sefyllfa a pherthynas yr eiriolwr, "gyda y Tad." Dyma y barnwr. Tad yw y barnwr yma. Onid oes yma olwg obeithiol iawn ar achos pechadur? Ni ddywedir Tad pwy ydyw; ond y mae yn amlwg mai Tad ydyw. Y mae efe yn Dad yr eiriolwr, ac yn Dad y troseddwr. "*Fy Nhad i a'ch Tad chwithau.*" Peth anaml yw hyn yn mysg dynion; pe ceid hyn, y mae yn dra thebyg y rhyddheid y troseddwr, o herwydd byddai yn ofnus na thelid digon o sylw i gyfiawnder yn y fath amgylchiad. Ond yr achos rhyngom a Duw, y mae holl briodoleddau a chymwysderau Tad yn y Barnwr. Anwyldeb, tynerwch, a gofal Tad; ac eto y mae yn gweithredu yn hollol annibynol, gan ddilyn rheolau manylaf cyfiawnder. Dangosir hyn trwy ddau beth. 1. Y mae cyfiawnder i deyrnasu drwy yr holl eiriolaeth. Ni wna tynerwch Tad wyro barn a chyfiawnder. 2. Rhaid cael iawn, sylfaen gref i weinyddiad cyfiawnder, mewn gollwng y troseddwr yn rhydd. A ddaw y troseddwr yn rhydd? Daw. A ddaw efe yn rhydd yn gyfiawn? Daw. Pa fodd? "Efe yw yr Iawn." Dyma drefn oleu, gyfreithlawn, gref; ffordd gwirionedd, cyfiawnder a thru-garedd, heb fod y naill yn taro yn erbyn y llall. "Fel y byddai efe yn gyfiawn ac yn cyfiawnhau." Yn awr, edrychwn ar sylfaen holl achubiaeth pechadur, "Efe yw yr iawn." Tair gwaith y cawn y gair hwn yn uniongyrchol ddynodi Crist: "Hwn a gosododd Duw yn Iawn." "Anfon ei Fab i fod yn Iawn." Ac yn y testyn, "Efe yw yr Iawn." Y gair Saesoneg yn y tri lle

hwn yw *propitiation*—ymheddyc'iad, ymgymodiad, llonyddiad, dyhuddiad, boddloniad. Y mae y cyfeithiad Cymraeg yn cynwys golygiad ychwanegol—Iawn, un iawn, cyfiawn, cyfreithlon, cywir, cydwerth, cyfartal, un yn lle arall, pridwerth, digonolrwydd. Y mae dau ystyr i'r gair Iawn yn yr iaith Roeg; 1. Aberth a wnaeth gymod. 2. Trugareddfa, neu trugaredd. Y gair Hebraeg am drugareddfa a arwydda, gorchudd cysgodol, y caud a guddiai y llechau, neu y ddeddf o fewn yr arch. Daeth Crist yn gauad ar y llechau, efe a'u cuddiodd. Aeth yn ddiwedd i'r ddeddf yn ei ffurf gyfamodol, yr hon oedd yn gofyn ac yn bygwth pechadur. Taenellid y gwaed gan yr archoffeiriad ar ddydd y cymod, a thaenellid ef o flaen y drugareddfa. Nis gellid boddloni y llechau & chaudiad yr arch heb waed. Ni wnai Crist yn ei berson yn unig y tro; yr oedd yn rhaid cael gwaed y person. Ond gall y gair Trugareddfa arwyddo pech-aberth, drwy draws-enwad, ac felly iddo gael ei gyfiaith yn Iawn; canys y mae aberth yn hanfodol i Iawn; a rhaid oedd i gauad yr arch ddal allan *aberth* gwaedlyd, yn gystal a man trugaredd. Yr oedd dau beth yn y pech-aberth—

1. Gwneuthur dihuddiant, heddwch, diffodd llidiawgrwydd, llonyddu y Duwdod. Yn y ddeddf yr oedd efe yn gofyn pechadur, ac o herwydd troseddu y ddeddf yr oedd yn ei gospi; felly yr oedd yn rhaid cael gwaed ar gauad yr arch i anrhydeddu y ddeddf, ac felly llonyddu y Duwdod anfeidrol.
2. Arwydda y pech-aberth wneuthuriad cymod drwy aberth, cymod dros eraill; gan hyny y mae son am Iawn heb ei fod dros neu yn lle eraill yn anghysondeb. Gwir y dywed y testyn, "tros ein pechodau ni," ac nid trosom ni. Ein pechodau ni a barodd yr angenrheidrwydd am Iawn. Iesu Grist ei hunan yw yr Iawn, nid ei ufudd-dod neu ei ddyoddefaint, ond efe ei hunan yn ei holl berson fel Duw-ddyn. Priodol ystyr y gair iawn yw un yn lle, a phob peth, megys gweithrediadau a dyoddefiadau, dihuddiant, cymod, boddlonrwydd, &c., ydynt bethau Crist yn lle pechaduriaid. Gan hyny nid cymwys, dybygid, yw dy-

wedyd i Grist wneyd iawn, talu iawn ; ac eto gellir dywedyd iddo wneyd pob peth yn iawn. Hefyd iawn i Dduw ydyw, nid iawn i'r ddeddf, nid i'r llywodraeth foesol, nid i gyfiawnder ; ond iawn i Dduw ydyw efe. Y mae yn wir fod dyoddefiadau yn hanfodol i'r Iawn, ac eto nid y dyoddefiadau oedd yr Iawn. Duw a'i gos ododd ef yn iawn, a Duw oedd yr unig un a allasai ei dderbyn ef yn Iawn drosom ni. Cosb pechaduriaid oedd arno ef, yr hon a elwir, "Cosbedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef." Efe ei hun, yr hwn oedd yn ufuddhau ac yn dyoddef drosom ni, oedd yr Iawn i Dduw. Hefyd nis gallaf weled fod cydbwysedd rhwng yr Iawn a drygedd pechodau, canys y mae anfeidroldeb ac annherfynoldeb yn yr Iawn, gan ei fod yn Dduw-ddyn ; ac nis gallaf weled dim yn un man yn meddu ansoddau o gydbwysedd â Mab Duw. Byddaf yn edrych ar y cydbwysedd hwn yn gabledd. Nis gellir gweled na son am derfynau yr Iawn, ond gellir cymwysu y fath air at ei osodiad a'i gymwysiad, yn ei gysylltiad â phersonau. Yr oedd ei ufudd-dod a'i ddyoddefiadau ef yn rhoddi boddlonrwydd perffaith i Dduw y Tad. Yr oedd yn aberth di-fai iddo. Dichon y dylwn wneyd dau sylw pellach :

1. Llanwodd Crist y gwagle mawr a wnaeth pechod rhwng Duw a phechadur. Llanwodd yn gyflawn y gagenda a dorodd pechod rhyngom a Duw.

2. Llanwodd ei ufudd dod ef a'i ddyoddefiadau bob *demands*, a daeth yn gauadlen digon mawr i orchuddio dros yr holl arch, yn yr hon yr oedd llechau y cyfamod yn cartrefu. Boddlonrwydd oedd teimlad pawb a'i gwelodd hyd yma. Dywed dithau, yr wyf yn foddlawm am byth ; cyfarfyddaf â Duw ar y drugareddfa hono a daenellwyd â gwaed. Cyfarfyddaf ef yno heb arswyd ; cofleidiaf y llechau a foddlonwyd â gwaed, a chofleidiaf y llechau finau, er fy mod yn droseddwr ; ac felly byddwn yn cofleidio ein gilydd yn oes oesoedd.

PREGETH IV.

“Canys un Duw sydd, ac un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu.”—1 TIM. 2 : 5.

Daw y geiriau hyn i mewn yn rheswm am weddio dros bawb. Dyma eang derfynau gweddi; canys un Duw sydd, am hyny rhaid i'r cylch fod yn ddigon mawr i gymeryd pawb i mewn, fel ag i gasglu pawb at yr un hwn. Hefyd tybir fod yma gyfeiriad at achosion y gwahaniaethau rhwng ieithoedd a llwythau teulu Adda. Mawr y llafur a gymerwyd i enill dynolryw at eu gilydd; ac nid rhyfedd, pan ystyriom mai Duw a'i gwasgarodd, a bod y canolfur hwn wedi sefyll mor hir, a bod y cyfryw wedi bod yn achlysur derchafiad crefyddol un genedl uwchlaw y lleill; nid rhyfedd fod y genedl hon yn ymdrechu i gadw y clawdd i fyny cyhyd ag y gallent. Ond yn awr, medd yr apostol, “un Duw sydd,” efe yw eu creawdwr, eu cynaliwr, eu llywodraethwr, a'u barnwr; i.e., ac un achubwr hefyd, canys dywedir mai un cyfryngwr sydd rhwng Duw a dynion. Wrth ddwyn i mewn gyfryngwr a chyfyngdod, Duw achubwr a olygir; nid oes a fyno yr enwau perthynasol eraill â chyfryngwr fel y mae y dyn Crist Iesu yn gyfryngwr. Nid person y Tad yn briodol a olygir yma wrth un Duw, ond yr holl hanfod Ddwysol; a theifl y testyn olygiad allan mai holl berson y Cyfryngwr a feddylir, er enwi y dyn Crist Iesu. Y mae yma er hyny lawer iawn o swm y dyn yn y cyfryngwr. Sylwch ar dri gair, *y dyn*, cnawd, perthynas natur â ni; *Crist*, dyma enwad swyddol, perthynol i Dduw; *Iesu*, enwad swyddol eto, ond dal perthynas â'r dyn y mae hwn; Gwardwr, i ddyn y perthyn hyn; felly y mae dau o'r tri chymeriad sydd yn cyfansoddi cyfyngdod yn sefyll ar ochr y dyn. Y mae tri pheth yn cyfansoddi cyfyngdod, 1. Gosodiad; ceir hyn yn yr enwad *Crist*. 2. *Perthynas*, y mae hyn yn yr enwad *dyn*. 3. Gwaith, ceir hyn yn yr enwad *Iesu*.

“Un Duw sydd.” 1. Gwelwn drwy hyn fodolaeth

Duw. Y mae y bod o Dduw yn cael ei dystiolaethu yma. 2. Gwirioneddolrwydd y bod hwn; nid mewn enw yn unig y mae, ond y mae efe yn fod sylweddol a gwirioneddol. 3. Unigolrwydd y Duwdod, *un Duw sydd*. 4. Anghyfnewidioldeb y bod hwn, *sydd*. 5. Holl-bresenoldeb y bod hwn; y mae y drychfeddwl o'r priodoldeb o ddywedyd yn mhob man, *Duw sydd*. 6. Tragwyddol barhad, *sydd fydd* am dano yn oes oesoedd.

Ond, dybygid, dylid ystyried nodweddiad Duw yn sefyll yma mewn cyferbyniad berthynasol, a phriodoldeb cysylltiadol a'r gyfryngaeth a nodir yma; canys ni oddef y testyn olygiad gwahanol; ac os saif nodweddiad Duw mewn cysylltiad a'r gyfryngaeth, rhaid hefyd ei fod yn sefyll mewn cysylltiad a'r ochr gyferbyniol; o herwydd lle mae dwy ochr a chyferbyniad, rhaid fod pethau y naill ochr yn perthyn i'r llall, neu yn dal perthynas a'r ochr arall, a rhaid fod pethau y ddwy ochr yn dal perthynas a'r gyfryngaeth, a rhaid fod pethau y gyfryngaeth yn dal perthynas a phethau y ddwy ochr. Yn awr, ar ol gwneyd math o ragymadrodd fel hyn, disgynwn yn fwy neillduol ar gynwys y testyn.

I. Sylwn ar eithafion pellder y ddwy blaidd oddiwrth eu gilydd, rhwng pa rai y saif y dyn Crist Iesu yn gyfryngwr. Ond gwnawn ychydig sylwadau yn flaenorol i hyn. Yn gyntaf, rhaid setlo a Duw ei hunan, nid oes ond efe; *un Duw sydd*. Nid oes symud i fod byth & bys neb arall. Clyw gyfaill, nid oes neb arall a all ei dafu ef heibio. "Un gosodwr cyfraith sydd, *yr hwn a ddichon gadw a cholli*." Ewch i'r man yr eloch, byddwch yn sicr o gyfarfod a'r un Duw hwn. "I ba le yr af oddiwrth dy Ysbryd?" Yn ail, y mae anghyfnewidioldeb yn hanfodol ynddo; ni waeth heb ddysgwyl iddo newid—*sydd*; goreu po gyntaf i'w gyfarfod, canys efe a safodd yr un trwy holl chwildroadau a chyfnewidiadau y codwm, ac fe saif ef yn ei le byth; megys yr oedd efe yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn oes oesoedd. Y mae sefydlogrwydd tragwyddol yn y gair *sydd* yn y testyn. Yn drydedd, *sydd*,

dyma barhad y presenol. Pe byddai rhyw fath o rowlio neu ysgogi i rywle, byddai gobaith darfod. Ond *ydwyf* mawr, heb symud yw y gair, ac a hwn y rhaid *settle* y cweryl. Yn olaf, ni dderfydd y cweryl heb ei *settle*; y mae amser, amgylchiadau, a threigliadau wedi dybennu llawer anghydfod rhwng dynion, a lladdodd amser lawer peth digon cas. Bu symudiadau y ddwy ochr yn mhell oddiwrth eu gilydd yn farwolaeth i lawer peth digon anghysurus rai troion; ond ni wna amser, ie, na thragywyddoldeb, ladd a dybennu yr anghydfod yma sydd yn sefyll rhwng Duw a dynion. Nid oes bosibl i ti, ddyn, symud byth yn bell o bresenoldeb Duw. Wrth i ni ystyried y pedwar peth hyn, gwelwn werth trefn y cymod mewn cyfryngwr. Yn awr edrychwn yn fwy uniongyrchol ar bellder y pleidiau, y rhai y saif y dyn Crist Iesu yn gyfryngwr rhyngddynt.

1. Mae yn bellder o annhebygoliaeth naturiol—anfeidrol a meidrol. Dyma bellder na wna cyfnewidiadau pechod na chyfnewidiadau gras ddim effaith arno; y mae trigolion Gehena, a phreswylwyr gogoniant, yn sefyll yn yr un pellder oddiwrtho ef yn yr ystyr yma. Nid yw cyfryngdod Crist yn effeithio dim ar hwn chwaith.

2. Mae yma bellder moesol. Yn y wedd hon arno y mae cyfryngdod y “dyn Crist Iesu” yn angenrheidiol, defnyddiol, ac effeithiol. Mae yn wir fod y pellder arall a'i berthynasau yn rhoddi anfeidrol bwys ar y pellder hwn. Beth sydd yn gwneyd y pellder pechadurus yn anfeidrol? Anfeidroldeb y bod y pechwyd yn ei erbyn. Pa beth sydd yn galw am i'r cyfryngwr fod yn berson anfeidrol? Duw anfeidrol a dyn meidrol yw y pleidiau. Gyfaill, y mae dy berthynas greadigol, dy gyfansoddiad goruchel, dy gyfrifoldeb moesol, dy barhad tragwyddol, yn *centro* yn dy berthynas â'r Anfeidrol. Ein perthynas naturiol ni â Duw sydd yn cyfansoddi y pwysau mawr yn ein perthynas ag amryw bethau eraill; a chan ein bod wedi tori allan mewn gwrthryfel yn erbyn Duw, rhaid oedd cael un mawr a hynod i sefyll yn y canol os oedd cymod i'w wneyd; ac

y mae yn ddedwyddwch i mi gael dweyd, Y mae y dyn Crist Iesu yn ddigon mawr i Dduw, ac yn ddigon agos at ddynion. Rhaid fod ynddo adfeidroldeb i Dduw, a meidroldebi ninau. Ie, y mae efe yn un a all osod ei law arnom ein dau; y mae yn llon'd y gwagle mawr sydd rhwng Duw a dynion.

3. Y mae yn bellder o anghyfartalwch. Anghyfartalwch y pleidiau fel personau; a chyda golwg ar doriad allan yr anghytundeb, rhaid i ni gydnabod fod achos y cweryl yn gwbl ynom ni ein hunain; ac y mae ymddygiadau dyn wedi bod byth ar ol hyny yn ymosodiad parhaus ar Dduw a'i lywodraeth, a hyny yn wynebu daioni a thiriondeb anfeidrol. Y mae anghyfartaledd rhyfedd yn ngallu y pleidiau hyn i garic yn mlaen yr ymryson neu y rhyfel sydd rhyngddynt a'u gilydd.

Clywch amddiffyn Duw ei hunan, y mae ganddo ddigon o allu, digon o ddoethineb, a digon o gyfiawnder; ond wrth iddo weithredu yn ol y pethau hyn, bydd dryllio ofnadwy ar ei elynion. Y mae peth yn yr anghytundeb yn sicrhau un ai dinystr dynolryw, neu ynte, gael cymodi a Duw drwy gyfryngwr. O! elyn Duw, clyw; nid oes un math o obaith am danat wrth barhau i ymladd—y mae un o ddau beth yn anocheladwy o'th flaen; un ai distryw llwyr, neu dderbyn cyfryngwr. Y mae mawredd gallu, cyfiawnder, doethineb, a phenderfyniad yn y blaid sydd yn dy erbyn; gall y gelyn gynllunio a bwriadu, ond beth a dâl y cyfan yn nydd digofaint Duw, gan nad oes yna gyfartalrwydd.

Gwelwn yn mhellach afresymoldeb ymladd yn erbyn Duw, wrth i ni ystyried, 1. Mai deddfroddwr a llywydd dyn yw Duw yn y cweryl hwn—deddfroddwr a gafodd bob sarhad oddiar law y blaid wrthwynebol. Yn ei ddeddf y mae Duw yn ein cyrhaedd ni, ac os tan draed y mae y ddeddf, gellir dywedyd ar un golygiad fod Duw ei hun o dan eu traed, o dan draed ei elyn. Can belled ag y mae y gelyn yn gallu cyrhaedd, y mae "syniad y cnawd yn elyniaeth yn erbyn Duw," yr hyn a ddengys ei hun drwy beidio bod yn ddarostyngedig i

ddeddf Duw. Onid hollol afresymol yw yr elyniaeth yma sydd mewn dyn yn erbyn Duw.

2. Ystyriwn gymwynasau afrifed a thrugareddau Duw i'w elynion, ac er hyny yn cael pob anmbarch oddiar ein dwylaw. Nid oes a gyneua ddigofaint Duw yn fwy ofnadwy a nerthol, na derbyn sarhad am gymwynasau. Y mae hyn yn cael ei hwttio a'i hysio o blith dynion am y cyfryw ymddygiadau tuag at eu gilydd. Dywed y Salmydd, "Llawer gwaith y gwaredodd efe hwynt." Beth wedi hyny? "Hwy a wanychwyd am eu hanwiredd."

3. Tystiolaethau y gwir yw safon Duw yn y cweryl hwn. Y mae pob peth ei elyn yn ymgais i'w wneyd ef yn gelwyddog. Dyma beth anhawdd i Dduw y gwirionedd ni ôddef. Y mae yn bur gas ei daflu i wyneb creadur ffaeledig, ond pa faint casach ydyw tuag at Dduw?

4. Gofynion cyfiawn Duw am ei hawliau yw y *platform* y saif Duw arno yn yr achs am byth. Ond cael ei herio y mae efe yn hyn oll, a llawer yn eu hymddygiadau yn dywedyd wrtho yn ei wyneb, Gwna dy waethaf, ni thalaf byth yr hatling leiaf i ti o'm dyled. Chwarddant am ben y gotynwr cyfiawn. Dyma ymddygiad annyoddefol iawn; a pha ryfedd ei fod yn eu taflu i'r carchar hyd oni thalant yr hatling eithaf.

5. Bôd sanctaidd a glân yw Duw, a'i gymeriad yn berffaith loew, er yr holl anghydfod hwn, ac er pob aflendid a budreddi a dafliid i'w wyneb ef. Byddai yn bur annyoddefol i wr boneddig parchus gael ei drin fel hyn, gan daflu llaid yr heolydd i wyneb y boneddwr oedd yn cynal yr adyn digymeriad. O! feibion dynion, na theflwch fudreddi eich pechodau i wyneb glân y Duwdod. Dyna ddesgrifiad byr ac egwan iawn o'r pleidiau y saif y dyn Crist Iesu rhyngddynt.

II. Sylwn ar y cyfryngdod—y drefn i gael y ddwy blaid at eu gilydd mewn heddwch. Sylwn yn gyntaf ar y cyfryngwr.

1. Rhaid fod ei berson yn cynwys cyfartalwch a'r ddwy ochr. Nid edrychai Duw ar neb is nag ef ei hun,

ac ni allai dyn edrych ar neb uwch nag ef ei hun; am hyny yr oedd yn rhaid fod yn ei berson addasrwydd i gyrhaedd y ddwy ochr. Beth yw dyben y cyfryngdod? Dwyn y ddwy blaid at eu gilydd mewn heddwch. Gwelwch i'r fath ddyfnder yr oedd yn rhaid myned iddo i gael gafael ar ddyn; yr oedd dyfnder pechadur yn ormod i'w gyrhaedd gan y Duwdod yn ei noethder, ond yn unig i'w osod o dan ei draed am byth; yr oedd yn rhaid cael grisiau dynoliaeth i ddisgyn i lawr wrthi. Yr oedd uchder y Duwdod yn ormod i'w gyrhaedd gan ddyn; rhaid cael Duw i gyrhaedd Duw. Pwy feiddiai ddisgyn i'r gwaelodion? Gormod i Dduw. Pwy feiddiai i'r uchder? Gormod i ddyn i'w wneyd ac yntau yn byw mewn trueni a phechod. Pwy a fedr gael dyn o'r gwaelodion yn ol at Dduw svdd yn yr uchder, mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd? Pwy? Rhaid eu cael at eu gilydd cyn gwneyd, a'u cael i fan priodol i'r ddwy blaid. Dichon y gallasai angel ddisgyn at ddyn i'r gwaelodion, ond a fuasai ei ymwneyd a ni, ac esgyn â'r dyn yn ei afael i'r uchelder at Dduw, yn beth posibl, tybed? Ond wele y Cyfryngwr yn gallu gwneyd y ddau. Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd. Lledodd ei ddwy fraich fawr, a chyrhaeddodd y ddau begwn eithafol—cyrhaedd Duw a dyn, a gwnaeth hyn ar unwaith. O! fy enaid, saf yn syn, gan edrych acw ar y person sydd yn sefyll yn wyneb Duw a dynion. O! asaelion mawrion y Cyfryngwr! cyrhaeddodd ddyfnder y pydew yn rhinwedd ei ufudd-dod a'i waed ei hun. Cyrhaeddodd hefyd uchder yr orsedd & haeddiant ei ufuddod a'i waed. Llanwodd y gwagle oedd rhwng y Duwdod a phechadur â'i berson, ei brynedigaeth a'i iawn, fel y mae preswylwyr y dyfnder a phreswylwyr y goruchelder o fewn cylch a modrwy y gyfryngaeth anfeidrol hon. Un cyfryngwr, digon o un, nid oedd eisiau rhagor. Yn awr, fy enaid, cyfod i gyfarfod a Duw yn hwn, rhag y lladd tragwyddol. Neidiodd y dyn Crist Iesu i'r gwagle mawr oedd rhwng Duw a dyn mewn ystyr foesol, cyrhaeddodd y ddwy ochr, daeth a'r ddwy yn nghyd mewn cymod, perthynas, a chartref.

2. Sylwn ar ei ddewisiad a'i gymwysder i fod yn ganolwr. Gwir nad oedd gan ddyn law yn newisiad y cyfryngwr, o herwydd nid oedd mewn bod y pryd hwnw; a phe buasai mewn bod, nid oedd yn meddu cymwysder i'r gwaith hwnw mewn un radd. Yr oedd ei elyniaeth yn ei anghymwyso i ddewis cyfryngwr, ac y mae lladd gelyniaeth a chymeradwyo y cyfryngwr yn cymeryd lle ar unwaith; felly nis gallasai fod gan ddyn law yn ei ddewisiad fel cyfryngwr. Trwy ei weithrediad fel cyfryngwr y mae efe yn dwyn dynion i'w gymeradwyo. Ond cymeradwywyd ef gan Dduw fel un cymwys i'r swydd. "Fy etholedig, i'r hwn y mae fy enaid yn foddllawn." Efe a'i cymeradwyodd ef o herwydd ei gymwysder. Yr oedd anwydeb mawr rhyngddynt erioed, ond edrychwyd yn fwy chwanog arno, sef ar ei gymwysderau. Hefyd cymeradwywyd ef o herwydd yr ymddiried oedd ganddo yn ei ffyddlondeb ef. Wrth ystyried y pethau a nodwyd, yr oedd pob cymwysder i un ochr gael dewis cyfryngwr, ac wrth i ni edrych ar y peth canlynol gwelir y mater yn amlycach fyth.

1. Yr oedd ochr Duw yn ddi-fai yn yr holl anghytundeb.
2. Gan yr ochr hon yr oedd perffaith adnabyddiaeth o'r anghytundeb.
3. Elw yr ochr arall oedd mewn golwg. Gallasai y Duw mawr nosio byth mewn dedwyddwch er i ni fod yn y gwaelod byth. Cymeradwy yw y Canolwr mawr; nid oes gan neb ddim i'w roddi yn ei erbyn. Hyfrydwch ei Dad oedd efe beunydd, ac ni throeddodd un amser ei orchymyn ef. Nid oes gan ochr y dyn ddim i'w roddi yn ei erbyn ef; ceisiwyd at hyn lawer gwaith—"Y mae hwn yn bwyta gyda phechaduriaid." Pa ddrwg sydd yn hyny? Derbyn pechaduriaid. "Mae cythraul ganddo." Nac oes. "Dyn glwth." Nage. "Y mae efe yn cablu." Naddo erioed. Gwnaeth ei lwybrau trwy yr anialwch mwyaf dyrys; gwnaeth waith mwyaf cywrain mewn Cyfryngwr; datedodd y cylmau mwyaf dyrys oedd yn sefyll rhwng y ddwy blaid, a gwnaeth y cwbl oedd yn gymeradwy. Yr oedd llygadu craff arno drwy yr holl ymdriniaeth, ac yr oedd

ei waith yn un dyrys a chywrain iawn, ond dywedir am dano yn ei holl waith cyfryngol, "Yr hwn ni wnaeth bechod;" hwn ni wnaeth ddim o'i le; ni wnaeth gam ag un ochr. Triniodd lawer ar bechod, a handlodd lawer ar bechaduriaid a'u hachos pechadurus. Daeth i ddeddfle y pechodur, i'w natur, ac i'w fyd ef, i ganol haint pechod, eto gweithredodd yn deg oblegid ei Dad, ei orsedd, ei ogoniant, a'i lywodraeth. O'r ochr arall, ni thafodd achos y dyn dros y bwrdd; safodd yn sefydlog o blaid y pechadur. Gallem ddefnyddio geiriau y lleidr ar y groes ar uniondeb gwaith y Cyfryngwr, "Hwn ni wnaeth ddim o'i le," tuag at ei Dad na phechadur, pan yn y canol rhwng y ddau leidr. Cymer bwyll, y pentewyn; gwell i ti ddywedyd fel Pilat, "Nid wyf fi yn cael dim bai ynddo." Na, mi sentraf ddywedyd, nad oes bai ynddo. Ni welwyd cyfryngwr erioed eto heb gael ei feio, a thebyg nad oes neb heb eu beiau; ond arosed pawb ddiwrnod digon goleu; bydd y Cyfryngwr hwn yn eithaf difai. O! r anwyldeb a'r cyfiawnder fydd yn dysgleirio ar yr holl weithredoedd cyfryngol, fel y bydd yn hawlio cymeradwyaeth pawb. Gwaith penaf yr angelion a'r gwaredigion o hyny allan fydd rhyfeddu y cyfryngod. Duw Ysbryd Glan a roddo oleuni ar y meddwl i ganfod rhyfeddodau y Cyfryngwr a'i waith.

3. Y mae elw y Cyfryngwr yn codi o'r ddwy ochr. Ni allasai lai na gofalu am ochr Duw, canys ochr ei Dad oedd ei achos ef ei hun, fel yr oedd efe yn Dduw; gwneyd cam a gorsedd Duw ac a gogoniant ei Dad, a fwasai gwneyd cam ag ef ei hun. Yr oedd arno rwyman i edrych at ochr dynion hefyd, canys achos a mater ei frodyr oedd ganddo; a'i ddyben oedd gwneyd tegwch â phob ochr. Cymerodd holl drueni ei frodyr arno ei hun fel eiddo Duw; gweithiodd allan eu holl holl fanteision i'r ddwy blaid. Fel dyn gweithiodd allan fanteision ei frodyr. Hefyd yr oedd amod ac addewid yn rhoddi iddo fantais yn manteision y ddwy blaid. Yr oedd y dyn Crist Iesu i'w anrhydeddu am ogoniant Duw a dedwyddwch dynion. Yr oedd amod

y cyfamod yn cyfansoddi *interest* iddo yn ochr ei Dad. Ymrwymodd y Cyfryngwr yn y cyfamod hwnw i wneyd pob peth yn iawn tuag at Dduw; yn wir, hyn ydoedd hanfod amod y cyfamod, sef tragwyddol ddiogelu Duw rhag colled, anghyfiawnder a sarhad. Dyma y peth mawr a godai o'r amod hwnw yn y cyfamod. Hefyd yr oedd addewid y cyfamod hwnw yn cyfansoddi elw i'r Cyfryngwr am gyflawniad ei waith dros ddynion. Hanfod yr addewid hon oedd i'r Mab weled ei had, a chael ei ddiwallu â had; gan hyny yn briodol y geilw yr apostol ef yn gyfryngwr y testament newydd, neu gylamod gwell. Mae yn wirionedd amlwg fod gogoniant Crist ei hun o fewn addewid y cyfamod, yn dal perthynas a'r Cyfryngwr; achubiaeth dynion oedd ei swm. Yn awr gwelwn fod dwy ochr y cyfamod yn dal i fyny anrhydedd y Cyfryngwr yn ei gyfryngdod. Hefyd yr oedd unoliaeth cariad Crist yn cyfansoddi meddiant iddo oddiwrth y ddwy ochr. "Fel y carodd y Tad fi, felly y cerais inau chwithau." Dyma gariad y Tad yn caru y Mab yn gariad y Mab yn caru dynion. "A charu o honot hwynt megys y ceraist fi." Dyma gariad y Tad yn caru dynion, fel y mae yn caru y Mab. O! y plethiadau sydd yma, a'r cyfan yn dangos cyfaddasrwydd Crist fel Cyfryngwr. Yn awr y mae yn rhaid y caiff y ddwy blaid chwareu teg, gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da. Y mae gogoniant Duw ac ewyllys da i ddynion wedi eu gosod am dragywyddoldeb o dan yr un diogelwch; o herwydd mae y cyfan dan ofal Ceidwad dyn, a hwn yn Dduw cadarn. Mae efe yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr, fel y byddai yn drugarog. Y mae hefyd yn archoffeiriad ffyddlawn yn y pethau a berthyn i Dduw. Cadwodd y ddwy ochr yn wastad hyd y diwedd.

Yr ail sylw fydd ar y cyfryngdod. Wedi bod yn edrych ar y gweinyddwr, y Cyfryngwr, deunw yn mlaen i sylwi ar y cyfryngdod. Priodol yw edrych ar ei sefyllfa fel canolwr. Yr oedd ofnadwyaeth a phwysigrwydd yn perthyn i'r sefyllfa hon—sefyllfa rhwng Duw

a dynion. Adwy ryfedd oedd hon, ac yr oedd y pwysigrwydd mwyaf yn yr hyn a wneid yn y sefyllfa hon. Gyda golwg ar y ddwy ochr, yr oedd pallu neu fethu o'r canlyniadau mwyaf arswydus i'r ddwy ochr; ac yn wir, i'r canolwr ei hunan hefyd. Methodd llawer cyfryngwr, pan nad oedd y canlyniadau yn bwysig i'r naill ochr na'r llall, nac i'r canolwr ei hunan chwaith. Hefyd yr oedd pethau mor bwysig yma fel na wnaï geiriau a rhesymau ateb y dyben.

1. Nid oedd gan Dduw un llaw yn yr anghydfod—nid oedd efe i'w feio am ddim o'r drwg; yr oedd hyn yn gwneyd yr anhawsderau yn fwy, oblegid nid oedd symud na newid ar ochr Duw. Mantais naturiol yw hyn yn aml, ond nid felly yma. *Demandio* taledigaeth yr oedd Duw; ni symudai o'i le, ni ogwyddai ddim; ië, ni allai gyfarfod yr ochr arall; gwir fod ei ewyllys da ef am heddwch, ond ni feiddiai er dim neshau yn mlaen, canys yr oedd cyfiawnder gofynol ar y ffordd; felly yr oedd yma waith mawr.

2. Nis gallai Duw wneyd cam ag ef ei hun; nis gallasai oddef neshad pechadur ato heb foddlonrwydd. Yr oedd y Duw mawr yn galw tri pheth; yn gyntaf, cyflawn daliad, a boddlonrwydd am yr holl ddrwg a'r sarhad, ië, y golled oedd yn mhob pechod; *demandiai* hyn gan y Cyfryngwr, neu nad oedd heddwch. Yn ail, yr oedd yn rhaid i holl bethau y cyfryngdod gael eu gweithredu fel y byddai yr oll o Dduw gael ei ddangos mewn gogoniant. Os yw pechod yn ddyled, os yw y dyledwr i gael myned yn rhydd, rhaid i gyfiawnder gael gwisgo ei ogoniant yn ei ryddhad ef; os trosedd yw pechod, rhaid i'r ddeddf gael gwisgo ei gogoniant yn arbediad y troseddwr. Os anwiredd yw pechod, rhaid i uniondeb Duw belydru mewn gogoniant wrth arbed yr anwir; os gwrthryfel yw pechod, rhaid i'r orsedd fawr fod yn *wen* a mawr wrth arbed y gwrthryfelwr. Pwysai hyn oll ar y Cyfryngwr. Yn drydedd, yr oedd yn rhaid i hyn oll gael ei wneyd gan y Cyfryngwr ei hunan; gwaeddaï allan yn y bwloch cyfyng, "O'r bobl nid oedd neb gyda mi!" Wel, beth a wnaï?

“Fy mraich fy hun a'm hachubodd.” Ie, gwnaeth y blaidd y gweithiai drosti eu goreu yn ei erbyn; ac yr oedd y rhai goreu o honynt mor ddigymorth iddo, fel y cysgent yn y man cyfyngaf arno. Nid yw yn bosibl cael dyn i lawn fwynhad o Dduw heb i'r pethau rhyf-edd yma gael eu cwblhau hyd ymylon gofynion cyf-iawnder; nid digon holl fawredd dwyfoldeb yn y can-ol; nid digon holl awdurdod Creawdwr y bydoedd i orchymyn heddwch; nid digon Hollalluawgrwydd Duw i wneyd i fyny rhwng y pleidiau; ac nid digon Duw-ddyn i neidio i'r canol, gan waeddi *heddwch*; rhaid iddo wneyd i fyny y rhwyg â'i ufudd-dod a'i ddy-oddefaint—gwaredu drwy iawn. Ni faddeuwyd iddo yr hatling leiaf; ni arbedwyd ef yn y gradd lleiaf. Lle mawr, ofnadwy, oedd lle y Cyfryngwr; rhyw wag-*le*, gagendor heb dramwyfa drwyddo, ydoedd hwn; drwy bechod yr ymrwygodd hwn; safai Duw ar un ochr, a'r dyn ar yr ochr arall, fel nad oedd yn bosibl i'r ddwy blaidd neshau at eu gilydd i wneyd heddwch. Tafiwyd miloedd ar filoedd o greaduriaid glan i'r gwag-*le* hwn am filoedd o flynyddoedd, ond heb lenwi dim arno. Wel, meddai y Cyfryngwr, “aberth ac offrwm nis mynaist” i lenwi y gwagle, “wele yr wyf fi yn dy-fod.” Buasai yn suddo yr holl angelion o'r golwg, heb leihau dim ar y gagendor. Ond mentrodd y Cyfryng-*wr* mawr i'r adwy, ac fe'i llanwodd hi ei hunan. Men-*t*rodd Boas i le go bell; ofnodd y cyfathrachwr, a thyn-*o*dd yn ol; eto y mae yn dda genyf am dano hyd heddyw, nid yn unig am wneyd cymwynas a'r Foabëes dlawd, ond am mai cysgod o'r Cyfryngwr oedd. Lle tanllyd iawn oedd hwn hefyd. Daliodd holl wres dig-*o*faint Duw; dywedai fod ei galon yn toddi yn nghanol ei berfedd. Beth oedd gwres y digofaint dwyfol oedd yn berwi allan y chwys gwaedlyd yn yr ardd. Edrych-*w*ch ar danllwyth y llid yn fflamio nes difa aberth y ddynoliaeth. O! bobl, os gwnaed hyn yn y pren fr, beth a wneir i'r crin a elo i'w afael ef? O! mor ddy-*ch*rynllyd y cyneuai y tanllwyth o noson y bradych-*i*ad hyd y gair Gorphenwyd! Ond, O! diolch, gwelaf

ddiluw rhinweddau a haeddiant dwyfol berson yn llifon nes diffodd y tanllwyth am byth. Gochelwch, ddynion, neshau at y tân ysol, ond mewn Cyfryngwr. Yr wyf yn teimlo dychryniadau yn dal fy meddwl wrth edrych ar yr annuwiol druan yn rhuthro i gyfarfod y gwres arteithiol na dderfydd byth. Lle noeth iawn oedd hwn hefyd; sefyllfa gwrthddrych ymosodiad wedi ei osod mewn lle amlwg i bawb i saethu ato; ni fethodd un saeth a gyfeiriwyd ato a chyrhaedd ei deimladau dynol ef. Braenarwyd y natur ddynol yn gwysau mor ddyfnion nes cyrhaedd a chyffwrdd â chraig ei Dduwdod. Ymgyfarfyddodd saethau y nefoedd, uffern, a daear ynddo. Nid oedd un noddfa na lloches, na chraig i ymguddio dani. O! y rhengau mawrion a'i cyfarfu, ac eto efe a safodd ei hunan ar y *prairie* noeth; cuddiwyd edifeirwch o'i olwg; dywedai ar dderbyniad pob ergyd, "Gadewch i'r rhai hyn fyned ymaith." Pan ydoedd yr ymdywallt mawr arno, lledodd ei aden dros ei deulu; ond yn y dryllio mawr a fu arno ef, gwnaed agen yn y graig i guddio pechadur; yma llechwn, yma y cawn fyw. O, ddynion, diengwch i gysgod y Cyfryngwr. Ynddo, ynddo! Bydded ef rhyngom a phawb am byth.

PREGETH V.

"Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef madduant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef."—EPH. 1: 7.

Mae yr apostol yma mor llawn o'i fater fel nad yw yn hollol gadw at drefn, yn berwi allan bethau yn fath o gymysgfa; mae rhagluniaethu ar ol sancteiddhad, ac y mae ffrwyth yr holl drefn fawr, sef mawl a gogoniant ei ras ef o flaen prynedigaeth a maddeuant pechodau. Achos mawr dechreuol pob peth a osodir yma yn olaf. Hefyd, mae yma gydgyfarfyddiad, cydgysylltiad, a chydosodiad holl brif bynciau bywyd trgywyddol, o'r achos cynhyrfiol, "cyfoeth ei ras," hyd y dyben

mawr diweddf, "mawl gogoniant ei ras." Dyma swm o y 4, 5, 6, a'r 7 o adnodau.

I. Mae prunedigaeth yn golygu trosglwyddiad madd-euant; felly, os prynodd Crist ei bobl, rhaid eu bod yn meddiant arall, a rhaid fod y meddiant hwn yn gyfiawrn. Ni cholodd Duw ei feddiant creadigol, na hawl o galw i gyfrif, ond meddiant cyfiawnder a deddf doredig a olygir, ac mae y meddiant hwn yn gyfiawrn, am hynny os trosglwyddir dyn i fod yn feddiant Crist, rhaid prynu, a thalu. Hefyd deallwn fod pechaduriaid damlywodraeth pechod a Satan, yn feddiant ganddynt, ond rhaid cael y pechadur o afael yr oll. Yn awr, mae prunedigaeth yn cynwys dau beth: 1. Prynu trwy dalu. 2. Rhyddhau trwy waredu. Nid cymwys dyweyd, prynu trwy dalu i bechod a Satan, canys nid oedd y meddiant yn gyfreithlon, "prynu oddiwrth anwiredd," nid gan anwiredd—boddloni y ddeddf a chyfiawnder, mewn taliad iawnol, nes gollwng yn rhydd o afael y condemnïad a gyfansoddwyd gan drosedd anwiredd; ac yna, wedi cael y troseddwr yn rhydd fel hyn, nid oes na phrynu na thalu gyda golwg ar feddiant a gafael Satan ac anwiredd—bwrw y cryf-afog allan, a thafu pechod o'r orsedd—gwaredu yw hyn. Hefyd, prynu pechadur, canys efe oedd yn eiddo arall, a'i drosglwyddo yn feddiant Crist. Nid wyf yn creda priodoldeb y dyweyd, prynu neb na dim, ond pechaduriaid, er fod duwinyddion yn sôn am brynu madd-euant, pwr casu yr Ysbryd, &c. Dywed Williams Pant-y-celyn, "Fe brynodd i mi fwy na'r byd," &c. Nid priodol hyn. Eiddo Duw yn nghyfiawnder ei drefn fawr o ras, ydyw ac ydoedd pob peth iachawdriaeth. Llauer mwy anmriodol fyth yw prynu bendithion tymorol. Eiddo y ddeddf a chyfiawnder i'w gosbi oedd y pechadur, a chyn y gellir cael holl bethau y drefn a pechadur at eu gilydd, rhaid cael hyn, rhaid prynu y pechadur yn rhydd, canys ni all dim ddyfod i afael y condemniedig; ni all Duw gleimio y pechadur fel ag i roddi iddo holl bethau ei drefn o ras heb ei brynu yn rhydd, "Crist a'n llwyr brynodd oddiwrth feldith y

ddeddf." Nid oedd eisiau, ac nid oes posibl, prynu oddiwrth ufudd-dod i'r ddeddf fel rheol llwyr brynu, hyny yw, rhyddhan, trwy rod-di i'r ddeddf yr eithafion gwerth a ofynid ganddi oddiwrth y pechadur. Pa fodd? "Gan ei wneuthur yn felldith drosom." Bu oddefol, "gan ei wneuthur," *being made*, gan Dduw y Tad. Efe a aeth dan, a ymgrymodd, a ddyoddefodd y felldith gosbawl, mor llwyr fel y mae y gair cryfaf sydd yn bosibl gael byth yn cael ei arfer, sef i Grist gael ei wneyd, nid yn unig yn felldigedig, ond yn felldith. Yn yr un ystyr y dywedir iddo gael ei wneuthur yn bechod. Arferir y gair i ddangos eithafion perffaith a llwyrdur. Pwy wnaed yn felldith? Crist ei hun, drosom ni, yn ein lle ni; gan hyny efe yw yr Iawn, sef un yn ein lle ni. Yn awr, dyma y troseddwr yn rhydd, ar *blatform* rhydd, wedi ei ryddhan yn dëg, oblegid cael un yn ei le. Dyma lwyr brynu. Beth wed'yn? "Fel y delai bendith Abram—fel y derbyniem addewid yr Ysbryd," gan hyny, nid prynu yw. Yr oedd y rhai hyn yn barod, ond cael y pechadur a'r felldith yn rhydd o afael eu gilydd. Un sylw eto, sef y perygl, wrth ddesgrifio Crist yn bechod ac yn felldith, i hyn argraffu ar y meddwl syniadau sydd yn terfynu ar gabledd, mewn dau beth. 1. Fod gan bechod fwy o afael ar Grist na bod dan bechodau yn gyfrifol, gan y dywed y Beibl ei fod yn bechod a melldith. A ddaeth y pechodau ddim yn nes ato, ac yn fwy eu gafael na'r cyfrifiad o honynt arno? Y mae rhai duwinyddion yn ymylu, debygwn i, ar gabledd y ffordd hon. Dywed Luther fel hyn, "Rhagddywedodd y prophwydi y byddai i Grist ddyfod y troseddwr mwyaf, yn llofrudd, yn odinebwr, yn lleidr, yn gablwr, i.e., y pechadur mwyaf yn yr holl fyd, ac o'r holl bechaduriaid efe oedd y mwyaf." Mae iaith fel hyn yn gabledd ar Fab Duw. Nid oedd Luther yn deall y cyfrifiad. 2. Yr eithafedd arall yw, fod pechod wedi didoli y Tad a'r Mab oddiwrth eu gilydd—bod ysgariad o angenrheidrwydd yn cymeryd lle, nas gallai undeb y personau ddal pan yr oedd yr Ail Berson wedi cael ei wneuthur yn bechod a

melldith. Rhaid gochel yr eithafedd hwn; mae yma gableded. Gwir fod yma ddirgelwch na allwn ni ei amgyffred, a gwir hefyd fod yma ddidwylledd a llwyrded yn ymddygiad y Tad at bechod yn ei Fab; gwir hefyd fod yma gadernid tragywyddol yn nhrefn achub; nid arwynebol ac ysgafn yw dim, creigiau cedyrn yw holl ddirgelion a gweithredoedd y cadw trwy Grist—angenrheidiol yw hyn, canys y mae Duw yn ei brofi ef i'r eithaf, ac y mae anfeidrol bwys gogoniant Duw a chadwraeth dyn yn gorphwys ar y graig hon.

II. Cynwys y prynedigaeth—y mae yn un o eiriau mwyaf y Beibl; hwn a'r gair iachawdwriaeth yw y ddau air rhyfeddaf. 1. Pryniad haeddol mewn taliad; atebwyd pob gofyn, llanwyd y gwagleoedd mewn taliad—y *gulf* fawr ofnadwy a agorodd pechod, fel nad oedd bosibl i Dduw a dyn gydfyw; llanwyd y gwagle hwn a pherffaith ufudd-dod, perffaith ddyoddefaint, a thrwy hynny gwnaed perffaith foddlonrwydd; a hwn yw y taliad—llenwi y rhan orchymynol o'r ddeddf, sef, *gwna hyn*. Darfyddodd melldith y ddeddf mewn dyoddef a marw. Dyma daliad mewn dyoddef y felldith, yr hon a haeddwyd trwy drosedd. Mae pechod yn ddyled, gelyniaeth a bai; yn nhaliad y prynedigaeth safodd Crist gan gyfateb i'r tri hyn. Ar gyfer dyled safodd yn Feichniydd, ar gyfer bai neu drosedd safodd yn Archoffeiriad; ac yn y tair sefyllfa hyn y mae ynddo brynedigaeth trwy daliad. Yr oedd yn rhaid cael y tri hyn cyn yr oedd yn bosibl cael y dyn yn rhydd trwy brynedigaeth, canys dyled, gelyniaeth a throedd, oedd y rhwymynau cryfion oedd yn dal y pechadur gan gyfiawnder a deddf, fel nad oedd yn bosibl ei gael yn rhydd ond trwy daliad; felly, prynedigaeth haeddianol trwy daliad yw y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu. 2. Prynedigaeth rhinweddol a chymwysiadol mewn rhyddhau yn weithredol. Mae y cwbl yn iawn gyda Duw byth mwy, o ran y gwrthddrychau yn y prynedigaeth haeddianol, ac mewn amser dygir holl bethau y prynedigaeth haeddianol i'w gafael, nes effeithio tragy-

wyddol ryddhad gweithredol. Mae Pen-arglwyddiaeth yn gweithredu yn *amser* y rhyddhad hwn—rhai yn y groth, rhai mewn babandod, &c., rhai bron yn niwedd eu dyddiau; ond y mae prynedigaeth haeddianol yn rhwymo, i.e., Pen-arglwyddiaeth, i'r gwrthddrychau ddyfod i afael pob rhyddhad a mwynhad. Bum yn rhyfeddu uwchben hyn. Pa fodd y goddefir gwrthddrychau y prynedigaeth i ymladd â Duw, i gyflawni pechodau, i wasanaethu y diafol, &c., am flynyddoedd; pan nad yw Duw yn bwriadu eu damnio, nid oes dim i'w ddyweyd, ond sefyll uwchben *hyn* a synu; ond cymer yr arfaeth ddigon o ofal i'w dal cyn iddynt fyned i'r gwaelod. Bu agos i'r lleidr fyned drosodd. A ydyw ef yn un o'r prynedigion? ydyw; wel, aiff drosodd; nac aiff. Efe a gablodd wedi dechreu hongian ar y pren, do, fe'i collir; na wneir, edrychaf fi at hyn, medd Duw; daw yn rhydd ar fy llyfrau i. Yn y fan gafaelodd y prynedigaeth haeddianol ynddo, a holl rinweddau hon yn effeithio prynedigaeth ryddhaol iddo. Byddi yn mharadwys heddyw. 3. Prynedigaeth iachaol; prynedigaeth gymwysiadol yw holl waith yr Ysbryd. Mae byrach amser o lawer ar rai na'u gilydd yn hau, ond perffeithrwydd prynedigaeth yw adgyfodiad y corph, "Gan ddysgwyl y mabwysiad," neu y prynedigaeth; sef gorpheniad pob peth oedd angenrheidiol i wneyd y pechadur yn fab—a beth yw y gorpheniad? "Prynedigaeth y corph." Seliwyd a sicrhawyd hwynt hyd ddydd y prynedigaeth. Yr Ysbryd Glân yw yr ernes, sef gwystl ein hetifeddiaeth. Beth yw yr etifeddiaeth? Holl ffrwyth y prynedigaeth. Dros ba hyd y bydd y teulu heb ddim ond yr ernes? "Hyd bryniad y pwrcas—hyd gyflawn ryddhad o'r meddiant a brynwyd—the redemption of the purchased possession.

III. Pridwerth y pryniad, "Ei waed ef." Yn awr, pan ystyriom natur y caethiwed, grym gafael yr hwn a ddaliai yn gaeth, a pherffaith ymddfadrwydd y caeth tuag at wneyd dim er ei ryddhad ei hun, i.e., *action* y caeth yn erbyn ei ryddhad ei hun; wrth ystyried y pethau hyn, rhaid cael rhyw beth mewn iawn er

effeithio prynedigaeth. Ni feiddiai deddf a chyfiawnder gynorthwyo dim i effeithio y rhyddhad, i.e. hwy oedd yn dal eu gafael gadarnaf. Dyled, bai a gelyniaeth oedd yn y radd eithaf a gwaethaf. Mae pob eithafion yn y tri. *Gelyniaeth*. heb un achos na rheswm, na gobaith enill dim wrth ymladd. *Dyled*, heb un esgus i rod-di drosti, a dyled yn cyraedd dros derfynau meidroldeb. Mae dyled ar hyd y byd yma yn rhifo miliwnau a biliwnau, ond hon sydd yn anfeidrol. *Bai*, trosedd heb un dim ynddo ond drwg—mae eithafion yn y tri. Mae y caeth ei hun hefyd yn mhob eithafion; ni fedd y teimlad lleiaf o ofid am ei gyflwr, gweithreda yn egniol i drymhau ei gadwynau, gwna hyny yn wirfoddol, ymlawenycha mewn sicrhau ei gyffion, a'r cwbl o'r pethau hyn yn cael eu dwyn yn mlaen gan y pechadur yn groes i'r Bod Anfeidrol; gan hyny, priodol y cwestiwn, "A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn?" Gwneir. Beth yw y gwerth a'i rhyddhaodd? Ateb, "Ei waed ef." Dim mwy nid oedd i'w gael, a dim llai ni wnai y tro. Peth mwyaf y deyrnas anianol yw gwaed, peth mwyaf Crist oedd ei waed. Hanfod prynedigaeth yw gwaed. Gwaed, bywyd—"Gan farw ti a fyddi farw." Yr oedd holl allu, cyfiawnder, anghyfnawidoldeb, a hunan-ddiffyniad Duw tu cefn i'r gair hwn; cyn y gellid ei droi yn ol rhaid oedd concro, dadymchwel, i.e. dadwneyd y Duw mawr, gan hyny rhaid cael gwaed.

1. *Ei waed ef*—gwaed Crist. Pa beth yw yr *abstract* a ddeallir wrth waed Crist. (1.) Ei gnawdoliaeth rhyfedd, gelwir hwn, *cig a gwaed*, cnawd a bywyd, corph ac enaid—yr einioes yw y gwaed; felly dynoliaeth gyfan oedd yn angenrheidiol. Y mae y gwaed yma yn cynwys un rhan am y cwbl. (2.) Ei ufudd-dod difwlch; y ddynoliaeth oedd yn ufuddhau, ac yr oedd rhinwedd haeddianol yn ei ufudd-dod. (3.) Ei ddyoddefiadau ofnadwy; y bywyd, y gwaed oedd yn y rhai hyn. Marw yw eithaf pob dyoddef. (4.) Ei angau ingol; rhaid oedd cael bywyd, rhaid oedd cael gwaed. Yr oedd yn angenrheidiol i gymeryd dynoliaeth o her-

wydd dau beth. (1.) Fel y byddai yn berthynas—rheid oedd cael cyfathrach tuag at brynu; ni buasai dyoddef mewn natur arall yn ddim i ni, ie, pe buasai bosibl i Grist sefyll yn ein deddfie ni heb fod yn ein natur ni, ni buasai ei ufudd-dod, ei ddyoddefiadau a'i farw yn ddim i ni. Cyfathrach oedd i actio mewn rhyddhau yr etifeddiaeth, priodi y weddw, a dial y gwaed. (2.) Rhaid oedd cael dynoliaeth cyn y gellid cael gwaed. Gwir y dywedir gan rai, *gwaed Duw*, ond traws-enwad yw hyn, ac hefyd oblegid undeb Duw a dyn yn y dyn Crist Iesu; ond priodol waed dynoliaeth oedd. Hefyd, rhaid oedd cael person dwyfol. (1.) I roddi haeddiant a rhinwedd yn y gwaed—gwaed dynol o ran ei ddefnydd, ond dwyfol o ran ei haeddiant a'i rinwedd, a hyny oblegid undeb y ddynoliaeth a'i Ddwyfol berson. Yr oedd y fath agosrwydd yn undeb y ddynoliaeth a'r Ddwyfoliaeth, a'r fath effaith gan y Ddwyfoliaeth ar weithredoedd y ddynoliaeth, fel y gelwir y gwaed yn waed Duw, nid yn unig gan dduwinyddion, ond gan y Beibl hefyd—Bugail eglwys Dduw, “yr hon a bwrcasodd efe á'i waed ei hun—ei briod waed.” (2.) Rhaid oedd cael Dwyfol berson i ymgynal dan y baich mawr, oedd mor drwm, fel y buasai yn suddo pawb a phob peth i ddyfnderoedd anadferadwy byth. Yn y Ddwyfoliaeth caed Craig dan y pwysau—cloddiodd yr ergydion trwy y pridd nes dyfod at Graig—braenarodd y gosb ar y ddynoliaeth nes dyfod mewn *contact* â Duwdod—sigwyd sawdl dynoliaeth nes aeth y pwysau drwyddi, a chaed gafael ar Dad tragwyddoldeb o tanodd, ac arno ef y arosodd y baich anfeidrol. Wele yma yn awr bridwerth y pryniad, gwerth gollyngdod; y pris anfeidrol a gafwyd yn mywyd a marwol-aeth y Cyfathrachwr. “Nid a phethau llygredig y'ch prynwyd, ond a gwerthfawr waed Crist—Oen difeius a difrycheulyd.” *Oen*, gan gyfeirio at oen y pasg—*difeius*, ei berffeithrwydd. A'i waed gwnaeth yn gyflawn bethau y goel dan yr hen oruchwyliaeth. (1.) Prynodd ei frodyr tlodion; prynu ei frodyr a wnaeth Crist, brodyr mewn cyfamod o gynrychioldeb, brodyr mewn un-

deb deddfol o ddirprwyaeth, brodyr mewn perthynas naturiol, yr un cig a gwaed. Gwnaeth Boaz yn dda, ond gwnaeth Crist yn well. (2.) Dialodd waed ei frodyr. Bu yn galed ar ddiafol ar Golgotha, diwrnod prynu ei frodyr oedd diwrnod dial eu gwaed, ie, bydd Mab Duw yn dial gwaed ei frodyr ar y diafol am byth. Nid wyf yn meddwl y buasai cosbedigaeth y diafol yn debyg y peth y bydd, oni ba'i yr hyn a wnaeth i frodyr Iesu Grist. (3.) Agorodd y ffordd i gael yr etifeddiaeth yn ol. Dywedai y cyfathrachwr wrth Boaz, "Ni allaf ei ryddhau i mi, rhag colli fy etifeddiaeth fy hun;" ond am Grist, rhyddhaodd yr etifeddiaeth heb gollu ei etifeddiaeth ei hun; gwir iddo waghau ei hun, a dyfod yn dlawd, er fod yr holl hawl ganddo yn mhob man, ac erbyn heddyw y mae yn y gogoniant oedd iddo gyda'i Dad cyn bod y byd, ac etifeddiaeth fawr, sef Duw yn yr oll yw, yn rhydd i'w frodyr, ac y delai bendith Abram. Ond cofiwch, costiodd iddo ei waed. Cyn y gallai gael yr etifeddiaeth yn rhydd, rhaid oedd ei wneyd yn feiddith cyn y delai bendith Abram. (4.) Codi hâd i'r weddw. Galwyd mab Boaz a Ruth yn *Obed*, gwas, er cofio yr hen gaethiwed, a gwlad Moab; prunedigaeth, gwardedigaeth, a chofio byth y dyfnderoedd; ond bydd yr hâd yn aneirif, fel y ser a'r tywod.

(1.) O gariad cryf a ddygodd Grist i'r fath ddyfnderoedd! Nid oedd rhwymau ar Boaz, ond gwnaeth. Yr oedd cariad Crist mor gryf nes ei ddwyn i'r dyfnderoedd, ie, llywodraethodd cariad Crist gyfoeth gras Duw. (2.) O werth gwaed—nid wyf yn meddwl mai cydbwys yw gwerth y gwaed a brynnod â gwerth y gwrthddrychau a brynwyd, eto rhaid gochel dyweyd y gwnai llai y tro yn anfeidroldeb y *demand*, a hyny o herwydd sefyllfa y gwrthddrychau; eto mae cyfiawnder yn hyn, ni allai y Duw mawr *ddemandio* mwy na chyfiawnder; safai ar y *platform* hwn i edrych ar anfeidroldeb y pridwerth, heb ymchwilio i leoedd dirgel Duw. (3.) Gan mai prunedigaeth trwy waed ydyw, mae yn glir byth yn llyfrau Duw, canys aeth i mewn i'r cysegr trwy ei waed ei hun, gan gael i ni *dra-*

gywyddol ryddhad. Mewn dull o ddyweyd, cauwyd drysau y cysegr pan ymadawodd oddicartref, wedi iddo *signio y fond* i gyflawni gwaith y prynedigaeth, ac nid oedd a'u hagorau ond ei waed ei hun; ond gwelwn ef oddiar fynydd yr Olewydd yn dychwelyd yn ol yn ei waed, a'r holl byrth yn agor o'i flaen, ac nid oes cauwmy hyd oni ddelo holl werth y gwaed i mewn—*tra-gywyddol ryddhad.*

Mae yn yr adnod hon grynhoad rhyfedd o bethau mwyaf iachawdwriaeth. 1. Cyfoeth gras. 2. Gwaed Iesu Grist. 3. Prynedigaeth. 4. Maddeuant pechodau. Dyma bedwar peth mawr iawn, i.e., pethau mwyaf Duw. Mae yma hefyd gysylltiadau ardderchog iawn; mae y cysylltiadau yn naturiol, ac annaturiol ymddangosiadol. Yn gyntaf, Cysylltiadau naturiol. 1. Cysylltiad prynedigaeth & gwaed. Mae yn hwn yn naturiol; iawn, pryniad a thaliad. Adnabyddir hyn yn y byd masnachol, ac yn yr ystyr yma nid wyf yn gweled niwed mewn dyweyd prynedigaeth fasnachol. Pryniad a gwerth sydd yn y testyn—nid rhyw beth gwerthfawr, *valuable consideration*, ond gwaed, bywyd. 2. Prynedigaeth a maddeuant. Y meddwl i'r gair prynedigaeth yn ei ystyr gyfyng, yw rhyddhad caethwas trwy iawn, felly mae prynu mewn rhyddhau trwy iawn yn cynwys prynedigaeth a maddeuant y testyn; yn hyn y mae cysylltiad naturiol. Yn ail, Mae yma gysylltiadau annaturiol ymddangosiadol—prynedigaeth trwy daliad a maddeuant; os prynwyd ac os talwyd, pa modd y maddeuwyd? (1.) Wrth faddeuant, yn gyffredin, y meddylir *rhyddhad*, ac felly mae yma gysondeb. Nid yw prynu caethwas heb ryddhau yn waith cyflawn. (2.) Maddeuant i'r troseddwr yw y pridwerth yn cael ei roddi o'i blaid. Y mae y cwbl yn faddeuant i'r troseddwr gan y Deddfroddwr, ond â Dirprwywr y troseddwr yr oedd Duw, barnem, yn trin mater mawr prynedigaeth mewn taliad. Dau beth mawr y cyfamod yw prynedigaeth a maddeuant. Duw Dad, fel plaid yn y cyfamod, yn gofyn pridwerth y taliad—yn gofyn gwaed, yn gofyn prynedigaeth trwy daliad; Duw Fab,


yn y cyfamod, yn gofyn maddeuant, rhyddhad y caeth, o herwydd taliad y prynedigaeth; dyma swm y cyfamod tragwyddol. Yn awr, y mae yma gydgysarfyddiad, cydgordiad a chydweithrediad y pedwar peth rhyfedd hyn; mae pob peth yn cymeryd ei le yn naturiol, heb fod y naill yn treisio y llall, ac ni byddai y gadwyn yn gyfan heb y pedwar. Yn nesaf, ffynonell a gwreiddyn yr oll—*cyfoeth ei ras*, oddiyma y cychwynodd y cwbl. Diau fod cyfoeth o ras yn hanfod Duw; pe na buasai trefn achub mewn bod, buasai cyfoeth o bob peth ynddo yn hanfodol. Nid yw yn perthyn i ni wybod, a fuasai neu ni fuasai cyfoeth ei ras yn cael ei amlygu oni ba'i trefn achub y truenus. Hefyd, cariad a alwodd allan y cyfoeth hwn, “felly y carodd, fel y rhoddodd.” Mae swm mawr ac eang yn y geiriau hyn, “cyfoeth ei ras.” Beth yw holl drueni y byd yn ngwyneb hwn? Yr oedd y fath nerth mewn gweithio allan gyfoeth ei ras, gan gariad, fel nad oedd dim a safai o'i flaen, i.e. ni allodd cariad dwyfol y personau at eu gilydd rwystro y ffrwd hon i dori allan, “yr hwn nid arbedodd ei briod Fab.” Paham? am fod nerth y cariad yn ffrydio allan gyfoeth y gras. Ni bu cymaint o rwystrau erioed ar ffordd cariad i weithredn ag a fu yma.


Yn nesaf, trysordy y prynedigaeth yn Nghrist Iesu, “yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth,” nid yn unig prynodd a'i waed, ond y mae y prynedigaeth ynddo. Mae prynu a thalu a cholli drachefn wedi bod, ond y mae y prynedigaeth yn aros yn Nghrist Iesu, “yn yr hwn y mae.” 1. Haeddiant a rhinwedd arosol ei waed sydd yn cyfansoddi gogoniant a diogelwch y teulu mewn gogoniant. Bu dynoliaeth mewn gogoniant ac anrhydedd o'r blaen, “ond dyr mewn anrhydedd nid arosodd;” ond yr ail waith, y mae parhaus haeddiant a rhinwedd y prynedigaeth yn gylchau tragwyddol am gogoniant y nef, ac am y teulu mewn gogoniant. Oen wedi ei ladd a fydd byth ger bron yr orsedd fainc, a holl haeddiant a rhinwedd ei farwolaeth a'i waed yn *cementio* holl ororau gogoniant byth, fel na bydd yn y


mansion mawr un rhwyg mwy—"crynhoi yn nghyd yn Nghrist holl bethau y nefoedd (angelion) a holl bethau y ddaear (dynion) ynddo ef." Oh! ddiogelwch byth—"yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth." 2. Ynddo y mae holl sicrwydd a modd paratoi i ogoniant. Dyma feddwl y testyn, debygaf. Ynddo y mae defnydd cyfiawnhad a sancteiddhad. Efe yw y trysordy mawr o'r hwn y mae yr Ysbryd Glân "yn cymeryd ac yn mynegu." Nid wyf yn meddwl fod bywyd ysbrydol y saint yn anfarwol ynddo ei hun; y mae ei wreiddyn a'i gynhaliaeth ynddo ef—bywyd a guddiwyd yw. Y mae y prynedigaeth yn Nghrist, a'r saint yn Nghrist, rhaid i Grist, a'i brynedigaeth, a'i ras, ddarfod am danynt cyn y collir y rhai sydd yn credu. Beth yw pethau y ddaear i'w cydmaru â'r pethau hyn? Pa bryd y daw gwerth y pethau hyn i olwg trigolion y byd? Pwy fedr chwilio i eithafion dyfnderoedd y pethau hyn? Tragwyddoldeb äang a'i lon'd o bethau cyfoeth gras, yn llon'd holl lestri mawrion gogoniant. Boed profion prynedigaeth trwy waed yn dysgleirio yn llon'd ein bywyd; aroswech, gyfeillion, yn y wlad dda hon. Dau sylw eto. (1.) Mathrwyr gwaed Mab Duw fydd y trueniaid mwyaf truenus yn uffern byth. (2.) Mawrygwyr gwaed Mab Duw fydd y bodau mwyaf gogoneddus yn y nefoedd byth. O'u nifer, O Arglwydd, gwna ni oll.


DIWEDD.

3-
JW









1911

